## Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal - Blwyddyn Ariannol 2004 - 2005


| Cynnwys | 1 |
|---|---|
| **Datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb** | 2 |
| **Atodiad A: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 2004-05** | 4 |
| Ynghylch yr adroddiad hwn | 4 |
| Cefndir y Pwyllgor | 4 |
| Materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn y flwyddyn ariannol 2004-05 | 4 |
| Materion Statudol | 4 |
| Adroddiadau gan Gyrff Cyhoeddus y mae a wnelont â hybu Cyfle Cyfartal | 5 |
| Adolygu Polisi | 7 |
| Materion Pwysig Eraill A Drafodwyd gan Y Pwyllgor | 7 |
| Blaenoriathau yn y Dyfodol | 9 |
| Atodiad A1 – Cylch Gorchwyl | 10 |
| Atodiad A2 – Aelodaeth Y Pwyllgor | 12 |
| Atodiad A3 – Amlinelliad o Flaen Raglen Waith: Mai 2005-06 | 13 |
| **Atodiad B: Adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar Hyrwyddo Cyfle Cyfartal wrth Gynnal Busnes** | 16 |
| Cyflawniad gan Glerc y Cynulliad | 16 |
| Is-Adran Gyfreithiol Gwasanaeth Seneddol Y Cynulliad | 17 |
| Gwasanaeth Cyfathrebu’r Cynulliad | 18 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 25 |
| Gwasanaethau Siambr | 35 |
| Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgorau Yr Aelodau | 37 |
| Astudiaeth Achos | 43 |
| **Atodiad C: Adroddiad ar Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Hyrwyddo Cydraddoldeb** | 48 |
| Rhagair gan Jane Hutt AM | 49 |
| Rhagymadrodd | 51 |
| Y Cyd destun Deddfwriaethol | 52 |
| Cymru: Y Sefyllfa Bresennol | 54 |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb – Ei Wneud yn Nod Strategol | 55 |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Dull o Wneud Busnes | 57 |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Gwaith | 59 |
| Y Camau Nesaf | 80 |
| Atodiad A - Adroddiad yr ysgrifennydd Parhaol | 89 |
| Atodiad B – Cyfraniadau gan Adrannau’r Cynulliad Cenedlaethol | 99 |

**Datganiad ar Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru**

1. Hwn yw chweched adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o dan Reol Sefydlog 14.2 ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ofalu eu bod yn effeithiol. Mae'r adroddiad yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2004 - 2005. Mae swm a sylwedd yr adroddiad wedi'i gynnwys yn y tri atodiad:

Atodiad A - adroddiad y pwyllgor ar ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
Atodiad B - adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar y camau i hyrwyddo cyfle cyfartal yng ngwaith Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad;
Atodiad C - adroddiad ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys datganiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar faterion staffio corfforaethol.

2. Pan fu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2003-04, sylwodd ar anghysondeb o ran y ffordd yr oedd gwahanol is-adrannau polisi yn adrodd ar gydraddoldeb, ynghyd â bylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad mwy cyflawn a ddarparwyd ar gyfer 2004-05 sy'n amlinellu'r amcanion is-adrannol a bennwyd er mwyn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb, yn adrodd ar ganlyniadau, ac yn nodi gweithgarwch mewn meysydd penodol, er enghraifft hyrwyddo cydraddoldeb hiliol neu gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod yr adroddiad yn canolbwyntio mewn mannau ar 'allbynnau' yn hytrach nag ar ddangos 'canlyniadau' cadarnhaol ym maes cydraddoldeb. Serch hynny, mae'r dull cyffredinol o adrodd yn gam mawr ymlaen.

3. Fel cam positif arall tuag at brif ffrydio cydraddoldeb, mae Panel Cadeiryddion y Pwyllgorau wedi cytuno â chais y Pwyllgor y dylai'r Pwyllgorau Pwnc graffu ar rannau perthnasol o'r adroddiad sy'n ymwneud â phortffolios y Gweinidogion. Mae'n gobeithio y bydd fformat adroddiadau'r dyfodol yn hwyluso'r broses graffu.

4. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen yn arbennig at gyhoeddiad strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru a chanlyniad archwiliad annibynnol o weithgarwch sy'n ymwneud â chydraddoldeb mewn meysydd polisi strategol. Bydd hyn yn rhoi sylfaen glir i'r adroddiadau a baratoir mewn blynyddoedd i ddod. Mae hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i sicrhau bod digon o wybodaeth ystadegol ar gael i seilio datblygiadau polisi arni yn y dyfodol. O ddefnyddio ystadegau yn well, bydd yn helpu i brif ffrydio cydraddoldeb mewn meysydd megis darparu gwasanaeth iechyd. Ni fydd angen sefydlu prosiectau arbennig i ddarparu ar gyfer grwpiau dan anfantais.

5. Mae'r adroddiad eleni yn dangos y camau a gymerwyd yn ystod 2004-05 yn sgil cyhoeddi'r adroddiad ar adolygiad polisi'r Pwyllgor, sef 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad'. Cafwyd ymateb positif i argymhellion yr adroddiad ac mae systemau effeithiol ar waith i'w gweithredu. Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Brif Ffrydio sy'n arwain y gwaith yn Llywodraeth

Cynulliad Cymru, gyda chymorth Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad. Yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad, mae'r Clerc yn cadeirio Grwp Llywio Cydraddoldeb y Gwasanaeth Seneddol, sy'n cynnwys Hyrwyddwr Cydraddoldeb ar secondiad. Bydd mentrau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r gwaith.

6. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y camau a gymerwyd gan y Cynulliad i feithrin perthynas â'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu enghreifftiau o arferion gorau, megis gwaith y Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd gyda phlant ag anableddau dysgu. Er hynny, mae'n rhannu pryderon uwch swyddogion ynghylch prinder cynrychiolwyr o blith lleiafrifoedd ethnig ar lefel uwch yng ngweithlu'r Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn cadw llygad ar ganlyniadau'r ymdrechion parhaus i nodi a dymchwel y rhwystrau rhag recriwtio a dyrchafu, gan gynnwys adolygu'r ffordd y caiff swyddi'u hysbysebu a'r camau a gymerir i wella gwefan y Cynulliad.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2005-06**

7. Ymhlith prif flaenoriaethau'r Pwyllgor o ran cydraddoldeb yn 2005-06 y mae:

- Ystyried goblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru i'r ffordd y bydd y Cynulliad yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb yn y dyfodol.
- Monitro hynt y broses o brif ffrydio cydraddoldeb, gan gynnwys archwiliad annibynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru o gydraddoldeb a datblygiad strategaeth gyffredinol effeithiol ar gyfer prif ffrydio.
- Bwrw ymlaen ag adolygiad polisi'r Pwyllgor o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc anabl, gyda chyngor grwp cyfeirio o bobl ifanc anabl.
- Parhau i gynorthwyo â'r gwaith o roi deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ar waith yn effeithiol, yn enwedig: monitro'r ffordd y mae'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyhoeddus o ran cydraddoldeb hiliol; craffu ar fesurau sy'n ymwneud â'r dyletswyddau newydd o ran anabledd a chydraddoldeb rhwng y rhywiau; a chadw llygad ar y ffordd y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithredu yng Nghymru.
- Cael adroddiadau rheolaidd ar y camau i roi ar waith argymhellion ei adolygiad polisi cyntaf, sef 'Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Theithwyr'. Ni chafodd nifer o'r argymhellion eu gweithredu hyd yma.

8. O ran y flaenraglen waith, bydd y Pwyllgor yn parhau i wahodd Gweinidogion i ddod i gyfarfodydd perthnasol er mwyn craffu ar faterion cydraddoldeb sy'n codi yn eu portffolios. Bydd y Cadeirydd hefyd yn parhau i drafod materion â Phanel y Cadeiryddion, ar ran y Pwyllgor, er mwyn rhannu arferion gorau a helpu Pwyllgorau eraill y Cynulliad i graffu ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

**Atodiad A**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL AR GYFER 2004-2005

## YNGHYLCH YR ADRODDIAD HWN

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o adroddiad blynyddol y Cynulliad ar ei drefniadau i hybu cyfle cyfartal. Mae'n dangos gweithgarwch y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y flwyddyn ariannol 2004 - 2005.

## CEFNDIR Y PWYLLGOR

2. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn sail i waith y Pwyllgor hwn wrth archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu cyfle cyfartal i bawb yng ngwaith y Cynulliad ac wrth weithredu ar ei ran. Mae Rhan 48 a Rhan 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar y Cynulliad hybu'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb. Gwelir cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 14 (Atodiad A1).

3. Gwelir aelodaeth y Pwyllgor yn Atodiad A2.

4. Mae gan y pwyllgor nifer o wahoddedigion sefydlog sy'n darparu cyngor arbenigol: Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC), y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE), y Comisiwn Hawliau Pobl Anabl(DRC), Stonewall Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5. Mae Rheol Sefydlog 14 yn mynnu bod y Pwyllgor yn rhoi sylw arbennig i'r angen am i'r Cynulliad beidio â gwahaniaethu ar sail rhyw, hil nac anabledd. Tra ei fod yn canolbwyntio ar hyn, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw hefyd i achosion eraill o wahaniaethu ac eithrio cymdeithasol gan gynnwys oedran, cred a chrefydd, tueddiadau rhywiol a'r Gymraeg.

## MATERION PWYSIG A DRAFODWYD YN YSTOD BLWYDDYN ARIANNOL 2004-05

## MATERION STATUDOL

6. Gofynnir i'r Pwyllgor o dan y Rheolau Sefydlog drafod y canlynol:

### Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb

7. Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2005 cytunodd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2003-04 a thrafod adroddiadau ar drefniadau cydraddoldeb yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Trafodwyd y Pumed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar 22 Chwefror 2005.

### Craffu ar Ddeddfwriaeth

8.  Ar  22 Chwefror 2005,yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad, cytunwyd newid Rheol Sefydlog 6.6iv  i ganiatáu i'r Trefnydd , ar ôl trafod Rhaglen Ddeddfu Llywodraeth y DU, anfon y ddeddfwriaeth sylfaenol yn y rhaglen honno yn ffurfiol i 'Bwyllgorau perthnasol', hy nid i'r Pwyllgorau Pwnc yn unig. Ar yr un dyddiad anfonwyd y Mesur Cydraddoldeb a'r Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd i'r Pwyllgor ar gyfer craffu. Ni thrafododd y Pwyllgor y Mesur Cydraddoldeb cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2004-05.

9.  Mae'r newid i'r Rheolau Sefydlog yn dangos pwysigrwydd craffu ar y ddeddfwriaeth cydraddoldeb sy'n effeithio ar Gymru. Yn 2005-2006, yn ogystal â'r Mesur Cydraddoldeb, bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar fonitro gweithredu dyletswyddau cyhoeddus parthed cydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb anabledd.

***Y Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd***

10.  Trafododd y Pwyllgor Fesur Drafft Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym mis Medi 2004. Trafodwyd y Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar 17 Mawrth 2005, ac wedi hynny gosodwyd adroddiad o flaen y Cynulliad. Clustnododd y Pwyllgor drafnidiaeth hygyrch fel mater i graffu arno ymhellach.

## Adroddiadau gan Gyrff Cyhoeddus y mae a wnelont â hybu Cyfle Cyfartal

11.  Yn unol â Rheol Sefydlog 14.2, mae'r Pwyllgor yn trafod adroddiadau blynyddol y tri chomisiwn statudol dros gydraddoldeb ac Uned Cydraddoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

***Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol***

12.  Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH) ar 13 Ionawr 2005.  Dyma'r prif faterion a godwyd:

- Darparu Cynllun Iaith y Comisiwn i gwrdd â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, a chamau eraill i gryfhau'r berthynas rhwng y Gymraeg a chydraddoldeb hiliol.
- Roedd penawdau cynigion cynllun busnes ar gyfer 2005-06 wedi'u cylchredeg a byddai'r CCH yn adrodd yn y dyfodol ar lwyddiannau neu feini tramgwydd wrth gyflwyno blaenoriaethau'r cynllun hwnnw.
- Ymagweddu mewn modd cytbwys tuag at  waith achos ym maes y gyfraith – i glustnodi'r achosion hynny lle mai drwy gynghori a chyfryngu y gellid rhoi'r cymorth mwyaf priodol i'r unigolyn, a'r achosion eraill lle y byddai'n rhaid mynd i'r gyfraith.
- Gwaith y CCH mewn dau ymchwiliad ffurfiol oedd yn cynnwys Cymru: sef yr un i Wasanaeth Carchar Ei Mawrhydi, yn cynnwys CEM Parc a'r un i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru.
- Gwneud swyddogaeth reolaethol y CCH ar draws y sector cyhoeddus yn hysbys –i sicrhau, yn benodol, fod gofynion cyfreithiol ym maes cydraddoldeb hiliol yn cael eu parchu. Byddai'r CCH yn adrodd yn y dyfodol ar lefelau parchu'r gofynion.
- Hybu cydraddoldeb hiliol yn y sector preifat.

- Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth – er enghraifft ei rôl ymgynghorol wrth helpu'r Cynulli ad i ddatblygu'i gynllun Cydraddoldeb Hiliol, a gweithio gyda chyrff eraill ym maes cydraddoldeb a chomisiynau statudol.

***Y Comisiwn Hawliau Anabledd***

13. Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA) ar 25 Tachwedd 2004. Dyma'r prif faterion a godwyd:

- Rhoi ar waith rannau terfynol y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan roi gorfodaeth ar ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau a dileu'r eithrio a fu ar rai cyflogwyr – Mae'r CHA wedi gweithio mewn partneriaeth â chyrff megis CLlLC i helpu wrth baratoi sefydliadau ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd ar ddod.
- Prinder wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth ategol, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr byddar, er gwaethaf y ffaith bod gofyn am hyn dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Pwysigrwydd linell gymorth y CHA – defnyddid achosion achos a gafwyd o blith ymholiadau'r llinell gymorth i helpu yn y gwaith o hysbysu pobl eraill anabl am eu hawliau. Roedd y CHA hefyd yn trosglwyddo arbenigedd i wasanaethau cynghori eraill.
- Ceisio cael y llywodraeth ganolog i gefnogi gwaith achos uniongyrchol, e.e. mewn achosion sydd yn rhy ddyrys i'w trafod gan Cyngor Ar Bopeth.
- Hyrwyddo'r rhesymau busnes dros barchu gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – â busnesau a chyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

***Y Comisiwn Cyfle Cyfartal***

14. Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal ar 13 Ionawr 2005. Dyma'r prif themâu:

- Cyflog cyfartal – roedd y gwaith o annog archwilio cyflogau'r sector preifat a rhwystro stereoteipio yn ôl rhyw yn mynd yn ei flaen.
- Cydadwaith gwaith a bywyd teuluol – byddai ymchwiliad gan y CCC yn edrych ar gynyddu gwaith, llunio gwaith a dulliau o weithio ac yn herio'r rhain.
- Gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd – roedd dros hanner yr ymholiadau i'r llinell gymorth gan ferched a ddiswyddwyd ar ôl beichiogrwydd neu rai oedd yn methu dychwelyd i'r gwaith ac roedd y CCC wrthi'n ceisio cynyddu'r gwasanaeth cynghori.
- Prinder merched yn y swyddi uchaf ac fel arweinwyr – cydbwysedd rhwng y rhywiau'n bwysig er mwyn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus yn briodol.
- Awdurdodau cyhoeddus heb fod yn cwrdd ag anghenion pobl – prif-ffrydio cydraddoldeb rhyw a chyllido rhyw yn elfennau pwysig wrth sicrhau newid.

***Adroddiad blynyddol Uned Cydraddoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)***

15. Ym mis Medi 2004 cafodd y pwyllgor drafodaeth fuddiol â chynrychiolwyr CLlLC ynghylch gweithgarwch yr Uned Cydraddoldebau, gan gynnwys rhoi cymorth i'r awdurdodau lleol gwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol

(Diwygio). Trafodwyd hefyd gynrychiolaeth y rhywiau yn yr awdurdodau lleol, yn ogystal â chynrychiolaeth mewn meysydd eraill lle mae gofyn sicrhau cydraddoldeb gan gynnwys anabledd a lleiafrifoedd ethnig.

**ADOLYGU POLISI**

**Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifainc ag Anabledd**

16. Dechreuodd y Pwyllgor wrando tystiolaeth ar gyfer adolygu'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifainc ag anabledd, gan ddechrau â'r thema 'addysg,hyfforddiant a chyflogaeth'. Lluniwyd cylch gorchwyl yr adolygu yn sgil y maniffesto a ddatblygwyd gan bobl ifainc ag anabledd fu ynghlwm â'r Gyngres Ryngwladol 'Troi Hawliau yn Weithredu' yn Abertawe yn 2003. Penodwyd Barnardo's Cymru i alluogi grŵp cyfeirio o bobl ifainc anabl i roi cyngor i'r Pwyllgor, yn unol ag arwyddair pobl ifainc anabl: 'dim byd amdanom hebom'. Bydd y pwyllgor yn dal i gymryd tystiolaeth ar 'addysg, hyfforddiant a chyflogaeth' yn ystod 2005-06, gan gynhyrchu adroddiad interim yn hydref 2005 cyn symud at themâu eraill.

**Prif-ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol**

17. Cwblhaodd y Pwyllgor ei waith o wrando tystiolaeth lafar ar gyfer ei adolygiad a chyhoeddodd adroddiad â 27 o argymhellion pell-gyrhaeddol ym mis Gorffennaf 2004. Derbyniwyd atebion ym mis Tachwedd 2004 oddi wrth y Cabinet, Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Dirprwy Lywydd ar ran Pwyllgor y Tŷ, ac fe'u trafodwyd yn y Pwyllgor ym mis Ionawr 2005. Sefydlodd y Trefnydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brif-ffrydio i weithredu ar argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru a bydd y Pwyllgor yn monitro gweithredu'r holl argymhellion yn 2005-06.

**Darparu gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

18. Cyflwynodd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal blaenorol ei adroddiad cyn etholiad y Cynulliad, ym mis Ebrill 2003. Trafodwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad ar 4 Mawrth 2004 a sefydlodd y Pwyllgor grŵp gwaith anffurfiol i fonitro'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion. Cyfarfu'r grŵp gwaith deirgwaith yn ystod 2004-05, ac ysgrifennodd y Pwyllgor at Weinidogion i ddilyn ymlaen â'r materion a godai. Daeth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu gydol Oes a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod cynnydd. Bydd y Pwyllgor yn dal i wylio Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi weithredu ar argymhellion ei adroddiad.

**MATERION PWYSIG ERAILL A DRAFODWYD GAN Y PWYLLGOR**
**Craffu uniongyrchol ar waith Gweinidogion gyda golwg ar faterion cydraddoldeb penodol.**

19. Blaenoriaeth rhaglen waith 2004-05 oedd dal Gweinidogion yn uniongyrchol gyfrifol, a'r nod oedd gwahodd pob Gweinidog i ddod i un cyfarfod o leiaf er mwyn craffu ar waith y gweinidog hwnnw ynghylch un

mater cydraddoldeb o fewn y portffolio. Gwahoddwyd saith Gweinidog gwahanol i'r cyfarfodydd i drafod nifer o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, lloches, a gofal plant.

**Craffu ar y modd y mae Pwyllgorau eraill y Cynulliad yn trafod cydraddoldeb**

20. Yn rhan o'r broses prif-ffrydio (gweler argymhelliad 26 yn yr adroddiad 'Prif-ffrydio Cydraddoldeb') trafodwyd rhaglenni gwaith ac adroddiadau blynyddol Pwyllgorau eraill. Siom i'r Pwyllgor oedd canfod nad oedd ymrwymiad y Pwyllgorau i drafod cydraddoldeb yn amlwg yn eu rhaglenni gwaith strategol a byddwn yn trafod y mater hwn eto yn hydref 2005. Trafododd Cadeirydd y Pwyllgor brif-ffrydio cydraddoldeb â'r Panel Cadeiryddion a datblygwyd canllawiau ymhellach i'w defnyddio gan Bwyllgorau (argymhelliad 27 yn yr adroddiad 'Prif-ffrydio Cydraddoldeb' ).

**Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad**

21. Ym mis Tachwedd 2004 trafododd y Pwyllgor Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Diwygiedig cyn ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Lansiwyd y Cynllun terfynol ar gyfer 2005-08 ar 21 Mawrth 2005, a bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd a wneir wrth roi ar waith y Cynlluniau Gweithredu sy'n deillio o'r cynllun o hydref 2005 ymlaen.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD)**

22. Ymatebodd y Pwyllgor i ymgynghoriad ar gynigion Papur Gwyn am Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd. Cafodd y pwyllgor ei friffio ar ddatblygiadau gan yr Athro Teresa Rees o Brifysgol Caerdydd, cynrychiolydd Cymru ar Dasglu Ymgynghorol y Comisiwn newydd, a chafwyd cyflwyniadau gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon. Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghori, ym mis Rhagfyr 2004 anfonodd y Pwyllgor ddatganiad o'i farn i Grŵp Llywio'r CCHD. Yn 2005-06, bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Mesur Cydraddoldeb i ddeddfu ar gyfer y CCHD (gweler hefyd Craffu ar Ddeddfwriaeth, uchod).

**Stonewall Cymru**

23. Ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2004 derbyniodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion yn adroddiadau Stonewall Cymru 'Eich cyfri neu'ch eithrio '. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y materion hyn yn 2005-06. Croesawodd Y Ddeddf Partneriaethau Sifil oedd yn caniatáu cydnabyddiaeth gyfreithiol i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru.

**Cynigion Ewropeaidd**

24. Trafodwyd nifer o ddogfennau Ewropeaidd oedd â chysylltiad â chydraddoldeb, gan gynnwys adroddiadau ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Ar 13 Ionawr 2005 blaenoriaethwyd tri chynnig yn rhaglen waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer craffu arnynt yn 2005-06. Derbyniwyd diweddariad ar y rhaglen EQUAL a gyllidir gan yr UE.

**Plant**

25. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Comisiynydd Plant ar ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2003. Trafodwyd adroddiad blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2004 mewn cyfarfod ar y cyd rhwng holl Bwyllgorau perthnasol y Cynulliad ym mis Ionawr 2005. Yn ystod y flwyddyn roedd y Pwyllgor wedi trafod hefyd agweddau cydraddoldeb adroddiad Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant a materion gofal plant.

**26. Hefyd, yn ystod 2004-05 trafododd y Pwyllgor:**

- Gefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru;
- Agweddau cydraddoldeb wrth ddarparu toiledau cyhoeddus;
- Blaenoriaethau cydraddoldeb Cyllideb Ddrafft y Cynulliad;
- Polisi Recriwtio'r Cynulliad;
- Diweddariad ar gyfnod 2 yr ymgyrch Cyflog Cyfartal.

**Dulliau Gweithio**

27. Penderfynodd y Pwyllgor ddechrau'i gyfarfodydd fymryn yn hwyrach yn y bore am 9.30, yn unol ag egwyddorion ystyried teuluoedd. Mae wedi ymgynghori hefyd â'i grŵp cyfeirio o bobl ifainc anabl ar sut y cânt gymryd eu rhan lawn yn briodol yng ngwaith y Pwyllgor, yn unol â'r arwyddair 'dim byd amdanom ni hebddom ni'. Bydd y Pwyllgor yn ceisio amlygu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei ddulliau o weithredu i'r dyfodol, ac i rannu'r arferion gorau â'r Pwyllgorau eraill a rhannau eraill y Cynulliad.

**BLAENORIAETHAU YN Y DYFODOL**

28. Gwelir yn Atodiad A3 amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2005-06 . Ymhlith y prif flaenoriaethau ceir:

- Mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl;
- Monitro'r cynnydd a wneir wrth brif-ffrydio cydraddoldeb;
- Monitro'r cynnydd a wneir wrth roi ar waith argymhellion yr Adolygiad Darparu Gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad;
- Craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac agwedd Gymreig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd;
- Galw Gweinidogion i gyfrif mewn gohebiaeth, a phe bai rhaid, drwy wahodd craffu uniongyrchol.

**Atodiad A1**

**CYLCH GORCHWYL**

**RHANNAU O DDEDDF LLYWODRAETH CYMRU 1998**

Rhan 48

(1) The Assembly shall make appropriate arrangements with a view to securing that its business is conducted with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.

Rhan 120

(1) the Assembly shall make appropriate arrangements with a view to securing that its functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.

(2) After each financial year the Assembly shall publish a report containing:
a) A statement of the arrangements made in pursuance of subsection (1) which had effect during that financial year; and
b) A statement of how effective those arrangements were in promoting equality of opportunity.

**RHEOL SEFYDLOG 14 - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Teitl a Chylch Gwaith**

14.1 Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a rhaid iddo archwilio trefniadau’r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Rhaid i’r Pwyllgor hefyd roi sylw arbennig i’r angen i’r Cynulliad osgoi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2 Rhaid i’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i’r Cynulliad ar y trefniadau hynny a’u heffeithiolrwydd. Rhaid iddo hefyd adolygu’r Adroddiadau Blynyddol a gyflwynir i’r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy’n ymwneud â hybu cyfle cyfartal ac adrodd ei gasgliadau am yr adroddiadau hynny i’r Cynulliad.

**Aelodaeth**

14.3 Rhaid i’r Cynulliad ethol aelodau'r Pwyllgor gan dalu sylw i'r fantais o gael cynrychiolaeth o bob Pwyllgor Pwnc ar y Pwyllgor a sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn ei aelodaeth. Rhaid i’r Cynulliad ethol un o aelodau'r Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.

14.4  Caniateir i aelod o’r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i’r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, o’r Pwyllgor gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw.  Wrth roi’r cyfryw hysbysiad, rhaid i’r Aelod nodi’r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le.   Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor.  Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

14.5 Caiff aelodau nad ydynt yn aelodau o Bwyllgor Pwnc fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor pan fydd y rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus.  Cyn unrhyw gyfarfod, caiff y cyfryw Aelodau Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i’r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw;  ond ni chânt bleidleisio.   Hefyd, caiff Aelodau Cynulliad ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i’w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf; a rhaid i’r cadeirydd drefnu i’r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

14.6 Heb ragfarnu Rheol Sefydlog 8.17, rhaid i’r Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, benodi’r cynghorwyr y bydd eu hangen arno er mwyn i sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais allu cael eu cyflwyno iddo.

**Adroddiadau**

14.7 Yn ogystal â chyflwyno ei adroddiad blynyddol caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau eraill i’r Cynulliad o bryd i’w gilydd.

**Atodiad A2**

**AELODAETH Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN YSTOD 2004-05**

| ENW | DYDDIADAU | PLAID | ETHOLAETH |
|---|---|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadair) | Mehefin 03 - heddiw | Llafur | Nedd |
| Lorraine Barrett | Mehefin 03 - heddiw | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| David Davies | Mehefin 03 - heddiw | Ceidwadwyr | Sir Fynwy |
| Lisa Francis | Mehefin 03 – Ion 04 | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Mehefin 03 - heddiw | Llafur | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Mehefin 03 - heddiw | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Laura Anne Jones | Ionawr 04 - heddiw | Ceidwadwyr | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Mehefin 03 - heddiw | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jenny Randerson | Mehefin 03 - heddiw | Democratiaid Rhyddfrydol | Canol Caerdydd |
| Catherine Thomas | Mehefin 03 - heddiw | Llafur | Llanelli |
| Leanne Wood * <br><br> *Janet Ryder yn dirprwyo yn ystod absenoldeb mamolaeth | Mehefin 03 - heddiw | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Atodiad B**

**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Amlinelliad o Flaen Raglen Waith - Mai 2005 - Mai 2006**

| | **Eitem** |
|---|---|
| **Haf 05**<br><br>**Cyfarfod 1af** (12 Mai 2005)*<br><br>*wedi'i symud o 5 Mai | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a materion sy'n codi |
| | Trafod Blaen Raglen Waith Ddrafft y Pwyllgor ar gyfer Mai 2005-06 |
| | Cylch Cynllunio Cyllideb – blaenoriaethau cydraddoldeb |
| | Cyflwyniad gan DEEP (Development Employability Equality Partnership) - prosiect EQUAL |
| | Ymgynghori ar Ddrafft y Còd Ymarfer Tai – Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Adolygiad polisi – Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl (addysg, hyfforddiant a chyflogaeth):<br>• Adroddiad gwerthuso gan y Grwp Cyfeirio |
| **2il gyfarfod** (26 Mai 2005) **Gogledd Cymru** | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Cyflwyniad Chwarae Teg |
| | Adolygiad polisi - Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl (addysg, hyfforddiant a chyflogaeth):<br>• Sesiynau tystiolaeth lafar<br>• Adroddiad gwerthuso gan y Grwp Cyfeirio |
| **3ydd cyfarfod** (30 Mehefin 2005) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Craffu ar y Mesur Cydradoldeb<br>* Gwahoddiad i'r trefnydd fod yn bresennol |
| | Adolygiad polisi - Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl (addysg, hyfforddiant a chyflogaeth):<br>• Sesiynau tystiolaeth lafar<br>• Adroddiad gwerthuso gan y Grwp Cyfeirio |
| | Adroddiad blynyddol Uned Cydraddoldebau'r CLILC, adroddiad gwerthuso'r Uned, ac adborth ar Gyfrifiad Cynghorwyr Sefydliad y Cyflogwyr (dangosyddion amrywiaeth) |
| Gweithgarwch ychwanegol y Pwyllgor | • Adolygiad polisi - Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl_ - Ymweliadau *Rapporteur* gan Aelodau<br>• Cyfarfodydd Grwp Cyfeirio pobl ifainc anabl |
| **Hydref 05** | |
| **Cyfarfod 1af** (Iau 22 Medi) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Chweched Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2004-05<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd, Yr Ysgrifennydd Parhaol a Chynrychiolydd GSC fod yn bresennol |
| | Trafod Rhaglenni Gwaith Strategol Pwyllgorau eraill ac adroddiadau blynyddol 2004-05<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd fod yn bresennol |

| | Eitem |
|---|---|
| | Craffu ar Y Gorchymyn Partneriaethau Sifil<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd fod yn bresennol |
| | Adolygiad polisi – darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl:<br>• Sesiwn tystiolaeth lafar ( cytuno ar y cyflwynwyr drwy ymgynghori â'r grwp cyfeirio) |
| | **Papurau i'w nodi:**<br>• Diweddariad ar weithredu argymhellion yr adroddiad 'Darparu Gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'<br>• Dosbarth Cymdeithasol a materion cyfle cyfartal. |
| **2il gyfarfod** (Mercher 12 Hydref) | Cofnodion,Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Stonewall Cymru – Diweddariad ar ymateb y Llywodraeth i argymhellion 'Eich cyfri neu'ch eithrio' |
| | Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2006-07<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd fod yn bresennol |
| | Adolygiad polisi – Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl:<br>• Sesiwn tystiolaeth lafar (Trafnidiaeth – gwahoddiad i Drenau Arriva, Y Pwyllgor Teithwyr Rheilffordd, cynrychiolwyr Hedfan) |
| | Penodiadau Cyhoeddus:<br>• Trafodaeth ac adroddiad blynyddol Y Farwnes Fritchie, Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus -<br>• Diweddariad gan Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad |
| **3ydd cyfarfod** (Iau 24 Tachwedd ) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Adroddiad Blynyddol CHA |
| | Dilyniant Prif-ffrydio Cydraddoldeb ar weithredu, a thrafod agweddau cydraddoldeb 'Gwneud y Cysylltiadau'<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd, Yr Ysgrifennydd Parhaol a chynrychiolydd/wyr GSC fod yn bresennol |
| | Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad – diweddariad ar y cynnydd a fu wrth weithredu gan LICC a GSC<br>• Gwahodd AWEMA i drafod mapio cynnwys ethnig Gogledd Cymru<br>• Y Pwyllgor i drafod, ar sail y cynnydd a wnaed, pa feysydd posibl eraill y gellid craffu arnynt |
| | • Cau'r Bwlch Cyflog<br>Gwerthuso cyfnod 2 yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal a chael y newyddion diweddaraf am gyfnod 3 |
| | (* diwygio'r agenda o bosibl er mwyn cael mwy o amser i graffu ar waith y Gweinidog dros Iechyd ar argymhellion yr adroddiad am Sipsiwn a Theithwyr) |
| Gweithgarwch ychwanegol y Pwyllgor | • Adolygiad polisi ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl – ymweliadau *rapporteur* gan Aelodau<br>• Cyfarfodydd Grwp Cyfeirio Pobl Ifainc Anabl<br>• Cyhoeddi'r adroddiad interim |
| **Gwanwyn** | |

| | Eitem |
|---|---|
| **06** | |
| **Cyfarfod 1af** (dyddiad i'w gadarnhau) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Adroddiad blynyddol y PCC |
| | Adolygiad polisi – Darpau gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl:<br>• Sesiwn tystiolaeth lafar<br>• Adroddiad y grwp cyfeirio |
| | Materion hyrwyddo cyfathrebu a Iaith Arwyddion Prydain(BSL) – gan gynnwys y cynnydd a wnaed ar weithredu argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar wasanaethau cyfieithu BSL yng Nghymru<br>* Gwahoddiad i'r Trefnydd a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu gydol Oes fod yn bresennol |
| | Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu gydol Oes: craffu ar bolisïau gwrth-fwlio gan gynnwys mynd i'r afael â bwlio homoffobig (yr amseriad yn dibynnu ar y gwaith adolygu)<br>* Gwahoddiad i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu gydol Oes fod yn bresennol |
| **2il gyfarfod** (dyddiad i'w gadarnhau) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Adolygiad polisi – Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl:<br>• Sesiwn tystiolaeth lafar<br>• Adroddiad y grwp cyfeirio |
| | Adoddiad Blynyddol y CCH |
| | Materion yn ymwneud â cheiswyr lloches a ffoaduriaid<br>* Gwahoddiad i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod yn bresennol |
| **3ydd cyfarfod** (dyddiad i'w gadarnhau) | Cofnodion, Adroddiad y Cadeirydd a Materion sy'n codi |
| | Adolygiad polisi – Darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl:<br>• Sesiwn tystiolaeth lafar<br>• Adroddiad y grwp cyfeirio |
| | Y newyddion diweddaraf ar weithgarwch yr ymgyrch Cyflog Cyfartal<br>* Gwahoddiad i'r trefnydd fod yn bresennol |
| | Trafod Rhaglen Waith Ddrafft 2006-07 |
| Gweithgarwch ychwanegol y Pwyllgor | • Cyfarfod ar y cyd i drafod adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant<br>• Adolygiad polisi darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc anabl – ymweliadau *rapporteur* gan Aelodau<br>• Cyfarfodydd Grwp Cyfeirio Pobl Ifainc Anabl |

EITEMAU YCHWANEGOL Y BYDD GOFYN EU CYNNWYS EFALLAI YN Y RHAGLEN:

- Cynigion Ewropeaidd a osodwyd yn Senedd y DU: Clustnodwyd 3 eitem 'uchel eu blaenoriaeth': Polisi Ieuenctid, Cyfathrebiaeth ar e-hygyrchedd, Papur Gwyrdd ar Gydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu.

**Atodiad B**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL AM Y TREFNIADAU I HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL- BLWYDDYN ARIANNOL 2004 - 2005**

| <u>GWASANAETHAU SENEDDOL Y CYNULLIAD</u> |
|---|
| **Cyflwyniad gan Glerc y Cynulliad**<br>Mae Adran 48 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gofyn i'r Cynulliad wneud<br>'trefniadau priodol gyda golwg ar sicrhau fod ei waith yn cael ei wneud gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfleoedd cyfartal i bawb'.<br>Dylai'r rhan arloesol hon o'n cyfansoddiad sylfaenol fod yn sail i'r cyfan a wnawn yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad am y cyfnod Ebrill 2004 hyd Fawrth 2005 er mwyn cyrraedd ein amcanion cydraddoldeb<br>Yn ystod 2004-05 fe wnaethom weithredu nifer o strategaethau corfforaethol oedd yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb yn ein gwaith. Mae esiamplau yn cynnwys elfen Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad ac elfen GSC Cynllun Cydraddoldeb y Cynulliad. Hefyd mae staff o fewn Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad wedi gweithio'n galed i weithredu'r argymhellion perthnasol ar gyfer adroddiad 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb' y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae Cydraddoldeb yn eitem Sefydlog yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad, ac mae'n holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfle cyfartal i bawb yn eu gwaith, beth bynnag y bo'r gwaith hwnnw.<br>Ceisia'r adroddiad hwn dynnu sylw at y ffyrdd y mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio mewn gwaith pob dydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae'n rhoi manylion sut mae rhannau unigol y sefydliad wedi gweithio i ymgorffori hybu cydraddoldeb i mewn i'w hamcanion ar gyfer 2004-05.<br>Yr wyf fi'n bersonol yn ymrwymedig i sicrhau fod Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn parhau i ddatblygu yn ei allu i hybu cyfleoedd cyfartal i bawb. Dyma un o'r ffyrdd y gallwn ddangos ein □wry n Gynulliad Cenedlaethol o ddifrif. 'Rwy'n cymryd diddordeb arbennig yn y ddelwedd yr ydym yn ei chyflwyno i ymwelwyr, ac yn amrywiaeth ein staff. Erbyn yr amser y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, bydd Grwp Cydraddoldeb ar draws GSC wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf a bydd uwch ymchwilydd o Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad wedi cymryd rôl 'Hyrwyddwr Cydraddoldeb GSC'. Edrychaf ymlaen at gael cyfle i adrodd ymhellach ar hyn yn yr adolygiad yn 2005-06. |

**IS-ADRAN GYFREITHIOL GWASANAETH SENEDDOL Y CYNULLIAD**

□wry n□ unrhyw amcanion penodol ar gyfer adain Gyfreithiol GSC o fewn Cynllun Blynyddol GSC. Fodd bynnag, mae'r tîm yn cyfrannu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at ddyletswydd y Cynulliad o dan adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru trwy:

| Amcanion yr Is-adran/Gangen | Sut yr oedd cydraddoldeb wedi'i gorffori yn y flaenoriaeth | Unrhyw ganlyniadau cadarnhaol o ran cydraddoldeb |
|---|---|---|
| Craffu ar a pharatoi adroddiadau i'r Pwyllgor Deddfwriaeth ar bob is-ddeddfwriaeth □wry i'w wneud gan y Cynulliad dan y Gweithdrefnau Sefydlog Cyflym a'r hyn a wneir o dan y Weithdrefn Weithredol i sicrhau cydymffurfio gydag adran 120. | Rhan o'r broses graffu pob offeryn statudol gan y Pwyllgor Deddfau. | Sicrhau craffu priodol offerynnau statudol gan bwyllgorau. |
| Mae Cynghorwyr Cyfreithiol i'r Pwyllgor Deddfau hefyd yn craffu ar is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda gofyniad adran 66(4) Deddf Llywodraeth Cymru – fod is-ddeddfwriaeth cyffredinol y Cynulliad yn cael ei ddrafftio yn Saesneg ac yn Gymraeg – ac i sicrhau fod safbwyntiau'r Pwyllgor mewn perthynas ag osgoi'r defnydd o iaith benodol i genedl a drafftio uniaith (Saesneg yn unig) yn derbyn cydymffurfiaeth | Cynigiodd y Pwyllgor Deddfau, ac mae'r Cynulliad wedi cytuno, fod newidiadau yn cael eu gwneud i Reol Sefydlog 11.7 (Sail ar gyfer Tynnu Sylw Arbennig y Cynulliad at Is-ddeddfwriaeth). Mae adrodd ar bwyntiau bellach yn cynnwys y defnydd o iaith cenedl benodol a drafftio uniaith. | Mae'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer pob is-ddeddfwriaeth y Cynulliad yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r defnydd o iaith. |
| Mae Cyfreithwyr GSC yn mynychu Pwyllgorau Pwnc a Phwyllgorau Sefydlog ac □wry ar gael i gynghori ar faterion cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. | E.e. rhoddwyd cyngor penodol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar effaith ar ddyletswydd y Cynulliad dan adran 120 y cynigion sydd yn y Mesur Cydraddoldeb 2005 fel rhan o ymateb y Pwyllgor hwnnw i ymgynghori ar y Papur Gwyn a'r Mesur □wry . | Mae cyngor ar faterion cydraddoldeb penodol neu gyffredinol ar gael bob amser. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r tîm cyfreithiol GSC wedi rhoi ac □wry n gael o hyd i roi cyngor cyffredinol i swyddogion ac Aelodau'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb. | Ymhlith yr esiamplau mae rhoi cyngor ar oblygiadau dan y Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005 ac addasrwydd lleoliadau allanol a chyfrannu at ddrafftio Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog GSC. | Mae cyngor ar faterion cydraddoldeb cyffredinol neu benodol ar gael bob amser |

**GWASANAETH CYFATHREBU'R CYNULLIAD:**

- I gwrdd â gofynion y Ddeddf Llywodraeth Cymru i'r graddau mae'n berthnasol i'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu
- I wella ansawdd ein gwasanaethau trwy ddatblygu a gweithredu Siarter Cwsmer y Gwasanaeth Cyfathrebu.
- I ehangu ein hagwedd Cymru gyfan at ein gweithgareddau a chyflwyniad ein gwasanaethau
- I adolygu a gwella ein gwybodaeth a'n systemau rheoli gwybodaeth i wella ein gwasanaethau ac i'n galluogi i gwrdd â gofynion statudol
- I ddatblygu a chynnal perthnasoedd gyda sefydliadau allanol ar gyfer budd pawb
- Cyfrannu at well dealltwriaeth o rôl gwasanaeth seneddol y Cynulliad.

**I gefnogi'r amcanion strategol hyn, ceisiwn:**

- Godi proffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy ennyn diddordeb aelodau'r cyhoedd trwy Gymru;
- Godi ymwybyddiaeth cyhoeddus a dealltwriaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i waith;
- Ddarparu ardderchowgrwydd o ran gwasanaeth cwsmeriaid; a
- Pharhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol a'r sector addysg.

| Amcanion yr Is-adran / Gangen | Sut yr oedd cydraddoldeb wedi'i gorffori yn y flaenoriaeth | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| **Cangen Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT)** | | |
| I sicrhau fod gofynion Darlledu ICT/Awdio weledol Aelodau a Swyddogion yn cael eu hateb gan dîm yr adeilad newydd | Caiff trafodion y Cynulliad eu darlledu ar deledu daearol a theledu digidol. Mae is-deitlau i'r holl Gyfarfodydd Llawn sy'n cael eu darlledu, ac mae rhai rhaglenni ar S4C2 ag arwyddion. Gweithiodd y tîm darlledu gydag arbenigwyr technegol i greu y fanyleb sy'n sicrhau fod darlledu'r trafodion yn parhau yn adeilad y Senedd.<br><br>Chwaraeodd aelodau'r tîm ICT rôl bwysig yn datblygu'r fanyleb Weledol Glywedol ac ICT a ddarparwyd gan Swyddogion y Llywodraeth fel rhan o dîm project yr adeilad newydd.(ICT)<br><br>Mae cytundeb darlledu mewnol newydd bellach yn weithredol, sy'n cynnwys yr opsiwn darparu gwasanaeth is-deitlo a iaith arwyddion ar y system deledu mewnol am y tro cyntaf. | Bydd S4C 2 yn parhau i ddarlledu trafodion y Cynulliad yn dilyn y symud i adeilad y Senedd, gan roi mynediad i'r Cynulliad i bob cartref.<br><br>Mae'r integreiddio yn cynnig gwasanaethau gwell i ymwelwyr trwy fannau gwybodaeth a sgriniau cyffwrdd yn y Senedd, sydd wedi'u cynllunio i gydymffurfio â chanllawiau mynediad.<br><br>Gellir gwneud is-deitlo ac arwyddo ar gael ar gost dechnegol o £50 yr awr, a byddai angen taliadau eraill is-deitlwyr ac arwyddwyr. |
| I sicrhau fod Merlin yn darparu ICT addas i Aelodau ac i GSC i ateb eu gofynion o ran | Gweithredwyd ICT newydd yn Hydref 2005. Bydd y cyfarpar yn addas ar gyfer yr | Y trawsnewid wedi'i ohirio tan Hydref 2005 |

| | | |
|---|---|---|
| gwaith. | holl swyddogion. Bydd y fersiwn Gymraeg newydd o Windows ar gael i'r holl swyddogion. Mae aelodau, fel □wry yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol, wedi gwella'r medrusrwydd o ran yr iaith Gymraeg yn eu swyddfeydd.<br><br>Yn aelod blaenllaw o'r project trawsnewid, chwaraeodd ICT rôl weithredol yn diweddaru 56 o swyddfeydd etholaethol i gael band eang, gan gynnig i Aelodau a staff cymorth wasanaeth gwell beth bynnag fo'u lleoliad. | Sicrhaodd yr uwchraddio bedair gwaith gwell perfformiad y rhwydwaith data i swyddfeydd yr holl Aelodau y tu allan i'r Cynulliad. Mae'r mwyafrif o'r Aelodau a effeithiwyd wedi croesawu'r gwelliannau. |
| I sicrhau trosglwyddiad cytundeb OSIRIS a Merlin heb amharu ar anghenion yr Aelodau na gallu Swyddogion GSC i ateb eu gofynion o ran gwaith. | Chwaraeodd y gangen ran bwysig yn y project trosglwyddo o fewn Merlin, gan gyflwyno gwasanaethau ICT newydd i'r Cynulliad heb effeithio ar ei 'waith bob dydd'. Parhaodd y tîm i weithio gyda Merlin i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth. | Dim canlyniadau cydraddoldeb uniongyrchol. Cwblhawyd y trosglwyddiad yn Ebrill 2004 heb unrhyw effaith andwyol ar Aelodau na Swyddogion. |
| I adnabod darparwyr gwasanaeth addas ar gyfer e-fforwm. | | Anogodd y peilot e-fforwm gymryd rhan gan holl aelodau'r gymuned, gan adnabod sawl maes mynediad sydd bellach yn cael ei fwydo i'r Project Rhyngrwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| I ddatblygu system dros dro ar gyfer cofnodi ceisiadau/ data Rhyddid Gwybodaeth (FOI) i ddarparu canllawiau ar ateb corfforaethol ar gyfer y Cynulliad. | System wedi'i datblygu i alluogi'r holl swyddogion yn y GSC i gael mynediad i'r wybodaeth hon. | Dim canlyniadau cydraddoldeb uniongyrchol. Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu trin yn effeithiol. |
| **Cangen Cysylltiadau gyda'r Cyfryngau** | | |
| I ddatblygu cynigion ar gyfer y Panel Cadeiryddion ar gynyddu sylw gan y cyfryngau i bwyllgorau, a gweithredu'r cynigion unwaith eu bod wedi'u cytuno. | Yr oedd hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. | Cafwyd sylw cadarnhaol gan y wasg i adolygiad y Pwyllgor o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc anabl. |
| I gynnal cyfarfodydd gyda golygyddion papurau newydd a golygyddion newyddion gorsafoedd radio lleol a rhanbarthol i ganfod sut orau i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol iddynt. | Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda golygyddion papurau newydd a golygyddion newyddion gorsafoedd radio lleol a rhanbarthol a chysylltwyd hefyd gyda'r holl Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru i ddynodi newyddlenni y gellid rhoi cyhoeddusrwydd i faterion perthnasol. | Mae cysylltiad da gyda phapurau newydd a gorsafoedd radio lleol yn hanfodol er mwyn cyrraedd cymaint ag sy'n bosibl o bobl yn y gymuned. Cynyddodd y sylw cadarnhaol i'r Cynulliad o 54% ers y flwyddyn flaenorol. |
| I drin ymholiadau'r cyfryngau mewn modd prydlon ac effeithiol. | Caiff pob ymholiad gan y cyfryngau ei drin yn yr un modd, o ble bynnag y daw. | Rhwng mis Mai a mis Hydref deliodd y gangen â 309 o ymholiadau adweitheddol gan y cyfryngau ac atebodd 96% ohonynt o fewn un diwrnod. |
| **Y Gwasanaethau Cyfieithu a Chofnodi Seneddol** | | |
| I ehangu ein hagwedd Cymru gyfan at ein gweithgareddau a chyflwyniad ein gwasanaethau. | Darparu cyfleoedd i gyfieithwyr a golygyddion i weithio o swyddfeydd rhanbarthol/ eu cartref, cyn belled ag y mae anghenion busnes yn caniatau (e.e hysbysebu swyddi gwag yn y dyfodol fel | Cafodd dau weithiwr cartref ychwanegol eu recriwtio ym mis Medi, a'r ddwy yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Fe aeth un gweithiwr cartref ar Seibiant Gyrfa |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfleoedd i weithio o gartref/gweithio pell o swyddfeydd rhanbarthol) | yn ddiweddar. Bellach mae cyfanswm o 6 o weithwyr cartref yn gweithio i'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol. |
| **Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg** | | |
| I gynhyrchu'r daflen, 'Eich cyfarwyddyd i'r Cynulliad', mewn fformat Iaith Arwyddo Brydeinig (BSL) i asesu gofynion defnyddwyr BSL trwy Gymru  ar gyfer cyhoeddiadau'r Cynulliad yn y fformat hwn. | Gwnaethpwyd astudiaeth ddichonoldeb gyda defnyddwyr BSL i gynhyrchu taflenni gwybodaeth ar ffurf BSL.  Yn dilyn ymarfer costio a chaffael mae cyhoeddiad ar dreial o'r enw 'Eich cyfarwyddyd i'r Cynulliad' yn cael ei gynhyrchu ar fformat BSL.<br>Pan fydd ar gael bydd y cyhoeddiad yn cael ei anfon allan i grwpiau sy'n cynrychioli pobl byddar yng Nghymru i gael eu hadborth a'u barn ar ei effeithiolrwydd ac i ganfod pa fath o alw a □wry  fod yn y dyfodol am gyhoeddiadau yn y fformat yma. | Does dim canlyniadau cadarnhaol hyd yma. Pan fydd ar gael bydd y cyhoeddiad yn cael ei anfon allan i grwpiau cynrychioliadol o bobl byddar yng Nghymru i gael arfarniad ar ei effeithiolrwydd, ac i ganfod pa fath o alw a □wry  fod yn y dyfodol am gyhoeddiadau yn y fformat yma. |
| I ehangu'r agwedd Cymru gyfan i'n gweithgareddau a chyflwyniad ein gwasanaethau | I sicrhau fod gwasanaeth cyfartal i holl bobl Cymru, mae Tîm Rhanbarthol Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg yn cefnogi Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad trwy roi gwybodaeth i'r cyhoedd mewn digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.  Maent wedi:<br>• Sicrhau fod y Gwasanaeth Cymru Gyfan wedi cwrdd ag anghenion | |

| | | |
|---|---|---|
| | aelodau'r cyhoedd sydd â gofynion arbennig.<br>• Gofyn am gyngor gan y Swyddog Mynediad er mwyn sicrhau fod unrhyw rwystrau corfforol i ymwelwyr anabl yn cael eu gwaredu. | |
| Gwneud adolygiad cydraddoldeb ac adolygiad cynhwysedd cymdeithasol Canolfan Arddangosfa'r Cynulliad i ganfod a yw diwylliant amrywiol Cymru yn cael ei gynrychioli'n iawn. | Mae'r Gangen wedi gweithio tuag at ddarparu amgylchedd agored a chynhwysol yn gymdeithasol sy'n ennyn teimlad o berchnogaeth waeth beth fo cefndir ethnig, oedran, anabledd na rhyw person.<br>Fe wnaeth y Swyddog Mynediad adolygiad llaw o holl arddangosfeydd y Cynulliad a gwnaethpwyd argymhellion i newid rhai o baneli rhai arddangosfeydd. Yr oedd hyn er mwyn sicrhau mynediad ac er mwyn darparu portread cywir o boblogaeth amrywiol Cymru. Mae rhai panelau wedi'u newid ond mae newidiadau pellach yn ddibynnol ar gyfyngiadau o ran y gyllideb. | Darperir holiaduron adborth i'r holl ymwelwyr ac adolygir y canlyniadau yn ofalus.<br>Mae adroddiad misol yn cael ei gynhyrchu a bydd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella yn cael eu hystyried. Does dim gyda golwg ar gydraddoldeb hyd yma. |
| Cysylltu gyda chynghorau cydraddoldeb hiliol trwy Gymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ieithoedd lleiafrifoedd ethnig megis y cyhoeddiadau a gyfieithwyd a'r gwasanaethau a gyflwynir gan y Gwasanaeth | Mae'r Gangen yn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd ar sut i gyrraedd gwybodaeth a sut i gysylltu ag Aelodau'r Cynulliad. Maent yn ystyried y gwasanaethau mewn perthynas ag | Gobeithio y bydd yr hyrwyddo a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn yn creu ceisiadau am y gwasanaeth gan grwpiau lleiafrifol yn 2006 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfieithu Cenedlaethol ar y Llinell Wybodaeth. | ieithoedd eraill megis BSL a ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. Cysylltwyd â holl Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol Cymru i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau. Gofynnwyd i gynghorau hybu'r gwasanaeth ymhlith eu haelodau. Bydd ymarferion marchnata pellach yn digwydd yn yr Hydref (05) er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau. | |
| Gwneud/comisiynu astudiaeth dichonoldeb o adnodd ychwanegol taith awdio gwmpas Canolfan Arddangos y Cynulliad. Byddai hyn yn rhoi taith awdio mewn ieithoedd lleiafrifol a ddefnyddir yng Nghymru yn ychwanegol at Gymraeg a Saesneg. | Yr amcan oedd darparu gwybodaeth i bobl yng Nghymru y mae eu hiaith gyntaf yn un ar wahân i Gymraeg neu Saesneg. Ceisiodd y gangen ddarparu gwasanaeth a fyddai'n annog mwy o gymryd rhan a chynnwys yn nemocratiaeth Cymru ac yn darparu gwell mynediad at wybodaeth. Nid yw hyn wedi digwydd eto ond fe all Pwyllgor y Ty ystyried y mater eto yn 2006 yn dilyn agor y Senedd. | □wry n□ unrhyw ganlyniadau cadarnhaol hyd yma ond fe all Pwyllgor y Ty ystyried y mater eto yn 2006. |
| Sicrhau fod cyhoeddiadau a ddarperir gan y gwasanaeth yn ystyried cyfleoedd cyfartal i bobl ddu a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. | Dylai'r ystod o gyhoeddiadau sicrhau cynnwys a rhoi cyfleoedd cyfartal i holl bobl Cymru. | Mae holl gyhoeddiadau'r Cynulliad wedi'u harchwilio i sicrhau fod testun a delweddau yn gynhwysol i'r holl gymunedau yng Nghymru. |
| Datblygu a chynnal perthnasoedd gyda sefydliadau allanol er budd pawb. | Yr amcan oedd i adnabod prif gysylltiadau ac i adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd newydd a chynnal rhai sy'n bodoli mewn sefydliadau allanol a grwpiau yn y gymuned. | Mae'r Cydlynydd Mynediad wedi gweithio gyda Chymdeithas Brydeinig y Byddar (Cymru) i ddarparu gwybodaeth ar sut mae'r Cynulliad yn gweithio a'i berthynas gyda'r Llywodraeth Ganolog a |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llywodraethau rhanbarthol yn y DU. Cyfrannodd yr wybodaeth hon at ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gymdeithas y Byddar (Cymru) a anelwyd at godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl byddar Cymru am y broses ddemocrataidd, gyda sylw arbennig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| Er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal pan fydd Siambr newydd y Cynulliad yn agor, bydd cyfle i ymgynghori gyda deilyddion diddordeb allweddol pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig i adnabod cyfleoedd i hybu cysylltiadau hiliol da. | Yr amcan hon oedd adnabod cyfleoedd i weithio gyda chymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau eu □wry n cael eu cynnwys mewn rhaglenni digwyddiadau | □wry n□ unrhyw ganlyniadau pendant hyd yma gan nad yw'r paratoadau wedi'u datblygu yn ddigonol ar hyn o bryd. |
| Monitro dosbarthiad a faint sy'n dewis cael taflenni mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys faint sy'n ymweld â safle'r we. | Yr amcan oedd canfod beth oedd y galw am gyhoeddiadau gwybodaeth y Cynulliad mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. Bydd mesur y galw am y gwasanaeth hwn yn helpu'r Cynulliad i wneud penderfyniadau doeth ar gyfieithu cyhoeddiadau yn y dyfodol. | Caiff y nifer sy'n dewis taflenni mewn ieithoedd lleiafrifol ei fonitro gan dîm marchnata Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg er mwyn rhagweld galw yn y dyfodol. |
| **GWASANAETHAU CORFFORAETHOL:** | | |
| **Cangen Adnoddau Dynol**<br>Yn gyfrifol am faterion personél trwy Wasanaeth Seneddol y Cynulliad | | |
| **Amcanion yr Is-adran/ Gangen** | **Sut yr oedd cydraddoldeb wedi'i gorffori yn y flaenoriaeth** | **Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol** |
| Rhoi i reolwyr wybodaeth rheoli ddefnyddiol i helpu gyda gwneud penderfyniadau, a □wry n□ effeithiolrwydd polisïau. | Yn ystod 2004-05 rhoddwyd gwybodaeth ar swyddi gwag a'r broses recriwtio, absenoldeb salwch,a chydbwysedd o ran | Mae wedi galluogi Adnoddau Dynol ac SMT i sicrhau nad oes unrhyw dueddiadau o ran cenedl |

| | | |
|---|---|---|
| | cenedl. Galluogodd yr arfer o gydbwyso o ran cenedl inni fonitro am unrhyw ragfarnau. | yn bodoli yn y broses recriwtio a datblygu strategaethau megis gweithio o gartref i oresgyn problemau recriwtio. Ers Mai 2005 mae'r Gangen Adnoddau Dynol wedi cynnwys adrodd ar leiafrifoedd ethnig yn yr ystadegau. Bydd adrodd ar anableddau yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach yn 05-06 gyda datblygiad modiwl u-fynediad system dechnoleg gwybodaeth Adnoddau Dynol. |
| Datblygu a chyhoeddi set o fynegyddion perfformiad ar gyfer y Gangen. | Cyflwynir i SMT grynodeb misol o ddyddiau salwch ar gyfartaledd ar gyfer pob person, nifer y rhai sy'n gadael a chyfradd ansawdd hyfforddiant ar gyfartaledd. | Gallai'r broses fonitro a ddefnyddiwyd i ffurfio'r mynegeion perfformiad dynnu sylw at faterion cadw a phresenoldeb perthnasol i grwpiau arbennig o staff. |
| Gwella Iechyd Corfforaethol yn y GSC trwy sefydlu gwasanaeth iechyd galwedigaethol GSC. | Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn rhoi gwasanaeth cyfrinachol i'r holl Aelodau, eu staff cymorth ac aelodau staff GSC. Ceisia'r gwasanaeth ostwng straen yn y man gwaith ac anafiadau perthynol i'r gwaith. | Mae darparu cyngor arbenigol gyda golwg ar addasu rhesymol i'r man gwaith yn cefnogi staff gydag anableddau tymor byr neu dymor hir. |
| Datblygu safle mewnrwyd AD well er mwyn rhannu gwybodaeth am bolisiau a strategaethau gyda chwsmeriaid. | Dyfeisiwyd y wefan yn unol â chanllawiau Mynediad. | Mae'n galluogi holl adrannau'r gweithlu i gyrraedd polisiau AD gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Mae adolygiadau pellach i ddigwydd yn 2005-06 |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau fod recriwtio i swyddi sy'n gofyn am sgiliau yn yr iaith Gymraeg / cyfieithu, ac fod staff yn cael eu cadw. | Cafodd cynllun gweithio o gartref ei threialu gyda'r gwasanaeth cyfieithu.<br>Cyfrannodd AD at waith gweithgor y Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog.<br>Byddai'r nifer o staff o fewn GSC gyda rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg yn cynyddu. | Cafodd y cynllun gweithio gartref ei arfarnu ac fe brofodd ei fod yn llwyddiannus, ac ehangwyd y cyfleoedd ar gyfer gweithio gartref i Gofnodi Trafodion.<br>Cynhyrchwyd y Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog (BSS) a bydd yn rhoi canllawiau eglur ar gyfer trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyfforddiant ar BSS wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant cynefino corfforaethol i sicrhau fod pawb sy'n dechrau o'r newydd yn ymwybodol o'u goblygiadau dan y datganiad.<br>Anelwyd Hyfforddiant yr Iaith Gymraeg yn fewnol at y rhai hynny oedd â rhywfaint o wybodaeth o'r iaith er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad. Cynigiwyd cymorth ariannol i ddechreuwyr i fynychu dosbarthiadau yn eu hamser eu hunain |
| Cefnogi parhau i gadw'r achrediad Buddsoddwr mewn Pobl. | 1. Cynllunio Hyfforddi – mae'r Polisi a'r Strategaeth Hyfforddi yn nodi'n glir yr ymrwymiad i gydraddoldeb mynediad at gyfleoedd i ddatblygu.<br>2. Cyflwyno Hyfforddiant – Cyflwyno Hyfforddiant yn unol â chanllawiau | 1. Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, a rheolwyr o'u cyfrifoldeb i sicrhau fod staff yn cael cyfleoedd cyfartal i ddatblygu.<br>2. Mae deunyddiau a |

| | | |
|---|---|---|
| | mynediad.<br><br>3. Hyfforddiant Cydraddoldeb – darparu hyfforddiant fel bod yr holl staff yn gwybod am eu goblygiadau cyfreithiol ac y gallant gael ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal yn arbennig wrth ddelio gydag Aelodau a’r Cyhoedd. | chyflwyniadau hyfforddi wedi’u datblygu yn unol â chanllawiau mynediad. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar ddyddiau Llun a Gwener er mwyn gostwng yr effaith ar amseroedd gwaith craidd. Ble mae hyn wedi □wry n anffafriol i weithwyr rhan amser mae cyrsiau canol wythnos ychwanegol wedi’u cynnal.<br><br>3. Mae sesiynau arolygu ar ddeddfwriaeth berthnasol a all effeithio ar y Cynulliad wedi’u cyflwyno. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a hyfforddiant mynediad wedi’i ymestyn i staff rheng flaen. Mae rhaglen hyfforddi cydraddoldeb bellach yn cael ei chynllunio ar gyfer 2005-06**.** |
| Cynyddu effeithiolrwydd y system rheoli perfformiad | Y system i’w hadolygu er mwyn sicrhau ei □wry n addas i bwrpas staff GSC. Monitro’r defnydd ohoni yn flynyddol i sicrhau fod dull cyson yn cael ei fabwysiadu trwy’r GSC. Mae esiamplau o ffurflenni a ddefnyddir mewn ymarferion □wry n□ yn cynnwys ffurflenni cymysgedd cenedl, staff gydag anableddau sydd wedi’u datgan a staff o gefndiroedd | Mae □wry n□’r cynllun yn rhoi sicrhad fod y system rheoli perfformiad heb fod yn dangos unrhyw deuddiad tuag at adran benodol o staff. |

| | | |
|---|---|---|
| | lleiafrifoedd ethnig. | |
| Adolygu trefniadau cynefino GSC. | Adolygwyd y rhaglen gynefino i staff GSC i sicrhau fod gan GSC fwy o berchnogaeth. Rhan allweddol o'r hyfforddiant hwn yw sesiwn ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb. | Cafodd y rhaglen ei hadolygu a chafod cwrs ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ei gynnwys. Mae'r cwrs yn cynnwys egwyddorion cydraddoldeb a deddfwriaethau allweddol, polisi cyfle cyfartal y Cynulliad ac ymwybyddiaeth ynglyn â mynediad. Mae pob staff sy'n dechrau yn gwybod am eu cyfrifoldeb gyda golwg ar Gydraddoldeb. |
| Gostwng lefelau absenoldeb yn GSC o 2% o gymharu â ffigurau'r llynedd. | Cyfweliadau dychwelyd i waith cyfrinachol yn galluogi i achosion absenoldeb gael eu trafod a chael sylw gan yr holl grwpiau staff | Nid yw defnyddio'r polisi newydd wedi tynnu sylw at unrhyw bryderon o ran cydraddoldeb. |
| Paratoi polisi a gweithdrefn recriwtio sy'n adlewyrchu gofynion deddfwriaeth, arferion gorau, Cod Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, a Pholisi'r Cynulliad. Bydd y polisi yn rhoi i'r broses eglurder ar reolaeth llinell tra'n dewis yr ymgeisydd mwyaf addas yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. | Yr oedd y □wry n□□ gael ei ddatblygu yn unol ag arferion gorau o ran cydraddoldeb.<br><br>Daethpwyd â gweinyddiaeth recriwtio GSC yn fewnol er mwyn creu mwy o berchnogaeth, gwell gwerth am arian ac i wella ein gallu i ymwneud âg ymgeiswyr posibl ar lefel mwy personol, gan gynnwys rhai o gefndiroedd lleiafrifol. | Mae mwy o gyfleoedd i staff gael dyrchafiad yn fewnol a mwy o gyfleoedd i recriwtio'n allanol ble nad yw sgiliau ar gael yn fewnol, gan felly wneud y gystadleuaeth yn un agored i bob person, beth bynnag fo'i ryw, hil, anabledd ac ati.<br><br>Mae gan GSC bellach ei dîm gweinyddu recriwtio ei hun, sydd ar gael i wneud gwaith allgymorth<br><br>Mae GSC yn gweithredu cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| | | ‘Dau Dic’ ble mae gwarant o gyfweliad i ymgeiswyr anabl cyn belled â’u wry n ateb holl ofynion lleiaf y swydd |
| Gwella’r lefel presennol o gynrychiolwyr o blith pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig o fewn gweithlu’r GSC o 3% | Datblygwyd rhwydwaith  o gysylltiadau a rhaglen allgymorth beilot yn ystod Ionawr 2005 gyda’r nod o gynyddu’r nifer o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy’n ymgeisio am ac yn cael swyddi yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | Dechreuodd y peilot ym Mawrth 05 felly mae’r canlyniadau yn llunio rhan o ganlyniadau 2005-06, fodd bynnag fe brofodd y peilot yn llwyddiannus a fel ar Orffennaf 05 mae cynrychiolaeth o blith pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn y Gwasanaeth yn 4.9%.  Nid yw hyn fodd bynnag yn wir trwy’r holl raddfeydd ac mae angen mwy o ddatblygiadau yn y maes hwn. |

**Swyddfa Ffioedd**
Yn gyfrifol am wneud yr holl daliadau cyflogau, pensiynau a lwfansau i Aelodau. Mae hefyd yn darparu i Aelodau'r Cynulliad gyngor ar faterion cyflogaeth, yn gweinyddu rhestr gyflogau a lwfansau teithio i staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac mae'n cyd-drefnu'r holl  gynllunio cyllidol, cyllidebu a'r gwaith gwybodaeth cynllunio corfforaethol i'r Clerc.

| Amcanion yr Is-adran/Gangen | Sut yr oedd cydraddoldeb wedi'i gorffori yn y blaenoriaeth hwnnw | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Byddwn ni'n darparu cyngor prydlon a chywir ar dâl, lwfansau, treuliau a phensiynau. | Mae'r rheolau ar lwfansau Aelodau wedi'i newid i gymryd ystyriaeth o anghenion Aelodau a'r cyhoedd sy'n anabl | Mae arian ychwanegol ar gael i Aelodau anabl<br><br>Mae arian ychwanegol ar gael i sicrhau ei □wry n hawdd cyrraedd swyddfeydd etholaethol Aelodau |
| Pryd bynnag y bo'n ymarferol, byddwn ni'n darparu ein gwasanaethau i  Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn ddwyieithog; byddwn yn gwireddu ein goblygiadau dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Cymru. | Mae delio gyda materion iaith Gymraeg ym mhob agwedd o weithgaredd y Swyddfa Ffioedd ble bynnag y bo'n ymarferol | Mae pob cyngor a chyfarwyddyd cyffredinol ar gael yn y ddwy iaith<br><br>Mae pob ffurflen ar gael yn y ddwy iaith |
| □wry n'n briodol, byddwn yn cydweithredu'n llwyr gyda chydweithwyr yng ngweddill y Cynulliad, tra'n diogelu hyder Aelodau  □wry n hannibyniaeth fel aelodau staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | Dim agweddau cydraddoldeb | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn hyfforddi, ysgogi a datblygu'r staff sy'n gweithio i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad, ac yn dennu a chadw staff da a cheisiwn ddarparu lefel broffesiynol o wasanaethau i'r holl gwsmeriaid, yn allanol ac yn fewnol. | Caiff materion mynediad sylw wrth nodi dulliau o roi sylw i anghenion hyfforddi | Caiff dyddiadau ac amseroedd y cyrsiau eu dewis i gwrdd ag anghenion unigolion ble bynnag y bo'n bosibl |
| Byddwn yn ceisio gwella ansawdd cynllunio a □wry n□ cyllidol yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | Dim agweddau cydraddoldeb | Dim |
| Byddwn yn cryfhau ein cydweithrediad gyda sefydliadau democrataidd eraill yn y Deyrnas Unedig, Ewrop, y Gymanwlad a gweddill y byd. Yn arbennig, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau gyda'r Swyddfa Ffioedd/ Cyllid yn holl Seneddau/Gynulliadau'r DU ac yn dysgu trwy brofiadau ein gilydd. | Dim agweddau cydraddoldeb | Dim |

| **Swyddfa Rheoli Cyfleusterau (OFM)**<br>Gwasanaeth adeiladau a chynnal adeiladau ar gyfer adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Lanfa. Goruchwylio'r holl gontractau domestig megis glanhau. Adleoli staff. Cyd-lynu ail-gylchu. Trafnidaeth a dulliau cadw ty gwyrdd. | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Is-adran/ Gangen** | **Sut yr oedd cydraddoldeb wedi'i gorffori yn y flaenoriaeth** | **Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol** |
| Ymrwymodd y Swyddfa Rheoli Cyfleusterau i hybu cyfle cyfartal ymhlith Aelodau'r Cynulliad, staff ac ymwelwyr â'r Cynulliad. | Caiff ei adlewyrchu mewn arferion ar gyfer staff a chwsmeriaid. Caiff pob ymwelydd ei drin yn gyfartal.<br><br>Cymerodd y SRhC ran mewn rhaglen ymarfer recriwtio allgymorth | Presenoldeb cryf o leiafrifoedd ethnig ymhlith staff sy'n cyfarch ymwelwyr (diogelwch)<br><br>Mae aelod o staff gafodd ei recriwtio trwy'r rhaglen allgymorth wedi'i benodi i swydd barhaol |
| Cynllunio a pharatoi ar gyfer trosglwyddo a gweithredu Adeilad Newydd y Cynulliad. | Cymryd rhan i gynhyrchu cynllun gweithredol i ymwelwyr ag Adeilad Newydd y Cynulliad i sicrhau fod y mynediad yn rhwydd i'r holl ymwelwyr. Bydd y cynllun yn cael ei brofi pan fydd yr adeilad yn weithredol. Mae'r mynediad yn eitem benodol ar gyfer ei drafod ar holl agendau'r Bwrdd Project. | Ystyriaeth fanwl a chynllunio trefniadau mynediad i a threfniadau o fewn yr Adeilad newydd gan gynnwys datblygu prosesau newydd a hyfforddi staff ar gyfer gweithredu a rheoli'r adeilad |
| Rheoli a chynnal a chadw adeiladau | • Ystyriaeth o ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd wrth baratoi'r fanyleb ar gyfer prosiectau mân waith. | Prosiect i osod ffonau argyfwng mewn mannau grisiau allanfeydd tân fel y gall staff ac ymwelwyr sy'n gorfod cael help i fynd allan yn hysbysu'r uned ddiogelwch yn ystod ymarfer gwacáu'r adeilad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Rheolaeth Iechyd a Diogelwch | Gwneud asesiadau arbenigol a rhoi i staff y cyfarpar arbenigol angenrheidiol i wneud eu dyletswyddau | Cyfarpar wedi'i ddarparu fel y nodwyd gan asesiadau. |

| **GWASANAETHAU SIAMBR**<br>Cyfrifol am reoli cyfarfodydd llawn a phrosesau a gysylltir gyda'r cyfarfodydd llawn, gan gynnwys cynhyrchu'r agenda a'r Pleidleisiau a'r Trafodion. Mae'n cefnogi'r Pwyllgor Busnes ac yn rhoi gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i gangen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn derbyn ac yn rhoi cyngor ar gyflwyno Cwestiynau, cynigion a newidiadau llafar ac ysgrifenedig gerbron y Cynulliad, ac mae'n ffynhonnell ar gyfer rhoi dogfennau gerbron y Cynulliad a derbyn deisebau a gymerir gan y Llywydd. Hefyd mae ganddo'r cyfrifoldeb am Gofrestru Buddiannau Aelodau ac mae'n darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad. | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Is-adran/ Gangen** | **Sut y cafodd cydraddoldeb ei gorffori yn y flaenoriaeth** | **Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol** |
| Rheoli gweithredu llwydiannus argymhellion Adolygiad Woodhouse o Safonau gan y Pwyllgor Safonau, gan gynnwys penodi Comisiynydd Safonau a chymeradwyaeth y Cynulliad i'r Weithdrefn Gwyno ddiwygiedig. | Gwnaethpwyd y penodi Comisiynydd Safonau mewn cydweithrediad â chanllawiau cyfle cyfartal. Mae Gweithdrefn Gwyno y Pwyllgor yn ymlynu wrth ganllawiau cyfleoedd cyfartal. | Mae gwaith y Pwyllgor Safonau a'r Weithdrefn Gwyno yn cydymffurfio gyda chanllawiau cyfle cyfartal. |
| I gryfhau gallu'r Is-adran i ymateb i amrywiadau tymor byr yn y llwyth gwaith trwy gyflwyno rhaglen o gysgodi gwaith / ennill profiad yn fewnol. | Dim mater cydraddoldeb | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth am waith y Cynulliad ymhlith Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. | Dim mater cydraddoldeb | |
| I sicrhau fod gan Aelodau y dogfennau angenrheidiol i wneud gwaith y Cynulliad yn effeithiol gan gynnwys Cyfarwyddyd diwygiedig ar gynigion a gweithredu'r Adolygiad o Reolau Sefydlog | Y dogfennau wedi'u gosod yn ddwyieithog ac yn unol gyda chanllawiau mynediad ICT gan y Swyddfa Gyflwyno | Y dogfennau ar gael i Aelodau i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog. |
| I ehangu'r gwasanaeth a ddarperir i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn y Cyfarfod Llawn trwy | Dim mater cydraddoldeb | |

| | | |
|---|---|---|
| sefydlu bas data o ddarnau o sgriptiau a bas data o ddyfarniadau'r Llywydd. | | |

**GWASANAETHAU YMCHWIL A PHWYLLGORAU YR AELODAU (MRCS):**

Ceisia'r MRCS

- Ddarparu gwasanaeth llyfrgell, ymchwil a gwybodaeth cyfrinachol a di-duedd i Aelodau'r Cynulliad, sy'n ddibynadwy, yn gywir ac yn ymatebol;
- Ddarparu gwasanaeth cymorth effeithiol ac effeithlon i bwyllgorau sefydlog, rhanbarthol a phwyllgorau pwnc y Cynulliad gan gynnwys darparu cyngor gweithdrefnol cywir;
- Gwneud ein gwaith bob dydd mewn modd proffesiynol, gan geisio gwella'r gwasanaeth a ddarparwn yn barhaus.

Yn ychwanegol at y pedwar amcan is-adrannol lefel uchaf isod, maes blaenoriaeth allweddol i'r is-adran yn 2004-05 oedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth . Yr oedd hyn yn cynnwys datblygu ffyrdd o weithredu argymhellion polisi 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb' y Pwyllgor Cyfle Cyfartal oedd yn berthnasol i'r is-adran.

| Amcanion yr Is-adran / Gangen | Sut y cafodd cydraddoldeb ei gorffori yn y flaenoriaeth | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| I wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei gyflwyno i'n cwsmeriaid. | Bydd gwybodaeth ystadegol dadgyfuno (offeryn allweddol mewn prif ffrydio cydraddoldeb) ar gael i Aelodau trwy ymatebion unigol i ymchwiliadau, pecynnau trafod a gwybodaeth Pwyllgorau ble □wry ar gael a thrwy ddweud □wry n'n briodol nad yw gwybodaeth ystadegol dadgyfuno ar gael. | Yr oedd yr wybodaeth ystadegol a ddarparwyd i Aelodau yn gyffredinol wedi'i dorri i lawr ble'r oedd ystadegau dadgyfuno ar gael. Ymhlith yr esiamplau yr oedd plant sy'n derbyn gofal yn ôl eu rhyw, a chryfder heddluoedd yn ôl eu rhyw a'u hethnigrwydd. Yr ydym hefyd wedi darparu gwybodaeth ystadegol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiad penodol megis sgiliau yn yr iaith Gymraeg y boblogaeth yn gyffredinol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd addasrwydd lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd y tu allan i Fae Caerdydd  eu hadolygu i sicrhau nad ydym □wry n□ neu’n rhwystro pobl gydag anghenion penodol rhag cymryd rhan. | I gydnabod pwysigrwydd gallu Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i roi gwybodaeth ystadegol a dadansoddiad, yn gyffredinol ac mewn perthynas â data dadgyfuno, bydd tîm ystadegol arbenigol yn cael ei sefydlu yn 2005-06.<br><br>Cafodd y rhestr wirio ar gyfer gwerthoedd allanol ei hadolygu a’i diweddaru gyda mewnbwn gan y Comisiwn Hawliau’r Anabl, i sicrhau mynediad. Mae gofyn ar i staff ddilyn y rhestr wirio ddiweddaraf wrth archebu lleoliadau y tu allan i’r safle. |
| Sicrhau fod gan Aelodau’r Cynulliad a phwyllgorau unigol ddigon o adnodau i alluogi craffu mwy effeithiol ar bolisiau a deddfwriaethau sydd i ddod | Mae’r Gwasanaethau Pwyllgorau wedi helpu i hwyluso gweithrediad argymhelliad 5 adolygiad polisi ‘Prif Ffrydio Cydraddoldeb’ y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y dylai Gweinidogion sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio mewn pob maes polisi y □wry  yn gyfrifol amdano, trwy graffu gan Weinidogion y Cynulliad ar □wry n waith y Pwyllgor Cyfle cyfartal.  Rhoddodd y Gwasanaeth Ymchwil Aelodau wybodaeth ar gyfer y | Cafodd saith Gweinidog gwahanol eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i drafod ystod o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys Sipsiwn a Chrwydrwyr, lloches, a gofal plant. |

| | | |
|---|---|---|
| | sesiynau hyn.<br><br>Rhoddodd MRCS wybodaeth i bwyllgorau am adolygiadau polisi e.e ar gyfer adolygiad y Pwylgor Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth o anweithgarwch economaidd gan ganolbwyntio'n arbennig ar rieni sengl (benywaidd yn bennaf) ac adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar gamddefnyddio sylweddau (ceir mwy o wybodaeth yn yr astudiaeth achos isod.)<br><br>Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn, ac mae'n parhau i gael ei wahodd i fynychu holl gyfarfodydd y Panel Cadeiryddion ac unwaith y tymor darparodd adroddiad i'r Panel ar waith y Pwyllgor, yn arbennig gyda golwg ar yr agenda 'brif ffrydio'. Mae'r MRCS yn rhoi gwybodaeth gryno i'r Cadeirydd ar yr adroddiadau hyn ac yn cefnogi Cadeiryddion Pwyllgorau eraill i weithredu'r agenda 'prif ffrydio'.<br><br>Mae ystyriaeth i faterion gwahaniaethu a | Gweithredodd yr wybodaeth hon fel cam sylfaen i drafod y materion perthnasol.<br><br>Yng nghyfarfod Panel y Cadeiryddion a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2005, cafodd y Panel gyflwyniad gan Wahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar sut y gallai cydraddoldeb gael ei brif ffrydio o fewn Pwyllgorau.<br><br>Mae'r Panel hefyd wedi ystyried cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad, Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant a Threfniadau Mynediad ar gyfer cyfarfodydd yn yr adeilad newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | chydraddoldeb yn gynwysiedig yn y broses asesu ansawdd annibynnol briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, ar gyfer aelodau unigol ac ar gyfer Pwyllgorau. Am gyfnod peilot, yr oedd oedd pob adroddiad ysgrifenedig yn cael asesiad ansawdd annibynnol, gydag ystyriaeth i faterion cydbwysedd, tegwch a'r graddau yr oedd yr wybodaeth yn rhoi sylw i faterion gwahaniaethu a chydraddoldeb.<br><br>Mae nifer cynyddol o friffiau Pwyllgorau yn ystyried maes cwestiynau sy'n ceisio archwilio, er enghraifft, sut mae polisiau yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl. Yr oedd briffio ar y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar gyfer ymweliadau craffu rapporteur i Arolygiaeth Cynllunio Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynnwys awgrymiadau o gwestiynau ar faterion cydraddoldeb.<br><br>Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi cynnwys mwy o faterion croestoriad mewn papurau ar gyfer craffu ar y gyllideb. | Mae'r asesiad ansawdd bellach wedi'i adolygu ac mae'r grwp yn llunio cyfarwyddyd staff digwygiedig. Tra y cydnabyddir mai cam bychan yw hwn tuag at brif ffrydio cydraddoldeb i waith Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, mae wedi creu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad staff am faterion allweddol.<br><br>Ar y ddau achlysur a gyfeirir atynt yng ngholofn 2, bu'r cwestiynau yn sylfaen i drafodaeth ar ystod o faterion gan gynnwys arferion cyflogaeth (gyda golwg ar genedl / lleiafrifoedd ethnig), codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig a defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>Yr oedd papur cyfarwyddyd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar graffu cyllidebol i Aelodau, yn tanlinellu'n benodol gydraddoldeb fel mater a ddylai gael ei ystyried, a chodwyd hwn fel mater allweddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | ym mhapur briffio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar gyfer rownd mis Mai (a ddefnyddiwyd fel templad ar gyfer papurau Pwyllgorau eraill). |
| I wella cyfathrebu yn yr is-adran, gyda'n cwsmeriaid a'n partneriaid. | Trefnwyd sesiynau trafodaeth gyda siaradwyr gwadd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth. | Mae sesiynau wedi'u cyflwyno ar gyfrifoldebau Aelodau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (gyda siaradwr o'r Comisiwn Hawliau'r Anabl) a Phrif Ffrydio Cydraddoldeb (Yr Athro Teresa Rees o Brifysgol Caerdydd). Mae sesiwn pellach ar oblygiadau ymarferol Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad yn cael ei ystyried ar gyfer 2005-06. Mae llawer o bobl wedi mynychu'r sesiynau codi ymwybyddiaeth hyn – rhwng 20 a 25 o bobl, yn cynnwys Aelodau a'u staff cymorth. |
| I sicrhau fod staff sy'n gweithio yn MRCS yn cael cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau eu hunain i gyflwyno'r gwasanaeth o ansawdd da i Aelodau'r Cynulliad. | Ystyriaeth i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gyflwyno offeryn gwella a chyflwyno y gwasanaeth yn y Gwasanaeth Ymchwil Aelodau. | Mae'r Gwasanaeth Ymchwil Aelodau wedi datblygu dull sy'n nodi'r camau allweddol ddylid eu cymryd gan ymchwilwyr wrth ateb ymholiadau Aelodau. Mae'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys ystyriaeth i effaith polisi neu gyfraith ar grwpiau neu gymunedau penodol. Bydd staff newydd a phresennol o staff yn cael eu cyflwyno i'r dull yn 2005-6 |
| | Sefydlwyd sesiynau a systemau ymwybyddiaeth staff ar gyfer □wry n□'r cydymffurfio'n rheolaidd gyda'r Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog (BSS). | Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth staff ac mae staff MRCS wedi'u cynnwys i ddatblygu Canllaw a gweithdrefnau □wry n□ i sicrhau gweithrediad effeithiol y datganiad. Trwy gydymffurfio gyda'r Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog mae gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gyflwyno. |
| | Cyd-gysylltiad gyda Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i rannu arferion gorau ac i ddatblygu cyfarwyddyd i staff MRCS ar faterion cydraddoldeb. Yr oedd hefyd drafodaethau rheolaidd gydag Uned Bolisi Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru. | (a) Aeth staff i seminar is-adrannol i drafod sut y □wry n□ hwy adeiladu ystyriaethau cydraddoldeb i mewn i'w gwaith.<br>(b) Cyhoeddwyd rhestr wirio cydraddoldeb mewn ymgynghoriad gyda'r Gwahoddedigion Sefydlog, yn Chwefror 2005 fel gwybodaeth i waith y Pwyllgorau yn y dyfodol. |

**Gwahoddwyd canghennau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i ddarparu astudiaeth achos fer yn dangos effaith polisi/rhaglen/ menter yn tynnu sylw at feysydd arfer da a/neu hanesion o lwyddiant unigol yn hyrwyddo cydraddoldeb**

**Gwasanaethau Corfforaethol**

Mae GSC wedi cymryd rhan mewn peilot recriwtio allanol yr oedd cynllunio a datblygu cysylltiadau wedi digwydd ar ei gyfer yn 2004-05; cwblheir ymestyn y peilot yn ystod 2005-06 ac felly bydd yn □wry o adroddiad y flwyddyn nesaf. Llenwodd ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol y ddwy swydd a hysbysebwyd trwy'r peilot.

Darparodd GSC leoliadau i 6 o fyfyrwyr ar y rhaglen Ysgoloriaeth Chevening.

**Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

(2) Wrth ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i wneud eu hadolygiad polisi o'r gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau, helpodd y tîm MRCS i hwyluso ystyriaeth Aelodau'r Pwyllgor am effaith y polisi ar bobl o wahanol gymunedau, cefndiroedd ac amgylchiadau. Er enghraifft, darparodd y tîm gyngor i'r Cadeirydd i'w helpu hi i sicrhau fod darparwyr gwasanaethau a'r comisiynwyr gydag ystod eang o brofiadau yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth, gan gynnwys rhai a oedd wedi'u lleoli mewn gwahanol gymunedau trwy Gymru a rhai gyda diddordeb arbennig, megis y gwasanaeth bydwreigiaeth arbenigol yng Ngogledd Cymru.

Hefyd rhoesant wybodaeth i Aelodau ac awgrymu meysydd cwestiynu oedd yn rhoi sylw i ystod o faterion oedd yn canolbwyntio ar gyfartaledd gan gynnwys mynediad corfforol at wasanaethau i bobl gyda phroblemau symud a'r rhai nad oedd yn cael eu gwasanaethu cystal gan drafnidiaeth a gwasanaethau lleol, camddefnyddwyr sylweddau sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig y rhai sydd mewn carchardai, ac anghenion pobl hyn.

Ar sail dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd ac arsylliadau fod rhai cymunedau'n ymddangos eu □wry n cael eu tan-gynrychioli yn y gwasanaethau triniaeth, er enghraifft, y rhai mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, awgrymodd y tîm fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y rhwystrau sy'n atal neu'n rhwystro pobl rhag mynd at wasanaethau triniaeth yn ystod ail □wry n hadolygiad yn 2005-06. Cytunodd y Pwyllgor i hyn.

(2) Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi penodi hwylusydd proffesiynol ar gyfer grwp cynghori cyfeiriol o bobl ifanc anabl i gynghori ar ei adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth i bobl ifanc anabl. Mae'r tîm sy'n cefnogi'r Pwyllgor wedi llwyddo i gynnal perthynas dda rhwng yr hwylusydd a'r grwp cyfeirio a'r Pwyllgor i helpu i sicrhau y gall y bobl ifanc gymryd rhan mor gyflawn ag y bo modd yn y broses. Bydd gwersi a ddysgir o'r ymarfer hwn yn parhau i gael eu rhannu gyda thimau Pwyllgorau eraill a bydd yn ffurfio rhan o gyfarwyddyd gweithdrefnau diwygiedig o fewn yr adran ar arferion gorau mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

**Cysylltiadau gyda'r Cyfryngau**

Er mwyn gwneud y mwyaf o gyfle i roi cyhoeddusrwydd i adolygiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru, cafwyd cyngor gan gysylltiadau'r cyfryngau y dylid lansio'r adolygiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth llawer o'r cyhoedd yn gyffredinol ac o grwpiau â diddordeb arbennig ac fe'i gwnaethpwyd yn gyhoeddus yn y cyfryngau Cymraeg a Saesneg.

**Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg**

Mae 2004-05 wedi cyflwyno sawl her i Gangen Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg a'i staff. Yr oedd adeiladu'r Siambr newydd ac adnewyddu Adeilad y Lanfa yn golygu fod y prif ffyrdd drwodd wedi cau dros dro ac yr oedd yn rhaid i ymwelwyr fynd i mewn i'r ganolfan arddangos ar hyd llwybr arall o gwmpas Canolfan y Mileniwm neu Gei Britannia. Achosodd hyn anhawster mawr i'r holl staff oedd yn ymwneud â rhoi teithiau o gylch ystad y Cynulliad ym Mae Caerdydd. Yr oedd y staff a'r rheolwyr yn benderfynol o ddarparu gwasanaeth da er gwaetha'r anawsterau hyn, i sicrhau fod ymwelwyr yn cael ymweliad cofiadwy a gwasanaeth heb ei ail.

Profwyd gallu y staff pan wnaeth ysgol anghenion arbennig gais i gael ymweld yn Hydref 2004. Gofynnodd hanner cant o bobl ifanc, llawer ohonynt gydag amhariadau corfforol, synhwyraidd ac amhariadau dysgu, am ymweliad addysgol a thaith o amgylch y Cynulliad. Yr oedd cyrraedd Adeilad y Lanfa yn golygu taith gerdded hir ar hyd Cei Britannia, ar hyd y Promenâd ac i fyny ar Gei'r Forforwyn.

Ar ôl ymgynghori gyda'r ysgol penderfynwyd y byddai'r ymweliad yn aros o fewn Adeilad y Cynulliad, gan ddefnyddio'r tair Ystafell Bwyllgora ac y byddai taith gyflawn o Siambr y Cynulliad. Fe aeth yr ymweliad yn dda ac yr oedd yr arfarniad gan yr ysgol yn ardderchog. Profwyd hyn gan fod yr ysgol wedi archebu taith ar gyfer yr ysgol y flwyddyn ganlynol hefyd.

**Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi y Seneddol**

Oherwydd ei hamgylchiadau personol, gofynnodd aelod o staff parhaol a oedd wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd am gael parhau i weithio i'r Cynulliad fel Gweithiwr Cartref. Mewn cyd-weithrediad gyda Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad, Adnoddau Dynol a Merlin, gweithredwyd hyn yn fuan. Felly llwyddodd y Cynulliad i gadw aelod o staff medrus a phrofiadol iawn mewn maes ble mae prinder sgiliau.

| **Gwahoddwyd canghennau GSC hefyd i ddarparu manylion am bolisïau penodol neu swyddogaethau busnes perthnasol i gydraddoldeb. Darparwyd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Swyddogaeth Busnes/Polisi Penodol perthnasol i faterion Cydraddoldeb*** | **Beth oedd amcanion y polisi/ swyddogaeth?** | **Beth a gyflawnodd/ Beth oedd y canlyniad?** | **Meysydd cydraddoldeb a gynhwyswyd?** |
| **Gwybodaeth Gyhoeddus ac Addysg**<br>I gwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae'n berthnasol i'r gwasanaeth a ddarparwn ni. | Y nod oedd hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd ar sut i gyrraedd gwybodaeth a sut i gysylltu ag Aelodau'r Cynulliad, ac i ystyried y gwasanaethau mewn perthynas ag ieithoedd lleiafrifol eraill megis iaith arwyddo a ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. | Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar y teleffon bellach ar gael a all roi cyfleusterau cyfieithu ar y ffôn mewn hyd at □wry deg o ieithoedd. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl sy'n mynd at Wasanaeth Gwybodaeth a Llinell Archebu y Cynulliad. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg**<br>I sicrhau fod staff GSC â'r sgiliau i gyflwyno gwasanaeth rhagorol o fewn holl swyddogaethau'r Cynulliad. | Mae'r Cydlynydd Mynediad wedi datblygu pecyn hyfforddi cydraddoldeb a mynediad. Mae hwn yn cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, materion mynediad i'r anabl, a materion rhyw, oedran a thueddiadau rhywiol. Mae'r pecyn hyfforddi wedi'i lunio ar gyfer y gwaith a'r gwasanaeth a ddarperir gan staff GSC ac mae'n cael ei gyflwyno fel rhan o □wry n gynefino staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. | Mae'r holl staff yn □wry n cael hyfforddiant cydraddoldeb a mynediad fel rhan o'u pecyn cynefino. Yn ychwanegol caiff yr holl staff Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Addysg hyfforddiant gloywi rheolaidd ac mae'r gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i asesu gan y Cydlynydd Mynediad. | Hil, Anabledd, Oed, Tueddiad Rhywiol, Crefydd |
| **Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi y Cynulliad**<br>Cyflwyno gwasanaeth cyfieithu cwbl ddwyieithog, gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, golygu a chofnodi | Cwrdd â gofynion y Ddeddf Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarparwn | Aaelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff sy'n cyfathrebu'n ddwyieithog | Iaith |

**Atodiad C**

## Y CHWECHED ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFLE CYFARTAL: 2004-2005

Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Rhagair gan Jane Hutt | | 49 |
| Pennod 1 | Rhagymadrodd | 51 |
| Pennod 2 | Y Cyd-destun Deddfwriaethol | 52 |
| Pennod 3 | Cymru: Y Sefyllfa Bresennol | 54 |
| Pennod 4 | Hyrwyddo Cydraddoldeb - Ei Wneud yn Nod Strategol | 55 |
| Pennod 5 | Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Dull o Wneud Busnes | 57 |
| Pennod 6 | Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Gwaith | 59 |
| Pennod 7 | Y Camau Nesaf | 80 |
| Atodiad A | Adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol | 89 |
| Atodiad B | Cyfraniadau gan Adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol | 99 |

**Rhagair gan Jane Hutt**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan ddyletswydd statudol i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb ym mhob agwedd ar fywyd Cymru heb wahaniaethu ar sail oed, anabledd, rhyw, iaith, hil, crefydd a chred neu dueddfryd rhywiol. Mae'r ddyletswydd hon wedi arwain at ddatblygu agenda neilltuol ar gydraddoldeb yng Nghymru ac mae wedi cael effaith sylweddol ar ein polisïau strategol.

Cydraddoldeb yw'r sylfaen i weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad fel y mae wedi'i nodi yn Cymru: Gwlad Well[1], ac mae'n un o'r pedair prif egwyddor sydd wedi'u disgrifio yn Creu'r Cysylltiadau[2], dull radicalaidd Llywodraeth y Cynulliad o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar gydweithio a chydweithredu yn hytrach na chystadlu a phris. Yn fwy diweddar, cafwyd cadarnhad gan y Prif Weinidog o'r pwys mawr a roddir ar yr ymrwymiad i gyfle cyfartal yn ei adroddiad blynyddol "Cyflawni Ein Haddewidion"[3].

Credaf fod yr adroddiad hwn - chweched adroddiad blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gydraddoldeb - yn gofnod cynhwysfawr o'r cynnydd a wnaethom wrth gyflawni'r ddyletswydd statudol ar gyfer 2004-2005. Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb hefyd, ac yn dangos sut y mae pwerau pell-gyrhaeddol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cynnwys amryw o agweddau ar fywyd cyhoeddus, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i hyrwyddo cyfle cyfartal yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i mi, fel Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, i bwyso a mesur perfformiad Llywodraeth y Cynulliad hyd yma; i dynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer da ac arloesedd a welwyd yn Adrannau'r Cynulliad; ac i bennu meysydd lle y mae angen cymryd camau yn y dyfodol. Ceir enghreifftiau amrywiol yn yr holl bortffolios Gweinidogol o'r modd y mae cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yng ngwaith pob dydd Llywodraeth y Cynulliad ac o'r math o effaith fuddiol uniongyrchol a gaiff ein camau gweithredu ar fywydau pobl.

Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnig llinell sylfaen bwysig ar gyfer mesur perfformiad Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol o ran cyflawni'r ddyletswydd statudol hon.

Ers ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros gydraddoldeb yn gynharach eleni, rwyf wedi gwrando ar adborth gan fy nghyd-Aelodau ynghylch adroddiad blynyddol y flwyddyn ddiwethaf (2003-2004)[4], yn enwedig hynny a gafwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Rwyf wedi croesawu'r mewnbwn a gafwyd ganddynt, a fu o gymorth wrth bennu ffurf yr adroddiad ar gyfer eleni. Rwyf am weld mwy o bwyslais ar ganlyniadau yn yr adroddiadau hyn: dyma'r cam cyntaf tuag at gyflawni hynny, er bod llawer i'w wneud eto o ran ceisio cael ffocws clir a phendant ar ganlyniadau o ran cydraddoldeb. Er hynny, credaf fod hyn yn adlewyrchiad cywir o'r gwaith pwysig a wnaethom i hyrwyddo cydraddoldeb yn 2004-2005. Disgwyliaf weld datblygu pellach ar hyn ym mlynyddoedd y dyfodol wrth inni ennill profiad.

Rwyf yn falch o roi gwybod bod newid gwirioneddol wedi bod, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni ei busnes mewn cysylltiad â chydraddoldeb. Mae'r newid hwnnw'n ganlyniad, yn bennaf, i'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol newydd Llywodraeth y Cynulliad (2005-2008)[5].

Mae Adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau rhoi sylw manwl i'r cysylltiad rhwng materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'u meysydd gwaith penodol. Derbyniaf fod gwaith pellach i'w wneud, ac mai proses araf yw newid arferion mewn corff mor fawr â'r Cynulliad. Rwyf yn ffyddiog, er hynny, y bydd gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol[5], a'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb fwy cyffredinol, yn gymorth i wneud cydraddoldeb yn rhan annatod o waith Llywodraeth y Cynulliad o ddydd i ddydd. Hyrwyddir y broses hon hefyd drwy brofi polisïau, a mesurau cydymffurfio a roddir ar waith i weithredu Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad[6] a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad[7].

Carwn ddiolch i aelodau allanol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brif Ffrydio, yr oedd yr Uned Bolisi Cydraddoldeb wedi ymgynghori â hwy wrth ddatblygu patrwm newydd yr adroddiadau, am eu gwaith parhaus ar y strategaeth ar gyfer prif ffrydio.

## 1. Rhagymadrodd

1.1 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i roi dan ddyletswydd statudol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru[8] i sicrhau bod cyfle cyfartal wedi'i ymgorffori yn ei waith. Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai'r Cynulliad "wneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer dan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb".

1.2 Hwn yw chweched Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gydraddoldeb, ac mae'n trafod y cyfnod o Ebrill 2004 i Fawrth 2005. Mae fformat yr adroddiad ar gyfer eleni wedi'i bennu yng ngoleuni adborth o adroddiadau blaenorol, ac mae'n ceisio cyfleu darlun clir o'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ystod y flwyddyn ariannol, i hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gwaith a wneir yn gorfforaethol ar y broses polisi a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, ac yn tynnu sylw at feysydd gwaith penodol ym mhrif Adrannau polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol yn Atodiad A. Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno yng nghyd-destun y perfformiad ar gydraddoldeb yng Nghymru gyfan, gyda dadansoddiad ystadegol o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb sy'n dangos tueddiadau a chymariaethau lle y mae gwybodaeth ar gael, ac mae enwau'r prif ddogfennau ystadegol wedi'u nodi. Ymhlith y rhain y mae Ffocws Ystadegol ar Amrywiaeth yng Nghymru [argraffiad 2005][9], Economic Activity in Wales 2003[10], yr Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion 2004: Average earnings in Wales and the United Kingdom[11], Arolwg Iechyd Cymru 2003-2004[12] a gwybodaeth o gyfrifiadau[13]. Mae cyfraniadau gan Adrannau wedi'u cynnwys fel atodiad i'r adroddiad, ac maent yn nodi prif amcanion pob adran mewn cysylltiad â'i phortffolio yn ogystal â chofnod o unrhyw swyddogaethau polisi neu fusnes ychwanegol sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae'r cyfraniadau hyn gan Adrannau'n ymgais i gyfleu darlun cynhwysfawr o weithgarwch a gwybodaeth, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio i ganfod bylchau a dangos sut y rhoddir sylw i'r rhain yn y dyfodol.

1.3 Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cydraddoldeb wedi'i seilio ar yr egwyddor o gyfle cyfartal i bawb. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd Cymru, gan gynnwys hil, iaith, crefydd, anabledd, oed, rhyw a thueddfryd rhywiol. Un anghenraid allweddol i wireddu'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb yw'r egwyddor o brif ffrydio, hynny yw, integreiddio egwyddorion, strategaethau a chamau gweithredu sy'n ymwneud â chyfle cyfartal â gwaith pob dydd llywodraeth.

1.4 Diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd[14] o brif ffrydio cydraddoldeb yw "peidio â chyfyngu ymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb i gamau gweithredu penodol, ond trefnu'r **holl** bolisïau a mesurau cyffredinol mewn modd penodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb". Er mwyn gwneud hynny, rhaid inni sicrhau bod cymorth ar gael yn rhwydd i lunwyr polisïau ar ffurf offer, hyfforddiant a chyngor, ac mae gwaith datblygu sylweddol yn mynd ymlaen o fewn Llywodraeth y Cynulliad a chyda'i phartneriaid i sicrhau hynny.

## 2. Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru sy'n cynnig y sail gyffredinol i'r ddyletswydd o ran cydraddoldeb. Mae'r rhwymedigaethau ar gydraddoldeb yn gweithio fel gorchmynion cyfreithiol, ac maent yn berthnasol i'r holl swyddogaethau datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys addysg, datblygu economaidd, iechyd, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio, trafnidiaeth, tai a diwydiant. Er bod y ddyletswydd o ran cydraddoldeb yn rhwymo'r Cynulliad Cenedlaethol fel cyfangorff, mae'r prif gyfrifoldeb yn perthyn i Lywodraeth y Cynulliad, sy'n arfer bron y cwbl o swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol. O dan y ddyletswydd ar gydraddoldeb, gall y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol yn y llysoedd (a bod yn destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru) os yw grwpiau neu unigolion yn teimlo ei fod wedi methu â chydymffurfio â'i thelerau. Mae amryw o eitemau deddfwriaeth sy'n sail i'r agenda ar gydraddoldebau, gan gynnwys: Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976[15]; Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000[16]; Deddf yr Iaith Gymraeg 1993[17]; Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975[18]; Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Newid Rhyw) 1999[19]; Deddf Cydnabod Rhyw 2004[20]; Deddf Partneriaeth Sifil 2005[21]; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003[22]; Deddf Cyflog Cyfartal 1970[23]; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985[24]; Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003[25]; a Deddf Hawliau Dynol 1998[26].

**Y Fframwaith Deddfwriaethol yn y Dyfodol**

2.2 Cafwyd problemau'n aml wrth geisio mynd â'r maen i'r wal oherwydd cymhlethdod a chyflwr tameidiog y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, felly mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi'r alwad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am ddeddf cydraddoldeb gyfun. Gan edrych tua'r dyfodol, mae sawl eitem ddeddfwriaeth yn yr arfaeth.

(i) Bydd y Mesur Cydraddoldeb a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ef yn gymorth i roi pob agwedd ar gydraddoldeb ar sail fwy cyffredin, ac yn ei gwneud yn haws o lawer prif ffrydio cydraddoldeb yn ei gyfanrwydd ym musnes llywodraeth. Mae'r Mesur yn nodi cynlluniau i sefydlu corff newydd, yn Hydref 2007, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD). Bydd pwerau pell-gyrhaeddol gan y corff hwn i ddelio â gwahaniaethu a rhagfarn, ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

(ii) Drwy sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, bydd gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn cael ei gyfuno mewn un corff. Y bwriad yw sefydlu'r CCHD yn Hydref 2007 i ofalu am bob maes heblaw'r rhai y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn gyfrifol amdanynt. Byddai'r meysydd hyn yn parhau dan ofal y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol tan Ebrill 2009, pan fyddai cyfrifoldebau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu trosglwyddo i'r CCHD.

Bydd y CCHD yn arfer cyfrifoldeb hefyd dros y meysydd cydraddoldeb newydd, sef oed, crefydd a chred, a thueddfryd rhywiol, a bydd yn ymdrechu i hyrwyddo hawliau dynol. Bydd yn ofynnol i'r CCHD wneud archwiliad rheolaidd o gydraddoldeb a elwir yn adroddiad ar 'Gyflwr y Genedl' ar gyfer Prydain, a bydd yn gweithio gydag unigolion,

cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i ganfod dulliau newydd a mwy effeithiol o roi cyfle i bawb yn y gymdeithas gael gwireddu eu potensial yn llawn.

Mae'r Mesur Cydraddoldeb yn cynnwys pwerau newydd hefyd i wahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred mewn cysylltiad â nwyddau a gwasanaethau, ac yn rhoi awdurdodau cyhoeddus dan ddyletswydd newydd i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod, ac i wahardd gwahaniaethu ar sail rhyw wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus. Bydd y Mesur hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno rheolau i wahardd gwahaniaethu mewn cysylltiad â nwyddau a gwasanaethau ar gyfer pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol.

(iii) Mae Adolygiad o Gydraddoldebau ac Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu'n cael eu cynnal, ac yn cael eu goruchwylio ar y cyd gan Weinidogion o'r Adran Diwydiant a Masnach a Swyddfa'r Cabinet. Bydd Tîm yr Adolygiad o Gydraddoldebau a Thîm yr Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu'n ymgynghori â Grŵp Cyfeirio a fydd yn cynnwys aelodau o blith rhanddeiliaid allweddol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol ac arbenigwyr eraill. Mae'r Cynulliad wedi enwebu cynrychiolydd o Gymru i fod yn aelod o'r Grŵp hwn.

Un o rolau'r Adolygiad o Gydraddoldebau fydd cynghori ynghylch moderneiddio deddfwriaeth ar wahaniaethu - gyda'r amcan o gael Deddf Cydraddoldeb Gyfun. Bydd yr Adolygiad o Gyfraith Gwahaniaethu'n llunio cynigion ar gyfer fframwaith modern a chydlynol ar gyfer y maes cyfreithiol hwn a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn rhoi Mesur Cydraddoldeb Cyfun gerbron ar y cyfle cyntaf posibl.

## 3. Cymru: Y Sefyllfa Bresennol

3.1 Er bod rhai data ar gydraddoldeb yng Nghymru, gwyddom fod nifer o fylchau ac anghysonderau hefyd. Mae rhai o'r bylchau hynny wedi'u nodi yn "Ffocws Ystadegol ar Amrywiaeth"[9], a gyhoeddwyd yn Awst 2005. Mae'r ddogfen honno'n dangos ein bod yn gallu dadansoddi llawer o feysydd yn ôl oed a rhyw ar hyn o bryd, ond nad oes gennym unrhyw ddata swyddogol sy'n ymwneud â meysydd eraill fel tueddfryd rhywiol.

3.2 Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo'n awr i ddadansoddi'r data presennol er mwyn cael cipolwg ar y sefyllfa o ran cydraddoldeb yng Nghymru. Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn gweithio ar brosiect a fydd yn cynnig cipolwg ar y sefyllfa o ran cydraddoldeb yng Nghymru ar gyfer sawl adran. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a fydd yn berthnasol i bob un o'r 5 prif flaenoriaeth sydd gan bob adran ar gyfer cydraddoldeb.

3.3 Bydd asesiad annibynnol o'r modd y mae cydraddoldeb wedi'i hyrwyddo yn holl bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2006. Bydd hwn yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae'r ddyletswydd ar gydraddoldeb wedi'i hadlewyrchu yn y prif bolisïau a rhaglenni; y graddau y mae'r ddyletswydd ar gydraddoldeb yn cael ei hymgorffori yn y prosesau penderfynu; a'r effaith y mae'r gwaith yn y meysydd hyn wedi'i chael o ran mynd â'r maen i'r wal er mwyn y cyhoedd.

3.4 Mae Gweithgor Ymchwil, Ystadegau a Mesuryddion Perfformiad wedi'i sefydlu hefyd i ganfod bylchau pellach mewn gwybodaeth ac i gynghori Llywodraeth y Cynulliad ar y ffordd orau i'w llenwi. Enw blaenorol y grŵp hwn oedd y Gweithgor Ymchwil, Ystadegau a Mesuryddion Perfformiad ar Ethnigrwydd, ac fe'i sefydlwyd i ganfod pa wybodaeth a oedd gan Lywodraeth y Cynulliad, a'r hyn yr oedd arni ei hangen, er mwyn cyflawni'n hymrwymiadau o dan y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.[5] Fodd bynnag, gyda sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brif Ffrydio, penderfynwyd y dylid ehangu'r grŵp fel y gallai ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ar gyfer yr holl feysydd cydraddoldeb.

## 4. Hyrwyddo Cydraddoldeb - Ei Wneud yn Nod Strategol

4.1 Mae'r ymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal wedi'i gadarnhau yn nogfennau strategaeth allweddol Llywodraeth y Cynulliad.

(i) Fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd, mae agenda strategol gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad "Cymru: Gwlad Well"[1], yn gwneud cydraddoldeb yn egwyddor allweddol ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy, gan roi ymrwymiad i "hyrwyddo cydraddoldeb y rhywiau, cysylltiadau hiliol da a chydraddoldeb hiliol ac i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed ac anabledd". Mae'r strategaeth yn tynnu sylw wedyn at themâu polisi allweddol i wella bywyd pobl yng Nghymru. Y rhain yw:

- Creu gwell swyddi a gwella sgiliau
- Gwella iechyd
- Datblygu cymunedau cryf a diogel

(ii) "Creu'r Cysylltiadau"[2] yw gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a'r modd y maent yn cael eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru. Ei egwyddorion craidd yw:

- sicrhau bod y dinesydd ar ganol y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- sicrhau Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol;
- gweithio gyda'n gilydd i fwy o raddau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru; a
- cael y gwerth gorau am arian er mwyn cael y budd mwyaf posibl o'r buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae "Creu'r Cysylltiadau"[2] yn datgan bod "rhaid i bob dinesydd gael cyfle i gyfrannu i fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u hil, eu hiaith, eu crefydd, eu hanabledd, eu hoed, eu rhyw a'u tueddfryd rhywiol".

Yn "Cyflawni'r Cysylltiadau" nodir y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i hyrwyddo cydraddoldeb wrth wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith y rhain y mae nifer mawr o gamau gweithredu o dan bortffolios Gweinidogol penodol, gan gynnwys polisïau a rhaglenni i wella gwasanaethau i gwsmeriaid ar gyfer grwpiau difreintiedig, lleiafrifol a rhai sy'n agored i niwed, ac i wella'r cysylltiadau cyhoeddus â hwy.

(ii) Mae Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007[7] Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gweithredu gan roi sylw manwl i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal. Y rheswm dros hynny yw ei bod cyfle cyfartal yn hollbwysig er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Mae'n un o'r nodweddion a welir mewn cymdeithas sy'n gweithio'n dda, ac sydd â llawer o 'gyfalaf cymdeithasol'. Mae'n hollbwysig ei hyrwyddo er mwyn diwallu anghenion pobl heddiw, a hefyd i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion.

(iii) Mae "Pobl, Lleoedd, Dyfodol, Cynllun Gofodol Cymru[27]" yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i addasu ei pholisïau fel eu bod yn bodloni gwahanol anghenion y gwahanol rannau o Gymru. Y bwriad yw y bydd gan bob rhan o Gymru ei gweledigaeth gytunedig ei hun a chamau gweithredu a fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy, a bydd cydraddoldeb yn rhan annatod o hynny.

## 5. Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Dull o Wneud Busnes

**Prif Ffrydio a Phroses y Porth i Bolisïau**

5.1 Yn yr Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad, nodwyd argymhellion manwl ar y modd y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i osod sylfaen ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal o fewn Llywodraeth y Cynulliad, a bwriedir gwneud gwaith pellach i ddatblygu meysydd lle y canfuwyd bylchau a gwendidau.

5.2 Un agwedd allweddol ar brif ffrydio yw'r defnydd effeithiol o ddulliau corfforaethol o brawfesur polisïau. Rhoddwyd prawf ar y Porth i Bolisïau, a'r Offeryn Integreiddio Polisi sy'n ei ategu, yn 2004-2005, ac fe'i cyflwynwyd ar gyfer yr holl ymgyngoriadau ar bolisi strategol o Wanwyn 2005. Mae hwn yn ddull o roi prawf ar bob polisi strategol newydd gan ei fesur yn erbyn nodau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys meysydd cydraddoldeb. Os gwelir bod effeithiau difrifol, mae'n tynnu sylw at yr angen am asesiadau penodol pellach. Cafwyd awgrym yn yr Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb[4] y gellid cryfhau'r broses hon. Mae'r argymhelliad hwnnw wedi'i dderbyn, a bydd gwaith ar gyfer ei roi ar waith yn cael ei gwblhau yn 2005-2006.

5.3 Yn 2004, lansiwyd cwrs hyfforddi modiwlaidd ar bolisi sydd wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth y Cynulliad ei hun ar gyfer ei rheolwyr canol. Mae'r cwrs hwn wedi'i seilio ar ddull o lunio polisi drwy brif ffrydio ac mae wedi'i wreiddio yn nyletswyddau neilltuol y Cynulliad. Mae 66 o aelodau staff wedi cwblhau blwyddyn gyntaf y rhaglen ar argymhelliad pennaeth eu Hadran ac, yng ngolwg yr adborth a gafwyd, mae'r rhaglen wedi'i dyblu o ran ei maint ar gyfer 2005-2006.

**Cynllun Cydraddoldeb Hiliol**

5.4 Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol newydd[5] yn ystod 2004-2005, ac fe'i cyhoeddwyd ym Mawrth 2005. Mae'r cynllun hwn yn nodi ymrwymiad y Cynulliad i ddod yn awdurdod cyhoeddus enghreifftiol yng Nghymru drwy beri newid cadarnhaol a hirdymor er mwyn dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, a hybu cysylltiadau hiliol da. Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynir gofyniad pellach i brawfesur polisïau ar 1 Ebrill 2005, i ategu'r Porth i Bolisïau. Yn yr holl bolisïau a gyflwynir, rhaid i swyddogion un ai cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau yn yr hyn a gynigir i ddyletswyddau corfforaethol y Cynulliad, neu eu bod wedi canfod ac asesu'r goblygiadau hynny'n unol â'r gofyniad. Bydd hyn yn cynnig sylfaen gadarn i sicrhau cydymffurfio â gofynion o ran cydraddoldeb yn y dyfodol.

5.5 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol[5] a'r Adroddiad ar Brif Ffrydio[4] wedi nodi'r angen am gynnwys offer gwerthuso manylach ym mhroses y Porth i Bolisïau. Mae Offeryn Asesu Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol[28]. Mae'r Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb[4] yn awgrymu y dylai hyn fod yn rhan o offeryn cydraddoldeb cyfun yn y dyfodol, a bydd hwnnw'n cael ei ddatblygu yn 2005-2006 yng ngoleuni'r profiad a geir o ddefnyddio'r mecanweithiau presennol.

*Y Gymraeg*

5.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i brif ffrydio'r Gymraeg. Mae'r ail Adroddiad Blynyddol ar Iaith Pawb (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog[29]) a'r Cynllun Iaith Gymraeg[30] wedi tynnu sylw at y cynnydd da pellach a wnaed yn ystod 2004-2005. Ceir llawer o enghreifftiau da o bolisïau a chynlluniau newydd sydd wedi llwyddo i brif ffrydio'r Gymraeg. Yn eu plith yr oedd y gwaith o ymgorffori gwasanaethau cwbl ddwyieithog ar gyfer myfyrwyr fel rhan o'r 'Prosiect Datganoli Cymorth i Fyfyrwyr',[31] a'r canllawiau newydd a luniwyd ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf[32] ar brif ffrydio'r iaith, a safonau CyMAL ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Er bod nifer o enghreifftiau da o brif ffrydio wedi'u canfod, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio yn yr holl brosiectau a chynlluniau newydd.

**Prynu**

5.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario £300 miliwn, a'r rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n gwario tua £4 biliwn, ar brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae Tîm Menter Gaffael Cymru/Gwerth Cymru (Caffael) wedi datblygu dogfennaeth safonol i'w gwneud yn haws i gyflenwyr gystadlu am gontractau, ac mae'n datblygu 'Cynlluniwr Siwrnai ar gyfer Caffael', sydd â'r amcan o hyrwyddo dull cyson o drafod caffael sy'n seiliedig ar yr arferion gorau. Drwy ei roi ar waith yn holl raglenni Gwerth Cymru (Caffael), ac yn y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, bydd modd hyrwyddo cyfle cyfartal a'i gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig eu maint gystadlu i ennill busnes yng Nghymru. Mae'r adran Sell2Wales[33] ar y Wefan Gaffael Genedlaethol yn cynnig adnoddau a chyngor i gyflenwyr mewn cysylltiad â Pholisi Cyfle Cyfartal, a chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ymysg pethau eraill. Gall cyflenwyr gofnodi eu manylion wedyn, a bydd y rhain ar gael i brynwyr drwy adran arall y wefan, Buy4Wales. Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hefyd fel rhan o waith Gwerth Cymru (Caffael) ar Ddatblygu Cynaliadwy, ac fe'u trafodir hefyd yn y gweithdai Caffael Cynaliadwy, sy'n rhan o'r Rhaglen Caffael Cynaliadwy. Cyhoeddwyd adroddiad dros dro ar gynllun peilot ar y Budd i'r Gymuned yn Nhachwedd 2004.

5.8 Ym mis Mehefin 2005, ymunodd arbenigwr o Brifysgol Abertawe â Gwerth Cymru (Caffael) i ymchwilio i gadwynau cyflenwi moesegol yn benodol.

**Penodiadau cyhoeddus**

5.9 Rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005, gwnaed 180 o benodiadau ac ailbenodiadau i gyrff sy'n cael eu rheoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus, a gwnaed 79 o benodiadau ac ailbenodiadau i gyrff cyhoeddus eraill. Rhoddwyd diweddariad ar y broses benodiadau fel papur i'w nodi i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 12 Hydref [EOC[2] 08-05 (P.4)].[34] Mae'r ystadegau'n dangos mai dynion gwyn yw mwyafrif y rhai sydd wedi'u penodi i swyddi cyhoeddus o hyd mewn cymhariaeth â grwpiau eraill. Fodd bynnag, dros amser, penodwyd nifer cynyddol o fenywod – yn codi o 34% yn 2000-2001 i 37% yn 2004-2005. Gostyngodd y nifer o benodiadau o blith lleiafrifoedd ethnig o 7% yn 2000-2001 i 0.5% yn 2004-2005, a chododd nifer y penodiadau o blith pobl anabl o 2% yn 2000-2001 i 11% yn 2004-2005. Mae'r anhawster a geir wrth ddenu menywod, grwpiau lleiafrifol ethnig a phobl anabl i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus wedi'i gydnabod, a chymerwyd camau i ddelio â'r canrannau isel, gan gynnwys ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth a Chynllun Datblygu Aelodau Bwrdd.

## 6. Hyrwyddo Cydraddoldeb yn Ein Gwaith

6.1 Mae pob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyfraniad ar yr hyn a wnaed i wireddu cyfle cyfartal yn 2004-2005. Ceir y manylion llawn yn atodiad B.

6.2 Yn yr adran ganlynol, disgrifir rhai o'r prif gyflawniadau, wedi'u grwpio dan y prif themâu yn Cymru: Gwlad Well[1].

*CREU GWELL SWYDDI A GWELLA SGILIAU*

6.3 Rhaid inni ymdrin ag anghydraddoldebau o ran swyddi a sgiliau er mwyn holl bobl Cymru, ac er mwyn ein heconomi. Mae'n hollbwysig codi lefelau cyrhaeddiad addysgol, sgiliau ac arloesedd er mwyn sicrhau economi lewyrchus a llwyddiannus sydd â lefelau uchel o weithgarwch economaidd ynghyd â swyddi da a chynaliadwy.

**Anweithgarwch Economaidd a Diweithdra**

6.4 Cafwyd cynnydd sylweddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf: mae cyfraddau diweithdra'n isel bellach, ar yr un lefel neu'n is na'r cyfartaledd yn y DU am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd diwethaf, a chafwyd cyflawniadau o ran delio â'r anweithgarwch economaidd a etifeddwyd o'r gorffennol, yn enwedig ymysg menywod. Er hynny, mae llawer i'w wneud eto. Ceir gwahaniaethau mawr yn y cyfraddau anweithgarwch economaidd rhwng gwahanol grwpiau – h.y. canrannau gwahanol iawn o bobl o oedran gweithio sydd mewn gwaith neu'n ceisio gwaith. Gwelwn farchnad lafur sydd wedi troi yn erbyn pobl sydd â sgiliau llai datblygedig, o ganlyniad i globaleiddio a newid mewn technoleg sy'n seiliedig ar sgiliau.

6.5 Mae ymchwil yn dangos (John a Patrick 2001[35]) ei bod yn bosibl bod pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol, a hwythau'n ymwybodol o agweddau meddwl cyffredin, yn 'dewis' gyrfaoedd lle y maent yn credu y gallent osgoi aflonyddu, neu'r lledaenu ar sïon ffals a maleisus sy'n deillio o stereoteipiau rhywiol homoffobig sy'n eu portreadu fel rhai sy'n camfanteisio. Mor ddiweddar â chanol y 1990au, roedd arolwg cenedlaethol o sampl gynrychioladol o ffyrdd o fyw ac agweddau meddwl rhywiol wedi dangos bod 'rhwng 25% a 50% o'r ymatebwyr heterorywiol' yn teimlo ei bod:
… yn annerbyniol i lesbiaid a hoywon ddal amryw o swyddi sensitif sy'n dod â hwy i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd fel athrawon a gweithwyr cymdeithasol, meddygon a swyddogion o'r heddlu, cynghorwyr ac arweinyddion ieuenctid.[36]

6.6 Roedd y cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer menywod o oedran gweithio'n uwch na'r rhai ar gyfer dynion drwy gydol y cyfnod o 1984 i 2004 [Economic Inactivity in Wales 2003][37]. Fodd bynnag, roedd y bwlch yng Nghymru a'r DU wedi gostwng o tua 22 y cant yng Ngwanwyn 1984, i 10 y cant yng Ngwanwyn 2004. Dros y cyfnod hwnnw, mae'r tuedd o ran anweithgarwch economaidd ymysg dynion wedi bod ar i fyny; serch hynny, yn y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer dynion wedi gostwng yng Nghymru, tra bo'r tuedd ar gyfer y DU gyfan wedi parhau i godi. Yn achos menywod, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng ac, yng Nghymru, mae'r gyfradd wedi gostwng yn sydyn, fel bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU, a

oedd wedi para drwy gydol gweddill y cyfnod o 20 mlynedd, wedi'i gau bron. Yn achos grwpiau oedran iau [hyd at 25-29], roedd y bwlch rhwng canran y dynion a'r menywod a oedd yn economaidd anweithgar yn fwy yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, gan fod 9.7% o'r dynion a 28.3% o'r menywod yn anweithgar yng Nghymru. Yn y DU gyfan, roedd 8.7% o'r dynion a 24.8% o'r menywod yn y grŵp hwn yn anweithgar. Mae'r rhesymau dros anweithgarwch economaidd yn amrywio yn ôl grŵp oedran – er enghraifft, yn y grŵp oedran 16-24, y prif reswm dros anweithgarwch economaidd oedd y ffaith bod rhywun yn fyfyriwr – roedd cyfran fawr o'r anweithgarwch uwch yng Nghymru ar gyfer y grŵp oedran hwn yn ganlyniad i'r gyfran fwy o fyfyrwyr anweithgar yng Nghymru. Yn y grwpiau oedran 35-49 a 50-64, roedd salwch tymor hir yn ffactor o bwys. Yng Nghymru, roedd y cyfrannau o bobl a oedd â salwch tymor hir yn uwch o lawer nag yn y DU. Roedd y gyfradd uwch gyffredinol o anweithgarwch yng Nghymru'n ganlyniad, yn bennaf, i gyfraddau uwch yn y grwpiau oedran dros 35.

6.7 Mae'r angen i ostwng lefel diweithdra ymysg dynion dan 30 oed yn cynnig her neilltuol. Mae diweithdra yn y grŵp hwn ar lefel o 7.7% ar hyn o bryd, sy'n 0.7% yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU. (Annual local labour force survey 2004[38])

6.8 Yng Nghymru yn 2003, roedd y cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer lleiafrifoedd ethnig bron un rhan o dair yn uwch na'r rhai ar gyfer y boblogaeth wyn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn cael eu heffeithio gan bresenoldeb myfyrwyr tramor yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y boblogaeth economaidd anweithgar. Heb gynnwys myfyrwyr, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymysg grwpiau lleiafrifol ethnig yn 13% yn uwch na'r un ar gyfer y boblogaeth wyn. Yn y DU gyfan, roedd y cyfraddau'n 50% yn uwch. Mae'r gwahaniaethau yn y lefelau gweithgarwch rhwng grwpiau lleiafrifol ethnig a dynion a menywod yn cyfrannu'n helaeth at y gwahaniaethau cyffredinol. Er enghraifft, ar sail gwybodaeth o gyfrifiad 2001, roedd y gyfradd gweithgarwch economaidd cyffredinol ar gyfer dynion Bangladeshaidd [83%] ychydig yn uwch na'r un ar gyfer y boblogaeth o ddynion gwyn ar gyfartaledd [82%]. Mae'n ymddangos bod y cyfraddau gweithgarwch economaidd ar gyfer rhai unigolion mewn rhai grwpiau lleiafrifol ethnig yn arbennig o isel, a bod gwahaniaethau mawr rhwng y rhywiau mewn rhai grwpiau ethnig. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd y gyfradd gweithgarwch economaidd ar gyfer menywod Bangladeshaidd yn 22 y cant, sef tua un rhan o dair o'r gyfradd ar gyfer menywod gwyn.

6.9 Yng Nghymru ac yn y DU, roedd y cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer rhai sydd ag anabledd yn uwch o lawer na'r rhai ar gyfer pobl sydd heb anabledd. Yng Nghymru, roedd bron 57% o'r rhai sydd ag anabledd yn anweithgar, sy'n dair gwaith yn uwch nag ar gyfer gweddill y boblogaeth. Mae'r gyfradd hon yn uwch hefyd na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 48 y cant.

*Bylchau Cyflog*

6.10 Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog menywod a dynion. Ledled Prydain, ar gyfartaledd, mae'r cyflog a gaiff menyw sydd mewn cyflogaeth amser llawn wrth yr awr tua 82% o'r hyn a gaiff gweithiwr gwrywaidd amser llawn (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2004[11]). Mewn geiriau eraill, y bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod yw 18%. Mae'r bwlch wedi cau dros amser, ac mae'r bwlch rhwng cyflogau wrth yr awr wedi gostwng o 29% yn 1975, pan gyflwynwyd y Ddeddf Cyflog Cyfartal[23]. Pan fynegir y bwlch cyflog ym Mhrydain Fawr ar ffurf enillion yr wythnos, mae'n codi i 26%. Y rheswm dros hynny yw bod menywod yn gweithio llai o oriau yr

wythnos ar gyfartaledd na dynion. Maent hefyd yn cael llai o daliadau goramser a thaliadau eraill.

6.11 Nid oes data dibynadwy ar gael ar gyfer Cymru ar fylchau cyflog rhwng gwahanol grwpiau ethnig neu grefyddol, neu rhwng pobl sydd ag anableddau ac eraill, ond, yng ngoleuni'r gwahaniaethau yn y cyfraddau gweithgarwch, byddai'n rhyfedd pe na bai bylchau o'r fath. (Report on ethnic minorities and the labour market[39])

6.12 Heblaw am grwpiau sy'n cynnwys rhai pobl Indiaidd a Tsieineaidd, mae incwm a chynnydd y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn llai na rhai'r boblogaeth Wyn. Yn ôl ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal i'r modd y mae hil a rhyw'n dylanwadu ar gyfoeth a lles yng Nghymru, dynion gwyn yng Nghymru sy'n cael yr incwm wythnosol mwyaf, wedyn dynion o leiafrifoedd ethnig, menywod gwyn ac yn isaf oll, menywod o leiafrifoedd ethnig [40].

*Lefelau addysgol*

6.13 Mae merched yn perfformio'n well o lawer na bechgyn ar lefel TGAU, ac yn ennill mwy o gymwysterau a hynny ar raddau uwch. Mewn addysg uwch, mae'r cydbwysedd wedi newid i'r fath raddau fel mai menywod yw'r mwyafrif o'r myfyrwyr israddedig a graddedig llawn amser. Er hynny, mae'r bwlch cyflog yn parhau a hynny'n rhannol oherwydd y gwahanu yn y gweithle. Mae merched yn parhau i ddewis gyrfaoedd traddodiadol yn unol â disgwyliadau eu cyfoedion a disgwyliadau ar sail rhyw. Tra bo bechgyn yn dewis pynciau fel ffiseg, cemeg a chyfrifiadureg, mae merched yn dewis astudiaethau ysgrifenyddol, bioleg a Ffrangeg.

6.14 Mae nifer y disgyblion lesbaidd, hoyw a deurywiol mewn addysg uwch yn destun sylw hefyd. Mae disgyblion lesbaidd, hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o ymadael â'r ysgol yn 16 oed na'u cyfoedion, er eu bod yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 6 TGAU ar radd C.[41]

## Ein Dull o Weithredu

6.15 Er bod diweithdra'n gymharol isel yng Nghymru o'i gymharu â llawer o wledydd yn yr UE, mae'r her barhaus o godi lefel gweithgarwch economaidd a nifer y bobl sydd mewn gwaith yn dal i fod yn amcan allweddol gan Lywodraeth y Cynulliad.

6.16 Un bwriad sy'n cael ei ddilyn ar hyn o bryd yw annog pobl economaidd anweithgar i gymryd gwaith sy'n addas i'w hamgylchiadau a'u set o sgiliau. (Mae'n bosibl nad cyflogaeth lawn amser gyda thâl fydd hwnnw.) Y nod yn y tymor hwy yw gwella'r cymysgedd o alwedigaethau yn economi Cymru gan greu swyddi da drwy wella sgiliau'r boblogaeth – ychwanegu gwerth uchel dros amser. Mae'r ymdrechion i gyrraedd y nodau hyn wedi dechrau eisoes.

- Yn ystod 2004-2005 dechreuwyd ar ail ran yr ymgyrch **Cau'r Bwlch Cyflog**, gan adeiladu ar sail llwyddiant y rhan gyntaf, ond gan ganolbwyntio ar hyrwyddo materion sy'n ymwneud â chyflog cyfartal yn y sector preifat. Ymgyrch bwysig i hyrwyddo

cydraddoldeb oedd hon, a oedd yn ymgais i ddelio â'r gwahaniaeth parhaus rhwng cyflogau dynion a menywod, fel y byddai mwy o fenywod yn cael eu cymell i ddod i mewn i'r gweithle ar lefel gyfartal. Ar y cyd â Chyngres Undebau Llafur Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, cynhaliwyd cyfres o seminarau i hybu'r Pecyn Cyflog Cyfartal i fusnesau bach a chanolig eu maint, ac i annog nifer o gyrff yn y sector preifat i gynnal adolygiadau cyflog. Gwnaed ymchwil hefyd i'r modd y mae hil a rhyw'n dylanwadu ar gyfoeth a lles yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad dros dro a oedd yn nodi bod menywod o leiafrifoedd ethnig yn wynebu anfanteision lluosog, a'u bod yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu y tu allan i'r farchnad lafur; o fod wedi'u cyflogi mewn gwaith â thâl is nag unrhyw un arall; o fod yn byw ar lai o incwm; a/neu o fod yn byw mewn ardaloedd sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol sydd â gwaeth gwasanaethau iechyd ac addysg a mwynderau israddol.

- Mae **Llwybrau Dysgu 14-19** ar gyfer yr holl ddysgwyr. Sefydlwyd rhwydweithiau 14-19 ym mis Medi 2003 gan roi cyllid grant o Ebrill 2004. Nid yw'r canlyniadau'n glir eto, ond mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais ar yr angen i bob dysgwr gael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n fwyaf addas i'w anghenion, a'r angen i gymryd camau rhagweithiol ynghylch materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y gwaith.

- Mae'r cynllun **Ymwybyddiaeth o Anabledd a Thechnoleg Ymaddasol (DATA)** yn cael ei ddefnyddio i gymell recriwtio a chadw pobl sydd ag anabledd. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd[42] i hybu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o dechnoleg ymaddasol ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, ac mae'n cynnig arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

6.17 Gwaith astrus yw delio â lefelau gweithgarwch economaidd ymysg rhai grwpiau o fenywod mewn lleiafrifoedd ethnig – a bydd angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn. Fodd bynnag, ceir amryw o gynlluniau ar gyfer delio â'r materion mwy cyffredinol sy'n ymwneud â helpu unigolion o grwpiau lleiafrifol ethnig i gael hyfforddiant a gwaith.

- Gweithiodd Llywodraeth y Cynulliad mewn partneriaeth, a lluniodd set o argymhellion ar gyfer ail-lansio **Prentisiaethau Modern**. Fel rhan o'r prosiect hwn, gofynnwyd i'r Cynghorau Sgiliau Sector weithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal[43] a Chwarae Teg[44] i hybu cynlluniau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau posibl i fenywod a dynion. Lluniwyd adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Awst 2005 ac ynddo gasgliad, dadansoddiad a chofnod o enghreifftiau llwyddiannus ac aflwyddiannus o ddulliau o chwalu stereoteipio ar sail rhyw mewn Rhaglenni Prentisiaethau Modern yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi nifer o faterion i fod yn destun ymchwil ac ystyriaeth bellach ac, ymysg y rhain, yr oedd y gydnabyddiaeth bod stereoteipio ar sail rhyw yn amlwg mewn cyd-destun dysgu ehangach na Phrentisiaethau Modern. Mae gweithgor bach i'w sefydlu, ac arno gynrychiolwyr o feysydd dysgu ehangach, ac o blith cyrff asesu a rheoleiddio a chymorth dysgu, i ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer cymryd camau pellach i ddelio â stereoteipio ar sail rhyw ym maes dysgu.

  Gofynnwyd i'r Cynghorau Sgiliau Sector lunio Cynllun Datblygu Gweithlu Cymru, ac i gynnwys gwaith gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal [43] a Chwarae Teg[44] yn y cynllun hwnnw. Cyflwynir y cynlluniau hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w hystyried. Yn ogystal â hynny, mae Grŵp Rhaglen Sgiliau wedi'i sefydlu gan Lywodraeth y

Cynulliad a fydd, fel rhan o'i waith, yn ystyried cydraddoldeb yn y rhaglenni Dysgu i Bob Oedran drwyddynt draw.

- Mae'r **ymgyrch Age Positive**, sy'n cael ei chefnogi gan amrywiaeth mawr o randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys undebau llafur a chyrff cyflogwyr, yn ceisio sicrhau bod cyflogwyr yn canolbwyntio ar botensial, sgiliau a gallu, yn hytrach nag oed, ym mhob cam yn y cylch cyflogaeth – o recriwtio hyd ddiswyddo ac ymddeol. Mae Grŵp y Bartneriaeth Oed yn cefnogi'r ymgyrch 'Byddwch yn Barod', sy'n ceisio paratoi cyflogwyr mewn busnesau bach a chanolig eu maint ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag oed yn Hydref 2006.

6.18 Gwaith tymor hir yw creu economi gadarn a chynaliadwy yng Nghymru o fewn y farchnad fyd-eang. Nid yw Cymru'n gallu cystadlu â llawer o wledydd ar sail pris, felly, er mwyn cyflawni'r amcan hwn, rhaid i Gymru godi lefelau cyrhaeddiad addysgol, sgiliau ac arloesedd ymysg ei phoblogaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu nifer o gynlluniau er mwyn cyrraedd y nod hwn a hynny, er enghraifft, drwy gynnig cymorth ariannol, cyngor ac arweiniad i fusnesau ac i'r rhai sy'n dymuno cychwyn eu cwmni eu hunain. Rhoddir eglurhad manylach o saith o'r prif gynlluniau isod.

- Mae **rhaglen Potentia** yn canolbwyntio ar y gwaith o sefydlu rhaglen o gymorth cyn cychwyn busnesau ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl anabl, grwpiau ethnig lleiafrifol, menywod, siaradwyr Cymraeg, rhai dros 50 oed a phobl ifanc. Caiff ei harwain gan y WDA a'i darparu gan bum corff sy'n bartneriaid iddo: Chwarae Teg[44]; y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig (EBSP)[45]; Anabledd Cymru [46]; Menter a Busnes[47]; a Prime Cymru[48]. Rhai o allbynnau'r rhaglen yn ystod 2004-2005 oedd: rhoi cyngor ar fusnes i fwy na 3,100 o bobl mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli; a chychwyn 200 o fusnesau newydd o ganlyniad.

*Hybu ffyniant yng Nghymru*

6.19 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd camau i hybu ffyniant a'i ledaenu yng Nghymru, drwy greu amgylchedd lle y gellir sicrhau bod mwy o fusnesau ffyniannus yn cael eu sefydlu gan set fwy amrywiol o bobl a pherchnogion. Un rhan annatod o'r gwahanol raglenni cymorth busnes yw camau cadarnhaol i gefnogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl anabl, grwpiau lleiafrifol ethnig a menywod. Mae'r ffigurau ar gyfer Chwefror 2005 yn dangos bod 5.1% o gleientiaid Llygad Busnes yn perthyn i grŵp lleiafrifol a'r ffigur cyfatebol ar gyfer Mehefin 2005 yw 6.5%.

6.20 Ffurfiwyd partneriaethau gyda chyrff fel EBSP a Women in Business International er mwyn sicrhau y bydd manylion y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu dosbarthu a'u hyrwyddo ymysg cynulleidfa eang. Ymgynghorir â chyrff fel EBSP wrth ddatblygu rhaglen weithgareddau MasnachCymru Rhyngwladol [492] ac maent yn cael eu cynnwys hefyd mewn gwaith ar y cyd ar deithiau masnach arfaethedig. Bu MasnachCymru Rhyngwladol mewn cysylltiad â'r gymuned busnes ethnig hefyd wrth drefnu ymweliadau gan ddirprwyaethau o farchnadoedd tramor yng Nghymru.

*Cyflawni Amcanion Cymru: Gwlad Well*

6.21 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau sy'n ysgogi adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru. Gwneir hynny drwy gefnogi'r prif raglenni gweithgarwch – a'r rheini'n amrywio o

gynlluniau i hybu entrepreneuriaeth ac arloesedd, i waith datblygu cymunedol a gwella rhwydweithiau a seilwaith. Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn cyfrannu at y gwaith hwn, fel y mae Grant Buddsoddi'r Cynulliad, sydd â'r bwriad penodol o gymell busnesau bach a chanolig eu maint i fuddsoddi. Gwneir asesiad ansawdd ffurfiol ar gyfer pob cais sy'n rhoi sylw i'r agenda fwy cyffredinol yn "Cymru'n Ennill"[50], gan gynnwys cyfraniad y prosiect at yr agenda ar gydraddoldeb, lefelau cyflog a hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y gweithlu. Mae Cyfle Cyfartal, sy'n cynnwys meysydd anabledd, rhyw, hil a'r Gymraeg, wedi'i brif ffrydio yn Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd fel un o'r tair Thema Drawsbynciol.

- Bydd data a gafwyd o **arolwg o amrywiaeth** a wnaed ym Mawrth/Ebrill 2005, a oedd yn cynnwys mwy na 2,500 o ymgeiswyr am Gymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad, yn cael eu defnyddio i sicrhau bod grwpiau lleiafrifol yn ymwybodol o'r cynlluniau. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac fe'u defnyddir i fapio'r defnydd a wneir o'r cynlluniau hyn gan grwpiau lleiafrifol. Fel rhan o'r broses hon, cymerir cyngor gan gyrff cynrychioladol, gan gynnwys AWEMA, EBSP a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol[28], a defnyddir eu rhwydweithiau cyfathrebu i hybu'r cynlluniau. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnwys yn y broses ymgeisio ar gyfer Cymorth Rhanbarthol dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad, a chaiff y canlyniadau eu dadansoddi'n rheolaidd er mwyn mesur cynnydd a phennu'r cyfeiriad ar gyfer gwelliannau.

6.22 Gwnaed cynnydd da ar nifer o brosiectau strategol, gan gynnwys gwaith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ddatblygu 'Genesis Cymru' – y prosiect strategol ar gyfer Cymru gyfan – a gymeradwywyd ganddo yn Nhachwedd 2004. Amcan y prosiect hwn yw cynnig pecyn cynhwysfawr o gyngor, arweiniad, cymorth a gofal plant ar gyfer unigolion – menywod yn bennaf – sy'n dymuno cael gwaith, hyfforddiant a/neu gyfleoedd i ddysgu.

- Mae **Partneriaeth Datblygu Cyfenter** [51] yn cael ei hariannu ar y cyd gan y WDA a Rhaglen Equal[52], un o fentrau cymunedol Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n profi ac yn hyrwyddo dulliau newydd o wrthweithio pob math o wahaniaethu ac anghydraddoldebau yn y farchnad lafur, mewn cysylltiad â'r rhai sydd mewn gwaith a'r rhai sy'n ceisio gwaith. Cynhelir rhaglen ymchwil arloesol a pharhaus, sy'n seiliedig ar waith ymarferol ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ymhlith y rhai sy'n mentro er mwyn canfod y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gychwyn, cynnal a thyfu busnes yng Nghymru. Ymhlith y grwpiau hyn y mae menywod, rhieni sydd ar eu pennau eu hunain, pobl ifanc (18-30), rhai dros 50 oed, grwpiau lleiafrifol ethnig, ffoaduriaid, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg. Gan mai rhaglen ymchwil barhaus yw hon, mae adroddiadau wedi'u cyhoeddi yn ystod y prosiect a oedd yn cynnwys argymhellion ar Dwf a Chynaliadwyedd; Mynediad at Gyllid a Grantiau; y System Budd-daliadau; a Chynllunio ar gyfer Amrywiaeth, sy'n berthnasol i'r Cynulliad ac i'r Rhanddeiliaid.

- Mae **Gwell sgiliau ar gyfer cyflogaeth** yn ceisio codi'r lefelau sgiliau yng Nghymru, a lleihau'r lefel o anweithgarwch economaidd. Mae'r cynllun gweithredu ar sgiliau a chyflogaeth yn cynnwys cydraddoldeb ar ffurf set gynhwysfawr o gamau gweithredu i hybu lefelau cyflogaeth sgil uchel. O dan y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Genedlaethol ar gyfer pob oed, cynhelir rhaglen weithredu i godi lefelau rhifedd sylfaenol ymhlith pobl Cymru. Mae'r Panel Cynghori ar Gyflogaeth Cymru yn cynnig

cyngor annibynnol ar raglenni o fudd-dal i waith yng Nghymru, ac mae'n cynnwys rhai sy'n sefyll dros fuddiannau grwpiau lleiafrifol ethnig.

- Mae'r canlyniadau o gynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Llwybrau at Waith,** yn dal i fod yn galonogol. Yng Nghymru, ers cychwyn y cynllun peilot ar 27 Hydref 2003 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, mae'r ffigurau hyd at Fawrth 2005 yn dangos bod 2,300 o bobl a oedd yn hawlio budd-dal analluogrwydd wedi cael gwaith ar ôl rhoi cymorth iddynt; bod 700 o bobl wedi cael y cymorth a'r gefnogaeth iechyd arbenigol a ddarperir gan y Rhaglen Rheoli Anhwylderau arloesol, sy'n cael ei rhedeg gan y GIG. Oherwydd y llwyddiant hwn, bydd y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys Bae Abertawe a Gorllewin Cymru o Ebrill 2006 a'r Cymoedd Dwyreiniol o Hydref 2006.

- Prosiect ar y cyd o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru/Canolfan Byd Gwaith Cymru yw **Want2Work**. Mae pob un o'r tri man darparu wedi cychwyn ar ei waith. Dechreuodd Caerdydd a'r Fro yn Rhagfyr 2004, Merthyr Tudful yn Ionawr a Chastell-nedd Port Talbot ym mis Chwefror. Hyd at Fawrth 2005, mae Want2Work wedi bod mewn cysylltiad â 120 o fuddiolwyr ac mae 18 ohonynt wedi dechrau gweithio. Mae Want2Work yn estyn cymorth i'r rhai y mae'n fwyaf anodd eu helpu – mae 87% o'r cleientiaid yn derbyn budd-dal analluogrwydd; bu 34% yn anweithgar am fwy na phum mlynedd; ac mae 62% heb unrhyw gymhwyster ffurfiol. Mae cipolwg ar nodweddion cleientiaid Want2Work yn dangos mai rhai sy'n derbyn budd-dal analluogrwydd yw 87% o holl fuddiolwyr y prosiect.

- Ochr yn ochr â'r holl fentrau hyn, mae'n hollbwysig hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer plant a phobl ifanc mewn addysg. Rhaid cael **Gwell Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar** i wrthweithio anfantais mewn oedran cynnar a sicrhau bod y plant ieuengaf yn cael dysgu sut i ddysgu, bod eu cyraeddiadau'n dda a'u bod yn datblygu eu talentau i'r eithaf. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen gydag ymrwymiad i ddarparu lle rhan amser am ddim ar gyfer yr holl blant tair blwydd oed.

**Astudiaethau Achos**

**Genesis Cymru**
Cyflwynwyd cais ar gyfer y Prosiect Gofal Plant Strategol "Genesis Cymru" gan Is-adran Plant a Theuluoedd y Cynulliad ym Medi 2004 a chafodd ei gymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn Nhachwedd 2004. Cafodd y prosiect ei lansio yn Ionawr 2005 yn Ysgol Gynradd Tonyrefail.

Rhoddwyd cyfanswm o £12.6 miliwn o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ôl cymeradwyo ceisiadau dan Amcanion 1 a 3 ar gyfer cymorth i hyrwyddo cyfranogiad gan fenywod yn y farchnad lafur. Amcan y ddau gais oedd cynnig pecyn cynhwysfawr o arweiniad, cymorth a gofal plant i unigolion (menywod yn bennaf) a oedd yn dymuno cael gwaith, hyfforddiant a/neu gyfleoedd i ddysgu, gan oresgyn rhwystrau rhag gwell gweithgarwch economaidd ymysg pobl Cymru.

**Stereoteipio ar sail Rhyw mewn Prentisiaethau Modern**

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru weledigaeth o gymdeithas sy'n dysgu lle y caiff pawb gyfle i feithrin eu talentau. Mae ELWa dan ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal yn ei raglenni. Fodd bynnag, mae astudiaethau gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal ac eraill wedi dangos bod anghydbwysedd o hyd rhwng y rhywiau o ran y nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau modern. Comisiynwyd prosiect ymchwil er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r camau cadarnhaol a oedd wedi llwyddo, a'r rhai a gafodd lai o effaith, ar lefel strategol a lefel weithredol. Roedd y prosiect hefyd wedi dechrau ystyried y gydberthynas rhwng anabledd, pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol, hil a gwahanu yn y gweithle.

- Amcan y **Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig** yw dileu gwahaniaethu a'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig. Rhoddwyd grant ychwanegol o £650,000 ar gyfer 2004-2005, fel bod cyfanswm o £4.5 miliwn ar gael. Mae cyfran o hynny wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddi athrawon prif ffrwd ac athrawon o leiafrifoedd ethnig i hybu eu hymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol. Caiff lefelau cyrhaeddiad eu monitro dros amser i fesur y canlyniadau. Yn 2004-2005 y cafwyd profforma safonol ar gyfer adrodd/monitro am y tro cyntaf ers cychwyn y grant. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am gyraeddiadau a mwy o wybodaeth ansoddol. Diwedd Hydref 2005 yw'r terfyn amser ar gyfer derbyn y ffurflenni. Caiff yr wybodaeth ei dadansoddi dros y misoedd i ddod.

- Er mwyn helpu AALlau i ddarparu **gwasanaethau addysg ar gyfer disgyblion sy'n geiswyr lloches**, roedd y cyllid grant ar gyfer ceiswyr lloches wedi codi o £2.3 miliwn i £2.7 miliwn yn 2004-2005. Rhoddwyd cymorth hefyd i geiswyr lloches sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig cymhleth a difrifol ac i geiswyr lloches mewn oed sydd wedi cofrestru ar gwrs i ddysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Hyd yma, mae un o'r pedwar awdurdod lleol sy'n derbyn y grant hwn wedi cwblhau adroddiad ar gyfer 2004-2005.

- Darparwyd £900,000 dan **gynllun grant Sipsiwn a Theithwyr a Phersonau sydd wedi'u Dadleoli** ar gyfer 2004-2005. Targedwyd prosiectau ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd gwybodaeth monitro ar gyfer y cynllun grant hwn yn dod i law ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar ôl ei chael, gwneir dadansoddiad o'r wybodaeth.

- Lansiwyd **Addysg i Bawb** gan y Gweinidog Addysg ac mae'n ymgyrch i sicrhau na fydd mynediad i addysg yn cael ei gyfyngu gan dueddfryd rhywiol. Fe'i trefnwyd gan Stonewall mewn partneriaeth â Friends and Families of Lesbians and Gays (FFLAG) ac LGBT Youth Scotland, ac fe'i cefnogir gan amryw o gyrff ledled Prydain Fawr.

Lansiwyd **Rhwydwaith Gwrth-fwlio Cymru** yn ystod Wythnos Parchu Eraill rhwng 10 a 14 Hydref 2005. Dwy o brif swyddogaethau'r Rhwydwaith Gwrth-fwlio fydd cynghori er mwyn lledaenu'r arferion gorau a rhoi gwybod am y datblygiadau diweddaraf; a bydd yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio, darparu a chyd-drefnu mesurau gwrth-fwlio. Bydd y rhwydwaith yn cynnwys aelodau o blith partneriaid ledled Cymru gyda chynrychiolwyr o: y Cynulliad Cenedlaethol; Estyn; Swyddfa'r Comisiynydd Plant; NSPCC; Childline; Stonewall Cymru; Barnardo's; NCH; Educational Action Challenging Homophobia (EACH); Beatbullying; Uned Gwrth-fwlio Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd; ac AALlau, llywodraethwyr ac ysgolion.

## GWELLA IECHYD

*Pa dystiolaeth sydd gennym am anghydraddoldeb?*

6.23 Gwella iechyd yng Nghymru yw un o flaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad, gan fod lefelau iechyd gwael yn dal i fod yn gymharol uchel, a cheir gwahaniaethau sylweddol rhwng lefelau iechyd.[53] Roedd canran y rhai a ddywedodd (mewn ymateb i Gyfrifiad 2001) nad oedd eu hiechyd yn dda yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac yng Nghymru yr oedd saith o'r naw ardal awdurdod lleol a gafodd y sgôr isaf yng Nghymru a Lloegr. Rhaid ystyried yr anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol grwpiau yn y cyd-destun hwn.

6.24 Ceir gwahaniaethau yn y materion iechyd sy'n berthnasol i'r boblogaeth yng Nghymru. Er enghraifft, mae Cyflwr Iechyd Cymru [53] yn dangos mai afiechydon anadlol yw un o brif achosion salwch a marwolaeth yng Nghymru. Afiechydon o'r fath a fu'n gyfrifol am tua 13% o'r holl farwolaethau yn 2002. Amcangyfrifir bod cyfraddau asthma o rhwng 7% a 10% yn y boblogaeth, ac maent ar eu huchaf ymysg plant.

6.25 Y prif ddogfennau polisi sy'n cyflwyno'r rhaglen ar gyfer delio ag anghydraddoldebau yw Lles yng Nghymru; Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid; Her Iechyd Cymru; a Targedu Afiechyd. Cyhoeddwyd Her Iechyd Cymru gan y Prif Weinidog yn Chwefror 2004 fel ymgyrch i wella iechyd a lles yn gyffredinol. O dan Her Iechyd Cymru, gellir hyrwyddo camau gweithredu sy'n delio â phenderfynyddion iechyd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae nifer mawr o gyrff wedi ymateb yn gadarnhaol i Her Iechyd Cymru, ac mae'r diddordeb a fynegwyd gan unigolion wedi bod yn galonogol. Ceir cyfleoedd sylweddol i dargedu negeseuon Her Iechyd Cymru ar rannau penodol o'r boblogaeth, efallai er mwyn delio ag anghydraddoldebau o ran cyflwr iechyd.

*Anghydraddoldebau o ran Cyflwr iechyd*

6.26 Mae Cyflwr Iechyd Cymru 2004-2005[53] yn cynnig trosolwg ar iechyd yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am brif nodweddion demograffig y boblogaeth; am faterion sydd o bwys cynyddol, gan gynnwys afiechydon anadlol ac iechyd rhywiol; ac am gynnydd ar dargedau cynnydd mewn iechyd a'r targedau newydd ar gyfer cynnydd mewn iechyd ac anghydraddoldebau iechyd o 2002-2012. Er enghraifft, mae'r disgwyliad einioes ar enedigaeth tua phum mlynedd yn hwy ymysg menywod nag ydyw ymysg gwrywod; roedd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Cyflwr Iechyd Cymru 2004-2005[53] yn dangos mai'r disgwyliad einioes cyfartalog yw 75.5 o flynyddoedd ar gyfer gwrywod a 80.1 ar gyfer menywod. Mae gwahanol grwpiau oedran yn profi iechyd gwahanol, ac mae'n amlwg bod cyfraddau marwolaethau yn uwch ymhlith pobl hŷn nag ymhlith pobl iau. Mae ffactorau cymdeithasol-economaidd yn effeithio ar gyfraddau marwolaethau ac afiachusrwydd yng Nghymru, a gwelir gwahaniaethau daearyddol mewn cysylltiad â'r rhain.

6.27 Mae lle i gredu bod ethnigrwydd yn effeithio ar gyfraddau marwolaethau ac afiachusrwydd hefyd, ond cesglir hynny o astudiaethau sydd wedi'u cynnal y tu allan i Gymru neu o ddata a gasglwyd ar sail wahanol. Nid yw anabledd (h.y. anabledd sydd wedi'i gofrestru) a thueddfryd rhywiol yn cael eu cofnodi fel arfer wrth gasglu ystadegau ar farwolaethau ac afiachusrwydd ychwaith, felly rydym yn dibynnu ar astudiaethau penodol a thystiolaeth anecdotaidd. Fodd bynnag, ceir rhai ystadegau am afiachusrwydd

sy'n cofnodi cyfyngiadau ar iechyd ar ryw ffurf neu'i gilydd.

6.28 Nid oes gwybodaeth ar gael yn uniongyrchol am ddisgwyliad einioes yn ôl grŵp ethnig, a bydd profiadau iechyd yn sicr o amrywio, ond mae ymchwil[54] yn dangos bod grwpiau ethnig lleiafrifol yn gyffredinol yn profi iechyd gwaeth, nad oes mynediad ar eu cyfer at ryw fath o ddarpariaeth iechyd, a bod lefelau eu bodlonrwydd â'r ddarpariaeth iechyd yn is. Ni wyddom a yw hynny i gyd yn wir am Gymru, ond mae'n debygol ei fod.

6.29 Canfuwyd yn yr Arolwg Iechyd ar gyfer Lloegr yn 1999[55] (ac mae'n debygol bod patrymau tebyg o anghydraddoldeb yng Nghymru):

- Bod pobl Bacistanaidd a Bangladeshaidd yn gyffredinol yn rhoi gwybod am iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol.
- Bod pobl o Dde Asia a phobl dduon Caribïaidd yn fwy tebygol o ddioddef o ddiabetes na'r boblogaeth gyffredinol.
- Bod cyfraddau uwch o glefydau cardiofasgwlaidd ymysg dynion Pacistanaidd a Bangladeshaidd.
- Bod rhai yn yr holl grwpiau ethnig lleiafrifol, heblaw Gwyddelod, yn llai tebygol o yfed alcohol, neu eu bod yn yfed llai ohono, na'r boblogaeth gyffredinol.
- Bod dynion Bangladeshaidd a Gwyddelig yn fwy tebygol o ysmygu na'r boblogaeth gyffredinol, a bod dynion a menywod Bangladeshaidd yn fwy tebygol o gnoi tybaco na grwpiau eraill o Dde Asia.
- Bod cyfraddau ymbresenoli mewn ysbytai'n debyg ar gyfer yr holl grwpiau ethnig lleiafrifol mewn cymhariaeth â'r boblogaeth gyffredinol, heblaw am ddynion a menywod Tsieineaidd, gan fod eu cyfraddau ymbresenoli fel cleifion mewnol, cleifion allanol a chleifion dydd yn is.

6.30 Yn ôl un astudiaeth[56], mae'r disgwyliad einioes ymysg menywod Sipsiwn a Theithwyr yn 12 mlynedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer menywod yn gyffredinol, ac mae disgwyliad einioes dynion Sipsiwn a Theithwyr yn 10 mlynedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer dynion yn gyffredinol. Mae lefelau marwolaethau cyn geni, genedigaethau marw a marwolaethau babanod yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol.

6.31 Mae heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn effeithio ar bobl o bob oed yng Nghymru, ond byddant yn digwydd yn amlaf ymysg pobl ifanc dan 25 oed. Mae nifer yr achosion o HIV yn dal i godi, ac mae cyfran fwy'n cael eu heintio drwy ryw heterorywiol. Mae data ar gyfer y DU yn awgrymu bod heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn effeithio'n anghyfartal ar bobl ifanc, dynion sy'n cael rhyw â dynion, a rhai grwpiau ethnig.

6.32 Nid oes unrhyw ystadegau cyffredinol ar gyfer y defnydd o wasanaethau iechyd yn ôl ethnigrwydd, ond mae peth tystiolaeth o wahanol gyfraddau mynediad i wasanaethau, a allai gyfrannu at wahanol ganlyniadau iechyd. Er hynny, nid yw'r ffaith bod rhai grwpiau'n cael mynediad i wasanaethau'n dangos o reidrwydd fod y gwasanaethau hynny'n diwallu eu hanghenion yn ddigonol, ac nid yw cyfraddau mynediad is yn golygu o reidrwydd nad yw anghenion yn cael eu diwallu.

6.33 Mewn astudiaeth o salwch seiciatrig a wnaed yn 1999[57] canfuwyd bod menywod o bob grŵp ethnig yn fwy tebygol na dynion o fod wedi siarad â meddyg o fewn y chwe mis blaenorol. Pobl Fangladeshaidd a oedd yn fwyaf tebygol o fod wedi gweld neu siarad â meddyg yn y cyfnod hwnnw, a phobl wyn a oedd yn lleiaf tebygol o fod wedi gwneud

hynny (58% o ddynion a 71% o fenywod).

6.34 Mae tystiolaeth am fynediad i wasanaethau iechyd i grwpiau ethnig yn Llundain – ac nid oes gennym unrhyw le i gredu y byddai'r darganfyddiadau'n wahanol yma – yn awgrymu bod y materion canlynol yn arwain at gyfraddau gwahanol ar gyfer mynediad i wasanaethau iechyd ymysg gwahanol grwpiau ethnig:

- anwybodaeth y defnyddiwr
- anawsterau o ran iaith a llythrennedd
- gwahaniaethau diwylliannol (yn ymwneud â chrefydd, rhyw neu batrymau gwaith)
- gwahanol anghenion y gwahanol boblogaethau
- lleoliad y gwasanaeth a oedd i'w ddarparu

Yn ôl y dystiolaeth o Lundain, roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw rwystrau mawr rhag y defnydd o wasanaethau meddygon teulu. Roedd rhai astudiaethau'n awgrymu bod lefel y defnydd o wasanaethau mamolaeth gan fenywod o leiafrifoedd ethnig yn isel. Mae'n bosibl bod mynediad i'r gwasanaethau hyn yn cael ei rwystro gan ddiffyg sensitifrwydd diwylliannol wrth ddarparu'r gwasanaethau, a gan rwystrau iaith. Roedd tystiolaeth i ddangos bod angen gwell gwybodaeth a mwy o gamau i hybu ymwybyddiaeth ymysg cymunedau lleiafrifol ethnig am wasanaethau ar gyfer trin afiechydon sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol. Roedd tystiolaeth hefyd y gallai lefelau isel o ymwybyddiaeth o ganser ymysg poblogaethau lleiafrifol ethnig fod yn rhwystr mawr rhag mynediad i wasanaethau trin canser, er bod y cyfraddau mynediad yn debyg ymysg gwahanol grwpiau ethnig. Roedd peth tystiolaeth i ddangos bod cleifion Asiaidd yn profi cryn oedi wrth gael gwasanaethau sy'n cynnig triniaeth rheoli arbenigol ar gyfer clefyd y galon. Roedd prinder gwybodaeth a phrofiad o wasanaethau'n rhwystro mynediad i wasanaethau'n gyffredinol ymysg pobl oedrannus. Roedd cleifion du Caribïaidd yn fwy tebygol o gael eu derbyn i unedau seiciatrig ac yn fwy tebygol o gael eu cloi mewn wardiau neu'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

*Anghydraddoldebau o ran triniaeth*

6.35 Gellid cael gwahanol ganlyniadau o wahanol raddau o fynediad i wasanaethau neu o wahaniaethau o ran y driniaeth a roddir gan y gwasanaeth iechyd ar ôl cael mynediad i wasanaethau.

Mae'r GIG wedi gwneud sawl Arolwg Cenedlaethol o Gleifion y GIG gyda'r bwriad o gyfrannu at fonitro perfformiad y GIG o safbwynt cleifion, gan ymdrin ag Ymarfer Cyffredinol (1998), [58] Clefyd Coronaidd y Galon (2000)[59] a Chanser (2000)[60]. Un mater a ddaeth i'r amlwg ym mhob un o'r tri arolwg oedd bod grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol, ar gyfartaledd, o roi adroddiad anffafriol am eu profiadau mewn cysylltiad â:

- amseroedd aros;
- deall esboniadau;
- ymddiried mewn meddygon a nyrsys;
- cael eu trin yn urddasol a chyda pharch; a
- cymorth i leddfu poen.

6.36 At hynny, mae pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn wynebu gwahaniaethu'n aml wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae hyn yn arwain yn aml at anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Cyflwynir Canllawiau Perthynas Agosaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cydnabod hawliau partneriaid o'r un rhyw. Drwy hynny, bydd unigolion sy'n

cysylltu â gwasanaethau iechyd mewn cysylltiad â phartner sy'n sâl yn cael yr un hawliau a chydnabyddiaeth â phobl heterorywiol.

*Beth rydym yn ei wneud*

6.37 Bydd y buddsoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad mewn iechyd yn dod â'r budd mwyaf i'r rhai mwyaf anghenus. I'r graddau hynny, bydd yn dod â budd yn awtomatig i unrhyw grŵp sydd â chyflwr iechyd gwael.

6.38 Gosodwyd targedau iechyd ar gyfer 2002, a chydnabuwyd bod y cynnydd tuag at rai o'r targedau hynny wedi bod yn siomedig. Oherwydd hynny, sefydlwyd grŵp o arbenigwyr i adolygu'r targedau, pennu targedau newydd a nodi dangosyddion ar gyfer monitro'r penderfynyddion mwy cyffredinol. Y targedau iechyd newydd yw'r rhai ar gyfer clefyd coronaidd y galon, canser, iechyd meddwl, iechyd pobl hŷn ac iechyd plant.

6.39 Cyfeirir llawer o ymdrechion at leihau anghydraddoldebau iechyd cyffredinol, yn enwedig drwy brosiectau'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ymladd yn erbyn clefyd y galon, ar helpu pobl i ddewis ffyrdd o fyw iachach, ar ddarparu gwasanaethau sgrinio'r galon a rhaglenni ailsefydlu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ymdrechu hefyd i wrthweithio'r agweddau statudol ar anghydraddoldeb.

- Amcan rhaglen **Health ASERT**[61] yw hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a rhaglenni hybu iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymysg ceiswyr lloches, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae'r ymchwil wedi arwain at gyhoeddi saith adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2005. Un o elfennau hanfodol yr argymhellion yw y dylid canfod ffyrdd i gynnwys cymunedau lleiafrifol yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau hybu iechyd sy'n fwy diwylliannol sensitif. Bydd digwyddiad yn cael ei gynnal o fewn yr adran.

- Datblygu a chyhoeddi **Safonau Gofal Iechyd i Gymru**. Bydd y fframwaith o gymorth i sicrhau bod yr holl wasanaethau a gynigir gan y GIG ac ar ei ran yn rhai o safon dda sy'n cael eu darparu mewn modd teg, dibynadwy a moesegol. Mae Safon 6 yn mynnu cydnabyddiaeth i wahanol ieithoedd a dulliau cyfathrebu, ac i anghenion corfforol a diwylliannol y cleifion a defnyddwyr y gwasanaethau. Bydd Safon 10 yn sicrhau na cheir gwahaniaethu annheg yn erbyn rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ar sail oed, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r safonau hyn.

- Cynhaliwyd astudiaeth gwmpasu fewnol ar gyfer y rhaglen ymchwil **Hyrwyddo iechyd a lles pobl anabl**. Roedd hyn yn fodd i osod anabledd yn y cyd-destun polisi ehangach ac i ganfod bylchau mewn polisi ac ymarfer gyda'r bwriad o bennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil sy'n berthnasol i'r gwaith o hyrwyddo iechyd a lles pobl anabl, ac osgoi unrhyw ddyblygu ar waith sydd wedi'i gwblhau, sydd ar y gweill neu sydd yn yr arfaeth. Bydd darganfyddiadau'r astudiaeth gwmpasu'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu manyleb ar gyfer ymchwil sydd i'w chomisiynu yn 2005-2006.

- Mae'r **Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol** newydd yn cynnig gwell ansawdd a mynediad mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol. O ganlyniad i'r gwelliant mewn gwasanaethau, gellir cynnig gofal iechyd sydd wedi'i addasu i ddiwallu anghenion grwpiau sydd dan anfantais, er enghraifft, pobl

oedrannus a phobl anabl. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda MENCAP, cynrychiolwyr gofalwyr, Cymdeithas Feddygol Prydain a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) i ddatblygu model ar gyfer gwasanaethau gwell yn lleol. Bydd hyn yn helpu BILlau i hyrwyddo gwaith i ddarparu gwell gofal iechyd i gleifion sydd ag anableddau dysgu, a fydd o gymorth i tua 13,000 o bobl.

Mae Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn cael eu darparu ar sail angen, heb glustnodi adnoddau ar gyfer grwpiau penodol. Er hynny, mae adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael eu dyrannu fel bod gwariant yn cael ei sianelu'n uniongyrchol at ardaloedd lle y ceir anghenion clinigol mawr, y gallai grwpiau penodol gael budd ohono. Er enghraifft, mae'r Fframwaith Ansawdd yn crynhoi adnoddau ar wasanaethau i reoli'r 10 clefyd cronig pwysicaf, ac mae pobl oedrannus yn cael budd o hyn. Dyrennir adnoddau i BILlau fel y gallant addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol penodol, a gallai hynny gynnwys anghenion grwpiau lleiafrifol neilltuol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario £24.3 miliwn o'i chyllidebau canolog, ac yn cymell BILlau i neilltuo arian yn eu cyllidebau unedig, i ehangu gwasanaethau'n unol â syniadau Wanless. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu nifer y meddygon teulu benywaidd er mwyn darparu ar gyfer anghenion teuluol, ac mae hynny o gymorth hefyd i ddarparu gwasanaethau i fenywod, gan gynnwys menywod o gymunedau ethnig.

- Cynllun y **Grant Hyfforddiant Tegwch ac Eiriolaeth**[62]. Ariannwyd 25 o brosiectau fel rhan o gynllun y Grant Hyfforddiant Tegwch ac Eiriolaeth[62]. Bu'r prosiectau hyn yn ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cael mynediad i ofal iechyd ac yn datblygu eiriolaeth er mwyn iechyd gwell mewn gwahanol gyrff. Dangosodd y gwerthusiad ohonynt fod y mynediad i ofal iechyd wedi gwella ar gyfer cymunedau lleiafrifol ethnig a chymunedau eraill.

- **Cyllid Ceiswyr Lloches ar gyfer Gofal Iechyd**. Pan ddaeth y cyllid canolog blaenorol (oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru) ar gyfer costau gofal iechyd Ceiswyr Lloches i ben ar 31 Mawrth 2004, cytunodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cyllid canolog am dair blynedd pellach. Ar gyfer 2004-2005, darparwyd £600,000 o gyllid. Mae hyn yn cyfrannu at dalu costau meddygol sylfaenol gan gynnwys: asesu anghenion; costau gofal sylfaenol; a mynediad at linell iaith, yn ystod eu tair blynedd cyntaf yng Nghymru. Bydd yr adnoddau hyn yn talu hefyd am gostau argraffu'r cofnod symudol, cyfarfodydd chwarterol ar gyfer Grŵp Arweiniol Ceiswyr Lloches Cymru Gyfan, ac unrhyw ddata ychwanegol eraill sydd i'w casglu drwy gyd-drefnu rhwng y pedair ardal glwstwr. Ar ôl tair blynedd, dylai Ceiswyr Lloches fod wedi'u hintegreiddio â'r ddarpariaeth gofal iechyd arferol fel rhan o'r cynllunio ar gyfer iechyd y gymuned leol.

- Mae **Menter Gofal Llygaid Cymru** yn hyrwyddo archwiliadau llygaid optometrig arbennig am ddim i grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys pum grŵp lleiafrifol ethnig. Mae'n ceisio targedu'r rhai sy'n fwyaf agored i gael clefydau'r llygad, a chyrraedd y rhai nad fyddent fel arfer yn gofyn am brawf llygaid dan y GIG. Mae'n rhoi rhaglen ar waith i safoni'r drefn o sgrinio llygaid ar gyfer retinopathi diabetig, gan sicrhau bod yr holl gleifion yng Nghymru'n cael eu sgrinio'n unol â'r safonau uchaf.

- Mae Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth yn cael ei ddatblygu a chaiff ei lansio yn Hydref 2005.

Mae'r Fframwaith yn ymgais i wella ansawdd a lleihau gwahaniaethau o ran y gwasanaethau a ddarperir drwy osod safonau cenedlaethol. Bydd y FfGC yn pennu safonau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, ac ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn amgylchiadau neilltuol, gan gynnwys plant ceiswyr lloches a ffoaduriaid, plant Sipsiwn a Theithwyr, a'r rhai mewn grwpiau lleiafrifol ethnig. Tynnwyd sylw at anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wasanaethau, y ddarpariaeth o wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau, a'u dynodi, wrth ddatblygu'r Fframwaith. Mae'r FfGC yn rhaglen wella 10 mlynedd a roddir ar waith gan y partneriaethau fframwaith plant a phobl ifanc lleol gan ddechrau yn 2005.

- Yn Rhagfyr 2004, rhoddwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth y DU i'r cynnig y dylid drafftio mesur i sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru a chyhoeddwyd Mesur craffu ar gyfer Cymru'n unig ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ar 22 Mawrth 2005. Yr amcan yw sicrhau y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu hystyried yn benodol yn yr **holl** bolisïau a gweithdrefnau cyhoeddus.

**Astudiaethau Achos**

**Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd**
Gan weithio mewn partneriaeth â'r Cynghorau Iechyd Cymuned, trefnodd Swyddfa Prif Swyddog Meddygol Cymru i ariannu, cynllunio a hwyluso sefydlu saith grŵp ffocws ledled Cymru. Y bwriad wrth sefydlu'r grwpiau hyn oedd casglu barn a chanfod anghenion y cyhoedd o ran gwybodaeth, mewn cysylltiad â phwnc astrus yr heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys yr henoed, pobl ifanc a grwpiau ethnig lleiafrifol ac aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned. O ganlyniad i hyn, meithrinwyd cysylltiadau eang, a chafwyd gwell dealltwriaeth o'r modd gorau i ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r cyhoedd.

**Perfformiad a Llawdriniaethau**
Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai mynediad i wasanaethau dewisol mewn ysbytai a gwasanaethau brys mewn ysbytai gael ei bennu'n gyfan gwbl gan flaenoriaeth glinigol heb ystyried unrhyw ffactor arall. Y bwriad, felly, yw asesu'r gwasanaethau hyn a gynigir gan y GIG ar gyfer grwpiau lleiafrifol ethnig er mwyn canfod a ydynt yn profi unrhyw rwystrau rhag derbyn gofal brys a gofal dewisol mewn ysbyty o ganlyniad i wahaniaethau ethnig neu ddiwylliannol. Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi sy'n dangos tarddiad ethnig y rhai sydd wedi'u derbyn, ac yn cynnwys asesiad sy'n cymharu mynediad ymysg gwahanol grwpiau.

Cyfraniad Dinasyddion Pilipinas (Ynysoedd Philippines) i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru

O ganlyniad i gyfarfod rhwng Jane Hutt a Llysgennad Pilipinas, Ei Ardderchogrwydd Mr Edgardo B Espiritu, ar 3 Rhagfyr 2003, lle y trafodwyd cyfraniad dinasyddion Pilipinas i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, cytunwyd y dylid trefnu cynhadledd i gydnabod cyfraniad nyrsys o Bilipinas i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.

Mae tua 800 o nyrsys Pilipinaidd wedi'u cyflogi mewn Ymddiriedolaethau GIG ledled Cymru. Cyflogir y rhan fwyaf ohonynt yn y Gwasanaethau Acíwt gan gynnwys Llawfeddygaeth Gyffredinol, Ystafelloedd Llawdriniaeth, a Gofal Critigol. Mae llawer ohonynt wedi cael dyrchafiad ers dechrau eu cyflogi, ac mae'r adborth oddi wrth yr Ymddiriedolaethau GIG wedi bod yn gadarnhaol dros ben.

Cynhaliwyd y gynhadledd yng Ngwesty'r Angel, Caerdydd, ar 16 Tachwedd 2004.

Roedd y gynhadledd yn ddiwrnod o ddathlu a chefnogaeth. Anfonwyd 200 o wahoddiadau i Ymddiriedolaethau GIG ledled Cymru a bu 115 o gynrychiolwyr yn bresennol ar y diwrnod (gan gynnwys dirprwyaeth o Lysgenhadaeth Pilipinas).

Ar fore'r gynhadledd, rhoddwyd gair o groeso gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafwyd areithiau gan ffigyrau amlwg ym myd Nyrsio a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn y gall Cymru ei gynnig.

Darparwyd man arddangos lle y bu'r nyrsys Pilipinaidd yn dangos tystiolaeth o brosiectau a rhaglenni yr oeddent wedi ymwneud â hwy – gan ddangos eu cyfraniad i'r GIG yng Nghymru.

Uchafbwynt y diwrnod oedd y cyflwyniad i'r gynulleidfa gan nyrsys Pilipinaidd o bob rhan o Gymru am eu profiadau – rhai ohonynt yn hanesion doniol a diffuant iawn am eu llwyddiant.

Yn y prynhawn, rhoddwyd y prif sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael, a'r posibilrwydd o ddatblygu pellach, ac arweiniwyd gweithdy gan gynrychiolydd o Goleg Brenhinol y Nyrsys ar lunio Cynlluniau Datblygu Personol a roddodd anerchiad wedyn a oedd yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael i'r nyrsys gan gymheiriaid.

## DATBLYGU CYMUNEDAU CRYF A DIOGEL

6.40 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau cryf a diogel yng Nghymru. Mae Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2005[63] yn nodi'n glir y cyd-destun i'r maes blaenoriaethol hwn, ac yn rhestru'r sylfeini ar gyfer cymunedau cryf a diogel – byw mewn amgylchoedd diogel, mewn amgylchedd cynaliadwy derbyniol a gyda bywyd diwylliannol bywiog.

*Amgylchoedd Diogel*

6.41 Mae data ar gael ar anghydraddoldeb mewn cysylltiad â chreu a chynnal cymunedau cryf a diogel yng Nghymru. Yng nghyd-destun troseddu, mae data ar gael yn ôl oed, rhyw ac ethnigrwydd, ond nid yn ôl y meysydd cydraddoldeb eraill [British Crime Survey – Crime in England and Wales 2004-05 (Y Swyddfa Gartref) [64] a Ffocws Ystadegol ar Ethnigrwydd yng Nghymru[65]]. Mae'r wybodaeth hon yn dangos i ni fod dynion yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o gyflawni troseddau na menywod; bod pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o droseddau na phobl hŷn, a bod rhai dan 30 oed tua 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o gyflawni troseddau na phobl dros eu 50 oed. Mae ymchwil[66] wedi dangos bod pobl mewn grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu risg mwy o lawer oddi wrth droseddau corfforol o'i gymharu â Phobl Wyn a bod rhai o gefndir ethnig Cymysg yn profi mwy o risg, yn gyffredinol, o gael eu herlid na'r holl grwpiau eraill.

6.42 Roedd y darganfyddiadau o Arolwg Stonewall Cymru yn 2002-2003 o bobl lesbaidd, hoyw a deurywiol yn dangos bod mwy nag un o bob tri o'r rhai a ymatebodd wedi rhoi gwybod eu bod wedi dioddef o drais corfforol neu fwlio; nododd bron 57% o'r rhai a ymatebodd eu bod wedi profi difrïo ar lafar neu aflonyddu oherwydd eu rhywioldeb ac roedd 64% wedi profi galw enwau a gwawdio gan y cyhoedd.

6.43 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ystyried gwybodaeth am droseddwyr ifanc. Yn 2002-2003, roedd y rhan fwyaf o'r troseddau, tua 96%, a gyflawnwyd yng Nghymru wedi'u cyflawni gan bobl ifanc o gefndir ethnig gwyn. Gyda golwg ar y rhai sy'n dioddef gan droseddu, mae aelwydydd lle y mae'r penteulu rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol [7.1%] o ddioddef oherwydd byrgleriaeth na rhai lle y mae'r penteulu'n hŷn. Dynion ifanc [16-24] sy'n wynebu'r risg mwyaf o ddioddef oherwydd trosedd treisiol, ac roedd 14.6% o'r rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr arolwg wedi profi hynny yn y flwyddyn cyn y cyfweliad. Roedd 77% o'r rhai a oedd wedi dioddef gan drais yn y cartref yn fenywod, ac roedd 78% o'r rhai a oedd wedi dioddef trais gan ddieithriaid yn ddynion. Gwyddom hefyd fod pobl hŷn, ledled y DU, yn wynebu llai o risg o ddioddef gan droseddu treisiol na phobl ifanc.

6.44 Gyda golwg ar dai diogel, mae gennym ddata ar dai yn ôl oed, rhyw, ethnigrwydd, cyflwr iechyd, crefydd a'r Gymraeg. Mae data ar gael yn "The Age Related Housing, Domiciliary Care and Support Requirements of Older People in Wales" [2003][67] ac o Gyfrifiad 2001. Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio a gwyddom fod pobl hŷn yng Nghymru'n fwy tebygol na phobl ifanc o brofi amodau tai gwael, o fod heb fwynderau neu gyfleusterau modern yn eu cartrefi, ac o fod ag angen addasiadau i'w galluogi i fyw'n annibynnol. Mae tair gwaith yn fwy o fenywod dros 70 oed yn byw ar eu pennau eu hunain nag o ddynion, a phedair gwaith yn fwy o rai dros 85 oed: mae hwn yn fater sy'n ymwneud â rhyw y dylid ei ystyried yng nghyd-destun darparu gwasanaethau.

6.45 Mae un person ym mhob 17 yn byw mewn tai gorlawn, ac mae hyn yn fater sy'n llawer mwy perthnasol i rai grwpiau ethnig, gan fod un ym mhob pump o bobl Bacistanaidd yn byw mewn tai gorlawn. Mae'n fwy cyffredin ymysg rhai grwpiau crefyddol, ac mae un ym mhob pump o Siciaid ac un ym mhob pedwar o Foslemiaid yn byw mewn tai gorlawn.

6.46 Mae pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol yn wynebu nifer o broblemau mewn cysylltiad â thai hefyd. Mewn ymchwil gan SEQUAL (2005) cafwyd bod cyfran uchel o'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yn Brighton, Hove a Hastings yn bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. A hwythau wedi'u denu i'r ardal am fod poblogaeth 'hoyw' niferus ac amlwg, roedd eu tlodi wedi'i gelu a'u hanghenion fel grŵp a allai brofi tlodi heb ei gydnabod. Yng Nghymru, ceir symudiad tebyg o ardaloedd gwledig i rai trefol lle y mae pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol yn barnu y gallent gael mwy o gymorth a bod yn llai tebygol o gael eu hallgáu neu o brofi aflonyddu.[68]

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu ymchwil drwy Stonewall Cymru i anghenion pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol o ran tai a digartrefedd. Cyhoeddir yr ymchwil yn 2006 a bydd y Llywodraeth yn ystyried darganfyddiadau'r adroddiad a'r argymhellion yn ofalus.

6.47 Gellir dadansoddi data am ddamweiniau ar y ffyrdd yn ôl oed a rhyw ond nid yn ôl meysydd cydraddoldeb eraill. Mae gennym beth gwybodaeth am y modd y mae pobl yn teithio i'r gwaith ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd cydraddoldeb. Yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael, gwyddom fod dwywaith yn fwy o fenywod yn cerdded i'r gwaith nag o ddynion, a bod dynion yn fwy tebygol o gael eu hanafu mewn damwain ar y ffyrdd. Mae pobl mewn grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fod heb gar na grwpiau eraill.

*Beth rydym yn ei wneud?*

6.48 Rhai enghreifftiau o'r gwaith a wnaed i hyrwyddo cydraddoldeb yn 2004-2005 yw:-

- **Cymunedau yn Gyntaf**[69] – rhaglen hirdymor a fydd yn rhedeg am o leiaf 10 mlynedd, sy'n grymuso pobl leol fel y gallant benderfynu drostynt eu hunain beth y mae ei angen i adfywio'r ardal lle y maent yn byw ac yn gweithio. Mae hon yn strategaeth ar gyfer gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r canllawiau'n cael eu hailysgrifennu er mwyn sicrhau y bydd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cael gwybodaeth glir ynghylch cynnwys pobl hŷn a phobl iau yn y broses. Rhoddwyd cyllid i gymuned fuddiant yn sir Benfro. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau sensitifrwydd i nodweddion ieithyddol pob ardal Cymunedau yn Gyntaf [69], ac, ar ôl eu hailysgrifennu, bydd y canllawiau'n adlewyrchu materion sy'n ymwneud ag iaith.

- **Gostwng Troseddu ac Anhrefn** – Mae Tîm Gostwng Troseddu'r Uned Diogelwch Cymunedol wedi cyfrannu i amryw o ddogfennau polisi mewn gwahanol adrannau yn y Cynulliad, gan sicrhau sylw digonol i anghenion grwpiau lleiafrifol a lle blaenllaw i droseddau casineb ar agenda'r Cynulliad ar ddiogelwch cymunedol. Rhoddwyd adroddiadau rheolaidd am gymunedau yng Nghymru ar gyfer proses monitro'r Swyddfa Gartref ar y Risg o Dyndra.

- **Strategaethau Diogelwch Cymunedol** – Parhawyd i roi ar waith y Strategaethau Diogelwch Cymunedol ar gyfer y 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau y bydd y Partneriaethau'n manteisio'n llawn ar y cyllid sydd ar gael oddi wrth y Swyddfa Gartref a'r Cynulliad. Mae Uned Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio'n agos â'r 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i ddiwallu anghenion penodol grwpiau lleiafrifol ethnig yn eu strategaethau tair blynedd ar gyfer delio â throseddu ac anhrefn. Mae'r Strategaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn ar gyfer 2005-2008 yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd gan bob un o'r partneriaethau ac mae nifer ohonynt yn cynnwys camau gweithredu ynghylch troseddau casineb sy'n seiliedig ar hil, rhyw a thueddfryd rhywiol. Rhoddir anogaeth i gysylltu â chyrff lleol er mwyn eu cynnwys yn y strategaeth ac mae hynny'n berthnasol i gyrff sy'n darparu gwasanaethau i grwpiau lleiafrifol ethnig.

- **Strategaeth i Gymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** – Sefydlwyd Tai Pawb[70] yn 2004-2005. Tai Pawb yw'r gymdeithas dai a grëwyd i ychwanegu gwerth at bartneriaethau sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ym maes tai, i hybu'r arferion gorau ar gyfer cydraddoldeb hiliol ym maes tai ac i rymuso cymunedau ethnig lleiafrifol fel y gallant gymryd rhan i'r graddau mwyaf posibl wrth gynllunio, darparu a derbyn gwasanaethau tai yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i roi cyllid o £200,000 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf.

- **Gofal a Thrwsio** – Mae asiantaethau'n helpu pobl hŷn ac anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain drwy roi cymorth ymarferol uniongyrchol ar gyfer y gwaith adnewyddu ac atgyweirio mwyaf addas ar eu tai. Yn 2004-2005, rhoddodd y Cynulliad £3.45 miliwn i hybu gweithgareddau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Mae hynny'n cymharu ag £1.48 miliwn yn 2002-2003. Roedd y cynnydd hwn o 133% yn arwydd o'r ymrwymiad a roddodd y Cynulliad i roi mwy o gyllid ar gyfer y gwaith hwn ar ôl adolygiad ariannol. O ganlyniad i hynny, cafodd asiantaethau Gofal a Thrwsio 32,823 o ymholiadau, yr oedd 98% ohonynt oddi wrth gleientiaid a oedd yn fwy na 75 oed, yn anabl neu'n wael eu hiechyd; cwblhawyd 27,071 o dasgau am gyfanswm o £14.6 miliwn; a chwblhawyd 6,541 o achosion cynghori. Fel rhan o'r monitro ar berfformiad, mae Gofal a Thrwsio

yn darparu ystadegau sy'n cynnwys nifer yr ymholiadau, nifer y bobl a gafodd gymorth a gwerth y gwaith a wnaed. Mae'r cyfanswm o £14.6 miliwn yn cyfateb yn bennaf i feysydd fel cymorth grant gan awdurdodau lleol.

- **Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan**[71] – Cafodd ei datblygu yn 2004-2005 a'i lansio ddiwedd Mawrth 2005. Mae materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol wedi'u prif ffrydio'n ofalus yn y ddogfen drwy gymryd cyngor oddi wrth gyrff lleiafrifoedd ethnig. Bydd yn cael ei monitro gan Weithgor Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Uned Diogelwch Cymunedol wedi cynhyrchu taflen amlieithog ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o'r ymrwymiad i brif ffrydio materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol.

*Amgylchedd cynaliadwy derbyniol*

6.49 Un o nodau allweddol y Cynulliad yw gwella ansawdd bywyd a rhagolygon pobl a chymunedau, yn enwedig y rhai sy'n profi ysgytwad economaidd cyflym a sylweddol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd yma â materion sydd wedi'u trafod dan “Creu Swyddi Gwell a Gwella Sgiliau”.

- Mae'r gwaith datblygu a oedd yn cynnwys addasu'r ardd adfeiliedig yn Old Hall, fel rhan o brosiect **Adfywio'r Diwydiant Dur yn Sir y Fflint**, i'w gwneud yn adnodd wedi rhoi cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i bobl sydd ag anableddau dysgu. Amcan y prosiect yw helpu pobl sydd ag anableddau dysgu i gael gwaith mewn meysydd cysylltiedig eraill.

- Lansiwyd rhaglen werth £8 biliwn dros 15 mlynedd i ddatblygu **system drafnidiaeth integredig o'r radd flaenaf**. Caiff cynlluniau trafnidiaeth eu gwerthuso dan amryw o feini prawf, gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb. Fel rhan o'r cynllun hwn, cyflwynwyd tocynnau consesiynol ar gyfer pobl anabl a rhai 60 mlwydd oed a throsodd. Darparwyd £1 filiwn y flwyddyn am dair blynedd i'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru i gynnig teithio am ddim o fewn dalgylch penodol i rai sydd ag anableddau nad ydynt yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- Prif nod **Strategaeth Band Eang Cymru**[72] yw sicrhau bod gwasanaethau band eang fforddiadwy ar gael i bobl Cymru, gan gyflawni'r amcanion drwy gydol 2004-2005 er mwyn pobl Cymru heb wahaniaethu ar sail oed, rhyw neu darddiad ethnig, etc.

- Mae'r **Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes**[73] yn darparu mynediad o bell i'r Rhyngrwyd a TGCh i bob anabl a rhai dan anfantais yng Nghymru. Mae mynediad am ddim i'r Rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd yn helpu i leihau anfanteision oherwydd tlodi a'r gallu i symud o gwmpas hefyd. Mae'r Rhwydwaith yn cynnig defnydd o offer TGCh am ddim i bobl Cymru hefyd, a'r modd i gael deunydd Cymraeg drwy ei rwydwaith o Ganolfannau Dysgu TGCh.

- **Datblygu Ail Genhedlaeth Band Eang.** Mae gwefan gwbl ddwyieithog ar gyfer y Cynllun Broceriaeth Band Eang wedi'i chynllunio fel ei bod yn hwylus i ddefnyddwyr: er enghraifft, mae fformat testun yn unig ar gael i rai sydd â nam ar eu golwg. Mae holl elfennau Strategaeth Band Eang Cymru yn rhoi sylw i'r gofynion sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r holl weithgareddau e-gyfryngau ac e-bostio yn cydymffurfio â'r gofynion o ran dwyieithrwydd, maint print a hygyrchedd. Mae

gwefan Band Eang Cymru yn cydymffurfio â’r gofynon o ran iaith a gweledeedd ac mae’r holl wefannau allanol yn cydymffurfio â hwy hefyd.

- Mewn adolygiad strategol annibynnol yn 2004, canfuwyd bod y Rhaglen wedi cyflawni’r rhan fwyaf o’i hamcanion a bod y gweddill yn cael sylw ar y pryd, a bod gwelliannau sylweddol yn digwydd.

- Cafodd **Uned Band Eang Cymru** ganmoliaeth arbennig wrth ddyfarnu Gwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2005.

- **Prosiect Lleoliadau Hygyrch**. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu’r Gweithgor Lleoliadau Hygyrch o dan gadeiryddiaeth y Trefnydd. Pwrpas y Gweithgor yw hyrwyddo arferion da wrth drefnu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau, a datblygu rhaglen weithredu a fydd yn peri bod y Cynulliad a’i bartneriaid yn defnyddio lleoliadau hygyrch fel mater o drefn ar gyfer eu holl gyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau pwysig. Ar hyn o bryd, mae’r Gweithgor yn datblygu dogfen arweiniad ar yr arferion gorau y gall trefnwyr digwyddiadau a darparwyr lleoliadau ei defnyddio i asesu’r modd gorau i ddiwallu anghenion pobl anabl.

- **Iaith Arwyddion Prydain.** Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Cynulliad i ymchwilio i’r angen, a gydnabyddir yn gyffredinol, am fwy o gyfieithwyr yng Nghymru sy’n trosi rhwng Iaith Arwyddion Prydain ac Ieithoedd Llafar. Gofynnwyd i’r Grŵp ymchwilio i lefel yr angen a chyflwyno argymhellion gyda’r bwriad o fodloni’r angen hwnnw a hybu arferion da wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion sy’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

  Nododd y Grŵp y byddai angen codi nifer y cyfieithwyr sy’n gweithio yng Nghymru o 12 i 64, er mwyn cymharu’n ffafriol â’r ddarpariaeth o gyfieithwyr mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Cyflwynodd y Grŵp bum argymhelliad i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd y nod hwnnw. Yn fyr, maent yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad:
  1 - Sefydlu Cynllun Prentisiaeth i Gyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer Cymru;
  2 - Cyhoeddi Canllawiau ar Ddarparu Gwasanaethau drwy Iaith Arwyddion Prydain a hybu arferion da;
  3 - Ceisio dod yn gorff enghreifftiol ym maes darparu gwasanaethau drwy Iaith Arwyddion Prydain;
  4 - Gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn hybu’r nifer o gyfieithwyr sy’n cofrestru gyda chorff proffesiynol; a
  5 - Cysylltu â’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i drafod y posibilrwydd o gynnwys sillafu â’r bysedd a rhagarweiniad i Iaith Arwyddion Prydain yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru.
  Er mwyn hyrwyddo’r gwaith ar yr argymhellion hyn, a oedd yn cynnwys trefnu cyfres o gynadleddau rhanbarthol i hybu arferion da, cafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru secondiad o gorff sy’n cynrychioli pobl fyddar.

*Bywyd Diwylliannol Bywiog*

6.50 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi llawer o sylw i faterion diwylliannol. Diwylliant yw crynswth ein gweithredoedd a’n dyheadau, ein diddordebau a’n serchiadau, ein gwerthoedd a’n credoau. Bydd cymdeithas fodern, lawn diwylliant yn gymdeithas sydd

hefyd yn ffyniannus yn economaidd, gan y bydd wedi meithrin chwilfrydedd, dychymyg, gallu creadigol ac amrywiaeth. Oherwydd hynny, trysorwn ein diwylliant neilltuol sy'n rhoi i Gymru ei hunaniaeth unigryw ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i'w hyrwyddo a'i ddatblygu ymhellach.

- Rhoddwyd £12.3 miliwn o gyllid i **Fwrdd yr Iaith Gymraeg** yn 2004-2005. Roedd ei weithgareddau, sydd â'r bwriad o hyrwyddo'r Gymraeg a'i gwneud yn gyfartal â'r Saesneg, yn cynnwys tri Chynllun Gweithredu Iaith ychwanegol a sefydlwyd ym Mangor, Machynlleth ac Amlwch. Rhoddwyd gwerth £1.3 miliwn o grantiau i'r Mentrau Iaith sy'n gwasanaethu 18 o siroedd ledled Cymru. Mae'r Mentrau'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel leol, gan ddarparu gwasanaethau, cymorth a chyngor. Darparwyd pecynnau croeso a gwefan sy'n cynnig gwybodaeth am yr iaith ar gyfer rhai sy'n symud i ardal lle y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan lawer. Dosbarthwyd 2,000 o becynnau gwybodaeth ar Twf [prosiect iaith arloesol] i rieni newydd, a chyflogwyd 25 o staff. Rhoddwyd £1.03 miliwn o gyllid i Mudiad Ysgolion Meithrin i ddarparu mynediad i leoliadau cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol. Rhoddwyd £479,000 ar gyfer canolfannau i hwyrddyfodiaid er mwyn integreiddio plant sy'n symud i ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysg.

- "**Moving Beyond**"[74] – Crëwyd Strategaeth dair blynedd ar y Celfyddydau ac Anabledd. Ei nod yw hybu mynediad at bob math o gelfyddyd ledled Cymru. Mae'r Cynulliad wedi darparu cyfres o grantiau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru i beri i leoliadau fod yn gwbl hygyrch i bobl anabl. Rhoddwyd grantiau i'r Academi Gymreig Frenhinol, Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd, Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy, Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Theatr Fach Abertawe ac Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen.

- Mae **prosiect CyMAL** yn cymell amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau a ddaw â budd i'r holl ddefnyddwyr. Yn 2004-2005, rhai o'r prosiectau a ariannwyd oedd "Cardiff: One City Many Voices"; "Making a hidden history accessible" – drwy ddefnyddio technoleg ddigidol newydd, mae'r prosiect hwn yn ceisio cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu gydol oes, gan hyrwyddo delwedd gosmopolitan o Gymru fel cenedl amrywiol ac amlddiwylliannol gan gyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol; arddangosfeydd amlgyfrwng fel "One Island: Many Faiths", "Butetown Now", a "Somali Elders: Portraits from Wales".

- Amcan y cynllun **Merched yn Gyntaf** yw helpu i gau'r bwlch rhwng merched a bechgyn sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'n ceisio gwneud hynny drwy helpu ysgolion i gynnig cyfleoedd i ferched gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlar sy'n cynnwys chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd 15,000 o ferched yng Nghymru wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Merched yn Gyntaf.

- Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn rhoi prosiect **Ar Dir Cyffredin 2** ar waith. Ymgynghoriad â phobl ifanc yw Ar Dir Cyffredin, i gasglu barn pobl iau am amgueddfeydd a threftadaeth. Mae'n ystyried dulliau o beri i'r maes hwn fod yn fwy deniadol i bobl 16-25 oed. Bydd Ar Dir Cyffredin 2 yn rhedeg am ddwy flynedd, gan ddefnyddio cyllid Amcan Un a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ac yn gweithio mewn pum cymuned ledled Cymru.

**Astudiaeth Achos**

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol i Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae’r cymorth hwn yn hollbwysig, gan fod ffoaduriaid ymysg y rhai sy’n fwyaf agored i niwed yng Nghymru. A hwythau wedi ffoi rhag amgylchiadau lle’r oeddent yn cael eu gormesu a’u herlid ac yn profi gwahaniaethu, gallant eu cael eu hunain yn aml mewn amgylchedd di-groeso lle y mae’r iaith a’r diwylliant yn ddieithr iddynt a’u dyfodol yn ansicr.

Yma, drwy waith uniongyrchol Cyngor Ffoaduriaid Cymru, gellir grymuso ffoaduriaid drwy gynnig cyngor a chymorth fel bod modd iddynt ailafael yn eu bywyd. Mae’r rhan y mae’r Cyngor yn ei chwarae drwy hwyluso gwaith rhwng cyrff cymunedol yn bwysig hefyd yn hyn o beth a gwelir gwerth mawr yn hynny fel modd i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau dull mwy strategol o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

I’r diben hwnnw, darparwyd cyllid ar gyfer Prif Weithredwr y Cyngor ac i hybu Wythnos y Ffoaduriaid. Darparwyd cyllid am dair blynedd hefyd fel y gall y Cyngor benodi Swyddog Ymgyrchoedd a Swyddog Polisi i ddechrau’r gwaith ar Bolisi Cynhwysiant Cymru Gyfan. Bydd y prosiect yn rhedeg dros nifer o flynyddoedd.

Mae Wythnos y Ffoaduriaid yn bwysig gan ei bod yn cyfleu negeseuon addysgol buddiol sy’n gwrthweithio anwybodaeth a stereoteipio negyddol drwy’r celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol ac addysgol sy’n canmol cyfraniad ffoaduriaid i’r DU, ac yn hybu dealltwriaeth.

Rhai o’r digwyddiadau oedd:

- **Dathlu Lloches – digwyddiad lansio cenedlaethol Wythnos y Ffoaduriaid yng Nghymru a oedd yn cynnwys cerddoriaeth, dawns, storïau, theatr a gweithiau celf gweledol gan gymunedau ffoaduriaid ac artistiaid sy’n ffoaduriaid yng Nghymru; a**

- Dianc i Ddiogelwch – arddangosfa amlgyfrwng a fydd yn ymweld ag ysgolion a chanolfannau cyhoeddus yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam.

## 7. Y Camau Nesaf

7.1 Yr hyn sy'n amlwg o'r adroddiad hwn a'r datganiadau manwl gan adrannau yw bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd camau mawr ymlaen – yn y cyfnod sydd dan sylw, ac ers hynny. O ran proses, ceir dull cyson o gasglu data yn yr holl adrannau. Gobeithir y bydd yr wybodaeth hon yn cynnig sail ar gyfer meincnodi yn y dyfodol.

7.2 Llwyddwyd i ryw raddau i lunio adroddiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, er ei bod yn amlwg bod y dulliau o fesur canlyniadau cydraddoldeb yn yr holl feysydd polisi ymhell o fod yn orffenedig. Er mwyn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio polisïau sy'n cynnwys nodau a ffyn mesur pendant ar gyfer cydraddoldeb o'r cychwyn, comisiynwyd asesiad annibynnol i ganfod i ba raddau y mae'r ddyletswydd o ran cydraddoldeb wedi'i hadlewyrchu ym mholisïau a rhaglenni allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r ddyletswydd o ran cydraddoldeb wedi'i chynnwys yn y broses penderfynu, ac yn edrych ar effaith ein polisïau ar y cyhoedd. Fel rhan o'r asesiad, rhoddir argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar system/methodoleg i'w defnyddio gan staff i adolygu a gwerthuso cynnydd yn y dyfodol.

7.3 Yn ogystal ag asesu'r graddau y mae cydraddoldeb wedi'i gynnwys yng ngwaith y Llywodraeth ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod mor bwysig yw defnyddio'r wybodaeth ystadegol sydd ar gael i ni eisoes wrth ddatblygu polisi. Felly, gofynnwyd i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol ymgymryd â phrosiect a fydd yn cynnig cipolwg ar y sefyllfa o ran cydraddoldeb yng Nghymru ar gyfer pob un o'r adrannau canlynol:

- Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
- Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
- Hyfforddiant ac Addysg

7.4 Bydd yr adroddiad a fydd yn deillio o hynny'n cynnwys gwybodaeth ystadegol am y pum pwnc pwysicaf ar gyfer pob adran, gan roi sylw i gydraddoldeb. Mae'r prosiect hwn yn un pwysig dros ben gan y bydd yn cynnig sylfaen ar gyfer agenda'r Cynulliad ar brif ffrydio dros y tair blynedd nesaf, ac yn helpu adrannau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol mewn cysylltiad â chydraddoldeb.

7.5 Er mwyn prif ffrydio cydraddoldeb yn effeithiol, rhaid i staff Llywodraeth y Cynulliad gael yr offer, yr hyfforddiant a'r cymorth priodol. Cafwyd ymrwymiad i wella proses y porth i bolisïau, ac mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i ddatblygu offeryn ymarferol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb hiliol mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol[28]. Ar gyfer y dyfodol, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brif Ffrydio hefyd yn bwriadu ymestyn yr offeryn ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb hiliol i gynnwys yr holl feysydd cydraddoldeb.

7.6 Mae offer eraill wedi'u comisiynu i helpu staff yn ystod y broses llunio polisi. Mae'r Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog yn gweithio ar brosiect ar hyn o bryd a fydd yn cynnig pecyn offer ymarferol a buddiol ar gyfer cyfathrebu â lleiafrifoedd ethnig. Cwblheir hynny

ar ddiwedd 2005, a bydd yn adnodd ar gyfer yr holl staff. Yn ogystal â hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cronfa ddata gynhwysfawr a fydd yn nodi cysylltiadau ar gyfer yr holl feysydd cydraddoldeb ledled Cymru.

7.7 Er mwyn helpu i gadw pwnc cydraddoldeb ar yr agenda'n barhaus, mae hyrwyddwyr cydraddoldeb wedi'u henwebu yn holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn cefnogi ac yn arwain eu staff ar bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Ar hyn o bryd, mae Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn gweithio ar fframwaith a fydd yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n fanwl. Mae rhwydwaith wedi'i sefydlu hefyd i ganfod anghenion hyfforddi Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a staff y Cynulliad yn fwy cyffredinol. Yn wir, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod hyfforddiant yn elfen hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff cydraddoldeb ei brif ffrydio yn ein holl swyddogaethau busnes a llunio polisi oherwydd, os na fyddant yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, ni fydd staff yn gallu datblygu polisïau sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb.

7.8 Mae rhaglen hyfforddiant yn cael ei threfnu ar hyn o bryd ar bwnc cyllidebu ar sail rhyw. Fel rhan o'i gytundeb ariannu, mae MEWN Cymru wedi cytuno i roi cyflwyniad wedi'i deilwra ar gyfer Uwch Dimau Rheoli ar gyllidebu ar sail rhyw. Yn dilyn y cyfnod hyfforddi cyntaf hwn, bydd staff allweddol yn yr holl adrannau'n cael eu hyfforddi yn y pwnc pwysig hwn.

7.9 Yn ogystal â sicrhau bod yr offer, y cymorth a'r hyfforddiant priodol wedi'u darparu, mae'n hollbwysig gofalu bod ein gwaith yn cael ei werthuso'n effeithiol. Cyflawnir y gwaith gwerthuso'n bennaf drwy ddatblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb adrannol a'u hadolygu'n flynyddol. Fel y gwyddoch, o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol[16], mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau a gymerwn i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Cyflwynir gofyniad tebyg i gyd-fynd â'r ddyletswydd ar anabledd a'r ddyletswydd ar gydraddoldeb y rhywiau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy ofyn i'r holl adrannau asesu eu meysydd polisi mewn cysylltiad â phob un o'r meysydd cydraddoldeb a nodi ar ydynt o bwysigrwydd mawr, canolig neu fach. Bydd yn ofynnol i'r adrannau ymrwymo wedyn i gymryd camau yn y meysydd hynny sydd wedi'u dynodi'n rhai pwysig iawn.

7.10 Gyda golwg ar bolisïau sydd ar y gweill, mae'n amlwg o'r wybodaeth sydd wedi'i darparu fod llawer o bolisïau newydd gael eu rhoi ar waith ar ddiwedd y cyfnod dan sylw. Cwblheir polisïau a gwaith ymchwil pwysig yn 2005-2006 – er enghraifft, datblygu pellach ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn drwy ymchwil ar anghenion pobl hŷn sy'n lesbaidd, yn hoyw ac yn drawsrywiol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori hefyd ar Fesur drafft Llywodraeth y DU i sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn, er mwyn sicrhau y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael sylw penodol yn yr holl bolisïau a gwasanaethau cyhoeddus.

7.11 Ceir amryw o raglenni sy'n rhoi sylw penodol i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb fel grantiau i leiafrifoedd ethnig ac anabledd. Mae gwaith yn mynd ymlaen i ganfod cyfanswm y cyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wario ar sicrhau cyfle cyfartal drwy ei chyllidebau. Os bydd y Llywodraeth yn llwyddo i brif ffrydio cydraddoldeb, bydd yr holl bolisïau a rhaglenni'n cael eu cynllunio gyda golwg ar gydraddoldeb, fel y bydd y cwbl o'n gwariant yn cael ei wario i sicrhau cydraddoldeb wrth roi polisïau a phrosiectau ar waith. Ni chaiff cydraddoldeb fod yn weithgarwch atodol: rhaid ei brif ffrydio.

[1] Cymru: Gwlad Well
http://www.wales.gov.uk/themesbettercountry/strategic-e.pdf

[2] Creu'r Cysylltiadau
http://www.wales.gov.uk/themesmakingconnection/index.htm

[3] Cyflawni Ein Haddewidion
http://www.wales.gov.uk/keypubannualreports/content/2005/report-060605-e.htm

[4] Cyfle Cyfartal - Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol – Gorffennaf 2004
http://www.wales.gov.uk/assemblydata/N0000000000000000000000000022848.pdf

[5] Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (2005-2008)
http://www.wales.gov.uk/themesraceequality/

[6] Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru
http://www.wales.gov.uk/themessustainabledev/content/review/revised-scheme-e.htm

[7] Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy
http://www.wales.gov.uk/themessustainabledev/content/action-plan-e.pdf

[8] Deddf Llywodraeth Cymru
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980038.htm

[9] Ffocws Ystadegol ar Amrywiaeth yng Nghymru [argraffiad 2005]
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/compendia/2005/sfd05/sfd05.pdf

[10] Economic Activity in Wales 2003
http://www.lgdu-wales.gov.uk/Documents/Project/Census/WDE01000_Economic_Activity_%20report_final_eng.pdf

[11] Annual Survey of hours and earnings 2004: Average earnings in Wales and the United Kingdom
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwalesheadline/content/economy/2005/hdw20050222-e.htm

[12] Arolwg Iechyd Cymru 2003/04
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/health/2005/hs2003-04/hs2003-04.htm

[13] Gwybodaeth o'r Cyfrifiad
http://www.statistics.gov.uk/census2001/census2001.asp

[14] Papur y Comisiwn Ewropeaidd "A Guide to Gender Impact Assessment"

European Commission: Equality between men and women - Secretary General for Employment, Industrial Relations, Social Affairs Init V/D5 October 1997

[15] Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
http://www.opsi.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=opsi&STEMMER=en&WORDS=race+relat+act+1976+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.opsi.gov.uk/acts/en2000/2000en34.htm#muscat_highlighter_first_match

[16] Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm

[17] Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_1.htm#tcon

[18] Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
http://www.pfc.org.uk/legal/sda.htm

[19] Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Newid Rhyw) 1999
http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/19991102.htm

[20] Deddf Cydnabod Rhyw 2004
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040007.htm

[21] Deddf Partneriaeth Sifil 2005
http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20052114.htm

[22] Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003
http://www.opsi.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=opsi&STEMMER=en&WORDS=employment+equality+sexual+orientation+regulations+2003+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/draft/20036454.htm#muscat_highlighter_first_match

[23] Deddf Cyflog Cyfartal 1970
http://www.eoc.org.uk/PDF/epa.pdf

[24] Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050013.htm

[25] Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
http://www.opsi.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=opsi&STEMMER=en&WORDS=employment+equality+religion+belief+regulations+2003+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/20031660.htm#muscat_highlighter_first_match

[26] Deddf Hawliau Dynol 1998
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980042.htm

[27] Cyhoeddwyd 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol, Cynllun Gofodol Cymru'
yn Nhachwedd 2004 a gellir ei weld yn:
http://www.wales.gov.uk/themesspatialplan/content/spatial-plan-e.htm

[28] Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
www.cre.gov.uk/

[29] Adroddiad Blynyddol ar Iaith Pawb (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog)
http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/iaithpawb-wls-report-2003-4-e.pdf

[30] Cynllun Iaith Gymraeg
http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/standards/language-scheme-e.pdf

[31] Prosiect Datganoli Cymorth i Fyfyrwyr
http://www.learning.wales.gov.uk/students/whats-new-e.shtml

[32] Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
http://www.wales.gov.uk/themessocialdeprivation/content/comfirsthome_e.htm

[33] Sell2Wales
https://www.sell2wales.co.uk/sell2wales.aspx

[34] Diweddariad ar y broses penodiadau a roddwyd fel papur i'w nodi i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 12 Hydref 2005
http://www.wales.gov.uk/servlet/EqualityOfOpportunityCommittee?area_code=37D6B01D000A0FB6000012530000000&document_code=N000000000000000000000000035618&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=10|2005

[35] John, S a Patrick, J (1999) Poverty and Social Exclusion of lesbians and gay men in Glasgow, Cyngor Dinas Glasgow

[36] SCPR 1995: 136

[37] Economic Inactivity in Wales 2003
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/economy/2005/sb16-2005/sb16-2005.htm

[38] Annual local labour force survey 2004
http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=11711

[39] Report on ethnic minorities and the labour market
http://www.strategy.gov.uk/downloads/su/ethnic_minorities/report/index.htm

[40] How Does Race and Gender Influence Wealth and Well-being in Wales, Comisiwn Cyfle Cyfartal (Medi 2005). Dadansoddiad o'r arolwg adnoddau teuluol sy'n cyfuno data ar gyfer tair blynedd (99/00, 00/01, 01/02). Mae'r darganfyddiadau'n seiliedig ar ganolrifau dros dair blynedd cyfan yr arolwg. Rhaid nodi bod maint y samplau a ddefnyddiwyd ar gyfer menywod a dynion o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru'n eithaf bach ac, oherwydd hynny, er y gellir casglu beth yw'r tueddiadau, bydd angen dadansoddi pellach er mwyn cael darlun manylach.

[41] The bullying of sexual minorities at school: Its nature and long-term correlates, Rivers, I (2001)

[42] Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
http://www.dti.gov.uk/europe/structural.html

[43] Comisiwn Cyfle Cyfartal
http://www.eoc.org.uk/

[44] Chwarae Teg
http://www.chwaraeteg.com/

[45] Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig
http://www.ebsp.org/

[46] Anabledd Cymru
http://www.disabilitywales.org/index.html

[47] Menter a Busnes
http://www.menterabusnes.com/

[48] Prime Cymru
http://www.prime-cymru.co.uk/

[49] MasnachCymru Rhyngwladol
http://www.walestrade.com/

[50] Cymru'n Ennill
http://www.wales.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/winningwales2004-e.pdf

[51] Partneriaeth Datblygu Cyfenter
http://www.cyfenter.co.uk/

[52] Rhaglen Equal
http://www.equal.ecotec.co.uk/

[53] Cyflwr Iechyd Cymru 2004-05 Cyfres Adroddiadau'r Prif Swyddog Meddygol -
http://www.wales.nhs.uk/documents/health-status-wales-e.pdf

[54] Ymhlith pethau eraill, The 1999 Health Survey for England, Cyfrifiad 2001, adroddiad Ethnic Minority Psychiatric Illness Rates in the Community (EMPIRIC) 1999, Arolygon o Gleifion y GIG yn 1998 a 2000, ac astudiaethau eraill.

[55] The 1999 Health Survey for England
http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/PublishedSurvey/HealthSurveyForEngland/HealthSurveyResults/HealthSurveyResultsArticle/fs/en?CONTENT_ID=4015530&chk=cKvNuP

[56] H Crawley, IPPR, 2003

[57] 1999 Ethnic Minority Psychiatric Illness Rates in the Community study (EMPIRIC)

http://www.data-archive.ac.uk/doc/4685%5Cmrdoc%5Cpdf%5C4685userguide.pdf

[58] General Practice (1998)
http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_health/Key_Health_Stats_1998.pdf

[59] Coronary Heart Disease (2000)
http://www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/HealthAndSocialCareTopics/CoronaryHeartDisease/CoronaryArticle/fs/en?CONTENT_ID=4108602&chk=nf93gd

[60] Cancer (2000)
http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsStatistics/PublicationsStatisticsArticle/fs/en?CONTENT_ID=4002648&chk=rISLck

[61] Rhaglen Health ASERT
http://www.cmo.wales.gov.uk/content/work/research/asert-e.htm

[62] Cynllun y Grant Hyfforddiant Tegwch ac Eiriolaeth
http://www.cmo.wales.gov.uk/content/work/townsend/ETAG-e.pdf

[63] Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2005
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/compendia/2005/sb57-2005/sb57-2005.pdf

[64] British Crime Survey – Crime in England and Wales 2004-05 (Y Swyddfa Gartref)
http://www.homeoffice.gov.uk/rds/crimeew0405.html

[65] Ffocws Ystadegol ar Ethnigrwydd yng Nghymru
http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/compendia/2004/sb53-2004/sb53-2004.htm

[66] Statistics on Race and Criminal Justice System - 2004 - A Home Office publication under section 95 of the Criminal Justice Act 1991
http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs05/s95race04.pdf

[67] “The Age Related Housing, Domiciliary Care and Support Requirements of Older People in Wales” [2003]
http://www.housing.wales.gov.uk/rreports.asp?a=3

[68] Stonewall Cymru (2004) Count Us In!, Stonewall Cymru

[69] Cymunedau yn Gyntaf
http://www.wales.gov.uk/themessocialdeprivation/content/comfirsthome_e.htm

[70] Tai Pawb
www.taipawb.org.uk

[71] Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan
http://www.wales.gov.uk/subicsu/content/domestic/strategy-e.htm

[72] Strategaeth Band Eang Cymru

http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/fe_irc/details.asp?ircid=69

[73] Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes
http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/fe/default_bb.asp?n1=49&n2=54&n3=147&n4=150&n5=165

[74] Moving Beyond
http://www.artswales.org.uk/pressoffice/newsdetail.asp?Newsid=247

**ADRODDIAD CYDRADDOLDEB YR YSGRIFENNYDD PARHAOL AR FATERION STAFFIO, 2004-05**

## Y CEFNDIR

1. Yn 2004-05 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ei benderfyniad i uno Awdurdod Datblygu Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru, ACCAC a Bwrdd Croeso Cymru â'r Adrannau perthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad, o fis Ebrill 2006 ymlaen. Rhoddodd y paratoadau ar gyfer yr uno hwn, a fydd yn cynnwys derbyn rhyw 2,000 o aelodau staff ychwanegol, bwysau mawr ar yr Adran Adnoddau Dynol dros gyfnod yr adroddiad hwn. Yn y tymor hir, mae'r uno'n cynnig cyfleoedd ardderchog i ni gynnwys a phrif ffrydio cyfleoedd cyfartal yn niwylliant, prosesau a systemau gweithlu Llywodraeth y Cynulliad a fydd wedi'i gyfoethogi ac yn fwy amrywiol. Hyd yn oed gyda'r rhaglen waith ddwys i baratoi ar gyfer mis Ebrill 2006, gwnaed cynnydd da ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod 2004-05.

2. Ar ôl penodi Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol newydd yn 2004, dechreuwyd ar y gwaith o ad-drefnu'r Adran Adnoddau Dynol (AD) yn sylfaenol. Un o ganlyniadau'r ad-drefnu hwn oedd bod pum Cynghorydd AD profiadol a chanddynt gymwysterau proffesiynol wedi'u neilltuo i weithio, ochr yn ochr â rheolwyr a staff yn Adran(nau) Llywodraeth y Cynulliad a bennwyd ar eu cyfer, ar faterion fel cynllunio'r gweithlu, recriwtio a datblygu staff. Penodwyd swyddog cyfle cyfartal ar lefel uchel hefyd.

3. Yn ystod y flwyddyn, cafodd strategaeth AD newydd ei datblygu a'i chyflwyno. Mae'r strategaeth yn cynnwys egwyddorion allweddol ym maes amrywiaeth a chydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio a datblygu gweithwyr. Roedd y strategaeth yn sylfaen ar gyfer cyflwyno cynllun newydd i ddatblygu rheolwyr a rhaglen i ddatblygu uwch-reolwyr eleni. Bydd y naill yn targedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r llall yn cynnwys modiwlau penodol ar arwain, annog a gwaith tîm. Nod arall sydd gan y strategaeth yw cyflwyno cynllun recriwtio llwybr carlam ar gyfer graddedigion. Bydd y cynllun hwn hefyd yn targedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

4. Symudwyd ymlaen yn dda i gael system TG gynhwysfawr ar gyfer AD. Caiff ei chyflwyno'n raddol o fis Ionawr 2006 ymlaen a bydd yn ein galluogi i baratoi data manylach o lawer ar gefndir a phrofiad ein staff o 2005-06 ymlaen. Mae'r ymarferiad cyfredol i fonitro Cydraddoldebau yn rhan bwysig o hyn. Bwriad yr ymarferiad hwn yw paratoi data manwl gywir ym maes Cydraddoldebau ar holl weithwyr Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n werth nodi bod 55% o'n gweithlu yn ferched a bod 3% yn perthyn i Leiafrifoedd Ethnig. Mae hyn yn welliant ar y ganran o 1.9% oedd yn perthyn i Leiafrifoedd Ethnig yn ôl ffigurau 2002.

## CYFLOG CYFARTAL

5. Yn 2001, cyflwynwyd strwythur cyflogau cyfartal gennym ar gyfer yr holl staff islaw'r Uwch-Wasanaeth Sifil. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau bod y sawl sy'n gweithio'n effeithiol yn cyrraedd y gyfradd darged ar gyfer eu graddfa cyn pen 5 mlynedd. Un gwelliant allweddol yw'r ffaith nad yw gweithwyr sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth neu seibiant o'u gyrfa o dan anfantais, ond eu bod yn ailymuno â'r raddfa gyflog yn y man y byddent wedi'i gyrraedd pe na baent wedi gadael. Llwyddodd y system hon i leihau'r 'bwlch cyflog' rhwng dynion a merched ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y sefydliad wrth ddenu a

chadw staff. Cynhelir archwiliad cyflog cyfartal o'r system yn rheolaidd (disgwylir cwblhau'r nesaf erbyn diwedd 2005). Caiff y strwythur cyflog ei adolygu ar ôl yr uno gyda'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn 2006. Bydd cynnal a gwella trefn o gyflogau cyfartal ar gyfer staff yn un o amcanion allweddol yr adolygiad.

## CYFLWYNO TALENT

6. Cyflwynwyd polisi recriwtio diwygiedig ym mis Awst 2004 i sicrhau cystadleuaeth deg ac agored ac i sicrhau gwerth am arian a hwyluso'r sefyllfa i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd y polisi'n cynnwys system o hysbysebion cyfansawdd misol. Adolygwyd hyn ym mis Rhagfyr 2004 a cheir rhestr gyflawn o'r cyfryngau a ddefnyddiwyd yn Atodiad A. Cafodd yr hysbysebion dwyieithog a ddyluniwyd yn broffesiynol eu cyflwyno hefyd mewn fformat a argymhellwyd gan Anabledd Cymru ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

7. Ers dechrau 2005, rydym yn rhoi mwy o sylw i hysbysebu ar y we. Yn ogystal, comisiynwyd gwaith i gyflwyno polisi recriwtio ar-lein cynhwysfawr erbyn diwedd 2005. Yn y cyfamser, datblygwyd hysbyseb gyffredinol ar gyfer y wasg i roi gwybod i ymgeiswyr posibl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol am wefan sy'n rhoi gwybodaeth am holl swyddi gwag y Cynulliad. Gellir lawrlwytho ffurflenni cais o'r wefan a'u hanfon yn ôl dros y we.

8. Anfonir copi papur o'r hysbyseb fisol at fudiadau perthnasol i Leiafrifoedd Ethnig i dynnu sylw at ein swyddi gwag. Ar ôl monitro'r sefyllfa'n ofalus, gwelwyd nad yw'r drefn hon yn denu rhagor o geisiadau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Felly comisiynwyd rhagor o waith fel a ganlyn:

- datblygu cronfa ddata ranbarthol gynhwysfawr o ryw 3,000 o sefydliadau (sy'n gwasanaethu'r holl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol). Bwriadwn roi hysbysu'r sefydliadau yn y gronfa ddata hon o'n swyddi gwag trwy neges e-bost â hypergyswllt i'r wefan, yn hytrach na thrwy'r post fel o'r blaen;

- ymgyrch bosteri i roi gwybod i ymgeiswyr posibl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol am ein gwefan fwy cynhwysfawr (gan ddefnyddio'r gronfa ddata y cyfeirir ati yn y pwynt uchod); a

- datblygu micro-wefan yn rhan o wefan Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y ficro-wefan hon yn ymwneud â materion cydraddoldeb a bydd yn ceisio marchnata Llywodraeth y Cynulliad fel y cyflogwr o'ch dewis trwy, er enghraifft, roi gwybodaeth am y pecynnau cyflogaeth.

9. Yn ogystal â'r gwaith datblygu uchod, comisiynwyd prosiect ymchwil gennym i ystyried sut y mae grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru yn meddwl am y Cynulliad fel cyflogwr. Byddaf yn sôn am gasgliadau'r gwaith ymchwil a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i hynny yn fy adroddiad i'r Pwyllgor am y flwyddyn 2005-06.

**Penawdau Recriwtio**

10.

- Cynyddodd cyfran y merched sy'n ymgeisio am swyddi i 50%. Am y drydedd flwyddyn o'r bron, gwnaeth merched yn well yn y broses sifftio a chryn dipyn yn well mewn cyfweliadau na dynion, gan gymryd nifer y ceisiadau a gafwyd i ystyriaeth.

- Deuddeg o ymgeiswyr o Leiafrifoedd Ethnig a wahoddwyd i gyfweliad o'i gymharu ag 16 yn 2003/04. Fodd bynnag, bu gostyngiad o draean yn nifer y swyddi a hysbysebwyd o'i gymharu â 2003/04. Digwyddodd hyn o ganlyniad i gyflwyno Protocol Ymlyniad, a oedd yn mynnu bod holl swyddi Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cynnig yn fewnol ar gyfer symudiad ar draws neu ddyrchafiad i staff yr CCNCau a fydd yn cael eu huno cyn hysbysebu'r swyddi'n allanol.

- Ymddengys bod ymgeiswyr anabl wedi gwneud yn well yn y broses sifftio nag a wnaethant yn y cyfnod blaenorol – 6 yn 2003/04 ac 8 yn 2004/05. Fodd bynnag, roedd y canlyniad yn siomedig iawn gan na phenodwyd neb oedd yn datgan eu bod yn anabl. Cynhaliwyd archwiliad o'r holl gynlluniau lle cafodd ymgeiswyr anabl gyfweliadau. Rydym yn ymchwilio i ffyrdd o oresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag datgan eu bod yn anabl.

**MEITHRIN TALENT**

11. Roedd ein system rheoli perfformiad yn cynnwys amcan gorfodol ym maes amrywiaeth ar gyfer yr holl staff yn 2004-05. Cafodd hwn ei brif ffrydio i Fframwaith Swyddogaethau a Chyfrifoldeb newydd ar gyfer pob rheolwr llinell ym mis Ebrill 2005. Cynhelir adolygiad a gwerthusiad ehangach o'n trefniadau rheoli perfformiad yn 2006 fel rhan o'r gwaith ar ôl yr uno.

**Dysgu a Datblygu**

12. Cafodd dros 2,000 o staff ryw fath o hyfforddiant penodol ym maes amrywiaeth yn 2004-05. Yn ogystal, mae'r holl staff newydd yn cael diwrnod llawn o hyfforddiant ar amrywiaeth fel rhan o'r trefniadau cynefino. Er bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu prif ffrydio yn ein holl gyrsiau hyfforddi erbyn hyn, rydym yn cynnig gwaith datblygu penodol hefyd. Yn 2004-05, roedd hyn yn cynnwys:

- Cydraddoldeb a Hygyrchedd
- Anabledd – Y Model Cymdeithasol
- Osgoi Gwahaniaethu wrth Recriwtio
- Cwrs Derbyn Rhan 3 (Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth)
- Hyfforddiant y fforwm theatr 'Race to Change'
- Datblygu Rheolwyr Hyderus
- 'People Programme'

Gwnaed gwaith ychwanegol yn y meysydd isod hefyd:

- **Uno** – fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y broses gynefino, bydd hyfforddiant ar ein polisïau a'n gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan allweddol o'n trefniadau derbyn rhwng Ionawr a Mawrth 2006.

- **Bwrdd Cysgodol** – dull newydd arloesol o ddatblygu'n talent. Bwriedir ei lansio ym mis Tachwedd 2005. Bydd yn gyfle unigryw i staff gael cymryd rhan weithredol mewn Bwrdd Rheoli "Cysgodol". Bydd y meini prawf ar gyfer dewis yn cynnwys rhoi cyfle gwirioneddol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ddylanwadu ar benderfyniadau'r rheolwyr ar y lefel uchaf.

- **Contract craidd newydd** – rydym wedi dechrau ar y gwaith o ail-dendro ein contract hyfforddi craidd ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2006 ymlaen. Un agwedd bwysig ar y tendr hwn yw y bydd yn canolbwyntio ar gael darparwyr blaenllaw i ddarparu hyfforddiant amrywiaeth ochr yn ochr â'r gwaith i brif ffrydio amrywiaeth yn ein rhaglen ddysgu ehangach.

- **Rhaglenni Datblygu Rheolwyr (MDP)** – mae'r gwaith ar y gweill i lansio tair Rhaglen newydd yn 2006. Y bwriad fydd helpu talent ar bob lefel i gyrraedd ein swyddi uchaf. Bydd y meini prawf ar gyfer dewis a'r Canolfannau Asesu a drefnir i ganfod ymgeiswyr yn adlewyrchu ein hymrwymiad i amrywiaeth.

- **Managers for Delivery** - cynllun i ddilyn y Cynllun Datblygu Rheolwyr Hyderus. Bwriedir ei roi ar waith fesul cam o fis Rhagfyr 2005 ymlaen. Bydd yn rhoi ymateb 360° a hyfforddiant ym maes annog i'n huwch-reolwyr (bandiau F/G). Bydd hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd eu gwaith yn datblygu talent ar bob lefel, yn enwedig pobl o grwpiau a dangynrychiolir.

Mae'r holl gynlluniau hyn yn cadarnhau ein hymrwymiad i helpu pobl o grwpiau a dangynrychiolir i gystadlu am swyddi uchel.

## PRIF FFRYDIO CYDRADDOLDEB

13. Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ei lansio'n llwyddiannus yn ystod 2004-05 a chafodd sêl bendith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r Bwrdd Rheoli'n cael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ddatblygiad y Cynllun ar draws y sefydliad. Arweinir y Cynllun gan fy Uwch-Gyfarwyddwr, Derek Jones, fel rhan o'i swyddogaeth ehangach fel Hyrwyddwr Amrywiaeth y Bwrdd Rheoli. (Rhoddir adroddiad ar gynnydd y mater hwn i'r Pwyllgor ar wahân).

14. Mae'r Bwrdd Rheoli'n monitro'r ffordd y gweithredir yr argymhellion perthnasol yn adroddiad y Pwyllgor ar 'Brif Ffrydio Cydraddoldeb' trwy adroddiadau cynnydd rheolaidd. (Caiff y gwaith hwn hefyd ei drafod mewn papur ar wahân a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor.)

15. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i symud ymlaen â'r agenda brif ffrydio yn mynd i'r afael â'r set gyflawn o argymhellion a gafwyd o adroddiad y Pwyllgor ar 'Brif Ffrydio Cydraddoldeb'. Derek Jones yw cadeirydd y Grŵp, sy'n cynnwys y Comisiynwyr Cydraddoldeb yng Nghymru a swyddogion perthnasol Llywodraeth y Cynulliad.

16. Mae'r Grŵp Prif Ffrydio yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Dau o ganlyniadau cyntaf hyn yw creu Rhwydwaith fewnol o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a datblygu Pecyn Asesu Effaith fel rhan o'n Porth i Bolisïau. Pwrpas y Porth yw sicrhau bod amcanion trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu prif ffrydio i'r holl bolisïau strategol - yn cynnwys, yn bwysig iawn, maes Cydraddoldeb.

## MATERION ERAILL

### Meincnodi

17. Gwnaed gwaith meincnodi sylweddol ar draws sefydliadau eraill yng Nghymru ac Adrannau yn Whitehall. Cafodd y Cynulliad ei gydnabod gan y mudiad "Race for Opportunity" fel un o'r deg cyflogwr oedd wedi gwella fwyaf ym maes amrywiaeth a chydraddoldeb. Y meysydd y cafodd y Cynulliad y sgoriau uchaf ynddynt oedd cyfathrebu, arweinyddiaeth, sicrhau adnoddau a datblygu.

18. Yn y safon anabledd a gyhoeddwyd gan y Fforwm Cyflogwyr ar gyfer 2005, llwyddodd y Cynulliad i gael sgoriau cyson uwch na chyfartaledd y meincnod a chyfartaledd y sector cyhoeddus. Dyfarnwyd ein bod yn neilltuol o effeithiol o ran sicrhau bod adnoddau a

strwythurau rheoli priodol yn eu lle a bod trefniadau hyfforddi a datblygu digonol ar gael, bod staff anabl yn cael eu cefnogi a bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys.

**Iechyd a diogelwch corfforaethol**

19. Mae ein strategaeth iechyd a diogelwch gorfforaethol yn cynnwys amrywiaeth eang o fesurau gyda'r nod o gefnogi staff sydd ag anabledd tymor byr neu dymor hir. Er enghraifft, o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn ofynnol i bob aelod o staff sy'n defnyddio TGCh gael asesiad blynyddol mewn perthynas ag Offer Sgriniau Arddangos, cafodd 33 aelod o'r staff gymorth gan 'Mynediad i Waith' yn 2004-05, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Mae 'Mynediad i Waith' yn rhoi cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ariannol i wneud addasiadau rhesymol yn y gweithle. Enghraifft arall yw'r gwasanaeth cwnsela cyfrinachol allanol a mewnol ar gyfer staff sy'n ymdopi â materion fel anabledd, iselder ysbryd, pryder, straen cysylltiedig â gwaith, neu faterion personol eraill.

**Eiddo Llywodraeth y Cynulliad**

20. Caiff asedau eiddo eu hadolygu'n rheolaidd gan dalu sylw neilltuol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Hyd y bo modd, ceisir sicrhau bod adeiladau'r Cynulliad yr un mor hygyrch a defnyddiadwy i bawb. Mae'r holl eiddo newydd sy'n dod i feddiant y Cynulliad yn cael eu dylunio a'u cyfarparu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf; mae hyn yn cynnwys y siambr drafod newydd ym Mae Caerdydd a'r swyddfeydd newydd ym Merthyr Tudful. Telir sylw neilltuol i ofynion pobl anabl mewn argyfwng; er enghraifft, darperir cadeiriau ymadael ar gyfer staff anabl ac mae gennym gynllun cyfeillio.

**CASGLIAD**

21. Yn ystod 2004-05 symudwyd ymlaen yn dda ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Cynulliad. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn adrodd, roedd lansio'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r ffaith fod y mudiad "Race for Opportunity" wedi cydnabod y Cynulliad fel un o'r deg cyflogwr oedd wedi gwella fwyaf ym maes amrywiaeth a chydraddoldeb. Yn ogystal, llwyddodd y Cynulliad i sgorio'n gyson uwch na sectorau cyhoeddus eraill yn y safon anabledd a gyhoeddwyd gan y Fforwm Cyflogwyr ar gyfer 2005. O ganlyniad i strwythur cyflog cyfartal newydd y Cynulliad, llwyddwyd i leihau'r 'bwlch cyflog' rhwng dynion a merched a bu cynnydd yng nghyfran y merched sy'n ymgeisio am swyddi.

22. Bydd system TG newydd yr adran Adnoddau Dynol yn golygu y bydd data manylach ar gael ar gefndir a phrofiad staff. Bydd hyn yn golygu y gellir paratoi data manwl ar faterion cydraddoldeb mewn perthynas â holl weithwyr Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, bydd yr egwyddorion allweddol ym meysydd amrywiaeth a chydraddoldeb sy'n rhan o'r Strategaeth Adnoddau Dynol newydd, yn arbennig mewn perthynas â recriwtio a datblygu, yn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dal yn uchel ar agenda'r Grŵp Adnoddau Dynol.

23. Bydd y drefn Adnoddau Dynol ar ôl yr uno yn ein galluogi i barhau i godi proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn sicrhau cefnogaeth wrth gefn a chymorth uniongyrchol i

reolwyr a staff.  Bu'r gallu i roi mwy o sylw i gydraddoldeb ymhlith fy mhrif amcanion hyd yma a bydd hynny'n parhau.

JON SHORTRIDGE
Tachwedd 2005

**Atodiad A**

## HYSBYSEBU SWYDDI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## RHESTR O'R CYHOEDDIADAU A DDEFNYDDIR

| **CYHOEDDIAD** | **CYHOEDDIAD** |
|---|---|
| Arc Recruitment | Local Government Chronicle |
| Architects' Journal | Local Transport Today |
| Archives Journal | Merthyr Express |
| Brecon & Radnor Ex/Powys Cty Times | Museums Journal |
| British Medical Journal(Com) | New Civil Engineer |
| Caernarfon & Denbigh Herald | New Scientist |
| Cambrian News | North Wales Weekly News |
| Carmarthen Journal | Nursing Times (Comm) |
| Community Care | Occupational Health Journal (S/V) |
| County Times & Express | Personnel Today |
| Cynon Valley Leader | Pharmaceutical Journal |
| Daily Post (Cymru) | Planning |
| Economist | Pontypridd & Llantrisant |
| Electronics Weekly | Pontypridd Observer Series |
| Ends Report | Public Agenda |
| Estates Gazette | Public Finance & Accountancy |
| Farmers Weekly | Rics Business |
| Financial Times | Scotsman |
| Golwg | South Wales Argus |
| Guardian | Surveyor |
| Health Service Journal (Comm) | The Voice |
| Hospital Doctor(Comm) | Western Mail & Echo |
| IEE Recruitment Supplement | Wrexham Evening/Weekly Leader |
| Internal Auditing | Y Cymro |
| Library & Information Apps Cilip | |

**Cyhoeddiadau Eraill a Ddefnyddiwyd yn y Tair Blynedd Ddiwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Bangor & Anglesey Mail | Lawyer | Rhyl Prestatyn & Abergele Journal |
| Brecon & Radnor Ex/Powys Cty Times | Materials Recycling Week | |
| | Merioneth Express | South Wales Evening Post |
| Chester Chronicle | Nature | Sunday Times |

Computing
Contract Journal
Denbighshire Free Press
Glamorgan Gazette
Grocer
Law Society Gazette
Neath & Port Talbot Guardian
People Management
RCM Midwives Journal
RCN Bulletin(Comm)
Shropshire Star
Supply Management
Times
Times Educational Supplement
Western Telegraph
Wrexham Mail

**RHESTR O'R CYFRYNGAU A DDEFNYDDIR AR HYN O BRYD I ROI GWYBOD I GRWPIAU SYDD HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL AM EIN HYSBYSIADAU AR Y WE**

| |
|---|
| Asian Times |
| Asian Voice |
| Catholic Times |
| Christian Herald |
| Christianity |
| Church Times |
| Eastern Eye |
| Fyne Times |
| India Weekly |
| Jewish Chronicle |
| Jewish Times |
| Methodist Recorder |
| Muslim News |
| Muslim Weekly |
| New Nation Caribbean Times, |
| Ready Willing and Able |
| Royal Association for Disability and Rehabilitation |

| **ADRAN: ADRAN HYFFORDDIANT AC ADDYSG** |
|---|

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| **Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar Well**<br>Gweithio yn erbyn anfantais gynnar a sicrhau bod y plant ieuengaf yn gallu dysgu sut i ddysgu, cyflawni'n dda a gwneud y mwyaf o'u doniau. | Mae'r cynllun brecwast am ddim wedi ei gyflwyno mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion eraill a fu'n cymryd rhan yn y cynllun.<br><br>Mae cyngor ar ofynion diet arbennig wedi ei gynnwys yn y canllawiau a roddwyd i ysgolion. | Cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu lle rhan amser di-dâl i 100% o blant 3 blwydd oed. |
| **Ysgolion Gwell**<br>Hyrwyddo ysgolion bro rhagorol, wedi eu trefnu'n dda ac sy'n deilwng o Wlad sy'n Dysgu. Galluogi awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a rhanddeiliaid eraill i ddarparu ysgolion sy'n cael eu rhedeg yn dda a gyda digon o adnoddau:<br>• Sydd wedi eu rhedeg o adeiladau sy'n addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn y 21ain ganrif.<br>• Sy'n gwasanaethu eu cymunedau lleol yn effeithiol ac sy'n adlewyrchu'r patrymau galw am leoedd ynddynt.<br>• Sy'n cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth ysgol ddiogel a hygyrch. | Cynhaliwyd prosiect ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn anelu at Gau'r Bwlch ym mherfformiad ysgolion drwy nodi a rhannu arferion da mewn ysgolion a oedd yn gweithredu'n llwyddiannus yn wyneb amgylchiadau anodd (h.y. mewn ardaloedd difreintiedig).<br><br>Rhoddwyd grant arbennig o £32m i awdurdodau lleol i wella ysgolion a oedd yn perfformio'n wael; i leihau maint dosbarthiadau iau; ac i gefnogi ysgolion bach a gwledig – i sicrhau bod gan bob | Cyhoeddwyd adroddiad ar gyfnod cyntaf Cau'r Bwlch (ysgolion uwchradd) ym 2002. Dewiswyd ysgolion fel astudiaethau achos ar gyfer ail gyfnod y prosiect (cynradd) a chomisiynwyd ymchwil gan Brifysgol Morgannwg. Mae adroddiad i'w gyhoeddi yn yr Hydref 2005.<br><br>Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer maint dosbarthiadau yn Nhachwedd 2004.<br><br>Mae'r ysgolion a fu'n perfformio'n |

| | | |
|---|---|---|
| • Sydd wedi eu nodweddu gan bresenoldeb effeithiol ymhlith eu disgyblion ac sy'n cyrchu at gyrraedd safonau uchel.<br>• Sy'n cynnwys dosbarthiadau o 30 disgybl neu lai mewn ysgolion cynradd. | disgybl fynediad at addysg o safon uchel lle bynnag y maent yn byw. | wael yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Safonau Gwell**<br>Hyrwyddo disgwyliadau uchel, safonau cyrhaeddiad uchel, a throsglwyddiad didrafferth i bob plentyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Ennill enw da ehangach i Gymru fel Gwlad sy'n Dysgu, drwy reoleiddio, arolygu a chefnogaeth effeithiol. | Mae datblygiad strategaethau e-ddysgu i bob oed ar y gweill. | Strategaeth ELWa i ddatblygu e-ddysgu fel arf effeithiol ar gyfer darparu a chael mynediad at ddysgu yng Nghymru – gan gynnwys y grwpiau wedi eu tangynrychioli a allai fod yn cael trafferth cael mynediad at Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer Hyrwyddwr e-ddysgu / Technoleg Gwybodaeth a Dysgu, gyda gwerth yr Hyrwyddwr hwn yn cael ei werthuso'n barhaus. |
| **Cefnogaeth Well i Ddysgwyr gydag Anghenion Ychwanegol**<br>Hyrwyddo cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â thlodi yng nghyswllt cyfleoedd addysgol drwy wneud Cymru yn Wlad sy'n Dysgu i bawb. Darparu, mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid allweddol, darpariaeth ddysgu fwy pwrpasol, cynhwysol a pherthnasol i ddysgwyr gydag anghenion ychwanegol ac i grwpiau dan anfantais. | Datblygu a hyrwyddo Addysg Gynhwysol yng Nghymru.<br><br>Adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ar draws Cymru.<br><br>Dechreuwyd gweithredu argymhellion cyfnod 1 yr adolygiad o AAA gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.<br><br>Monitro cynnydd adroddiad Estyn-ELWa ar anghenion cymorth dysgwyr ôl 16 oed gydag anawsterau dysgu. Anfonwyd copi o'r adroddiad at y Comisiwn Hawliau Anabledd. | Yn dilyn cynhadledd ar addysg gynhwysol (Hydref 2004), sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen i adolygu'r broses asesu statudol, cyflawniad addysgol a'r canlyniadau a brofir gan ddysgwyr gydag anghenion ychwanegol, cyllid ar gyfer AAA a grymuso athrawon a staff cymorth ysgolion.<br><br>Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 2005 a chafwyd 8 cyfarfod ers hynny. Sefydlwyd pedwar prif grŵp i ystyried:-<br>1. Asesu statudol<br>2. Grymuso athrawon a staff cymorth |

| | | |
|---|---|---|
| | Datblygu dogfen ymgynghorol ar y strategaeth i ddysgwyr gydag Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth.<br><br>Ymgynghori a datblygu canllawiau ar wasanaethau addysgol i blant gyda nam ar eu synhwyrau.<br><br>Adolygu ac ymgynghori ar y newidiadau i'r trefniadau yng nghyswllt y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.<br><br>Penodi swyddog ar secondiad i weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid.<br><br>Sefydliadau Addysg Bellach i weithredu trefniadau i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. ELWa i dderbyn adroddiadau ar weithrediad cynlluniau gweithredu perthnasol gan Sefydliadau Addysg Bellach. | 3. Cyllid ar gyfer AAA<br>4. Cyflawniad addysgol a'r canlyniadau a brofir gan ddysgwyr.<br><br>Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adrodd yn Ionawr 2007.<br><br>Edrychodd y Grŵp Llywio ar adolygiad o'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn Chwefror 2005. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2005.<br><br>Mae'r Grŵp Llywio yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol i gynhyrchu strategaeth ddrafft Cymru Gyfan ar gyfer Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. |
| **Dysgu Lefel Uwch Gwell**<br>Cyflawni dysgu lefel uwch i sicrhau manteision diwylliannol, cymdeithasol ac ariannol parhaus i Gymru. Sicrhau bod addysg uwch yn ennill enw da am berfformiad effeithiol yn ei holl ddyheadau er budd i Gymru ac i gwrdd ag | Parhau gyda'r rhaglen Anelu'n Uwch sy'n ceisio annog disgyblion blwyddyn 9 i fynd ymlaen at addysg uwch ym 2005, ac ymweld â'r holl ysgolion cymwys yng Nghymru. | Yn ôl adroddiad Adolygiad Rees, canfuwyd bod angen i fesurau cefnogi myfyrwyr fod yn sensitif i anghenion grwpiau dan anfantais / wedi eu tangynrychioli. Tynnodd yr adroddiad sylw at y drafferth bosibl |

| | | |
|---|---|---|
| amcanion strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y sector. | | sy’n wynebu myfyrwyr Islamaidd gan fod eu crefydd yn eu gwahardd rhag ymgeisio am fenthyciad sy’n codi llog. |

| | | |
|---|---|---|
| **Mynediad Gwell**<br>Lleihau'r rhwystrau ariannol i ddysgu a wynebir gan rai sy'n economaidd weithgar ac anweithgar, a gwneud Cymru yn Wlad sy'n Dysgu i bawb. Mynd i'r afael â thlodi yng nghyswllt cyfleoedd addysgol a chyfrannu at drechu anweithgarwch neu ymddieithrio. | Cymorth ariannol mwy integredig ac wedi'i dargedu'n well i fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach. Cyhoeddwyd adroddiad interim ar Adolygiad Rees eleni.<br><br>Cyflwyno Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru.<br><br>Parhau gyda chynllun Grant Dysgu'r Cynulliad.<br><br>ELWa i weinyddu £7m ar ran Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi dysgwyr mewn Sefydliadau Addysg Bellach sy'n wynebu caledi sy'n eu rhwystro rhag dysgu. I'w reoli fel rhan o'r System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol. | Parhau i gyflwyno lwfansau cynhaliaeth addysg i ddarparu cymorth ariannol a chymhellion i fyfyrwyr ar incwm isel rhwng 16 a 18 oed. Parhau i weinyddu Grant Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr 19+ oed mewn addysg bellach. Mae cyflwyniad y pecyn cymorth hwn i fyfyrwyr Addysg Uwch yn golygu bod cymorth wedi'i dargedu ar gael i bob grŵp o fyfyrwyr 16+ oed ar incwm isel. |
| **Opsiynau & Cyfleoedd Gwell**<br>I:<br>• hyrwyddo denu a chadw disgyblion;<br>• gyfoethogi'r ystod cynigion sydd ar gael i rai 14 – 19 oed a thu hwnt; ac<br>• ymestyn yr hawl i dderbyn blaenoriaeth ac i gyfranogiad o safon uchel i bobl ifanc. | Mae Llwybrau Dysgu 14 – 19 ar gael i bob dysgwr. Polisi cenedlaethol, wedi'i ddarparu'n lleol drwy Rwydweithiau 14-19.<br><br>Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu, drwy 6 elfen allweddol, llwybr dysgu wedi'i deilwrio i'r unigolyn. Bydd y llwybr yn cynnig ystod ehangach o opsiynau, craidd dysgu (sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthoedd a phrofiadau), hawl i hyfforddwr dysgu, mynediad at gymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd. | Dim ond ers Medi 2003 y sefydlwyd y Rhwydweithiau 14-19. Yr oedd grantiau ar gael o Ebrill 2004 ymlaen. Mae'n rhy fuan i farnu ynghylch y canlyniadau cydraddoldeb, ond mae'r rhaglen yn pwysleisio bod angen i bob dysgwr dderbyn y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n cwrdd orau â'u hanghenion. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd Llwybrau Dysgu yn cyfrannu at gymwysterau gwell; gan olygu y bydd llai o fyfyrwyr yn gadael heb unrhyw gymhwyster yn 16 oed; yn lleihau'r niferoedd Heb Fod mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET); yn gwella cyfran y rhai 16 oed sy'n mynd ymlaen at addysg bellach, addysg llawn amser neu ddysgu seiliedig ar waith; yn gwella lefelau cadw a phresenoldeb; yn lleihau gwaharddiadau, ac yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol, sgiliau gweithlu a chyflogaeth gynaliadwy. | |
| **Sgiliau Gwell ar gyfer Cyflogaeth**<br>Codi lefelau sgiliau Cymru a lleihau lefel yr anweithgarwch economaidd. | Drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau a Chyflogaeth, sy'n cynnig pecyn cynhwysfawr o gamau i godi lefelau cyflogaeth fedrus, gyda ffocws arbennig ar oresgyn y rhwystrau a brofir gan unigolion a grwpiau fel ei gilydd.<br>Drwy'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i bob oed, sy'n cefnogi rhaglen weithredu i godi lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol y boblogaeth gyfan.<br><br>Sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i bawb, beth bynnag yw eu rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.<br><br>Gweler astudiaeth achos 2 am fwy o wybodaeth. | Sefydlwyd Panel Cyflogi Ymgynghorol Cymru i gynnig cyngor annibynnol ar raglenni o fudd-dâl i waith yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth o blith grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Mae'r nifer sy'n ymgeisio am Gyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) yn ôl rhyw, ethnigrwydd, oed ac anabledd yn debyg yn fras i'r proffil dysgwyr yn gyffredinol. Mae dwy flynedd o ddata ar gael erbyn hyn ac fe'i hystyrir fel rhan o'r gwerthusiad.<br><br>Mae siaradwyr ieithoedd eraill wedi eu nodi fel grŵp blaenoriaeth penodol yn y strategaeth sgiliau |

| | | |
|---|---|---|
| | | sylfaenol.<br><br>Mae'r holl Gwmnïau Gyrfa wedi cyhoeddi polisi cyfle cyfartal a chyfarfu'r Prif Weithredwyr â Chyfarwyddwr y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.<br><br>Mae'r holl drwyddedau ar gyfer y Cynghorau Sgiliau Sector yn cynnwys sylw at faterion amrywiaeth. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig. | Dileu gwahaniaethu a gwahaniaeth rhwng lefelau cyrhaeddiad gwahanol grwpiau ethnig. | Darparwyd grant ychwanegol o £650k ar gyfer 2004-05 gan ddod â'r cyfanswm ar gael o dan y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i £4.5m. Mae elfen o hwn wedi'i gadw'n ôl ar gyfer hyfforddi athrawon prif ffrwd a rhai'r Grant Cyrhaeddiad i godi eu hymwybyddiaeth am faterion cydraddoldeb hil. Mae lefelau cyrhaeddiad yn cael eu monitro dros amser i fesur y canlyniadau. | Hil |
| Mynediad at gyrsiau hyfforddi athrawon a'r nifer sy'n cyflawni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. | Hybu dysgu fel proffesiwn gyda'r nod o gwrdd â'r targedau yng nghyswllt y nifer sy'n cyflawni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; ac o fewn hynny, recriwtio mwy o fyfyrwyr i ddilyn cyrsiau ar bynciau blaenoriaeth (gan gynnwys cyfrwng Cymraeg) ac o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. | Ymgyrch farchnata wedi'i lansio, i'w hasesu drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael am y nifer sy'n cyflawni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o blith grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mynediad at Addysg Uwch. | Cynyddu cyfran y bobl ifanc sy'n mynd ymlaen at addysg uwch o gymdogaethau lle mae cyfranogiad yn isel. | Fel rhan o sioe deithiol yr ymgyrch Anelu'n Uwch, a gynlluniwyd i gynyddu cyfranogiad ac i ehangu mynediad at addysg uwch, ymwelwyd ag ysgolion mewn dalgylchoedd sy'n cynnwys cyfran uchel o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Ymwelwyd â thros 200 o ysgolion, gan gynnwys 142 o ysgolion mewn ardaloedd cymunedau yn gyntaf. | Hil |
| Lansio System Drosglwyddo Gyffredin a'r Gronfa Ddata o Ddisgyblion Coll. | Sicrhau bod data disgyblion (gan gynnwys manylion rhyw, oed, ethnigrwydd) yn mynd gyda disgyblion pan fyddant yn symud ysgol. Mae'r gronfa ddata yn sicrhau bod data disgyblion yn fwy cywir, ac yn lleihau'r baich gweinyddol o gasglu data disgyblion;<br>Gellir dod o hyd i gofnodion disgybl sy'n gadael un ysgol ond nad yw'n ymddangos i fod yn cyrraedd ysgol arall yn y gronfa ddata o 'Ddisgyblion Coll'. | Lansiwyd y system yn llwyddiannus ym mis Mai 2004 gyda Rheoliadau i'w chynnal. Mae ei gweithrediad wedi bod yn bur dda, er bod rhai pocedi o danddefnydd wedi eu nodi ac yn derbyn sylw. | **Oed**<br>Rhyw<br>Hil |
| Cyhoeddi canllawiau Iaith Gymunedol i rieni, 'Sut y mae fy mhlentyn yn dod yn ei flaen yn yr Ysgol Gynradd / Uwchradd'. | Sicrhau bod gan rieni nad ydynt yn siarad Saesneg / Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yr un mynediad at wybodaeth am gynnydd eu plant yn yr ysgol. | Canllawiau wedi eu cynhyrchu mewn saith o ieithoedd cymunedol (yn ogystal â Saesneg / Cymraeg) – Arabeg, Bengaleg, Cantoneg, Gwjarati, Punjabeg, Somalieg ac Wrdw. Mae'r canllawiau Saesneg / Cymraeg hefyd ar gael mewn Braille | **Iaith** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar gais. | |
| Datblygu'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Ddisgyblion. | Galluogi cysylltu cofnodion CYBLD ar nodweddion disgyblion â'r data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion er mwyn darparu arf ddadansoddi bwerus i gefnogi datblygiad polisïau ar sail tystiolaeth, cynllunio ysgol / Awdurdod Addysg Lleol, a dadansoddi ac ymchwil. Bydd y dadansoddi yn cael ei hwyluso drwy fod yn seiliedig ar yr holl nodweddion CYBLD gan gynnwys oed, rhyw ac ethnigrwydd. | Mae datblygiad y gronfa yn dod yn ei blaen yn dda, a dylai fod wedi ei chwblhau erbyn Medi 2005. | Oed<br>Rhyw<br>Hil |
| Grant Addysg Ceiswyr Lloches. | Cefnogi Awdurdodau Addysg Lleol gyda darparu gwasanaethau addysg i ddisgyblion sy'n ceisio lloches. | Cyllid grant wedi cynyddu o £2.3m i £2.7m ym 2004-05. Rhoddwyd cymorth hefyd i geiswyr lloches gydag Anghenion Addysgol Arbennig difrifol a chymhleth, ac i gofrestru oedolion sy'n geiswyr lloches ar gwrs Saesneg fel Iaith Ychwanegol. | Hil |
| Strategaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig | Datblygu Strategaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig | Grŵp Llywio wedi ei sefydlu. | Hil |
| Grant i Deithwyr a Phobl wedi eu Dadleoli. | Cefnogi Awdurdodau Addysg Lleol gyda darparu gwasanaethau addysg i ddisgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr. | £900k wedi ei ddarparu o dan y cynllun grant hwn ar gyfer 2004-05. Prosiectau wedi eu targedu at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Ymchwilio i'r posibilrwydd o fid am arian strwythurol gan yr Undeb Ewropeaidd. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Parhau i hyrwyddo prif ffrydio er mwyn cadw materion cydraddoldeb ar frig yr agenda gyda Phartneriaethau Pobl Ifanc, cyrff cenedlaethol ac asiantaethau partner. | Parhau i hyrwyddo prif ffrydio er mwyn cadw materion cydraddoldeb ar frig yr agenda gyda Phartneriaethau Pobl Ifanc, cyrff cenedlaethol ac asiantaethau partner. | Fel mater o gwrs, mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio yn nhrefniadau'r Tîm Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion ar gyfer cynadleddau, digwyddiadau, ac yn y blaen.<br>Gofynnir i ddarpar gynadleddwyr am eu gofynion diet, mynediad, gofynion gofal plant ac oes angen unrhyw gyfleusterau arbennig arnynt, e.e. ystafell i weddïo.<br>o ganlyniad, mae materion cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio ac yr ydym yn ymateb i geisiadau penodol. | Anabledd<br>Crefydd/<br>Cred |
| **Prosiect 14-19**<br>Canllawiau i'w rhoi i bob gweithgor yn y prosiect i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn derbyn ystyriaeth a sylw. Mae aelodaeth y gweithgorau yn cael ei recriwtio o ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys rhai sydd â diddordeb arbennig mewn amrywiaeth. | Sicrhau bod gweithgorau yn ystyried ac yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb. | Canllawiau ar faterion cydraddoldeb wedi eu rhoi i grwpiau gorchwyl a gorffen. Yr oedd gan y grwpiau hyn aelodaeth eang, gan gynnwys rhai gyda diddordeb arbennig mewn amrywiaeth. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithgarwch Cyngor Ieuenctid Cymru, y Coleg Staff, a'r Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol. | Materion cydraddoldeb i'w cynnwys yn glir fel rhan o'r gwaith hwn fel sail i weithgarwch gweithredol y gwasanaeth ieuenctid – yn seiliedig ar ddewis a chyfle cyfartal. | Mae monitro hyn yn digwydd mewn cyfarfodydd a gynhelir i adolygu'r sefydliadau / prosesau perthnasol. Mae hyfforddiant gwaith ieuenctid yn seiliedig ar ddewis a chyfle cyfartal. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Cyfnod Sylfaen i blant rhwng 3 – 7 oed. | Cyflwyno Cyfnod Sylfaen newydd i blant rhwng 3 a 7 oed drwy sefydlu 41 sefyllfa beilot, gan arwain yn y pen draw at ei gyflwyno'n genedlaethol. | Cwblhawyd 41 o sefyllfaoedd yn y flwyddyn gyntaf, gyda phlant rhwng 3 a 5 oed. Bydd hyn yn cynnwys plant rhwng 5 a 7 oed o fis Medi 2005 ymlaen. Bydd adroddiad monitro a gwerthuso allanol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2005. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Hyrwyddo dysgu fel proffesiwn. | O fewn y gwaith ehangach ar hyrwyddo dysgu fel proffesiwn, ein nod yw recriwtio mwy o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i ddilyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. | Mae gwaith recriwtio athrawon targed wedi'i gyflawni fel rhan o raglen barhaus. Bydd gwybodaeth o ffurflenni ystadegol am darddiad ethnig myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael ei hasesu i helpu i fonitro effaith yn flynyddol. | Hil |
| Trechu stereoteipio ar sail rhyw mewn Prentisiaethau Modern. | Comisiynu adroddiad drwy Chwarae Teg, sy'n gweithio ar y cyd â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, i gasglu, dadansoddi a chofnodi enghreifftiau | Mae Chwarae Teg wedi gweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector i greu argymhellion. Lansiwyd adroddiad ar 4 Awst, 2005. Yr oedd yr | Rhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o ddulliau llwyddiannus ac aflwyddiannus o ddileu stereoteipio ar sail rhyw mewn Rhaglenni Prentisiaethau Modern yng Nghymru. | adroddiad yn pennu nifer o faterion pellach i'w hymchwilio a'u hystyried, yn eu plith y gydnabyddiaeth bod stereoteipio ar sail rhyw yn amlwg mewn cyd-destun dysgu ehangach na Phrentisiaethau Modern yn unig. Mae gweithgor bach yn cael ei sefydlu, gyda chynrychiolwyr o bersbectif dysgu ehangach gan gynnwys cyrff rheoleiddio, cymorth dysgu ac asesu, i ymchwilio i opsiynau gweithredu pellach i roi sylw i stereoteipio ar sail rhyw yn y cyd-destun dysgu. | |
| Cyllido Chwarae Teg. | Gwella sefyllfa merched yn y farchnad lafur yng Nghymru. | Mae amrediad o ganlyniadau wedi eu cyflawni yng nghyswllt y pedwar prif faes sef Cyflogaeth, Menter, Addysg a Hyfforddiant, a Pholisi Cyhoeddus. Mae Chwarae Teg wedi gweithio'n strategol i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi ac i hyrwyddo arferion da drwy chwarae rôl weithredol mewn ymchwil a datblygu. Maent wedi cyflawni eu targedau i gyd, ac, mewn rhai meysydd fel Menter Merched Cymru a'r Fenter Rhieni Sengl, wedi rhagori ar eu targedau. | Rhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trechu anghydraddoldeb yng nghyswllt dysgu seiliedig ar waith. | Gweithio â'r rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ELWa, ACCAC, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i drafod Prentisiaethau Modern a rhaglenni dysgu seiliedig ar waith eraill. Gwneir hyn fel rhan o'r Grŵp Rhaglenni Sgiliau newydd a sefydlwyd ym mis Medi 2004 ac a fydd yn cyfarfod yn chwarterol i edrych ar gydraddoldeb ym mhob un o'r rhaglenni Dysgu Pob Oed. | Bydd gwaith y grŵp rhanddeiliaid hwn yn bwydo i'r trefniadau i ail-lansio Prentisiaethau Modern, fel sydd wedi'i argymell.<br><br>Gofynnir i'r Cynghorau Sgiliau Sector weithio â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chwarae Teg i gefnogi mentrau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i'r ddau ryw. Gofynnir i'r Cynghorau Sgiliau Sector hefyd ystyried y posibilrwydd y gallai Cytundebau Sgiliau Sector gynnig cyfleoedd gwaith i ferched, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl anweithgar.<br><br>Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn gyrff annibynnol dros y DU a ddatblygwyd gan grwpiau o gyflogwyr dylanwadol mewn sectorau diwydiant neu fusnes o bwys economaidd neu strategol. Mae rhai Cynghorau wedi eu trwyddedu i roi sylw i anghenion sgiliau a chynhyrchedd eu sector ar draws y DU.<br><br>Mae Cytundebau Sgiliau Sector wedi eu dyfeisio i weithredu i ddiwallu anghenion sgiliau blaenoriaeth a fydd yn hybu perfformiad busnes gwell. Maent yn fodd i gyflogwyr a gweithwyr ym | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mhob sector nodi eu hanghenion sgiliau a chynhyrchedd, pa weithredu sydd angen iddynt ei wneud i gwrdd â'r anghenion hynny, a sut y maent yn bwriadu cydweithredu â darparwyr addysg a hyfforddiant fel bod y galw am sgiliau yn gallu llunio natur y cyflenwad. | |
| Denu mwy o ferched i yrfaoedd Technoleg Gwybodaeth. | Cefnogi mentrau i dargedu merched i ddewis gyrfaoedd mewn Technoleg Gwybodaeth. | Wedi cefnogi prosiectau Clybiau Cyfrifiadurol i Ferched yn ne-ddwyrain Cymru drwy e-sgiliau. | Rhyw |

**Astudiaethau Achos**

**Profiadau cynnar o'r Peilot Cyfnod Sylfaen i blant rhwng 3 a 7 oed**

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn dysgu cynnar. Er enghraifft, yn ysgol Fabanod Duffryn yng Nghasnewydd, sylwyd y gallai bechgyn ennill o'r cynllun hwn, gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy gweithredol na merched pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol. Ond yn aml, nid ydynt mor barod i ddysgu wrth y ddesg, ac os teimlant na fedrant ddysgu, maent yn ymwrthod â gweithgareddau fel darllen ac ysgrifennu, gan felly amharu ar eu datblygiad. Mae'r Cyfnod Sylfaen hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o hiliau a chrefyddau eraill yn gynnar.

**Prosiect Stereoteipio Rhyw mewn Prentisiaethau Modern**

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad weledigaeth o gymdeithas sy'n dysgu lle mae gan bawb gyfle i ddatblygu eu doniau. Mae gan ELWa ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal o fewn ei raglenni. Fodd bynnag, yn ôl astudiaethau gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal ac eraill, mae anghydbwysedd o hyd rhwng y rhywiau o ran pwy sy'n dewis dilyn Prentisiaethau Modern. Comisiynwyd prosiect ymchwil i ddeall yn well pa fodelau gweithredu cadarnhaol a fu'n llwyddiannus, a pha rai a gafodd llai o effaith, ar lefel strategol a gweithredol. Tynnodd yr adroddiad sylw at yr arferion da y dylid eu lledaenu a gwnaeth argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol i helpu i hybu cydraddoldeb mewn rhaglenni Prentisiaeth ac o ran datblygu adnoddau dynol ehangach."

## ADRAN: DATBLYGU ECONOMAIDD & TRAFNIDIAETH

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Gwella ffyniant a lledaenu llwyddiant yng Nghymru drwy helpu i greu amgylchedd lle mae mwy o fusnesau cynaliadwy yn cael eu sefydlu gan grŵp mwy amrywiol o bobl a pherchnogion. | Elfen annatod o'r amrediad o raglenni cymorth busnes yw gweithredu cadarnhaol i gefnogi grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli, fel pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a merched. | Cafwyd cynnydd yng nghyfran y grwpiau wedi eu tangynrychioli a fu'n defnyddio'r rhaglenni cymorth busnes (fel a adlewyrchir yn yr ystadegau Llygad Busnes – data misol a gesglir o fis Chwefror 2005 ymlaen).<br><br>Yn ôl y ffigurau ar gyfer Chwefror 2005, yr oedd 5.07% o gwsmeriaid Llygad Busnes yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yr oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer Mehefin 2005 yn 6.47%. |
| Rhoi Cymru ar fap y byd drwy ddod yn chwaraewr allweddol yn Ewrop, yn genedl fasnach ryngwladol gref, ac yn creu cysylltiadau â rhanbarthau a gwledydd dethol dramor tra'n codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. | Nod MasnachCymru Rhyngwladol yw darparu cymorth masnach rhyngwladol priodol i bob cwmni bach a chanolig yng Nghymru. Lluniwyd partneriaethau felly gydag ystod o sefydliadau allanol er mwyn sicrhau bod manylion ein gwasanaethau yn cael eu rhaeadru a'u hyrwyddo gyda chynulleidfa eang. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys sefydliadau fel y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig a Women in Business International. | Ymgynghorir â sefydliadau fel y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig ar ddatblygu ein rhaglen weithgareddau. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio ar genhadaeth fasnach arfaethedig. Yr ydym hefyd wedi gallu ymgysylltu â'r gymuned fusnes ethnig pan yn croesawu cynrychiolwyr o farchnadoedd tramor. Yr ydym hefyd yn trefnu i ferched busnes o |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gymru gymryd rhan yng nghynhadledd Women in Business International ac yn chwilio am ffyrdd y gallwn weithio â'n gilydd o fewn y farchnad yn ogystal ag yn y DU. |
| Mwy o swyddi ac, yn gynyddol, swyddi gwell. | Cymorth Rhanbarthol Dewisol Cymru yw'r prif fath o gymhelliad ariannol i fusnesau sy'n ystyried buddsoddi mewn asedau cyfalaf a chreu neu ddiogelu swyddi o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw. Ers i'r cynllun newid ei ffocws ym Mehefin 2004, mae mwy o bwyslais bellach ar ansawdd y prosiectau fydd yn cael eu cefnogi. Mae asesiad ansawdd ffurfiol yn cael ei wneud o bob cais, sy'n ystyried agenda ehangach 'Cymru'n Ennill', gan gynnwys cyfraniad y prosiect i'r agenda gydraddoldeb, lefelau cyflog a sgiliau a hyfforddiant y gweithlu. | Yn allanol, gofynnir i fusnesau ystyried yr agenda gydraddoldeb gan fod yn rhaid iddynt roi sylw i hyn yn eu ceisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol. Yn fewnol, mae swyddogion gwerthuso yn treulio mwy o amser yn asesu ansawdd prosiectau ac yn defnyddio'r canlyniadau i farnu a ddylid eu cefnogi neu beidio. |
| Helpu i gyflawni'r amcanion yn Gwell Gwlad drwy ddarparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ysgogi adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru.<br><br>Gwneud hyn drwy gefnogi'r prif raglenni gweithgarwch, o hybu entrepreneuriaeth ac arloesi hyd at ddatblygu cymunedol a gwella rhwydweithiau a seilwaith. | Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol Cymru yn cyfrannu at yr agenda hon, fel y mae Grant Buddsoddi'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi ei anelu'n benodol at annog cwmnïau bach a chanolig i fuddsoddi. Fel gyda'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol, mae asesiad ansawdd ffurfiol yn cael ei wneud o bob cais sy'n ystyried agenda ehangach 'Cymru'n Ennill', gan gynnwys cyfraniad y prosiect i'r agenda gydraddoldeb, lefelau cyflog, a sgiliau a hyfforddiant y gweithlu.<br><br>Mae Cyfle Cyfartal (yng nghyswllt | • Yn Ebrill 2004, gwnaeth WEFO gyflwyniad ar y cyd â Chwarae Teg yng Nghynhadledd y Bartneriaeth Prif Ffrydio Rhyw yn Weithredol a gynhaliwyd yn Nulyn. Yr oedd y cyflwyniad yn trafod y gwaith a wnaed o dan y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru i chwalu'r rhwystrau i gyfranogi, ac i gefnogi newid gwirioneddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | anabledd, y rhywiau, hil a'r iaith Gymraeg) yn cael eu prif ffrydio yn y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd fel un o dair thema Trawsbynciol. Yn ogystal, mae rhai Blaenoriaethau a Mesurau yn y Rhaglenni sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion cydraddoldeb; er enghraifft, Amcan 1, Blaenoriaeth 4, Mesur 5 (Gwella Cyfranogiad Merched yn y Farchnad Lafur).<br><br>Mae data ar weithgareddau a chanlyniadau yn cael ei gyflwyno'n chwarterol gan noddwyr y prosiectau. | • Yn Awst 2004, cyhoeddodd WEFO Ffeithlen ar yr Iaith Gymraeg i dynnu sylw at brosiectau gyda phwyslais cryf ar yr iaith Gymraeg oedd wedi llwyddo i ddenu Cronfeydd Strwythurol, tra'n tynnu sylw hefyd at gyfleoedd i brosiectau sy'n targedu siaradwyr Cymraeg fel eu prif fuddiolwyr.<br><br>• Ym 2004, penderfynodd WEFO gryfhau ei drefniadau i fonitro data Cyfle Cyfartal drwy lunio canllawiau pellach i noddwyr prosiectau. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys ffurflen fonitro sampl.<br><br>• Yn yr Hydref 2004, cyflawnodd WEFO Ymarfer Mapio Gofal Plant i fesur y ddarpariaeth gofal plant a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Cyflwynwyd y darganfyddiadau i'r Gweithgor Gofal Plant, sy'n cael ei gadeirio gan y cyn Ddirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Dr Brian Gibbons, AC.<br><br>• Ers cwblhau'r Gwerthusiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | a'r Adolygiadau canol tymor o'r Rhaglenni ym 2003, bu newid pwyslais tuag at nodi'r bylchau mewn darpariaeth a'r rhwystrau a wynebir gan brosiectau, a rhagweithio i annog datblygiad prosiectau strategol. Gwnaed cynnydd da ar nifer o brosiectau strategol, gan gynnwys mewnbwn WEFO i ddatblygu a chymeradwyo 'Genesis Cymru', prosiect strategol Cymru Gyfan. Nod y prosiect hwn yw cynnig pecyn cynhwysfawr o gyngor, canllawiau, cymorth a gofal plant i unigolion (merched yn bennaf) sy'n dymuno manteisio ar gyfleoedd gwaith, hyfforddiant a / neu ddysgu.<br><br>• Yn fuan ym 2005, comisiynodd WEFO werthusiad annibynnol o brif ffrydio Cyfle Cyfartal yn y Rhaglenni Amcan 1 a 3. Bydd y darganfyddiadau yn helpu i baratoi unrhyw Raglenni Cronfeydd Strwythurol newydd yn y dyfodol. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol erbyn diwedd 2005.<br><br>• Yn ôl ffigurau monitro data diwedd Mawrth 2005, mae |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnydd yn parhau tuag at gyflawni'r targedau Cyfle Cyfartal gyda nifer o'r Blaenoriaethau a'r Mesurau. Mewn rhai achosion, rhagorwyd ar y targedau. Er enghraifft, un o dargedau Amcan 1, Blaenoriaeth 1, Mesur 2 oedd: nifer y cwmnïau bach a chanolig newydd a sefydlir gan ferched, pobl anabl, rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a siaradwyr Cymraeg sydd wedi derbyn cyngor / gwybodaeth neu gymorth.<br><br>Mae gwybodaeth berthnasol ar gael yn adran 4 yr Adroddiad Monitro ar y Rhaglen Amcan 1, sy'n eitem agenda ym mhob cyfarfod chwarterol o'r Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1. Mae'r Adroddiad Monitro Rhaglen ar gyfer Mawrth 2005 ar gael ar wefan WEFO:<br><br>http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/Obj1_PMC(05)011498.pdf |

| | | |
|---|---|---|
| Cynyddu cystadleurwydd busnesau yng Nghymru a'u cyfraniad at leihau gollyngiadau carbon drwy gynyddu capasiti arloesol y rhannau creu cyfoeth o'r economi yng Nghymru, a sicrhau bod Cymru yn flaenllaw gyda chynhyrchu ynni glân a'r ymgyrch i hybu arbed ynni. | Mae gan y Cynllun Gweithredu Arloesedd ystod o raglenni sydd ar gael ar hyd a lled Cymru. Gall busnesau ac unigolion fel ei gilydd fanteisio ar yr amrediad o gyngor busnes sydd ar gael.<br><br>Mae'r ymgynghoriad presennol ar Ynni Cymru (map trywydd i gael dyfodol ynni glân, carbon isel a chystadleuol i Gymru) a Chynllun Arbed Ynni Cymru (cynllun gweithredu ar gyfer arbed a chadwraeth ynni) a lansiwyd mis Tachwedd diwethaf, yn cynnwys mesurau i wrthsefyll tlodi tanwydd yng Nghymru. Bydd y porth ynni yn mynd yn fyw nes ymlaen eleni gyda'r nod o roi arweiniad sydyn ac ymarferol i berchnogion tai yn ogystal ag i asiantaethau sy'n helpu pobl sy'n dioddef o anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol.<br><br>Mae tua 220,000 o gartrefi yng Nghymru yn byw mewn tai gyda safonau gwael o ran gwresogi ac inswleiddio. Mae cartrefi sy'n gwario cyfran sylweddol o'u hincwm gros i gynhesu eu cartrefi'n dderbyniol yn cael eu dosbarthu fel dioddef o 'dlodi tanwydd'. Mae'r sefyllfa hon yn aml yn effeithio ar y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, fel yr henoed, teuluoedd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau, pobl sy'n sâl, neu'n anabl, gyda'r problemau cysylltiedig o ran iechyd | Gan fod y rhaglenni yn newydd, mae'n rhy fuan gwneud sylw ar unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol. Mae'r Banc Gwybodaeth wedi'i sefydlu a bydd yn barod i'w fraenaru erbyn yr Hydref 2005, a'i gyflwyno o fis Ebrill 2006 ymlaen.<br><br>Mae'r holl bolisïau a mesurau yn gymharol newydd (bydd Ynni Cymru yn cael ei lansio ym 2005 – 2006) ac nid yw'n bosibl manylu ar unrhyw ganlyniadau penodol neu astudiaethau achos eto. |

| | | |
|---|---|---|
| | a lles yn gyffredinol.<br><br>Noddir yr Ymddiriedolaeth Carbon gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n gweinyddu'r cynllun i hybu arloesi gyda dod o hyd i atebion arbed ynni. | |
| Gwella ansawdd bywyd a rhagolygon pobl a chymunedau, yn enwedig rhai sy'n cael eu heffeithio gan ergydion economaidd sylweddol a sydyn. | Mae amcanion cydraddoldeb ymhlyg yn yr amcan ac wedi eu dangos gan yr enghraifft a nodir. | • Adfywio Dur - Sir y Fflint, gerddi Old Hall. Gwaith datblygu i droi hen ardd yr Old Hall yn adnodd i ddarparu hyfforddiant a datblygiad ym maes garddwriaeth i bobl gydag anableddau dysgu. Nod y prosiect yw helpu pobl gydag anableddau dysgu i ddod o hyd i waith mewn meysydd cysylltiedig eraill.<br><br>• Canolfan Wybodaeth CRISP, Shotton. Rhoddwyd cyllid i wneud gwelliannau i'r cyfleusterau, yn enwedig i bobl anabl, mewn canolfan a ddefnyddir gan fudiadau gwirfoddol yng Nglannau Dyfrdwy. |

| | | |
|---|---|---|
| System drafnidiaeth ragorol sy'n cynnig mynediad da i fusnesau a phobl i farchnadoedd a swyddi, ac atebion teithio ymarferol a fforddiadwy.<br><br>System drafnidiaeth sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ac yn cynhyrchu llai o ollyngiadau. | Mis Rhagfyr diwethaf, cyhoeddodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth raglen gwerth £8 biliwn dros 15 mlynedd i ddatblygu system drafnidiaeth integredig o safon fyd-eang. Caiff cynlluniau trafnidiaeth eu gwerthuso yn erbyn ystod o feini prawf, gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb. Yn ogystal, yr ydym yn datblygu Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru a fydd yn dilyn proses Porth i Bolisïau er mwyn sicrhau bod themâu trawsbynciol yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol. | • Codir Taliadau Consesiynol ar bobl gydag anableddau a phobl dros 60 oed.<br>• £1m y flwyddyn am 3 blynedd i Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol Cymru i gynnig teithio di-dâl cyfyngedig i bobl gydag anableddau na fedrant ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Cerdded a Beicio. |
| Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, hyrwyddo'r ystod o atebion teithio ymarferol a fforddiadwy, yn enwedig i gymudwyr. | Yr ydym yn gweithio ag awdurdodau lleol i gefnogi cynlluniau trafnidiaeth leol drwy gynnig Grantiau Trafnidiaeth. Rhaid i awdurdodau lleol werthuso cynlluniau newydd yn erbyn amrediad o feini prawf, gan gynnwys yr effaith ar gydraddoldeb. Dyfeisiwyd ein polisïau i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n bwysig i sicrhau capasiti mynediad at wasanaethau allweddol. Mae hyn yn cynnwys teithio consesiynol di-dâl i'r henoed a phobl anabl. Yr ydym hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cynllun hanner tâl i rai rhwng 16 a 18 oed. | Mae'r cynllun Peilot ar gyfer y Cynllun Teithio Personol yn cynnwys enghreifftiau o waith gyda phobl ifanc 16 – 18 oed a chymunedau difreintiedig mewn ardaloedd gwledig a threfol. |

| | | |
|---|---|---|
| Cwrdd â'r holl amcanion blynyddol yn Strategaeth Band Eang Cymru. | Mae Rhaglen Band Eang Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Band Eang fforddiadwy i bobl Cymru.<br><br>Drwy gydol 2004 – 2005, mae'r Rhaglen wedi darparu ei hamcanion i bobl Cymru beth bynnag y bo'u hoed, rhyw neu darddiad ethnig ac yn y blaen.<br><br>**Y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes**<br>Mae'r rhwydwaith dysgu gydol oes yn darparu mynediad rhyngrwyd a TGCh o bell i bobl difreintiedig ac anabl ledled Cymru. Mae mynediad di-dâl i'r we drwy Lyfrgelloedd hefyd yn helpu i leihau anfanteision symudedd a thlodi.<br><br>Mae'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes yn cynnig defnydd di-dâl o offer TGCh i bobl Cymru, a'r modd i ddefnyddio cynnwys Iaith Gymraeg drwy ei rwydwaith o Ganolfannau Dysgu TGCh.<br><br>**Datblygiad Band Eang 2$^{il}$ Genhedlaeth**<br>Lansiwyd gwefan gwbl ddwyieithog ar gyfer y Cynllun Brocera Band Eang. Mae'r wefan wedi ei dylunio i fod yn hawdd i'w defnyddio, er enghraifft, mae fformat testun yn unig ar gael i bobl gyda nam ar eu golwg. | Cynhaliodd Rhaglen Band Eang Cymru adolygiad strategol annibynnol ym 2004.<br><br>Ar sail ei ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad bod y Rhaglen wedi cwrdd â'r rhan fwyaf o'i hamcanion a bod y gweddill ar y gweill. Derbyniodd Uned Band Eang Cymru gymeradwyaeth arbennig yng Ngwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym 2005. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ysgogi'r Galw**<br>Mae pob elfen o weithgareddau cyfathrebu Band Eang Cymru yn ystyried y gofyniad cyfreithiol a osodir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r holl weithgareddau E-Gyfryngau a Llythyru yn cydymffurfio â'r gofynion o ran iaith ddeuol, maint y print a hygyrchedd.<br><br>Mae gwefan Band Eang Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion gweledol a ieithyddol, felly hefyd yr holl wefannau allanol. | |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Cyflawnwyd arolwg amrywiaeth ym Mawrth / Ebrill 2005 o dros 2,500 o ymgeiswyr am Gymorth Rhanbarthol Dewisol Cymru a Grant Buddsoddi'r Cynulliad. | Defnyddir y data i helpu i sicrhau ymwybyddiaeth effeithiol o'r cynlluniau ymhlith grwpiau lleiafrifol. | Mae canlyniadau'r ymarfer ar hyn o bryd yn cael eu dadansoddi ac fe'u defnyddir i fapio'r nifer o blith grwpiau lleiafrifol sy'n manteisio ar y cynlluniau hyn. Bydd rhan o'r broses honno yn golygu derbyn cyngor gan gyrff cynrychioliadol, gan gynnwys Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a defnyddio eu rhwydweithiau cyfathrebu i hyrwyddo'r cynlluniau. Bydd yr arolwg yn cael ei wreiddio yn y broses o ymgeisio am Gymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad a'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd i helpu i fapio cynnydd ac i oleuo gwelliannau parhaus. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |
| Goruchwylio'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth – y Rhaglen Potentia. | Rhaglen cymorth cychwynnol cyn sefydlu busnes i grwpiau wedi eu tangynrychioli fel pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, merched, siaradwyr Cymraeg, rhai dros 50 oed, a phobl ifanc. Tra'n | Cyflawnodd y Rhaglen Potentia y canlyniadau canlynol yn ystod 2004-05:-<br>• dros 3,100 o bobl o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli wedi derbyn awr o leiaf o | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael ei harwain gan yr Awdurdod Datblygu, caiff ei darparu gan 5 sefydliad partner: Chwarae Teg, y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig, Anabledd Cymru, Menter a Busnes a Prime Cymru. | gyngor busnes.<br>• bron i 200 o fusnesau wedi eu sefydlu o ganlyniad. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae Partneriaeth Datblygu Cyfenter yn cael ei chyllido ar y cyd gan yr Awdurdod Datblygu'r a'r Rhaglen Equal – menter gymunedol o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n profi ac yn hyrwyddo dulliau newydd o drechu pob math o wahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y farchnad lafur, i rai mewn gwaith a sy'n chwilio am waith, drwy gydweithrediad rhwng y gwledydd. Cyflwynodd y Bartneriaeth Cyfenter fid llwyddiannus am gyllid Rownd 2 o dan y Rhaglen Equal. | Un o amcanion allweddol Cyfenter yw darparu rhaglen ymchwil weithredol arloesol drwy weithio'n uniongyrchol â grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ym maes menter er mwyn nodi'r rhwystrau i'w llwyddiant wrth sefydlu, cynnal a thyfu busnes yng Nghymru. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys merched, rhieni unigol, pobl ifanc (18-30), rhai dros 50 oed, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg. | Mae hon yn rhaglen ymchwil barhaus. Cyhoeddwyd adroddiadau yn ystod y gwahanol gyfnodau o'r prosiect, gan gynnwys:-<br>• Twf a Chynaliadwyedd.<br>• Mynediad at Gyllid a Grantiau.<br>• Y System Budd-daliadau.<br>• Dylunio ar gyfer Amrywiaeth.<br>Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil |
| Cymorth ariannol o £40k i Ferched mewn Gwyddoniaeth & Pheirianneg yng Nghymru (WISE), e.g. i gynhyrchu cyflwyniad fideo dwyieithog newydd o fodelau rôl sy'n gweithio ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg a Pheirianneg. | Codi ymwybyddiaeth, darparu deunyddiau dysgu. | Anfonwyd posteri ôl-raddedig i bob ysgol yng Nghymru. Nod y posteri hyn oedd codi ymwybyddiaeth ynghylch opsiynau gyrfa gwyddoniaeth a pheirianneg ymhlith merched ifanc. Ariannwyd y posteri gan Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar mewn Ysgolion. | Rhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr oedd cyfraniad ariannol o £8,050 ar gael ym 2004-05 i raglenni Headstart fel yr Ysgol Haf ar gyfer Peirianneg a'r Rhaglen Dragonfly (profiad undydd mewn Prifysgol lle gall merched ifanc fod yn fodelau rôl i fyfyrwyr iau). | Annog pobl ifanc ddawnus i feddwl am yrfaoedd mewn diwydiannau technoleg (ac i ddilyn cyrsiau mewn gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg). | Ffigurau DU – ond mae'r myfyrwyr o Gymru yn dilyn cyrsiau y tu allan i Gymru a myfyrwyr o Loegr / Yr Alban / Gogledd Iwerddon yn mynychu cyrsiau yng Nghymru.<br>• 88% o'r cyfranogwyr yn dweud fod Headstart yn cryfhau eu penderfyniad i astudio peirianneg.<br>• 69% yn dweud fod y cyrsiau yn cadarnhau neu'n eu helpu i ddewis disgyblaeth.<br>• yr oedd 28% o'r cyfranogwyr yn ferched ifanc a 19% o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Rhyw |
| Aelodaeth o'r Grŵp Trafod Datblygu Economaidd Iaith Gymraeg. | Wedi gweithio â phartneriaid i ddatblygu rhaglen weithredu i sicrhau bod datblygu economaidd a datblygiad iaith yn symud ymlaen ar y cyd er mwyn ennill y manteision cysylltiedig mwyaf. | Cyhoeddwyd Rhaglen Weithredu ym mis Medi 2004. Mae copi ar gael yn: http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/language-economy-e.pdf | Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi ymgyrch Age Positive Cymru yr Adran Gwaith a Phensiynau ac aelodaeth o Grŵp y Bartneriaeth Oed. | Nod yr ymgyrch Age Positive, a gefnogir gan ystod eang o randdeiliaid yng Nghymru gan gynnwys undebau llafur a sefydliadau cyflogwyr, yw sicrhau bod cyflogwyr yn canolbwyntio ar botensial, sgiliau a gallu yn lle oed ym mhob un o gyfnodau'r cylch cyflogaeth – o recriwtio i golli swydd ac ymddeol. Mae Grŵp y Bartneriaeth Oed yn cefnogi'r ymgyrch 'Byddwch yn Barod' sydd wedi ei hanelu at baratoi cyflogwyr bach a chanolig ar gyfer gweithredu deddfwriaeth oed yn Hydref 2006. | Enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Wobr Arfer Da Age Positive 2004, gan guro sefydliadau o bob cwr o Brydain. | Oed |
| Ymrwymiadau Trafnidiaeth Cymru yn y ddogfen Cymru: Gwlad Well, sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. | Ymestyn teithio bws am bris llai ac yn ddi-dâl.<br><br>Ymestyn parthau cyflymder 20 mya a llwybrau diogel i'r ysgol. | • Wedi datblygu cynllun i ddarparu teithio di-dâl ar drafnidiaeth gymunedol i bobl gydag anableddau difrifol.<br>• Wedi cwblhau'r trefniadau i gyflwyno prosiect peilot i ddarparu teithio bws hanner pris i rai rhwng 16 a 18 oed.<br>• Wedi gweithredu cyllid awdurdodau lleol am yr union gostau a achosir ganddynt.<br>• Cyllid o £3.5 miliwn wedi ei ddyrannu i brosiectau llwybrau | Oed<br>Anabledd<br><br>Oed<br>Anabledd<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | diogel i'r ysgol ar draws Cymru.<br><br>• Cyllid o £7.250 miliwn wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol i'w helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd yn eu hardaloedd lleol ac i greu mwy o barthau 20 mya. | |

**Astudiaethau Achos**

**Gwasanaeth Hybu Llyfrgelloedd Lleol gyda Band Eang**

Mae bron i 20% yn fwy o bobl wedi dechrau defnyddio'r 18 o Lyfrgelloedd Cyhoeddus sydd gan Gastell Nedd Port Talbot ers i 90% ohonynt gysylltu i fand eang drwy gyfrwng cebl. Felly, mae Band Eang yn caniatáu i ddefnyddwyr y llyfrgelloedd fwynhau ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgu a rhannu gwybodaeth.

'Mae Band Eang wedi dod yn greiddiol i'r cyfleusterau a ddarperir gennym. Nid wyf yn meddwl y byddem yn gallu rhedeg y gwasanaeth hebddo,' meddai'r Llyfrgellydd Karen Gibbins.

'Mae'n rhoi mynediad i fwy o bobl at fwy o'n hadnoddau, gan ein galluogi i gyflawni ein nod o ddarparu gwasanaethau sy'n gymdeithasol gynhwysol, a chyfle cyfartal, i bob aelod o'r cyhoedd.'

Mae Band Eang yn darparu cysylltiad dibynadwy ar gyflymder uchel i'r We, ac mae mwy o bobl nag erioed yn teimlo'n gyffyrddus yn defnyddio cyfrifiaduron. Mae'r hwylustod defnydd hwn ynghyd â thwf y cynnwys lleol perthnasol wedi denu mwy o bobl i lyfrgelloedd nad oedd erioed wedi defnyddio eu gwasanaethau o'r blaen.

**Doctoriaid Steil**

Mae gan Elin Davies a Kim Saxelby fwy na deng mlynedd o brofiad ym myd ffasiwn. Mae hyn wedi rhoi sylfaen iddynt ar gyfer 'Doctoriaid Steil, eu busnes ar y We ar Ynys Môn sy'n darparu gwasanaeth siopa personol a chyngor ar ddelwedd ar draws y DU.

"Y peth pwysicaf yr oeddem ei angen wrth sefydlu ein busnes oedd cymorth a chyngor ymarferol. Mae Potentia a Menter a Busnes wedi bod yn wych', meddai Elin, a dderbyniodd ei chymorth i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ei mamiaith.

Sefydlwyd y busnes ym mis Medi 2004 ac eisoes maent wedi dod yn Entrepreneuriaid Ifanc y Flwyddyn 2005 o dan gynllun LiveWIRE cwmni Shell yng Nghymru, gyda photensial ardderchog ar gyfer y dyfodol.

**Prosiect Gofal Plant Strategol 'Genesis Cymru'**
Cafodd Prosiect Gofal Plant Strategol 'Genesis Cymru' ei gyflwyno gan Adran Plant a Theuluoedd y Cynulliad ym mis Medi 2004 ac enillodd gymeradwyaeth gan WEFO yn Nhachwedd 2004. Lansiwyd y prosiect yn Ionawr 2005 yn Ysgol Gynradd Tonyrefail.

Rhoddwyd cyfanswm o £12.6 miliwn o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i'r bidiau Amcan 1 a 3 i wella cyfranogiad merched yn y farchnad lafur. Nod y ddau fid yw 'cynnig pecyn cynhwysfawr o gyngor, arweiniad, cymorth a gofal plant i unigolion (merched yn bennaf) sydd am fanteision ar gyfleoedd gwaith, hyfforddiant a / neu ddysgu, gan felly oresgyn y rhwystrau i wella gweithgarwch economaidd pobl Cymru'.

## ADRAN: AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

| Amcanion Uchaf yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Helpu diwydiant Cymru i ennill cyfran fwy o’r farchnad bwyd o safon. | Mae cydymffurfio â deddfwriaeth ar gyfle cyfartal wedi ei gynnwys fel amod gofynnol ar geisiadau am grantiau. Hefyd yn rhan o’r gofyniad yw ei bod yn ofynnol i staff allweddol gael eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored.<br><br>Drwy Gyfarwyddiaeth Fwyd yr Awdurdod Datblygu a Hybu Cig Cymru, anogwyd cynhyrchwyr Cymreig i ystyried datblygu cynhyrchion fferm wedi eu hanelu’n arbennig at leiafrifoedd ethnig. | Mae cymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad i Ethnic Cuisine Ltd wedi helpu’r cwmni i ennill busnes newydd yn y DU ac yn Ewrop.<br><br>Mae cymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad a’r Awdurdod Datblygu wedi helpu Sue Jones i ehangu ei busnes Caws Llanboidy. Mae’r cawsiau a gynhyrchir gan y cwmni wedi derbyn clod eang ac wedi ennill nifer o wobrau. Mae Sue hefyd wedi chwarae rhan ganolog gyda sefydlu Cheeses From Wales, cwmni cydweithredol sy’n cynnig dros 50 o gynhyrchion caws o Gymru i gwsmeriaid ar draws y byd. Sefydlwyd Cheeses From Wales gyda chymorth gan Lywodraeth y Cynulliad drwy’r Awdurdod Datblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu hyfforddiant sgiliau sy'n addas ar gyfer sefyllfaoedd gwledig drwy'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio sydd wedi'i wella. | Mae nifer o raglenni wedi eu rhedeg drwy'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio, gan gynnig hyfforddiant sgiliau a chyngor i ffermwyr yng Nghymru. | Mae dros 700 o ffermydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Yr oedd y rhaglenni hyfforddiant a gafodd eu rhedeg yn cynnwys:<br>• TGCh – 556 o ffermydd wedi cymryd rhan;<br>• Hyfforddiant ar y fferm – 42 o ffermydd wedi cymryd rhan; a<br>• Rhaglen datblygu rheolaeth Agriscop - 165 o ffermwyr wedi cymryd rhan. |
| Dylunio system cynllun datblygu newydd ar gyfer sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu mabwysiadu'n brydlon, a bod cymunedau a busnesau yn cymryd rhan yn fuan ac yn barhaus mewn proses agored o gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol. | Mae'r system cynllun datblygu newydd hon wedi'i dyfeisio i hwyluso cyfranogiad y gymuned ac i greu consensws ynghylch lle y dylai datblygu ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r system newydd yn cynnwys gofyniad ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i gynhyrchu Cynlluniau Cynnwys y Gymuned sy'n nodi sut y datblygir y Cynllun Datblygu Lleol ac yna sut y caiff ei fonitro a'i adolygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r gymuned. Ym mis Mehefin 2004, bu Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar Ddarparu Cynlluniau Datblygu Gwell, gan roi manylion ar Gynlluniau Cynnwys y Gymuned ac atgoffa'r Awdurdodau Cynllunio Lleol o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. | Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Ddarparu Cynlluniau Datblygu Gwell ym Mehefin 2004. Mae drafftiau cyntaf y Cynlluniau Cynnwys y Gymuned, gan 4 Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cael eu craffu ar gyfer ystyriaethau cydraddoldeb, yn enwedig yng nghyswllt plant a Sipsiwn a Theithwyr. Cyflawnwyd yr ymgynghoriad drwy anfon dogfennau ymgynghori at gymdeithasau ymbarél sy'n cynrychioli'r grwpiau uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Amgylcheddol i Gymru. | Rhoddwyd ystyriaeth benodol i gyfle cyfartal wrth ddatblygu'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Amgylcheddol. Caiff pwysigrwydd cyfle cyfartal yng nghyswllt materion mynediad sylw penodol yn y bennod ar Ansawdd Bywyd. Mae'r bennod yn rhestru'r rhwystrau i fynediad corfforol at feysydd glas, cefn gwlad ac adeiladau, fel a brofir gan bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Tynnir sylw hefyd at bwysigrwydd cydraddoldeb yng nghyswllt ansawdd yr amgylchedd.<br><br>Mae ymarfer sgrinio cychwynnol ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Hil wedi'i gyflawni ar yr ymgynghoriad, ac wedi'i gyhoeddi gyda fo. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud o'r camau gweithredu a gynhwysir yn y ddogfen derfynol. | Mae'r Strategaeth Amgylcheddol wedi cyrraedd y cyfnod ymgynghori. Mae'n rhy fuan, felly, adrodd ar unrhyw ganlyniadau. Er hynny, mae'r ymarfer sgrinio wedi canfod y meysydd canlynol a allai fod yn berthnasol o dan y dyletswydd Cydraddoldeb Hiliol:<br>• Adnoddau dŵr;<br>• Yr amgylchedd adeiledig;<br>• Mynediad at feysydd glas a chefn gwlad; ac<br>• Addysg a gwybodaeth, |
| Newid y modd y mae Cymru'n rheoli ei gwastraff i sicrhau arferion mwy cynaliadwy drwy weithredu Strategaeth Wastraff Cymru a'i tharged allweddol ar gyfer ailgylchu a chompostio 25% o'i gwastraff erbyn 2006-07. | Dyluniwyd strategaeth wastraff Cymru i fod yn gynhwysol ac i alluogi cymunedau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru i gymryd rhan ac elwa o gyfleoedd i wella rheolaeth gynaliadwy o wastraff yng Nghymru. | Mae sefydliadau cymunedol wedi chwarae rôl arweiniol mewn nifer o awdurdodau, gan roi cyfle i bobl gydag anawsterau dysgu, pobl ar brawf a phobl o gymunedau difreintiedig.<br><br>(gweler yr astudiaethau achos) |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd cymunedau gwledig ac agenda Her Iechyd Cymru drwy ehangu mynediad cyhoeddus i gefn gwlad a'r arfordir. | Mae'r Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad, a sefydlwyd gan yr Adran, yn ystyried materion anabledd a hil fel rhan o'i gynlluniau i gynyddu cyfleoedd mynediad i gefn gwlad Cymru. | Mae dau bapur wedi eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio, ar y cyd gan Is-adran yr Amgylchedd, Anabledd Cymru a'r Rhwydwaith Amgylchedd Du, ar sut i gynyddu cyfleoedd mynediad. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth y Grŵp Llywio o'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau anabl a lleiafrifoedd ethnig. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Penodiadau ar fyrddau Cyrff Cyhoeddus (Amgylcheddol, Cynllunio a Chefn Gwlad) a Noddir gan y Cynulliad a chyrff eraill a gefnogir gan yr Adran. | Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb pan yn gwneud penodiadau cyhoeddus. | Mae'r holl Is-adrannau perthnasol yn yr Adran yn cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb i'r broses o wneud penodiadau cyhoeddus, yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.<br><br>Mae Is-adran yr Amgylchedd wedi bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â grwpiau anabledd i annog ystod mwy amrywiol o geisiadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Dim ond 1 ymgeisydd (aflwyddiannus) allan o 53 sydd â mân anabledd. | Cydraddoldeb<br><br>Anabledd |
| Cyfrannu at ymchwil i'r ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. | Mae'r Is-Adran Gynllunio yn gweithio â'r Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol a'r Gyfarwyddiaeth Dai i fynd i'r afael ar y cyd ac yn gynhwysfawr ag ystod o faterion Sipsiwn a Theithwyr. Yr Is-adran Gynllunio sy'n gyfrifol am agweddau defnydd tir ar y gwaith. Comisiynwyd prosiect ymchwil gan y | Ymchwil wedi'i gomisiynu gan yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol ym mis Medi 2004. Adroddiad i'w gyhoeddi erbyn diwedd 2005. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ganolfan Astudiaethau Trefol a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Birmingham. O bersbectif cynllunio, bydd yr ymchwil yn ystyried cyfraniad y system gynllunio i ddarparu safleoedd / llety ar gyfer Sipsiwn / Teithwyr, a'r rhwystrau i ddarparu safleoedd newydd a sut i'w goresgyn. Bydd yr ymchwil hefyd yn goleuo'r gwaith o ddiwygio cylchlythyr o'r enw Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. | | |

**Astudiaethau Achos**

1. Mae'r Is-adran Gynllunio wedi gweithio gyda chonsortiwm o Awdurdodau Cynllunio Lleol, Bwrdd yr Iaith a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai i gomisiynu ymchwil i effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Er profi i fod yn anodd iawn, mae'r grŵp wedi gweithio i wella'r ymchwil a bydd yn barod i wneud argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ynghylch sut i droi ein polisi yn realiti erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn golygu edrych yn ofalus ar wybodaeth leol am yr Iaith Gymraeg a dyfeisio polisïau yn y cynlluniau datblygu newydd i warchod a hybu'r iaith.

2. Yn dilyn y mater o ganllawiau interim ar sut i baratoi cynlluniau datblygu, ynghyd â Chynlluniau Cynnwys y Gymuned, mae'r Is-adran Gynllunio bellach yn gweithio â'r:

a) Sefydliad Cynllunio Gwlad a Thref Brenhinol i ddatblygu hyfforddiant peilot ar gyfer swyddogion cynllunio lleol ar ymgysylltu â'r gymuned ym mis Medi.
b) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer Aelodau ym mis Hydref.

Bydd yr Is-adran Gynllunio hefyd yn mynd i'r afael â'r mater o ddiffyg sgiliau lleol ( o ran sut i greu consensws a chyrraedd yr holl grwpiau yn y gymuned) ar gyfer y rhaglen hyfforddi ar y Cynlluniau Datblygu Lleol ym mis Hydref. Maent hefyd wedi comisiynu llawlyfr ar sut i baratoi Cynllun Cynnwys y Gymuned a sut i ddrafftio taflen i'r cyhoedd ar y system Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**ADRAN: Y GRŴP LLYWODRAETH LEOL, GWASANAETH CYHOEDDUS A DIWYLLIANT**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi'r ddogfen bolisi *Dringo'n Uwch* a dechrau gweithredu'r themâu allweddol. | Nod y strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, *'Dringo'n Uwch'* yw gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall cymryd rhan weithredol mewn chwaraeon a hamdden ei wneud i les yng Nghymru drwy wella iechyd y genedl, sicrhau mwy o gyfle i bawb gymryd rhan a hyrwyddo cynhwysiant yn weithredol. Lansiwyd y strategaeth yn Ionawr 2005 yn dilyn rhaglen ymgynghori gynhwysfawr. Gwahoddwyd sefydliadau allweddol i roi mewnbwn i'r strategaeth, gan gynnwys rhai yn cynrychioli'r sector gwirfoddol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ifanc a hŷn. | Mae cynllun gweithredu yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys gweithredu penodol i gwrdd â'r targedau yn y strategaeth. Mae'r targedau hyn yr un mor berthnasol i bawb yng Nghymru, ar ôl ystyried eu hoed, gallu neu anabledd, rhyw a grŵp ethnig. |
| Darparu mynediad rhad ac am ddim i byllau nofio awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol, ac i bobl hŷn yn ôl rhaglen i'w chytuno arni â'r awdurdodau lleol. | Prif gryfder y fenter i gynnig nofio rhad ac am ddim yw ei heffaith ar gynhwysiant cymdeithasol drwy chwalu'r rhwystrau i bob grŵp gymryd rhan. Mae nofio di-dâl yn gwella mynediad a chyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig;<br><br>Mae nofio di-dâl: | Yr oedd Nofio Di-dâl i rai 16 oed a iau ar gael yn ystod yr holl wyliau ysgol ar draws Cymru.<br><br>Cynigiwyd Nofio Di-dâl i rai 60+ oed drwy gydol y flwyddyn mewn 20 o awdurdodau lleol ac y tu allan i wyliau ysgol yn y ddau arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | • yn cyfrannu at ddatblygu a chryfhau cymunedau;<br>• yn helpu i fynd i'r afael â'r angen parhaus i bontio'r bwlch cyfranogi 10%+ sy'n dangos bod merched o bob oed yn llawer llai gweithredol yn gorfforol na bechgyn a dynion; ac yn<br>• ysgogi cyfranogiad gweithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Yn ôl gwerthusiad gan Gyngor Chwaraeon Cymru o'r Cynllun Peilot yn ystod Haf 2003, mae'r fenter wedi bod yn llwyddiant ysgubol o ran hybu niferoedd a pha mor aml y mae pobl ifanc yn nofio yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cafwyd cynnydd mewn nofio o 108% ymhlith plant ifanc yng Nghymru, ac yr oedd plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi nofio 50% yn fwy nag arfer yn ystod gwyliau'r haf.<br><br>Mae prosiect ymchwil 3 blynedd cynhwysfawr yn cael ei gynnal i werthuso llwyddiant y ddwy fenter Nofio Di-dâl. Bydd cyfres o adroddiadau interim yn cael eu cynhyrchu dros y ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys un yn yr Hydref eleni, ac adroddiad terfynol yn Ionawr 2007. |

| | | |
|---|---|---|
| Darparu a monitro gweithrediad Iaith Pawb (Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog) a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad. | Mae cydraddoldeb yn gwbl greiddiol i'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal gyda darparu gwasanaethau i'r cyhoedd – fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.<br><br>Mae hawliau iaith yn un o'r 3 llinyn allweddol yn Iaith Pawb. Mae'n cynnwys:<br>• Ymestyn mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ;<br>• Grymuso unigolion i wneud dewis gwirioneddol ynghylch yr iaith, neu'r ieithoedd, y maent yn dymuno byw eu bywydau drwyddi; a<br>• Rhoi hawl i bob person ifanc dderbyn ystod o wasanaethau cymorth yng nghyswllt eu dewis iaith. | Mae'r canlyniadau a'r cynnydd yn cael eu disgrifio'n llawn yn yr adroddiad blynyddol 2004-2005 ar Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg.<br>http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/report/annualreport-2004-05-e.pdf<br>http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/report/annualreport-2004-05-w.pdf<br><br>Dyma rai ohonynt:<br>• 212 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi derbyn hyfforddiant er mwyn cynyddu mynediad at gylchoedd chwarae / meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg.<br>• £3 miliwn wedi ei gyhoeddi i gynyddu niferoedd y darlithwyr Addysg Uwch sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Mae pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi cynhyrchu strategaethau prif ffrydio Iaith Gymraeg.<br>• Swyddog Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd iaith Gymraeg wedi ei benodi. |

| | | |
|---|---|---|
| Edrych ar y posibilrwydd o gael Oriel Genedlaethol newydd ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru, ac Oriel Ddigidol Genedlaethol ar gyfer y celfyddydau gweledol. | **Fel rhan o'u cylch gorchwyl gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, mae'n rhaid i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru brif ffrydio cydraddoldeb yn eu holl fusnes. Comisiynwyd astudiaeth gwmpasu ar gyfer yr Oriel Genedlaethol newydd ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru.**<br><br>Mae cylch gorchwyl y tri Chorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n rhan o'r astudiaethau yn cynnwys darparu mynediad i BAWB. Er enghraifft, mae gennym bolisi o roi mynediad am ddim i bob safle gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, sy'n dileu'r rhwystr cost i rai ar incwm is i ymweld â chasgliadau. Ar gyfer yr astudiaeth hon, mae'r un egwyddorion o ddarparu mynediad i bawb yn berthnasol. | Mae'n rhy fuan i weld unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb. |
| Mae cynnal, gwarchod a chyflwyno'r henebion sydd yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys gwella mynediad cyhoeddus at henebion. | Drwy wella mynediad, rhoddir mwy o gyfle i bob grŵp fwynhau henebion ac adeiladau, yn enwedig i bobl anabl. | Cwblhawyd nifer o archwiliadau mynediad sydd wedi arwain at welliannau ffisegol i fynediad at nifer o safleoedd ar draws Cymru, gan gynnwys Abaty Tyndyrn, Castell Lacharn a Siambr Gladdu Pentre Ifan.<br>Mae dolenni sain symudol i hwyluso clywed wedi eu gosod ym mhob canolfan groeso a siop, ac mae ymwelwyr anabl a chydymaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn cael cynnig mynediad am ddim i safleoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu a chyllido gwasanaeth cynghori a chymorth cynhwysfawr i amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol drwy'r We, cysylltu â staff CyMAL a rhaglen ddigwyddiadau. | Sefydlwyd CyMAL fel is-adran o Lywodraeth y Cynulliad yn Ebrill 2004. Ei Ddatganiad o Ddiben yw ei fod yn cefnogi gwasanaethau a ddarperir gan amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol sy'n:<br>• hawdd cael gafael arnynt ac sydd ar agor neu ar gael i bawb;<br>• ymgysylltu ac yn cysylltu â phobl; ac yn<br>• torri tir newydd ac yn annog cynulleidfaoedd newydd.<br><br>I helpu gyda'r nod hwn, penodwyd swyddog i fod yn benodol gyfrifol am Gyfle Cyfartal i hyrwyddo ac eiriol dros ehangu mynediad a chynyddu cyfranogiad. | Penodwyd Swyddog Cynghori ar Gyfle Cyfartal yn CyMAL yn Nhachwedd 2004; mae'n darparu cyngor a chymorth gyda materion cydraddoldeb i amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol.<br><br>Mae'r Swyddog Cynghori wedi cynhyrchu Rhifyn Cymreig o'r Portffolio Anabledd gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mewn Braille ac ar dâp sain a gellir hefyd ei ddadlwytho o wefan CyMAL. |
| Cyflwyno cytundebau Polisi rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phob awdurdod lleol. | Mae'r cytundebau yn cynnwys o leiaf un targed sy'n ymwneud yn benodol ag amcanion cyfle cyfartal. | Mae pob cytundeb polisi yn cynnwys mesurau wedi eu hanelu at fynd i'r afael â digartrefedd, gofalu am bobl hŷn a phlant sy'n derbyn gofal, a hefyd yn cynnwys mesurau 'ystod ehangach' fel bod awdurdodau yn gallu adlewyrchu materion cynaliadwyedd a chydraddoldeb yn llawnach, e.e. cyflawni'r Safon Cydraddoldeb Cyffredinol. Mae dadansoddiad cychwynnol o berfformiad ym 2004-05 yn awgrymu cynnydd da ledled Cymru yn erbyn mesurau cydraddoldeb, yn enwedig gyda chyflawni'r Safon Cydraddoldeb |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan awdurdodau lleol. |
| Darparu cymorth ariannol i awdurdodau unedol yng Nghymru a sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu dosbarthu yn ôl angen yn unol â'r fformiwla a gytunwyd arni. | Ar hyn o bryd mae'r fformiwla yn ystyried dangosyddion fel poblogaeth, oed y boblogaeth, amddifadedd, prinder, niferoedd disgyblion, dwyster a baich achosion. Nid yw'n rhoi sylw penodol i hil, anabledd neu'r rhywiau. Un o amcanion y Cynllun Is-adrannol ar gyfer 2005-06 yw ceisio sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r mynegai ethnigrwydd yn yr holl fformiwlâu a ddefnyddir i benderfynu cyllid llywodraeth leol. | Mae'r Is-adran wedi bod yn profi ethnigrwydd (grwpiau ethnig heb fod yn wyn) fel dangosydd angen yn y fformiwla gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion. Fodd bynnag, nid yw'r dangosydd hwn wedi pasio'r holl brofion ystadegol ac nid oes ganddo berthynas ystadegol sylweddol ag angen. Er hynny, bydd canlyniadau'r gwaith yn cael eu hystyried gan yr is-grŵp Dosbarthu fel rhan o'i adolygiad o'r fformiwla gwasanaethau cymdeithasol personol. Er gwaetha'r diffyg presennol o ddangosyddion penodol ar gyfer cydraddoldeb yn y fformiwla, mae'r cymorth heb ei glustnodi a ddosberthir i awdurdodau lleol yn eu galluogi i wario yn ôl eu blaenoriaethau hwy ar ôl ystyried ansawdd eu darpariaeth gwasanaethau a'r agenda gydraddoldeb yn eu hardaloedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Canllawiau ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. | Bydd y canllawiau diwygiedig yn cynnwys adrannau sy'n sôn yn benodol am asesiadau cydraddoldeb. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol a chyrff rheoleiddio i gyflawni'r asesiadau hyn ac yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw integreiddio'r gwaith cydraddoldeb presennol yng ngwaith cynllunio ac adrodd corfforaethol yr awdurdodau. | Bydd y canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn cael eu cyhoeddi yn yr Hydref 2005. |
| Trefniadau etholiadol. | Bydd sefydlu'r grŵp cynllunio etholiadol yn darparu fforwm ar gyfer rhannu arferion gorau o ran trefniadau etholiadol. | Bydd gan grwpiau anabledd sydd â budd mewn etholiadau gyfle i gyfrannu at y broses gynllunio drwy'r grŵp. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Cynllun Genethod yn Gyntaf. | Helpu i gau'r bwlch rhwng merched a bechgyn o ran cymryd rhan mewn chwaraeon – drwy helpu ysgolion i gynnig cyfleoedd i ferched gael cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ymwneud â gweithgarwch corfforol a chwaraeon. | Cymrodd 15,000 o ferched yng Nghymru ran mewn gweithgareddau Genethod yn Gyntaf. | Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred |
| Bu Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio â chynghorau chwaraeon eraill, UK Sport a grwpiau cydraddoldeb i ddatblygu safonau cydraddoldeb cyffredinol i Gyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol anelu atynt fel rhan o'u rhaglenni moderneiddio. | Darparu canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu chwaraeon a chynghori ar safonau cydraddoldeb. | Mae Fframwaith Safonau Cydraddoldeb wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan gynghorau chwaraeon y Gwledydd Cartref ac fe'i lansiwyd yn Nhachwedd 2004. | Rhyw<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred |
| Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi datblygu partneriaeth â Ffederasiwn Chwaraeon yr Anabl Cymru. | Darparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl gydag anableddau. | Cymrodd mwy na 12,000 o bobl ran mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ym 2004-05, a daeth bron i 3,000 yn aelodau gweithredol o glybiau. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllid a nawdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (£12.3 miliwn ym 2004-05). | Mae pob gweithgarwch gan Fwrdd yr Iaith wedi'i anelu at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. | Mae enghreifftiau yn cynnwys:<br>• 3 yn fwy o Gynlluniau Gweithredu Iaith wedi eu sefydlu ym Mangor, Machynlleth ac Amlwch.<br>• £1.3 miliwn o grantiau wedi eu rhoi i 25 o Fentrau Iaith yn gwasanaethu 18 o siroedd ledled Cymru. Mae'r Mentrau yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn lleol, drwy ddarparu gwasanaethau, cymorth a chyngor.<br>• Pecynnau Croeso wedi eu cynhyrchu a gwefan i roi gwybodaeth am yr iaith i rai sy'n symud i fyw i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang.<br>• Buddsoddiad pellach mewn Twf (prosiect trosglwyddo ieithyddol newydd sbon). Dosbarthwyd 2,000 o becynnau gwybodaeth i rieni newydd a chyflogir 25 aelod o staff.<br>• £1.03 miliwn o gyllid wedi'i roi i Fudiad Ysgolion Meithrin i ddarparu meithrinfeydd cyn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Cyllid o £479,000 wedi'i roi i ganolfannau hwyrddyfodiaid fel bod plant sy'n symud i ardaloedd lle mai'r Gymraeg yw'r prif | Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfrwng addysg yn gallu integreiddio’n llwyddiannus | |
| Darparu cyngor ar drin yr iaith Gymraeg yn gyfartal i staff Llywodraeth y Cynulliad. | Mae’r Uned Iaith Gymraeg wedi darparu:<br>• 21 o sesiynau cwrs cynefino a fynychwyd gan 234 o staff newydd ;<br>• sesiynau briffio pwrpasol ar gyfer is-adrannau;<br>• modiwl ar brif ffrydio’r Gymraeg fel rhan o gyrsiau polisi Llywodraeth y Cynulliad;<br>• cyfarwyddyd manwl ar y fewnrwyd, gan gynnwys cyfarwyddyd ar brif ffrydio i is-adrannau;<br>• seminar prif ffrydio ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad; a<br>• cyfweliadau prif ffrydio â 20 o Benaethiaid Is-adrannau. | Fel rhan o fonitro ar gyfer adroddiad blynyddol 2004-05, cafodd 36 o staff wedi eu dewis ar hap eu cyfweld. Yr oedd 34 yn ymwybodol o’r Cynllun ac yr oedd 30 yn ymwybodol o’r Uned Iaith Gymraeg.<br><br>Rhestrir enghreifftiau o brif ffrydio yn yr adroddiad blynyddol – yr oedd nifer o’r enghreifftiau hyn wedi eu hysgogi gan gyfweliadau monitro â Phenaethiaid Is-adrannau yn y blynyddoedd blaenorol.<br><br>Mae pob un o’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi cynhyrchu strategaethau prif ffrydio.<br><br>Canmolwyd yr Uned Iaith Gymraeg am ei gwaith prif ffrydio mewn adroddiad gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. | Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cael cyswllt ag adrannau o Lywodraeth y DU ar faterion iaith Gymraeg. | Sicrhau bod yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. | Cynnwys Cymraeg ar bob pasbort y DU o 2006 ymlaen.<br><br>Statws cyfreithiol i fersiynau Cymraeg o bob Llw a Chadarnhad a gymerir mewn seremonïau dinasyddiaeth.<br><br>Bydd cefn y cerdyn iechyd E111 newydd ar gyfer teithwyr yn ddwyieithog.<br><br>Wedi cyfieithu'r Cyfansoddiad Ewropeaidd i'r Gymraeg. | Iaith |
| Darparu gwefan CyMAL sy'n hygyrch i bawb. | Sicrhau bod gan bawb fynediad at wybodaeth am CyMAL ac at yr adnoddau sydd ar gael ar-lein. | Mae'r wefan wedi ei datblygu i lefel ganllawiau 3 (AAA – y lefel uchaf) W3C ar gyfer cynnwys gwe hygyrch. CyMAL oedd yr Is-adran gyntaf o Lywodraeth y Cynulliad i gyrraedd y safon hon. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae mynediad yn faes grant blaenoriaeth i bob cynllun a weithredir gan CyMAL. | I annog amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd i wneud gwelliannau i wasanaethau er budd i'w holl ddefnyddwyr. | Yr oedd prosiectau a dderbyniodd gyllid ym 2004-05 yn cynnwys:<br><br>• Caerdydd: One City Many Voices (Swyddfa Cofnodion Morgannwg ac Amgueddfa Caerdydd) yn cynnwys cymunedau amrywiol yn y gwaith o greu archifau lleol.<br><br>• Gwneud hanes cudd yn hygyrch: Darparodd Canolfan Hanes a Chelfyddyd Butetown yng Nghaerdydd fynediad at 5,000 o luniau am hanes diwylliannol Cymru. Drwy ddefnyddio technoleg ddigidol newydd, nod y prosiect hwn yw gwneud agwedd hanfodol ar hanes Cymru yn hygyrch i'r cyhoedd – gan ddarparu cyfleoedd newydd i ddysgu gydol oes a hybu delwedd gosmopolitan o Gymru fel cenedl amrywiol, aml-ddiwylliant tra'n cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol.<br><br>Bydd yn sicrhau bod archif sylweddol Canolfan Hanes a Chelfyddyd Butetown yn fwy gweladwy a hygyrch i gynulleidfa eang. Bydd y prosiect yn galluogi datblygu arddangosiadau aml-gyfrwng – o leiaf chwech o | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arddangosiadau sgrîn-gyffwrdd thematig yn seiliedig ar waith y ganolfan – a phecynnau addysg.<br><br>Mae'r arddangosiadau aml-gyfrwng yn cynnwys: One Island, Many Faiths: 100 mlynedd o Wahanol Grefyddau yn Tiger Bay.<br>Butetown Now: Lluniau gan David Hurn / Magnum.<br>Somali Elders: Portreadau o Gymru.<br><br>Mae'r prosiect yn cael ei ariannu o dan Gynllun Grant Annog Addysg Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd Cymru gan CyMAL. Derbyniodd y prosiect £14,250 ym 2004-05 a derbyniodd £16,967 ym 2005-06.<br><br>• Cymunedau ethnig Dociau Caerdydd. | |
| Mae Cadw wedi cytuno ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru i noddi gwobr newydd fel rhan o gynllun gwobrwyo dylunio'r Ymddiriedolaeth. | Cydnabod a dathlu arferion da mewn addasiadau i hwyluso mynediad at adeiladau hanesyddol i bobl anabl. | Mae'r wobr yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth ac Anabledd Cymru. Bydd ceisiadau yn cael eu gwahodd yn fuan gan gymdeithasau dinesig, grwpiau anabledd lleol a mudiadau budd eraill. | Anabledd |
| Amrywiaeth ac Ymgynghoriad ar | | Mae cyfnod yr ymgynghoriad wedi | Oed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Weledigaeth Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. | Elfen allweddol o ymgynghoriad cyhoeddus Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar ei 'Weledigaeth' yw canfod beth yw barn pobl o bob rhan o gymdeithas sy'n ddefnyddwyr posibl o wasanaeth y sefydliad. | dod i ben a'r canlyniadau yn cael eu hasesu. Bydd canlyniadau terfynol yr ymarfer 'Gweledigaeth', a fydd yn sail i waith Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru dros y 10-15 mlynedd nesaf, yn cael eu gweithredu ym 2007. | Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Penodi Swyddog Amrywiaeth ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. | Mae'r sefydliad wedi bod yn adolygu ei bolisïau i ystyried effaith deddfwriaeth newydd ar dueddiad rhywiol a chrefydd. | Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar ddatblygu cynllun cydraddoldeb hiliol, a fydd wedi'i gwblhau ym 2005-06. | Hil<br>Crefydd<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Cyflwyno prosiect Ar Dir Cyffredin 2 gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Gweithio â phobl ifanc (14 – 24 oed) mewn pum cymuned ledled Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd. | Ymarfer ymgynghori â phobl ifanc yw'r prosiect Ar Dir Cyffredin, i gasglu barn pobl iau am amgueddfeydd a threftadaeth. Y nod yw canfod sut i wneud y maes yn fwy deniadol i rai rhwng 16 a 25 oed. Bydd Ar Dir Cyffredin 2 yn rhedeg am 2 flynedd gyda chyllid gan Amcan Un a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ac yn gweithio mewn 5 o gymunedau ar draws Cymru. | Bydd yn adrodd mewn 2 flynedd. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu gweithgarwch partneriaeth Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ymhellach drwy Gynllun Partneriaeth y Celfyddydau Gweledol ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru. | Cynyddu nifer yr arddangosfeydd celf teithiol a gwneud casgliadau yn fwy hygyrch. | Dyfeisiwyd rhaglen a bydd 5 o orielau yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Cynllun, a'r gyntaf i agor ym mis Hydref 2005. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu grŵp cynghori ar faterion cydraddoldeb hiliol. | Hysbysu a goleuo gwaith Cyngor y Llyfrgell ar gynyddu mynediad i'w gasgliadau i bobl o leiafrifoedd ethnig ar hyd a lled Cymru. | Dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y grŵp hwn. Mae'r gwaith ar y gweill a bydd y grŵp yn adrodd nes ymlaen ym 2005-06. | **Hil** |
| Ym mis Mai, cyhoeddasom (drwy Gyngor Celfyddydau Cymru) Strategaeth Celfyddydau ac Anabledd – 'Y Tu Hwnt', a fydd mewn grym am dair blynedd. Mae wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r sefydliad Celfyddydau Anabledd Cymru. | Gwella mynediad at ffurfiau celfyddyd o bob math ledled Cymru. | Derbyniodd Celfyddydau Anabledd Cymru grant o £76k i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i'r sector celfyddyd ac i gynnal rhaglenni i greu cyfle i artistiaid anabl gael gweithio yng Nghymru.<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy Gyngor y Celfyddydau, wedi dyfarnu cyfres o grantiau cyfalaf i ganolfannau celfyddyd i'w galluogi i fod yn gwbl hygyrch ar gyfer pobl anabl yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Yr ydym hefyd wedi cyflawni archwiliad, drwy Gyngor y Celfyddydau, o'r cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael i bobl anabl yn y celfyddydau, | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyda golwg ar gynyddu a gwella'r cyfleoedd hynny.<br><br>Gwnaed y grantiau cyfalaf canlynol:<br>• Yr Academi Frenhinol Gymreig (£67k)<br>• Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd (£10k)<br>• Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy (27k)<br>• Canolfan Gelfyddydau Chapter (£10k)<br>• Theatr Fach Abertawe (£25k)<br>• Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen (£45k)<br><br>Mae'r holl ganolfannau celfyddydau newydd yn gwbl hygyrch. Y rhai diweddaraf yw Canolfan Mileniwm Cymru, y Galeri yng Nghaernarfon, Glan yr Afon yng Nghasnewydd a Theatr Mwldan yng Ngheredigion. Bydd cynlluniau i ail ddatblygu'r canolfannau presennol, fel Theatr y Dorch yn Aberdaugleddau, hefyd yn sicrhau hygyrchedd llawn. Mae rhai canolfannau yn mynd ymhellach na chwrdd anghenion cynulleidfaoedd a pherfformwyr. Er enghraifft, mae gan Glan yr Afon yng Nghasnewydd 'dŵr hedfan' cwbl hygyrch fel bod technegwyr anabl yn gallu gweithio ynddo. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynllun cydraddoldeb hiliol newydd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru. | Nodi'r trefniadau ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb hiliol ym meysydd polisi Cyngor y Celfyddydau. | Mae'r cynllun drafft ar hyn o bryd yn cael ei adolygu gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hil. Fodd bynnag, dyma rai enghreifftiau o sut y defnyddiwyd cyllid o £60k i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran hil:-<br>• cynhaliwyd digwyddiad undydd cymunedol aml-ddiwylliant yn Abertawe i godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Affricanaidd;<br>• cyflwyniad yn UWIC o chwech o ffilmiau byrion a gynhyrchwyd gan bobl o leiafrifoedd ethnig;<br>• caligraffeg Islamaidd mewn gwydr;<br>• wythnos Swdanaidd i arddangos diwylliant a llên gwerin Swdan yng Nghymru;<br>• 'Bayan Ko' – digwyddiad diwylliannol Philipinaidd i gyd-ddigwydd â dathlu Annibyniaeth y Philipiniaid ym 2005;<br>• perfformiad o ffoaduriaid pyped i ddangos y siwrne o Affrica i gae chwarae yng Nghymru; a<br>• gweithdai dawns a drwm a pherfformiad cymunedol wedi eu harwain gan artistiaid carnifal o Drinidad i ychwanegu at y Carnifal MAS blynyddol yng Nghaerdydd yng Ngorffennaf 2005. | **Hil** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae’r Touch Trust yn un o ‘breswylwyr’ Canolfan Mileniwm Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £100k (£50k ym 2004-05 a £100k ym 2005-06) i ddatblygu ei waith arloesol gyda phobl sydd ag anawsterau corfforol a dysgu dwys. | Mae’r rhaglenni Therapi a Symud drwy Gyffwrdd yn helpu pobl ifanc i gyfathrebu, datblygu eu sgiliau symud ac ymlacio. | Mae rhaglen yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio celfyddyd, cerddoriaeth a symud i ddatblygu cyfathrebu. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi golygu bod Canolfan y Mileniwm yn croesawu pobl gydag anawsterau dwys iawn. Mae hefyd yn defnyddio perfformwyr gydag anableddau i ddatblygu a rhedeg sesiynau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth offer pwrpasol i ymdopi ag anawsterau corfforol dwys ac mae’n gweithio ag ystod eang o grwpiau.<br><br>Mae’r Ymddiriedolaeth wedi darparu hyfforddiant, addysg a gweithgareddau i gannoedd o bobl ifanc a gofalwyr / athrawon. Un enghraifft yw hyfforddi myfyrwyr 16 oed i fynychu’r Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol sy’n helpu unigolion i gyflawni Lefelau 2 a 3 mewn Symud yn Ymaddasol. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, bydd o leiaf 6 o fyfyrwyr yn cymhwyso i ddod yn Arweinwyr Sesiwn. | Oed<br>Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyfarniadau am Wasanaeth Blaenorol. | Ym 2005, bydd y Cynllun Pensiwn gan Lywodraeth Leol yn cael ei ymestyn i aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mater i awdurdodau lleol unigol fydd penderfynu a ydynt am weithredu'r cynllun a gwahodd cynghorwyr i ymuno. Mae sylwadau yn cael eu cyflwyno i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, sy'n rhedeg y cynllun, fel y gellir diwygio'r rheolau i ganiatáu ôl-ddyddio aelodaeth i Fehefin 2004. Yn Lloegr, mae'r cynllun wedi bod ar gael i gynghorwyr ers Mai 2003. | Gwneud i ffwrdd â'r rhwystr ariannol posibl i gymryd rhan yn y cynllun. | Oed<br>Rhyw |
| Lwfansau cynghorwyr. | Ystyried ymestyn y cynllun presennol i dalu lwfans aelod cyfetholedig i aelodau nad ydynt yn gynghorwyr, [fel bod] awdurdodau lleol yn cynnig Lwfans Gofal i bob cynghorydd sydd â chyfrifoldeb gofal, beth bynnag yw lefel y Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig. | Darparu sail ehangach i dalu lwfansau a sylfaen ar gyfer y codiad blynyddol. | **Oed**<br>**Rhyw** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwaith ymchwil wedi'i ddechrau i anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. | Ystyried y galw a'r cyflenwad llety, gan gynnwys manylion ynghylch beth fyddai angen ei wneud i wella safon y llety. Datblygu polisïau i gwrdd â'r anghenion a nodir gan yr ymchwil. | Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2005. | **Ffordd o fyw**<br><br>**Hil** |
| Cyhoeddi cyfleoedd ar gyfer penodiadau cyhoeddus i ddod. | Er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd penodiadau cyhoeddus, mae rhestr o'r swyddi y disgwylir iddynt gael eu hysbysebu yn y chwe mis nesaf yn cael ei dosbarthu i fudiadau cydraddoldeb yn fisol. | O'r blaen, yr oedd gwybodaeth am swyddi gwag yn cael ei dosbarthu i fudiadau cydraddoldeb fel yr oedd y swydd yn mynd i'r wasg. Fodd bynnag, yr oedd terfynau amser byr yn ei gwneud yn anodd i'r wybodaeth gael ei lledaenu. Dylai'r drefn newydd hon sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei lledaenu mewn da bryd. | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |
| Y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol. | Mae'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol yn dweud y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn grymuso awdurdodau lleol fel eu bod, ymhlith pethau eraill, yn gallu hybu'r nod o gydraddoldeb yng nghyswllt democratiaeth leol, mynediad at wasanaethau effeithiol a chyflogaeth.<br><br>Pob blwyddyn, mae'r Cyngor Partneriaeth yn derbyn adroddiad blynyddol Uned Gydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol | Mae materion cydraddoldeb yn derbyn sylw drwy gytundebau polisi, a ddatblygir o dan arweiniad y Cyngor / Cynllun Partneriaeth.<br><br>Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo mwy o gyfranogi a gwell mynediad i bleidleiswyr anabl yn etholiadau lleol 2004. | **Oed**<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/ Cred<br>Tueddiad Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru. | | |
| Pobl anabl a phenodiadau cyhoeddus. | Yng Ngorffennaf 2004, cyhoeddwyd adroddiad gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar y rhwystrau oedd yn atal pobl anabl rhag ymgeisio am benodiadau cyhoeddus. Yr oedd yr adroddiad yn nodi beth y gellid ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn. Daeth yr adroddiad, a llyfryn o astudiaethau achos, i sylw is-adrannau noddi mewn rhybudd gan Bennaeth Is-adran ym mis Gorffennaf, ac i sylw Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad drwy'r grŵp nawdd. | Arfer da, o ran y cyfraniad y gall pobl anabl ei wneud at gyrff cyhoeddus, wedi'i ddwyn i sylw is-adrannau noddi a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. | **Anabledd** |
| Noddi Uned Gydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). | Wedi ei sefydlu i ddarparu cyngor polisi parhaus a chymorth ymarferol i lywodraeth leol ar draws agenda gydraddoldeb eang. Mae'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn glynu at eu cyfrifoldebau statudol ac arferion gorau yng nghyswllt cydraddoldeb yng Nghymru. | Mae ei gweithgareddau wedi cynnwys:<br>• Comisiynu a chyhoeddi ymchwil gan y Ganolfan Polisi Cyhoeddus Genedlaethol ym Mhrifysgol Abertawe ar Reoli Cydraddoldeb mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.<br>• Datblygu a darparu ystod o raglenni dysgu a hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb i aelodau a swyddogion.<br>• Hwyluso seminarau rhanbarthol ar y cyd â'r Comisiwn Hawliau Anabledd i baratoi awdurdodau ar gyfer cyflwyno Rhan IV y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd – wedi cyhoeddi adroddiad 'Hydref 2004 a thu hwnt' yn nodi'r prif feysydd y bydd angen rhoi sylw iddynt.<br>• Darparu cyngor a chanllawiau ysgrifenedig buan i awdurdodau ar adolygu eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol.<br>• Darparu cyngor a chymorth polisi strategol 1-2-1 i awdurdodau ar ddatblygu eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu yng nghyswllt cydraddoldeb.<br><br>**Ymarfer Gwerthuso gan y Cynulliad:**<br><br>Comisiynodd yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol werthusiad o Uned Gydraddoldeb CLlLC. Ei ffocws oedd asesu pa mor effeithiol oedd yr Uned gyda chwrdd â'i nodau a'i hamcanion gwreiddiol ac a oedd angen cyllido ei gwaith o hyd. Daeth i'r casgliad bod gwaith yr Uned yn bodoli'r amodau allweddol ar gyfer derbyn cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod angen Uned Gydraddoldeb bwrpasol o hyd ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. O ganlyniad, cytunodd yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol y dylid darparu 3 blynedd arall o gyllid. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Astudiaethau Achos**

**Theatr Ffynnon**
Cwmni theatr o oedolion gydag anableddau dysgu yw Theatr Ffynnon yn y Fenni. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi ariannu prosiect allgymorth sy’n cynnwys aelodau craidd o’r cwmni i gynnal gweithdai ar gyfer oedolion eraill sydd ag anableddau dysgu yn yr ardal leol, a gweithdai allgymorth yng nghymoedd y dwyrain. Yn ddiweddar, perfformiwyd yn Theatr y Bwrdeistref yn y Fenni ac yn Theatr y Chapter, Caerdydd.

Mae aelodau yn chwarae rôl ganolog yn y prosesau o wneud penderfyniadau creadigol. Mae’r gweithgarwch hwn, er wedi’i gynorthwyo gan swyddogion celfyddydau proffesiynol, yn cael ei arwain gan bobl anabl, sy’n flaenoriaeth bwysig iawn yn y strategaeth celfyddydau ac anabledd newydd gan Gyngor y Celfyddydau. Y canlyniad yw darn gwych o theatr sydd â’i rinwedd artistig ei hun.

**ADRAN: ADRAN CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, rhaid i Gynllun y Sector Gwirfoddol gael ei adolygu yn y flwyddyn yn dilyn pob etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu dadansoddiad o'i thaliadau i'r sector gwirfoddol, yn ôl codau amrywiaeth. Ym 2003, cyflwynodd system cronfa ddata sydd, o'i defnyddio, yn rhoi manylion am fudiadau sydd wedi derbyn cyllid, y ffrwd gyllido berthnasol, a'r is-adran / grŵp yn y Cynulliad a wnaeth y taliad.<br><br>Y cam nesaf oedd ymestyn y wybodaeth hon i gynnwys dadansoddiad yn ôl amrywiaeth. Mae CGGC yn awr wedi asesu cronfa ddata Llywodraeth y Cynulliad o gyflenwyr gwirfoddol ac wedi eu dadansoddi yn ôl amrywiaeth. Defnyddiwyd y categorïau canlynol: Anabledd; Lleiafrifoedd Ethnig; Merched; Lesbiaid, Hoywon & Pobl Ddeurywiol; Pobl Ifanc; Pobl Hŷn; Siaradwyr Cymraeg. | Oherwydd y nifer fawr o daliadau i fudiadau cyfryngol, dim ond 20% o'r taliadau a wnaed gan y Cynulliad i gyrff gwirfoddol oedd modd eu codio yn ôl amrywiaeth. Felly, ni ellir gwneud dadansoddiad ystyrlon o'r darganfyddiadau ar hyn o bryd.<br><br>Mae swyddogion y Cynulliad yn ystyried opsiynau ynghylch sut i ddadansoddi'r nifer helaeth o daliadau 'Eraill', er enghraifft defnyddio'r rhwydwaith newydd ei ail-lansio o Swyddogion Cyswllt y Sector Gwirfoddol i ddadansoddi'r cynlluniau grant a reolir gan eu his-adrannau, yn ôl amrywiaeth.<br><br>Mae swyddogion hefyd yn diweddaru'r gronfa ddata o gyflenwyr i adlewyrchu'r mudiadau gwirfoddol hynny a ychwanegwyd ers cyflawni'r ymarfer codio cychwynnol.<br><br>Mae bob amser wedi bod yn fwriad |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan Lywodraeth y Cynulliad, unwaith y deuai'r system ddata i fod yn gwbl weithredol, y byddai ei manylion yn cael eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol fel model ymarfer gorau i'w dibenion casglu data ariannol eu hunain. Bydd y System Ddata yn weithredol pan fydd y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn dod yn rhan o'r Cynulliad.<br><br>Gan gofio'r gwaith sylweddol sydd angen ei wneud i sicrhau dadansoddiad cynhwysfawr yn ôl amrywiaeth, bwriedir ymgysylltu â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol i'w hannog i fabwysiadu'r system ddadansoddi gyfredol yn ôl Is-adran / Ffrwd Gyllido / Mudiad (fel a nodir uchod). |

| | | |
|---|---|---|
| Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan. | Darparu dull Cynulliad integredig o ymdrin â cham-drin yn y cartref drwy ddatblygu Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan. | Lansiwyd Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan ar 30 Mawrth 2005. Yr oedd materion cydraddoldeb hiliol wedi eu prif ffrydio'n ofalus yn y ddogfen, ar sail cyngor gan fudiadau Lleiafrifoedd Ethnig gan gynnwys y Black Association of Women Step Out, a Chymdeithas Saheli Cymru Gyfan. Bydd y Strategaeth yn cael ei monitro gan Weithgor Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan sy'n cynnwys nifer o gynrychiolwyr o fudiadau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Uned Diogelwch Cymunedol wedi cynhyrchu taflen amlieithog fel rhan o'r ymrwymiad i brif ffrydio materion cydraddoldeb hiliol. |
| Darparu Cymunedau yn Gyntaf. | Cymunedau yn Gyntaf yw strategaeth tymor hir Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella cyfleoedd ac ansawdd bywyd i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae'r Uned Cymunedau yn Gyntaf yn darparu cyllid i nifer o fudiadau, gan gynnwys y Tîm Cefnogi Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig; Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du; y RNIB a'r RNID er mwyn sicrhau bod y broses Cymunedau yn Gyntaf yn gynhwysol. Hefyd, mae swyddogion Cymunedau yn Gyntaf wedi cyfarfod â nifer o fudiadau i ystyried | Mae'r canllawiau ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu hail ysgrifennu i sicrhau bod gan y Partneriaethau CyG wybodaeth glir ynghylch sut i gael pobl hŷn ac ifanc i gymryd rhan yn y broses CyG. Mae cyllid wedi'i roi i Gymuned Budd Pobl Ifanc yn Sir Benfro.<br><br>Mae gwaith yn symud ymlaen ar faterion iaith mewn ffordd sy'n sensitif i nodweddion ieithyddol pob ardal Cymunedau yn Gyntaf. Yn ogystal, mae'r canllawiau CyG |

| | | |
|---|---|---|
| | materion rhyw ac oed. Mae swyddogion o'r Uned CyG yn gweithio â Mentrau Iaith a Menter a Busnes i gynyddu'r rôl y dylai Mentrau Iaith ei chwarae gyda darparu cyngor a chymorth i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg. | yn cael eu hail ysgrifennu i adlewyrchu materion iaith. |
| Cefnogi busnesau economi gymdeithasol / cymunedol. | Grŵp ar y cyd o gynrychiolwyr o'r sector menter gymdeithasol, y Rhwydwaith Economi Gymdeithasol, llywodraeth leol a chenedlaethol, ac o'r sector gwirfoddol yw'r Cydweithgor Menter Gymdeithasol. Helpodd y Cydweithgor gyda datblygiad y Ddogfen Ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol, a'r Strategaeth Menter Gymdeithasol i Gymru a gynhyrchwyd wedyn. Mae erbyn hyn yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Strategaeth ac am sicrhau bod y sector yn gallu cymryd rhan weithredol yn ei chyflwyniad.<br><br>Ad-drefnwyd y Cydweithgor yn Ionawr 2005 a phenodwyd aelodau yn unol ag egwyddorion Nolan i alluogi cynrychiolaeth o bob cwr o gymdeithas. Yn ogystal, mae'r cynrychiolydd presennol o Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn cadw ei sedd. Mae Cylch Gorchwyl y Cydweithgor yn nodi'n benodol bod yn rhaid i'w waith ystyried polisi Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei busnes. | Bellach, mae gan y Cydweithgor Menter Gymdeithasol gynrychiolaeth ehangach o ran rhyw, dosbarthiad daearyddol a chefndir. |

| | | |
|---|---|---|
| Darparu Fframwaith Triniaeth a Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i hwyluso eu trefniadau i gynllunio a gwerthuso gwasanaethau. | Nod Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru yw cynnig patrwm cenedlaethol ar gyfer comisiynu triniaeth mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau, i gwrdd ag anghenion poblogaethau lleol amrywiol. Bydd hefyd yn helpu i ganfod unrhyw fylchau mewn gwasanaeth ac i oleuo penderfyniadau comisiynu er mwyn llenwi'r bylchau hynny, gan felly hwyluso tegwch, cydraddoldeb a chysondeb wrth gomisiynu a darparu triniaeth a gofal camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. | Mae'r Fframwaith yn cynorthwyo awdurdodau cyfrifol a'u partneriaid, comisiynwyr a darparwyr triniaeth gyda chynnig gofal a thriniaeth effeithiol wedi'i phrofi i rai sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi cyhoeddi 2 fodiwl o'r Fframwaith (Comisiynu a Therapi Seicolegol ac Ymyriadau Seicogymdeithasol) a fu'n destun ymgynghori yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio. | Mae cymorth refeniw ar gael i helpu asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n darparu cymorth ymarferol, technegol ac ariannol a chyngor ar welliannau a gwaith cynnal a thrwsio tai i berchnogion oedrannus ac anabl. Hyn fel eu bod yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned am cyn hired ag y maent yn dymuno neu'n gallu. | Rhoddwyd £3.45m gan y Cynulliad i gefnogi gweithgareddau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â £1.48m ym 2002-03. Yr oedd y cynnydd o 133% yn dangos ymrwymiad y Cynulliad i roi mwy o gyllid i'r mudiad yn dilyn adolygiad ariannol. O ran perfformiad, sicrhawyd yr enillion iechyd a gofal cymunedol canlynol:<br><br>• Derbyniodd asiantaethau Gofal a Thrwsio 32,823 o ymholiadau lle'r oedd 98% o'r cwsmeriaid naill ai dros 75 oed, yn anabl neu'n wael eu hiechyd;<br>• Cwblhawyd 27,071 o weithfeydd am gost i gyd o £14.6m; a<br>• Cwblhawyd 6,541 o achosion cyngor.<br><br>Fel rhan o fonitro perfformiad, mae Gofal a Thrwsio yn darparu ystadegau sy'n cynnwys nifer yr ymholiadau, nifer o bobl a | Oed<br>Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dderbyniodd cymorth, a gwerth y gwaith a wnaed. Mae'r cyfanswm o £14.6 miliwn yn cynrychioli cymorth grantiau gan awdurdodau lleol yn bennaf. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol | Ceir pedair cylch o geisiadau o dan y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, gyda chyllid ar gael i brosiectau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae’r ffurflen gais yn gofyn yn benodol sut y bydd y prosiect yn sicrhau hybu cyfle cyfartal i bawb.<br><br>Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn nifer o feini prawf ac mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn un ohonynt. | Mae’r holl geisiadau a gymeradwywyd wedi gorfod dangos bod cyfle cyfartal i bawb wedi’i ystyried yn y cynigion. | Oed<br>Anabledd |
| Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref / Yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd. | Cynllun sy’n cael ei weithredu ar sail galw (gan ymgeiswyr) yw’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ac mae’n cynnig mesurau gwresogi, inswleiddio a diogelwch (eiddo a phersonol) i aelwydydd incwm isel ledled Cymru. Yn ddiweddar (o fis Ebrill 2005 ymlaen) yr ydym wedi dechrau monitro ethnigrwydd yr holl aelwydydd sy’n derbyn cymorth o dan y Cynllun.<br>Bydd hyn yn ein galluogi i wneud rhywfaint o ddadansoddi / meincnodi i werthuso dosbarthiad ethnig yr aelwydydd sy’n derbyn cymorth. Yr ydym hefyd yn casglu gwybodaeth am oed, rhyw a statws budd-dâl yr aelwydydd. | **Yn ddiweddar, mae National Energy Action a Nwy Prydain wedi ymestyn cwrs hyfforddi o’r enw Gwireddu Cymunedau a Chartrefi Ynni Effeithlon (REECH) ar gyfer aelwydydd o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd.**<br><br>**Nod REECH yw goresgyn y rhwystrau penodol sy’n atal grwpiau lleiafrifoedd ethnig rhag manteisio ar gyngor ynni drwy ddarparu:**<br>• Hyfforddiant arbed ynni wedi’i deilwrio i weithwyr cymunedol, yn eu galluogi i gynnig cyngor yn eu hiaith eu | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hunain i aelwydydd.<br>• Mynediad at rwydwaith a chymorth REECH i raglenni arbed ynni.<br>• Deunydd hyrwyddo ar arbed ynni sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.<br>• Sefydlu cysylltiadau ynni allweddol yn eu hardaloedd ac yn genedlaethol.<br>• Cyhoeddi cylchlythyr yn rhoi cyngor ar y datblygiadau diweddaraf a syniadau ar gyfer gweithredu a chystadlaethau.<br><br>**Targed i helpu 95,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref erbyn Mawrth 2007.**<br><br>**Lleihau tlodi tanwydd – mae adolygiad diweddar o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ystyried a ydyw wedi'i dargedu'n foddhaol at bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd fel bod pobl sy'n agored i niwed yn gallu fforddio â chynhesu eu cartrefi.** | |
| Cyflwyno'r Gronfa Adfywio Ffisegol newydd. | Lansiwyd y Gronfa Adfywio Ffisegol ym mis Mawrth 2004, gyda'r holl | Mae'r holl geisiadau a gymeradwywyd wedi gorfod dangos | Oed<br>Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | awdurdodau unedol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn gymwys i ymgeisio amdani. Fel y nodir uchod, mae hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb yn un o'r meini prawf asesu. Mae'r ffurflen gais yn gofyn yn benodol sut y bydd y prosiect yn sicrhau hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae ceisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn nifer o feini prawf ac mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn un ohonynt. | bod cyfle cyfartal i bawb wedi'i ystyried yn y cynigion. | Rhyw<br>Iaith<br>Hil Crefydd / Cred<br>Tueddiad Rhywiol |
| Adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol. | Gweithgor Mynediad i'r Anabl.<br><br>Yn dilyn trafodaethau yng Nghyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y byddai'n sefydlu Gweithgor Mynediad i'r Anabl, a fydd yn cynnwys Cymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymunedol ac Awdurdodau Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac adeiladau celfyddydau, a Disabled Go. Bydd y Comisiynydd Hawliau Anabledd hefyd yn cael ei wahodd i fynychu a chyfranogi yn y Gweithgor.<br><br>Bydd y gweithgor yn ystyried darparu gwybodaeth am ba | Gweithgor Mynediad i'r Anabl.<br><br>Cynhaliodd y Gweithgor ei gyfarfod agoriadol yn Ionawr 2005. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfleusterau sydd ar gael, ac yn annog mudiadau i roi sylw i'w diffygion yn y maes hwn drwy ddarparu gwybodaeth am sut i'w cywiro. Bydd yn ystyried llunio meini prawf i fesur hygyrchedd (yn hytrach nag ystyried gorfodi'r ddeddfwriaeth), drwy ddefnyddio rhestrau gwirio fel y rhai a grëwyd gan y Bwrdd Croeso ac o dan y Cynllun Anabledd Cenedlaethol. | | |
| Sefydlu Gweithgor Rhaglen Canolfannau Hygyrch Cymru. | O dan y dyletswyddau yn Rhan 3 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth symud, addasu neu gynnig ffordd o osgoi rhwystrau ffisegol i gael mynediad i, ac i ddefnyddio eu hadeiladau.<br><br>Sefydlwyd y Gweithgor Canolfannau Hygyrch gan y Cynulliad i hyrwyddo arferion da ymhlith sefydliadau sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau mawr, ymhlith darparwyr adeiladau a threfnwyr digwyddiadau, ac i wobrwyo ac annog arferion da sy'n bodoli eisoes. | Sefydlwyd y Gweithgor ar ddechrau 2005 a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 12 Ionawr 2005. Mae gwaith y Gweithgor yn parhau. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post. | O dan Gronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post, mae cyllid ar gael i gefnogi mynediad i bobl anabl ac i gynorthwyo cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. | Mae'r Gronfa yn parhau a bydd y broses werthuso yn dechrau cyn bo hir. | Anabledd |
| Adroddiad ar Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | Drafftio a chyhoeddi adroddiad BSL erbyn Ionawr 2005 ar sut i gynyddu nifer y dehonglwyr BSL cymwysedig yng Nghymru.<br><br>Rhan o'r amcan hwn gan yr Is-adran oedd bod angen 'nodi ac argymell cwrs gweithredu sy'n rhoi sylw i'r angen taer am gynnydd dramatig yn nifer y Dehonglwyr BSL cymwysedig a chofrestredig er mwyn gwella cynhwysiant cymdeithasol, mynediad at wasanaethau a hawl defnyddwyr BSL i gael eu trin fel dinasyddion cyflawn yng Nghymru. | Mae'r Cynulliad wedi gweithio â nifer o sefydliadau allanol sy'n cynrychioli'r gymuned fyddar yng Nghymru, gan gynnwys:<br><br>• RNID Cymru;<br>• Cymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion;<br>• Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain / Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru;<br>• Cyngor Cymru i'r Byddar;<br>• Y Comisiwn Hawliau Anabledd;<br>• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;<br>• Cyngor Hyrwyddo Cyfathrebu â Phobl Fyddar;<br>• Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar; a<br>• Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Chwefror 2005 gyda 5 argymhelliad i gynyddu nifer o ddehonglwyr BSL yng Nghymru – i'w gweithredu ym 2006 – 07. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Bu’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ystyried yr adroddiad a chytunodd i benodi swyddog ar secondiad i:<br><br>• gyflawni gwaith i archwilio’r posibilrwydd o sefydlu partneriaeth ar sail prosiect eang i ddatblygu a darparu cynllun prentisiaeth a chyflogaeth i ddehonglwyr BSL yng Nghymru yn unol ag un o’r argymhellion yn yr adroddiad;<br>• ymchwilio i’r posibilrwydd o gyfeirio at ddarparu BSL fel un o amodau cyllido ac mewn canllawiau gan y Cynulliad; a gweithio ar y cyd â’r Comisiwn Hawliau Anabledd i fonitro a gwerthuso perfformiad o ran cwrdd ag anghenion defnyddwyr BSL;<br>• gweithio â’r Cyngor Hyrwyddo Cyfathrebu â Phobl Fyddar, Cymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion a Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain i roi sylw i broblemau yng nghyswllt cofrestru dehonglwyr BSL yng Nghymru; a<br>• hyrwyddo arferion da gyda darparu gwasanaethau dehongli BSL, gan gynnwys trefnu 4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynhadledd ranbarthol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i hybu'r uchod. | |
| Y Rhaglen Addasiadau Brys. | Nod y rhaglen hon yw cynnig ymateb ar unwaith i anghenion penodol er mwyn gwneud mân addasiadau i greu rampiau, lifftiau grisiau a chanllawiau i bobl sydd eu hangen naill ai i'w galluogi i aros yn eu cartrefi presennol neu fel y gellir eu rhyddhau o'r ysbyty neu o gartref gofal nyrsio dros dro. Gweinyddir y rhaglen gan Gofal a Thrwsio Cymru gan asiantaethau Gofal a Thrwsio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd eraill. | Cafodd cyllid o £1m ei ddarparu ym 2004-05. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lleoliadau Haf Ffrwd Gyflym. | Mae'r cynllun lleoliadau gan Swyddfa'r Cabinet yn cynnig lleoliadau haf i raddedigion o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig ac Anabl gyda'r nod o ddarparu hyfforddiant o safon uchel sy'n rhoi cipolwg ar waith y gwasanaeth sifil. | Bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb mewn cysylltiad â Swyddfa'r Cabinet ac Adnoddau Dynol i drefnu darparu lleoliadau addas i ddau berson graddedig.<br><br>Ystyriwyd bod y lleoliadau gwaith yn bur llwyddiannus, ac mae'r ddau ymgeisydd wedi sicrhau swyddi parhaol gyda'r Gwasanaeth Sifil. | Anabledd<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllido Cyfnod 2 yr Ymgyrch i Gau'r Bwlch Cyflog. | Bu'r Cynulliad yn negodi cynllun busnes â'i bartneriaid, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru, i hyrwyddo cyflogau cyfartal yn y sector preifat er mwyn unioni'r anghydbwysedd parhaus mewn lefelau cyflog rhwng merched a dynion. | Mae'r Comisiwn Cyfle Cyfartal wedi cyflwyno adroddiad interim ar faterion Cyflog Cyfartal. Yn ôl yr adroddiad, yr oedd merched o leiafrifoedd ethnig yn enwedig yn wynebu problemau, a'r rhain yn amrywio o ddiffyg gofal plant fforddiadwy a hwylus i dybiaethau anghywir a stereoteipio pan yn ceisio dod o hyd i waith neu'n ymgeisio am ddyrchafiad, ac effaith hiliaeth o'r cae chwarae i'r gweithle. Mae'r Cynulliad yn aros i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal lansio'r ymchwil derfynol ym 2005-06.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o seminarau i hyrwyddo'r Pecyn Cyflog Cyfartal i gwmnïau bach a chanolig yn y sector preifat. Yr oedd y gwaith yn cynnwys cyflwyniadau i dros 100 o gynghorwyr busnes, a chafodd y pecyn cyflog cyfartal ei gynnwys yn arweinlyfr arferion da newydd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru - 'More Success Through Your People';<br><br>Er gwaetha'r trafferthion gyda darbwyllo cyflogwyr yn y sector preifat i gyflawni archwiliadau cyflog cyfartal, cynhaliodd TUC Cymru drafodaethau â 14 o gyflogwyr. O ganlyniad, llwyddwyd i'w cael i | Rhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyflawni pedwar archwiliad dros gyfnod o 10 mis ym 2004, a phedwar arall dros gyfnod o 4 mis ym 2005. | |
| Sefydlu a gweinyddu Cronfa Diwrnod Rhyngwladol y Merched. | Sefydlodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb raglen gyllido ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched fel bod mudiadau merched yn gallu bidio am gyllid i drefnu digwyddiadau ar draws Cymru.<br><br>Cysylltwyd a rhoddwyd gwybod i fudiadau merched gwirfoddol am y gronfa hon. Cynhaliwyd dau gyfarfod gan y Cynulliad i hyrwyddo'r gronfa ac i roi cyfle i fudiadau gael trafod syniadau am ddigwyddiadau posibl a chyfleoedd i weithio ar y cyd. | Derbyniodd saith o fudiadau ar draws Cymru gyllid i drefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o faterion merched ac i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Rhoddir manylion y digwyddiadau hyn isod:<br><br>**MEWN Cymru**<br>Digwyddiad i ddathlu Bywydau merched o gwmpas y Byd' a gynhaliwyd yng Nghaerdydd i godi ymwybyddiaeth o faterion merched yn y DU a thramor.<br><br>**Greenhouse**<br>Cynhaliwyd y digwyddiad dathlu hwn mewn partneriaeth â Shekina, Cymorth i Fenywod, Canolfan Abbey Road, Drumming Up Good Health, Stonewall, FPA, RNID a Chefnogaeth Gartref ym Mangor. Agorwyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Jean Roscoe a fu'n siarad am newid rôl merched ac yn cyflwyno gwobrau i ferched lleol a enwebwyd gan y gymuned leol. Cafodd llyfryn o'r digwyddiad hefyd | Rhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ei gynhyrchu i godi proffil Diwrnod Rhyngwladol y Merched ymhlith asiantaethau eraill.<br><br>**Grŵp Powys**<br>Cynhaliodd Chwarae Teg ddigwyddiad i ddarparu gwybodaeth i ferched am fynediad i gyfleoedd hyfforddiant a gyrfaol. Daeth nifer fawr o ferched i'r digwyddiad ac i fanteisio ar y cyfle i dderbyn cyngor gyrfaol.<br><br>**Gweithgor y Rhyl**<br>Cynhaliwyd digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau i ferched ac i ddathlu llwyddiannau merched.<br><br>**Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru**<br>Cynhaliwyd cynhadledd yn Aberteifi ar y thema 'Local to Global, Women's isolation'. Yn y gynhadledd, gofynnwyd i ferched feddwl am y trafferthion a wynebir ganddynt a sut y maent yn eu datrys a'u goresgyn. Mae'r Glymblaid yn gobeithio defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiad hwn i sefydlu cronfa ddata i olrhain yr anawsterau a brofir gan ferched yng ngorllewin Cymru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan**<br>Cynhaliwyd seminar ar Droseddau Anrhydedd yng Nghaerdydd i godi ymwybyddiaeth am y mater pwysig hwn ac i feddwl am achosion ac atebion posibl i achosion o ladd anrhydedd.<br><br>**Y Gymdeithas Celf Menywod**<br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd ar 8 Mawrth 2005 i ddathlu llwyddiannau merched yn y celfyddydau. Yr oeddent yn cynnwys:<br>a) arddangosfa Gelf agored yn dangos gwaith 30 o artistiaid sy'n ferched;<br>b) seminar a thrafodaeth am artistiaid sy'n ferched yng Nghymru. | |
| Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (CGMC). | Mae cyllid wedi'i roi i'r Glymblaid i weithredu fel rhwydwaith ymgynghorol ar gyfer y Cynulliad ac i hybu cydraddoldeb drwy godi ymwybyddiaeth o faterion rhyw ymhlith merched ar draws Cymru, a chynyddu cyfranogiad grwpiau a oedd gynt yn rhai ymylol. | Canlyniadau Allweddol – 2 gyhoeddiad - 'Who Runs Wales?' a 'What is Gender Budgeting?' mewn partneriaeth â mudiadau eraill. Dau weithdy wedi eu cynnal - 'Blowing Your Trumpets' a 'Getting on the Ladder' gyda'r nod o annog merched i ymuno yn y broses o gael eu penodi i swyddi cyhoeddus. | Rhyw |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub. | Yn Nhachwedd 2004, daeth y Cynulliad Cenedlaethol â Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i | Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o ffyrdd y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn hyrwyddo cydraddoldeb. | Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rym, gan ddatganoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn ffurfio i'r Cynulliad.<br><br>Ym mis Mawrth 2005, cyflwynodd y Cynulliad Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Tân ac Achub yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar ddarparu canlyniadau ac amcanion y mae'r Cynulliad am eu gweld yn cael eu cyflawni; beth y mae'r Cynulliad yn disgwyl i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ei gyflawni; a beth fydd y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gwrdd â'r amcanion hynny. | Adnodd pwysicaf yr Awdurdodau Tân ac Achub yw eu staff. Mae'n hanfodol bod pobl o bob cefndir a chyda nifer o wahanol sgiliau ac arbenigeddau yn cael eu hannog i ymuno â'r gwasanaeth i gyflawni rolau mewn ac y tu allan i wisg unffurf; yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl; ac yn cael cynnig gyrfa hyblyg sy'n rhoi boddhad. Bydd Pecyn Recriwtio Amrywiaeth a Chydraddoldeb a ddyfeisiwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, gyda phwyslais ar ethnigrwydd a materion rhyw, yn cael ei ddarparu i'r Gwasanaeth yng Nghymru cyn bo hir.<br><br>Rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin yn deg ac yn cael cyfle cyfartal. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y staff i gyd yn cael cynnig datblygu mewn modd sy'n ystyried gwahanol anghenion yr unigolyn, er mwyn darparu nodau ac amcanion yr Awdurdodau Tân ac Achub yn effeithiol. Mae egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi eu gwreiddio yn y System Datblygiad Personol Integredig newydd, ac mae'r map rolau newydd a luniwyd angen | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwybodaeth sylfaenol am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru fynediad at nifer o wahanol becynnau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys e-ddysgu drwy Learning Resources International – mae'r Gwasanaeth cyfan yng Nghymru wedi ymuno â'r cynllun hwn.<br><br>Bydd symud i ffwrdd o'r patrwm sifftiau 'un esgid i ffitio pawb', ac o oriau naw i bump safonol i rai sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol, yn helpu i agor mwy o gyfleoedd i bobl o ystod ehangach o gefndiroedd a gydag ymrwymiadau teuluol ac yn y blaen. Dylai hefyd olygu gyrfa fwy hyblyg ac sy'n rhoi mwy o foddhad i'r staff i gyd. Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod cymaint o gyfle â phosibl i bobl gael gweithio'n hyblyg, er enghraifft yn rhan amser, ar sail oriau hyblyg neu drwy weithio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd.<br><br>Mae'r fframwaith yn cydnabod bod angen adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei wasanaethu yn briodol. Cyflwynwyd dangosyddion perfformiad i fonitro'r dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | angen i gynyddu nifer y staff er mwyn cwrdd â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, nifer y staff mewn gwisg unffurf sy’n dod o leiafrifoedd ethnig a nifer yr ymladdwyr tân sy’n ferched. Bydd y Pecyn Recriwtio Amrywiaeth a Chydraddoldeb y cyfeiriwyd ato uchod yn cefnogi’r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i wneud hyn.<br><br>Bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cynhyrchu strategaeth cydraddoldeb fel rhan o’r Strategaeth i Ddatblygu’r Gweithlu yng Nghymru, a ddylai gynnwys ymestyn targedau ar gyfer gwella. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Strategaethau Diogelwch Cymunedol. | Wedi parhau i weithredu'r Strategaethau Diogelwch Cymunedol ym mhob un o'r 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau bod y Partneriaethau yn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael gan y Swyddfa Gartref a'r Cynulliad. | Mae'r Uned yn gweithio'n agos â'r 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i hyrwyddo anghenion arbennig grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n rhan o'u strategaethau teirblynyddol i fynd i'r afael â throseddu ac anrhefn. Mae Strategaethau Lleihau Troseddu ac Anrhefn 2005-2008 yn y broses o gael eu cyhoeddi gan bob partneriaeth. Mae'r Uned yn annog ymdrechion i ymgysylltu â grwpiau lleol i gymryd rhan weithredol yn y strategaeth, a bydd hyn yn cynnwys cyrff sy'n darparu gwasanaethau i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Hil |
| Cynlluniau gweithredu lleol ar gyfer camddefnyddio sylweddau. | Darparu canllawiau statudol i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gynhyrchu eu cynlluniau lleol 3 blynedd ar gamddefnyddio sylweddau. | Mae'r canllawiau statudol a roddir i'r Partneriaethau yn nodi'n glir bod angen i'r cynlluniau lleol ddarparu gwasanaethau i'r gymuned gyfan ac ystyried anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig. Mae'r Gangen Camddefnyddio Sylweddau yn hybu cydraddoldeb drwy'r Timau Cynghori Rhanbarthol ar Gamddefnyddio Sylweddau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu o ran y gwasanaeth a roddir yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau ar sail hil, anabledd neu unrhyw ffactor arall. Bydd gwasanaethau cyfartal ar gael i | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bawb. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (2005-2008). | Y nod oedd drafftio a lansio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol cydymffurfiol cyntaf y Cynulliad.<br><br>Mae'r cynllun yn sicrhau bod y Cynulliad yn ymrwymo i osod esiampl fel awdurdod cyhoeddus yng Nghymru drwy gyflwyno newidiadau cadarnhaol tymor hir i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac i hybu cysylltiadau hiliol da.<br><br>Fel rhan o gynhyrchu'r cynllun hwn, bu'r Cynulliad yn ymgynghori â grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol drwy gydol y broses o'i ddrafftio, gan sicrhau bod Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Hiliol yn deall effaith cydraddoldeb hiliol pan yn gwerthuso swyddogaeth eu polisïau adrannol. | Mae'r canlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05 yn cynnwys:<br>• Lansiodd y Cynulliad ei Gynllun Cydraddoldeb Hiliol cydymffurfiol cyntaf (2005-08);<br>• Gwnaed staff y Cynulliad yn fwy ymwybodol o faterion cydraddoldeb hiliol a sut y gall eu polisïau gael gwahanol effeithiau;<br>• Cwblhaodd pob Adran Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn nodi pa weithredu yr oeddent am ei gyflawni i hybu cydraddoldeb hiliol rhwng 2005-08;<br>• Llwyddodd y Cynulliad i feithrin perthynas dda â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac mae'n parhau i weithio'n agos â nhw yn dilyn lansio'r Cynllun; ac<br>• Mae'r Cynulliad wedi meithrin perthynas dda gyda nifer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Hil |
| Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). | Rhoddwyd cyllid i hyrwyddo cydraddoldeb ac i'r rhaglen Hawl i Bleidleisio. Nod y rhaglen Hawl i Bleidleisio oedd canfod patrymau cyfranogi ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn ogystal â sut i gynyddu lefelau | **Hwyluso ymgynghori, cyfranogi a chyfathrebu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.** | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfranogiad gwleidyddol. | | |
| Adolygu corff ymbarél y Cynulliad – Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). | Nod yr adolygiad oedd gwerthuso pa mor effeithiol oedd y Gymdeithas yn defnyddio arian cyhoeddus i wasanaethu'r gymuned lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. | Yn dilyn yr adolygiad, cytunodd Jane Hutt AC i ddarparu cyllid pellach i'r Gymdeithas am dair blynedd arall. Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb ar hyn o bryd yn gweithio â'r Gymdeithas i gytuno ar gynllun busnes ar gyfer sut y bydd y Gymdeithas yn gwasanaethu'r Cynulliad a'r gymuned lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. | Hil |
| Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. | Yn ystod 2005-05, bu Llywodraeth y Cynulliad yn hwyluso sefydlu Tai Pawb. Nod y sefydliad tai hwn yw ychwanegu gwerth at bartneriaethau sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ym maes tai, hyrwyddo arferion da o ran cydraddoldeb hiliol ym maes tai ac i rymuso cymunedau lleiafrifoedd ethnig i chwarae rhan flaenllaw mewn cynllunio, darparu a derbyn gwasanaethau tai yng Nghymru. | Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i ddarparu cyllid o £200,000 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Ffoaduriaid Cymru. | Rhoddwyd cyllid i'r Prif Weithredwr ac ar gyfer yr Wythnos Ffoaduriaid.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn rhoi cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar draws Cymru. Y Cyngor yw'r prif gorff sy'n darparu cyngor a chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru ac mae'n helpu i oleuo gwaith Fforwm Polisi Ffoaduriaid Cymru Gyfan Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Mae'r Wythnos Ffoaduriaid yn cyflwyno negeseuon addysgol cadarnhaol sy'n ceisio gwrthweithio anwybodaeth a stereoteipio negyddol drwy gyfrwng y celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol ac addysgol sy'n dathlu'r cyfraniad a wneir i'r DU gan ffoaduriaid, tra'n hyrwyddo dealltwriaeth. | **Dathlu Noddfa – y digwyddiad cenedlaethol i lansio'r Wythnos Ffoaduriaid yng Nghymru, yn cynnwys cerddoriaeth, dawns, dweud straeon, theatr a'r celfyddydau gweledol wedi eu perfformio gan gymunedau ffoaduriaid ac artistiaid sy'n ffoaduriaid yng Nghymru;**<br><br>**Dianc i Ddiogelwch – arddangosfa aml-gyfrwng a fydd yn teithio o gwmpas ysgolion a chanolfannau cyhoeddus yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam.** | Hil<br>Crefydd / Cred |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lleihau Troseddu ac Anrhefn. | Cyfrannu at ddatblygu mentrau, prosiectau, polisïau a deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, yng nghyswllt lleihau troseddu ac anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn troseddu. | Mae'r Tîm Lleihau Troseddu o fewn yr Uned Diogelwch Cymunedol wedi cyfrannu at amryw o ddogfennau polisi ar draws gwahanol adrannau yn y Cynulliad, i sicrhau bod anghenion grwpiau lleiafrifol yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol a bod troseddu ar sail casineb yn uchel ar agenda diogelwch cymunedol y Cynulliad. | Hil<br>Crefydd / Cred |
| Fforwm Polisi Ffoaduriaid Cymru Gyfan. | Cefnogi ymdrechion i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus ar lefel genedlaethol drwy Gymru. | Comisiynwyd y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus i wneud ymchwil yng Nghymru i agweddau'r cyhoedd at ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac ar sail ba wybodaeth y crëir y rhain. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol yn Ionawr 2005. Bydd yn rhan o brosiect ehangach gan y Sefydliad a 4 o Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Yr ydym yn aros am yr adroddiad cyffredinol terfynol a fydd yn cymharu'r holl ardaloedd a ganfasiwyd;<br><br>Mae'r Cynulliad wedi rhoi cyllid 3 blynedd i Gyngor Ffoaduriaid Cymru i benodi Swyddog Ymgyrch a Swyddog Polisi i ddechrau gweithio ar y Polisi Cynhwysiant Cymru Gyfan. Darperir y prosiect dros nifer o flynyddoedd. Cwblheir yr adroddiad terfynol ym 2006; | Hil<br>Crefydd / Cred |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynhyrchwyd fideo gan y Cyngor Prydeinig yn dilyn ymlaen o'r gynhadledd "Sense of Place" lwyddiannus. Mae'r fideo yn rhoi sylw arbennig i ymdrechion Cymru i integreiddio ceiswyr lloches drwy addysg a'r celfyddydau. Bydd y fideo yn cael ei lansio'n ffurfiol ym Mehefin 2005 fel rhan o Wythnos Ffoaduriaid Cymru. | |
| Stonewall Cymru. | Mae Stonewall Cymru yn rhan o Stonewall, y sefydliad cydraddoldeb Prydeinig i Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol (LGB).<br><br>Mae Stonewall Cymru wedi darparu cyngor a chyfarwyddyd i Lywodraeth y Cynulliad a chyrff priodol eraill ar sut i hyrwyddo a chyflawni cynhwysiant cymdeithasol i bobl LGB, yn enwedig yn y cymunedau lle maent yn byw.<br><br>Gwnaed hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi, ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau perthnasol, drwy ddarparu gwybodaeth ac addysg (agweddau a sefydliadol), lobïo, datblygu cymunedol, meithrin gallu yn ogystal â thrwy gynghori a dyfeisio arferion da. | Canlyniadau Allweddol – sefydlu'r prosiect Gwyliwch Allan i fonitro'r wasg yng Nghymru, herio newyddiaduraeth homoffobig a darparu gwybodaeth gywir am fywydau pobl LGB.<br><br>Wedi lansio'r prosiect mapio 'Count Us In' i adrodd ar farn y gymuned LGB yng Nghymru.<br><br>Wedi dechrau proses ymchwil mewn partneriaeth â Tai Triongl Cymru i ganfod pa broblemau tai sy'n effeithio ar y gymuned LGB. | Tueddiad Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mardi Gras. | Mae Mardi Gras Lesbiaid a Hoywon Caerdydd-Cymru yn rhan annatod o strategaeth ehangach i drechu troseddu homoffobig ar sail casineb a gwneud Caerdydd yn lle diogel i bawb. Mae Mardi Gras Lesbiaid a Hoywon Caerdydd-Cymru yn rhan o Caerdydd Ddiogelach Cyf, elusen gofrestredig sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor gwirfoddol.<br><br>Digwyddiad di-dâl yw hwn ac mae'n denu mwy na 30,000 o bobl pob blwyddyn. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad £5,000 tuag at y gost o ddarparu'r digwyddiad hwn. | Mae'r cyllid wedi helpu i ddarparu digwyddiad sy'n fforwm ar gyfer yr holl waith dros lesbiaid a hoywon sy'n cael ei wneud drwy'r flwyddyn yng Nghymru. | Tueddiad Rhywiol |

**Astudiaeth Achos**

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth ariannol i Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol gan fod ffoaduriaid ymhlith y bobl fwyaf diymgeledd yng Nghymru. Ar ôl dianc o orthrwm, erledigaeth a gwahaniaethu, maent yn aml yn canfod eu hunain mewn gwlad ddigroeso gyda iaith a diwylliant dieithr a dyfodol ansicr.

Yma, drwy'r gwaith llawr gwlad uniongyrchol a wneir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru i roi cyngor a chymorth y gellir grymuso ffoaduriaid i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae rôl hwyluso'r Cyngor ymhlith sefydliadau cymunedol hefyd yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr am helpu Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod dull mwy strategol yn cael ei fabwysiadu gyda darparu gwasanaeth yng Nghymru.

**ADRAN: ADRAN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Lleihau amseroedd aros. | Meddygon sy’n gwneud y penderfyniadau clinigol ynghylch pa glaf sydd i’w drin ac ym mha drefn, ar sail asesiad clinigol o anghenion y claf yn hytrach nag unrhyw feini prawf eraill. Mae angen tystiolaeth yng nghyswllt amseroedd aros i weld a oes unrhyw beth sy’n rhwystro grwpiau ethnig rhag derbyn gwasanaethau. | Dylai lleihau amseroedd aros fod o fudd i bob claf sy’n aros am driniaeth. Ni ddylid cyfaddawdu ynghylch darparu cyfle cyfartal, ond mae’n rhywbeth sydd angen ei fesur. Bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu o 2006-07 ymlaen. |
| Goruchwylio gweithrediad yr argymhellion a wnaed gan Adolygiad Wanless. | Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i bob cyflogwyr yn y GIG ddatblygu cynlluniau lleol i weithredu argymhellion Wanless. Rhan annatod o’r flaenoriaeth hon oedd y dylid cynnwys cydraddoldeb ym mhob un o’u hystyriaethau. | Yr oedd pob un o’r cynlluniau gweithredu Wanless lleol yn cynnwys yr egwyddor o ddarparu mynediad cyfartal at y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. |
| 3,000 o nyrsys ychwanegol a 400 o feddygon ychwanegol i’w recriwtio ar gyfer y GIG yng Nghymru erbyn 2010. | • Mae trefniadau Cynllunio’r Gweithlu Llywodraeth y Cynulliad yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth iechyd er mwyn cwrdd â blaenoriaethau’r llywodraeth.<br>• Mae’r sefydliadau addysgol sy’n dysgu’r myfyrwyr yn recriwtio ar sail gallu academaidd, ac mae ganddynt bolisïau cyfle cyfartal.<br>• Mae pob cyflogwr GIG yng Nghymru yn | Cafodd nifer o fyfyrwyr anabl eu recriwtio i’r system addysg. Mae Tîm Adnoddau Dynol GIG Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn monitro cefndir ethnig holl fyfyrwyr proffesiynol y GIG. Ym 2003-04, yr oedd 6715 o fyfyrwyr nyrsio mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Yr oedd 35 yn ddu neu’n ddu Prydeinig, 40 yn |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithredu polisi cyfle cyfartal yng nghyswllt recriwtio a chadw staff. | Asiaidd, 5 yn Dsieineaidd, 20 yn hil gymysg, 20 o hil eraill, 530 yn anhysbys.<br>O'r 6715, yr oedd gan 100 ddyslecsia, yr oedd 5 yn ddall, 10 yn fyddar, 5 gyda phroblemau iechyd meddwl, 30 yn 'anweledig', e.e. gyda diabetes, 5 gydag anableddau lluosog a 20 yn disgyn i'r categori 'arall'.<br>Yr oedd 2265 o fyfyrwyr meddygol a deintyddol yn cael eu hariannu gan y Cynulliad; yr oedd 25 yn ddu neu'n ddu Prydeinig, 245 yn Asiaidd, 15 yn Dsieineaidd, 25 yn hil gymysg, 30 o hil arall, 170 yn anhysbys.<br>O'r 2265, yr oedd gan 25 ddyslecsia, 5 yn defnyddio cadeiriau olwyn, 5 gyda phroblemau iechyd meddwl, 25 yn anweledig, e.e. gyda diabetes, 5 gydag anableddau lluosog a 10 yn disgyn i'r categori 'arall'. |

| | | |
|---|---|---|
| Gofal Cartref Am Ddim i Bobl Anabl. | Mae'r penderfyniad i roi unrhyw lefel o ofal cartref am ddim i bobl anabl yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn a lefel ei anabledd fel a asesir gan staff clinigol a phroffesiynol priodol. | Cafodd y cynllun i ddarparu Gofal Cartref Am Ddim i Bobl Anabl ei gyhoeddi gyntaf fel Ymrwymiad Maniffesto gan y Blaid Lafur ar gyfer Etholiadau Cynulliad 2003. Nid yw'r cynllun hwn wedi'i weithredu eto. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i fesur cost gweithredu'r gofal hwn a chost datblygu cynllun grant gwirfoddol, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.<br><br>Oherwydd y gwaith cyfredol hwn, nid oes unrhyw werthusiad wedi'i gyflawni, ond bydd y polisi'n cael ei werthuso yn dilyn gweithredu nifer fach o gynlluniau peilot cyn darparu'r polisi ledled Cymru yn ystod 2006-07. Nid oes unrhyw enghreifftiau ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru gan nad yw'r polisi Gofal Cartref Am Ddim wedi'i weithredu eto.<br><br>Mae adroddiad drafft terfynol ar y gost a'r galw am Ofal Cartref Am Ddim, a baratowyd gan gwmni ymgynghorol allanol, yn cael ei ystyried gan swyddogion ar hyn o bryd, a defnyddir adroddiad cytunedig pellach fel sail i baratoi dogfen ymgynghorol ar y polisi |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gofal Cartref Am Ddim. Bydd ymarfer ymgynghori ag awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr yn cael ei gynnal nes ymlaen eleni. |
| Buddsoddi £550 miliwn mewn moderneiddio meddygfeydd ac ysbytai. | • Bydd gan bob cais cynllunio i godi adeiladau newydd ac i uwchraddio adeiladau presennol yn cynnwys mynediad i bobl anabl yn y broses gynllunio.<br>• Gwneir y buddsoddiad er mwyn cleifion gofal sylfaenol neu eilaidd sy’n cael eu trin yn ôl angen clinigol yn hytrach nag ar sail unrhyw feini prawf eraill. | Rhy fuan i ddweud. Sefydlwyd Fforwm Adeiladau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Gwaith y fforwm yw delio â cheisiadau am gyllid ar gyfer adeiladau. Efallai y bydd yn rhai blynyddoedd cyn y gellir gwerthuso canlyniad y gwaith hwn. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| **Is-adran Adnoddau Dynol**<br>Penodiadau Cyhoeddus i Gyrff y GIG. | Sicrhau bod mwy o gynrychiolwyr o blith cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a merched yn cael eu penodi i swyddi cyhoeddus yn y GIG, e.e. ar Fyrddau Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG. | Cymharol fach fu'r llwyddiant hyd yma ac mae gweithrediad cynllun meithrin gallu yn cael ei ystyried lle byddai pobl o grwpiau wedi eu tangynrychioli yn gallu cysgodi aelodau presennol y Byrddau.<br><br>Yn ôl data o flwyddyn ariannol 2004-05: 96 o benodiadau wedi eu gwneud, 18 yn anabl, 0 o leiafrifoedd ethnig, 41 yn ferched, 31 yn ddynion.<br><br>Cyflwynwyd cynllun lle mae pobl anabl sy'n cwrdd â'r meini prawf hanfodol yn sicr o gael cyfweliad. | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofal Sylfaenol Cymunedol**<br>Gweithredu'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i wella mynediad at, ac ansawdd gwasanaethau meddygol sylfaenol. | Mae'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd yn cynnwys categori newydd o wasanaeth lefel uwch lle gall Byrddau Iechyd Lleol gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion iechyd lleol. Mae gwasanaethau lefel uwch yn gweddu'n arbennig o dda i ddarparu gofal iechyd pwrpasol i grwpiau dan anfantais, e.e. yr henoed, pobl ddigartref a cheiswyr lloches. | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio â'i phartneriaid ar wasanaethau lefel uwch i gynnig archwiliadau iechyd i bobl gydag anableddau dysgu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio â MENCAP, cynrychiolwyr gofalwyr, y BMA a Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu model o wasanaethau lefel uwch lleol fel bod Byrddau Iechyd yn gallu symud ymlaen i ddarparu gofal iechyd gwell i gleifion gydag anableddau dysgu. Dylai helpu tua 13,000 o bobl. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cangen 6 – Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol.**<br>Cynllun Gofal Llygaid Cymru. | Mae’n hyrwyddo archwiliad llygaid optometrig arbennig yn ddi-dâl i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys 5 o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae’n cyflwyno rhaglen i safoni sgrinio am retinopathi diabetes, gan sicrhau bod pob claf yng Nghymru gyda diabates yn cael ei sgrinio i’r safonau uchaf fel a nodir gan y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol. Mae’n dod â chynllun golwg isel newydd i’r gymuned yng Nghymru lle’r oedd cleifion yn flaenorol yn gorfod aros am dros flwyddyn mewn rhai achosion i dderbyn cymhorthion gweld. | Mae’r archwiliad llygaid yn ceisio targedu y rhai sy’n fwyaf tebygol o ddioddef o glefydau llygaid a chyrraedd pobl na fyddent fel arfer yn mynd am brawf llygaid o dan y GIG. Pan gwblheir y rhaglen ym 2006, bydd pobl gyda diabetes yn derbyn y safonau uchaf o ffotograffiaeth llygaid a graddio arbenigol ac yn cael eu cyfeirio’n uniongyrchol lle bo hynny’n briodol at wasanaeth llygaid mewn ysbyty. Nod y cynllun golwg isel yw cynnig asesiad i’r claf, ac archebu a darparu cymhorthion gweld ar ei gyfer o fewn pum wythnos, gyda’r un safon o ddarpariaeth yn cael ei chynnig ledled Cymru, a chymryd bod gwasanaethau optometreg achrededig ar gael. Dyfeisiwyd y fenter i ddarparu mynediad cyfartal ac i gynnig gwasanaeth o’r safon uchaf ledled Cymru. | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cangen 7 – Iechyd Cymunedol & Cyfranogiad Cymunedol**<br><br>Sefydlwyd Grŵp Lleiafrifoedd Dethol Cymru Gyfan i gynhyrchu canllawiau polisi iechyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau digartref. Nod y Grŵp yw sicrhau bod polisïau iechyd y dyfodol yn ystyried anghenion y grwpiau hyn yn llawn ac yn rhoi sylw i'r problemau sy'n gyffredin iddynt. | Mae'r Grŵp hwn yn gorff aml-asiantaeth, aml-bartneriaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth dethol gan gynnwys y Cynulliad, Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol, cynrychiolwyr gofal iechyd a'r sector gwirfoddol. | Yn ystod 2004-05, llwyddodd y Grŵp i gyflawni'r canlynol:<br>• Nodi arferion presennol.<br>• Adolygu'r llenyddiaeth.<br>• Nodi themâu cyffredin. | Hil |
| **Cangen 4 – Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.**<br>Gofal Sylfaenol. | Cyngor Gwell: Iechyd Gwell – cafodd ein cynllun hawliau lles mewn gofal sylfaenol ei osod ar sylfeini parhaol ar ôl cwblhau cyfnod treial 3 blynedd llwyddiannus. | Rhoddwyd cyngor i rai o'r grwpiau mwyaf difreintiedig ac mae £5m y flwyddyn o fudd-daliadau heb eu hawlio bellach yn cael eu derbyn gan y bobl sydd eu hangen. Darperir y gwasanaethau hyn yn lleol. Nid yw'r Cynulliad yn dal data ar y niferoedd. | Oed<br>Anabledd |
| **Cangen 7 – Iechyd Cymunedol & Cyfranogiad Cymunedol**<br>Datblygu canllawiau polisi iechyd ar gyfer Grwpiau Lleiafrifoedd Dethol (gweler yr astudiaeth achos). | Prif ffrydio cydraddoldeb drwy'r holl bolisïau a strategaethau.<br><br>Er mwyn codi safonau a lleihau amrywiadau annerbyniol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bydd canllawiau polisi iechyd yn cael eu datblygu i sicrhau bod anghenion grwpiau difreintiedig | Sefydlwyd y Grŵp Lleiafrifoedd Dethol fel grŵp gorchwyl a gorffen i geisio nodi a lledaenu arferion gorau a chanllawiau polisi iechyd sy'n gyffredin ymhlith y prif grwpiau blaenoriaeth – ceiswyr lloches, Sipsiwn a Theithwyr, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ddigartref. Mae adolygiad o'r | Hil<br>Arall – agored i niwed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn cael eu hystyried. | llenyddiaeth wedi nodi'r meysydd cyffredin ac, ar hyn o bryd, yr ydym yn y broses o nodi arferion gorau. | |
| **Cangen 7 – Iechyd Cymunedol & Cyfranogiad Cymunedol**<br>Sicrhau cyllid canolog i dalu am gostau gofal iechyd Ceiswyr Lloches. | Prif ffrydio cydraddoldeb drwy'r holl bolisïau a strategaethau.<br><br>Er mwyn codi safonau a lleihau amrywiadau annerbyniol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bydd canllawiau polisi iechyd yn cael eu datblygu i sicrhau bod anghenion grwpiau difreintiedig yn cael eu hystyried. | Enillwyd tair blynedd o gyllid canolog ar gyfer costau gofal iechyd Ceiswyr Lloches gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o 2004 ymlaen. | Hil |
| Cangen 7 – Iechyd Cymunedol & Cyfranogiad Cymunedol**.**<br>Cynhyrchu ymateb iechyd i Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Sipsiwn a Theithwyr. | Prif ffrydio cydraddoldeb drwy'r holl bolisïau a strategaethau.<br><br>Er mwyn codi safonau a lleihau amrywiadau annerbyniol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bydd canllawiau polisi iechyd yn cael eu datblygu i sicrhau bod anghenion grwpiau difreintiedig yn cael eu hystyried. | Mae'r ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd yn aros i gael ei gostio cyn i'r Gweinidog ei gymeradwyo. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cangen 7 – Iechyd Cymunedol & Cyfranogiad Cymunedol**<br>Codi Pontydd Cadarn. | Sicrhau bod grwpiau difreintiedig yn cymryd rhan yn y prosesau cynllunio lleol a chenedlaethol. | Mae Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Codi Pontydd Cadarn, yn lleol ac yn genedlaethol, wrthi'n datblygu ac yn cefnogi grwpiau difreintiedig i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio. | I gyd. |
| **Perfformiad a Gweithrediadau**<br>Datblygu safonau polisi a strategaeth weithredu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal brys. | Yng nghyswllt gwasanaethau brys, asesu a oes unrhyw beth yn rhwystro grwpiau ethnig rhag derbyn gwasanaethau. | Adroddiad wedi'i gyhoeddi yn dangos tarddiad ethnig cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. | Hil |
| **Perfformiad a Gweithrediadau**<br>Datblygu a darparu rhaglen gyfathrebu ragweithiol i gefnogi'r agenda Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | Gweithredu polisïau cyfathrebu ar gyfer y GIG yng Nghymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb. | Mae'n rhy fuan i ddweud. | Anabledd Rhyw a Hil |
| **Perfformiad a Gweithrediadau**<br>Cyfrannu at ddatblygu GIG Cymru drwy gyflwyno dull o wella parhaus yng nghyswllt rheoli perfformiad. | Rhoi sylw i gydraddoldeb drwy drefniadau cyllido. Defnyddio'r cerdyn sgôr cytbwys i olrhain a ydyw cyrff iechyd yn targedu anghydraddoldebau iechyd wrth gomisiynu gwasanaethau. | Cyflwyniad y system rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar y Cerdyn Sgôr Cytbwys, sy'n cofnodi i ba raddau y mae cydraddoldeb iechyd yn cael ei gyflawni. Mae'n rhy fuan i fesur hyn, ond mae'r Cerdyn Sgôr Cytbwys yn helpu sefydliadau i weld y darlun 'mwy' yng nghyswllt amrywiaeth, cydraddoldeb, gwella mynediad a boddhad y cwsmer. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei weld fel cam cadarnhaol tuag at brif ffrydio materion amrywiaeth a chydraddoldeb. | Rhyw Anabledd a Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Perfformiad a Gweithrediadau**<br>Codi ymwybyddiaeth, pwysigrwydd a statws yr iaith Gymraeg drwy hyrwyddo a hwyluso ei defnydd o fewn y sector gofal iechyd yng Nghymru, drwy rwydweithio ag Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a rhannau eraill o'r sector. | Gweithredu polisïau iaith Gymraeg i sicrhau cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau. | Eto i'w werthuso. | Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau - Townsend**<br>Mae cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2004-05 gydag atgyfnerthu mesurau blaenorol i weithredu a diwygio'r fformiwla anghenion uniongyrchol (Townsend). Bydd adroddiad terfynol yr Athro Townsend, a fydd yn pwyso a mesur y cynnydd a wnaed gyda gweithredu a chyflawni cydraddoldeb yn lleol, yn cael ei gyhoeddi yn yr haf 2005. | Nod pennaf y fformiwla anghenion uniongyrchol yw targedu adnoddau iechyd at y cymunedau sydd â'r anghenion iechyd mwyaf. Mae tystiolaeth gref o gysylltiad rhwng amddifadedd a iechyd gwael. Mae adroddiad yr Athro Townsend yn galw am ymdrechion cenedlaethol i barhau i weithredu'r fformiwla anghenion uniongyrchol i gyllido byrddau iechyd lleol, ac ymdrechion lleol gan fyrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn targedu adnoddau at anghenion categorïau arbennig o'r boblogaeth: pobl gyda salwch meddwl a'r anabl, pobl anabl eraill a'r henoed, ond hefyd yr unigolion hynny sy'n amddifad yn faterol ac yn gymdeithasol. | Prif ganlyniad yr adroddiad fydd cadw'r pwyslais - wrth ddatblygu polisi iechyd cenedlaethol a'i weithredu'n lleol – ar geisio ateb anghenion iechyd cymunedau sydd dan anfantais.<br><br>Canfuwyd mai'r polisi oedd yn ymwneud â materion cydraddoldeb oedd yr adroddiad terfynol gan yr Athro Townsend ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy'r fformiwla anghenion uniongyrchol, a mentrau polisi cysylltiedig eraill. Canlyniad cydraddoldeb y polisi hwn (h.y. cyhoeddiad yr adroddiad – ym mis Hydref) yw cadw anghenion iechyd cymunedau sydd o dan anfantais ar yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r fformiwla anghenion uniongyrchol ei hun yn dyrannu cyllid i fyrddau iechyd lleol ar sail anghenion iechyd yr ardal. Nid yw'n rhoi sylw uniongyrchol i faterion fel hil neu ryw, er y byddai'n rhoi sylw anuniongyrchol i'r materion hyn lle'r oedd anghenion iechyd y sectorau hyn o'r boblogaeth yn wahanol i'r 'norm'. Er enghraifft, byddai'r fformiwla yn dyrannu cyllid ychwanegol i ardaloedd gyda phoblogaethau ethnig mwy na'r cyfartalog pe bai anghenion iechyd | Rhyw, Anabledd a Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y poblogaethau hyn (yn ôl Arolwg Iechyd Cymru yn bennaf) yn fwy na'r norm. Felly, gan fod y fformiwla yn dyrannu cyllid i ardaloedd gyda'r anghenion iechyd mwyaf, dylai ardaloedd sydd â chyfran uwch o unigolion gydag anableddau dderbyn mwy o gyllid. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adnoddau<br>**Cynllun Hyfforddi a Datblygu ar gyfer casglu data ethnig ar draws y GIG.**<br><br>**Mae Cangen Gwasanaethau Gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth wedi comisiynu cynllun Hyfforddi a Datblygu ar gyfer casglu data ethnig ar draws y GIG. Bydd hyn yn golygu meithrin gallu staff y GIG i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ethnig am gleifion. Rhoddwyd y cyllid i Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG i dalu am staffio, deunyddiau ac i ddarparu'r cynllun hyfforddi a datblygu dros gyfnod o 24 mis i ddechrau ym mis Mehefin 2005.** | Atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer casglu data i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu hyrwyddo ar draws y GIG. Bydd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn cael ei chyflwyno ac yn cynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi a chynnal tua 50 o ddigwyddiadau hyfforddi. Bydd y rhaglenni hyfforddi yn cael eu rheoli gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, fydd yn recriwtio staff ychwanegol i gwrdd â'r agenda hon. | Bydd yn cael ei asesu fel rhan o adolygu'r rhaglen Hyfforddi a Datblygu. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ansawdd a Safonau**<br>Datblygu Safonau Gofal Iechyd ar gyfer Cymru, sy'n hyrwyddo fframwaith gofal ar sail gwerthoedd cyffredin y gall pawb eu mabwysiadu. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau o'r safon orau yn cael eu darparu'n deg, yn gadarn ac yn foesegol ar draws holl ystod y gwasanaethau a ddarperir gan neu ar ran y GIG yng Nghymru, a lle bynnag y darperir hwynt. | **Un o'r nodau fydd gwella enw'r GIG yng Nghymru fel model da o gyflogwr, comisiynydd a darparwr gwasanaethau sy'n cynnig manteision gwasanaethau gwell yn deg i bob aelod o gymdeithas.**<br><br>**Daw'r 32 Safon Gofal i rym o'r 1 Mehefin 2005 ymlaen a disgwylir i bob sefydliad gofal iechyd sicrhau eu hunain a'u cymunedau eu bod yn cyflawni neu'n gweithio tuag at y safonau hyn. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gwneud asesiadau allanol, annibynnol o'r sefydliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â, neu'n gweithio tuag at gwrdd â'r Safonau.** | O dan Safon 6, bydd yn rhaid i sefydliadau Gofal Iechyd gydnabod y gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol sydd gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth; a bydd Safon 8 yn gofyn iddynt drin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr gydag urddas a pharch. Bydd Safon 10 yn sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n derbyn gofal iechyd ar sail eu hoed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd neu dueddiad rhywiol. | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |
| **Ansawdd a Safonau**<br>Noddi'r Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol (NICE). | Un o brif amcanion NICE yw sicrhau mynediad cyfartal at driniaeth yng Nghymru a Lloegr. Bydd canllawiau'r Sefydliad yn helpu i ddod â 'rhagnodi ar sail cod post' a'r 'loteri gofal' i ben. | Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd i'r GIG yng Nghymru, yn ei gwneud yn statudol ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddarparu cyllid i weithredu holl ganllawiau gwerthuso technoleg NICE o fewn tri mis. Mae hyn yn sicrhau mynediad cyfartal at driniaeth, lle bynnag y mae rhywun yn byw. | Anabledd<br>Rhyw a Hil |

**Astudiaethau Achos**

**Perfformiad a Gweithrediadau**

Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw bod mynediad at wasanaethau dewisol mewn ysbyty a gwasanaethau brys mewn ysbyty yn cael ei ddarparu yn gyfangwbl ar sail blaenoriaeth glinigol a dim arall. Ei nod felly yw nodi'r gwasanaethau GIG a ddarperir i grwpiau lleiafrifoedd ethnig er mwyn canfod a oes unrhyw rwystrau i dderbyn gofal dewisol a brys yn yr ysbyty o ganlyniad i wahaniaethau ethnig neu ddiwylliannol. Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi sy'n dangos tarddiad ethnig pobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, ynghyd ag asesiad yn cymharu mynediad gan wahanol grwpiau.

**ADRAN : SWYDDFA'R PRIF SWYDDOG MEDDYGOL**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Datblygu Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn i hybu iechyd a lles pobl hŷn yng Nghymru. | Mae'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach yn un o'r rhaglenni a ddatblygwyd fel rhan o Strategaeth gyffredinol y Cynulliad ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Un o 5 prif amcan y Strategaeth yw:<br>'Adlewyrchu egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn lle bynnag y bo'n digwydd, hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a rhoi llais cryfach i bobl hŷn mewn cymdeithas'.<br><br>Adlewyrchir y nod hwn yn ethos y Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach, sydd wedi'i dargedu at bobl 50+ oed, ac sy'n cynnwys gweithredu wedi ei anelu at rai ym mhen isaf y sbectrwm (e.e. cynllunio cyn ymddeol) a rhai sy'n eiddil ac yn byw mewn cartrefi gofal (e.e. y rhaglen gweithgarwch corfforol 'Moving More Often'). Mae'r Cynllun hefyd yn galw ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod rhaglenni hybu iechyd sy'n cael eu datblygu mewn ymateb i fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol, fel y FfGC ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon, yn cael eu | Anfonwyd y Cynllun allan i ymgynghori rhwng Awst a Thachwedd 2004, gan gynnwys at wahanol fforymau Pobl Hŷn. Cyhoeddir y ddogfen derfynol yn yr Hydref 2005.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r gweithredu canlynol wedi'i gyflawni:<br><br>• Cyllid i greu swydd Heneiddio'n Dda yn Age Concern Cymru, er mwyn cynyddu cynlluniau Heneiddio'n Dda ar draws Cymru.<br>• Cefnogi awdurdodau lleol i gymryd rhan yn rhaglen beilot y cynllun 'Moving More Often'. Ym 2004-05, cymrodd 6 o awdurdodau lleol ran a bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n ehangach ym 2005-06.<br>• Comisiynwyd adolygiadau llenyddiaeth ym mis Rhagfyr 2004 i edrych ar faterion yn ymwneud â phobl hŷn a iechyd rhywiol. |

| | | |
|---|---|---|
| | hyrwyddo yr un mor gyfartal a'u bod yr un mor hygyrch i bob person hŷn, lle bo hynny'n briodol.<br><br>Yr oedd pobl hŷn wedi cymryd rhan yn y gweithdy cychwynnol a gynhaliwyd yn Ionawr 2004, i ddatblygu prif themâu'r Cynllun. | • Yn Rhagfyr 2004, comisiynwyd arolwg o'r rhaglenni hybu iechyd lleol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. |
| Cefnogi'r Tasglu Bwyd a Ffitrwydd i Blant a Phobl Ifanc. | Yr oedd cynrychiolwyr o blith ystod eang o fudiadau yng Nghymru ar y Tasglu. Yr oedd yn cynnwys y mudiad gwirfoddol MEWN Cymru (y Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig). Canfasiwyd barn pobl ifanc o grwpiau ffocws sy'n cael eu rhedeg ar draws Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r camau yn y cynllun gweithredu yn gynhwysol; ond cafodd cam penodol ei gynnwys i addasu adnodd gweithgarwch corfforol fel y gellid ei ddefnyddio mewn ysgolion arbennig. | Yn aros am yr ymateb i'r ymgynghoriad sydd i'w derbyn erbyn 31 Hydref 2005 i weld a ydyw'r camau bwriedig yn cael eu hystyried i fod yn briodol. |
| Her Iechyd Cymru. | Cyhoeddwyd Her Iechyd Cymru gan Brif Weinidog Cymru yn Chwefror 2004 fel ffocws ar gyfer gweithredu i wella iechyd a lles ar draws y bwrdd. Ni chafodd unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb penodol eu cynnwys yn y cynllun, ond ei bwrpas yw annog gweithredu sy'n rhoi sylw i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd. | Mae nifer o sefydliadau wedi ymateb yn gadarnhaol i Her Iechyd Cymru, ac mae'r diddordeb gan unigolion wedi bod yn galonogol. Mae cryn sgôp pellach i dargedu negeseuon Her Iechyd Cymru at sectorau penodol o'r boblogaeth, efallai i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn statws iechyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd gan Her Iechyd Cymru ar gael mewn sawl fformat, gan gynnwys Braille ac ar lafar. Yn ystod 2005-06, gwneir ymdrechion i gynhyrchu deunyddiau Her Iechyd Cymru mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. |
| Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd. | Sefydlwyd yn 2001 a bellach mae 62 o brosiectau byw ymhlith y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ffocws y prosiectau yw clefyd coronaidd y galon, a darparu mynediad at ystod o wasanaethau a gweithgareddau i bobl gyda chlefyd y galon neu sydd mewn perygl o ddioddef ohono. Un o egwyddorion craidd y gronfa / prosiectau yw eu bod yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gwasanaeth a mynediad at gyngor ar fyw'n iach. Yr oedd y gyllideb ym 2004-05 yn £5 miliwn.<br><br>Mae pedwar prosiect lleiafrifoedd ethnig: mae un prosiect yn canolbwyntio ar Sipsiwn a Theithwyr; mae'r prosiectau eraill yn cynnwys gweithgareddau wedi eu gerio tuag at blant a / neu oedolion y tybir eu bod mewn perygl o gael clefyd y galon. | Mae'r prosiectau i gyd yn dangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau unigolion ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, e.e. yn darparu mynediad at wasanaeth neu gyngor nad oedd ar gael o'r blaen. Mae enghreifftiau yn cynnwys darparu gwasanaethau sgrinio ac asesu mewn ardaloedd lle nad oeddent ar gael o'r blaen; helpu pobl i golli pwysau drwy roi cyngor ar ddiet ac ymarfer corff, a gwella iechyd a lles pobl. Mae'r prosiectau lleiafrifoedd ethnig wedi llwyddo i ddatblygu dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer y ddau ryw ac yn teilwrio cyngor am iechyd a lles i fod yn sensitif i wahanol ddiwylliannau. |
| Sefydlu Canolfan Iechyd Cymru fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o'r 1 Ebrill 2005 ymlaen. | O dan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003, darparwyd deddfwriaeth i sefydlu Corff Cyhoeddus newydd a Noddir gan y | I'w weithredu yn ystod 2005-2006. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynulliad i ddarparu gwybodaeth i bobl Cymru am eu hiechyd. Mae Canolfan Iechyd Cymru yn casglu ac yn cynnig gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn darparu hyfforddiant ar faterion iechyd.<br><br>Fel Corff Cyhoeddus newydd a Noddir gan y Cynulliad, bydd angen i Ganolfan Iechyd Cymru fodloni'r Cynulliad ei bod wedi ystyried materion cydraddoldeb yn llawn. | |
| Sicrhau bod rhaglenni brechu plant ac oedolion yn cael eu darparu a bod y nifer sy'n cael eu brechu yn cynyddu. | Mae polisi imiwneiddio a brechu Cymru yn cynnwys rhaglenni rheolaidd, heintiadau a rhaglenni newydd a diwygiedig. Mae materion cydraddoldeb o hyd yn cael eu hystyried yng nghyswllt rhaglenni imiwneiddio, yn enwedig lle mae'r rhaglen yn ymwneud yn benodol â grŵp arbennig. | Yn ystod 2004-05, paratowyd deunydd gwybodaeth mewn Braille a hefyd mewn nifer o ieithoedd tramor. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Cyflawni astudiaeth gwmpasu fewnol ar gyfer y rhaglen ymchwil 'Hybu iechyd a lles pobl anabl'. | Gosod anabledd yn y cyd-destun polisi ehangach, nodi unrhyw fylchau mewn polisi ac ymarfer gyda golwg ar ddatblygu blaenoriaethau ymchwil sy'n arbennig o berthnasol i hybu iechyd a lles pobl anabl, ac osgoi dyblygu gwaith a wnaed eisoes, sydd ar y gweill neu sydd wedi'i gynllunio. | Mae'r astudiaeth gwmpasu wedi'i chwblhau.<br><br>Bydd y darganfyddiadau yn cyfrannu at ddatblygu manylion yr ymchwil sydd i'w chomisiynu yn ystod 2005-06. | Anabledd |
| Lledaenu canlyniadau Rhaglen ASERT Iechyd Cymru. | Gwella'r dystiolaeth sydd ar gael ar faterion hybu iechyd yng nghyswllt grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a Sipsiwn a Theithwyr er mwyn goleuo datblygiad polisïau a rhaglenni gan Adran Hybu Iechyd Llywodraeth y Cynulliad ac adrannau eraill o dan Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol. | Digwyddiad lledaenu mewnol wedi ei gynnal.<br><br>Cynnwys yr adroddiadau wedi ei ddrafftio'n derfynol. Bydd 7 adroddiad ymchwil yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2005-06. | Cred<br>Iaith<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu targedau iechyd cenedlaethol a dangosyddion i fesur anghydraddoldebau iechyd a chanfod dangosyddion i fesur y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd. | Mae'r targedau iechyd cenedlaethol yn cynnig ffocws a chyfeiriad ar gyfer gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Mae'r targedau yn cynnig dull tymor hir (rhwng 2002 a 2012) o fesur canlyniadau iechyd ac anghydraddoldebau iechyd. Ategir y targedau canlyniadau iechyd hyn gan ddangosyddion sy'n mesur y ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd sy'n asesiad tymor byr i ganolig o'r cynnydd a wneir yn lleol ac yn genedlaethol. | **Cafodd y targedau iechyd cenedlaethol a'r dangosyddion anghydraddoldeb ar gyfer clefyd coronaidd y galon, canser, iechyd meddwl, iechyd plant a phobl hŷn eu cyhoeddi ym 2004.**<br><br>**Bydd dangosyddion i fesur y ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd yng nghyswllt clefyd coronaidd y galon a iechyd meddwl eu cyhoeddi yn y dyfodol agos. Mae gwaith ar ddangosyddion i fesur ffactorau yng nghyswllt y tri maes iechyd arall yn derbyn sylw.** | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad Rhywiol<br>Arall – ardal ddaearyddol |
| Datblygu adnoddau diddyfnu ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig. | Gwella arferion diddyfnu mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Cafodd adnodd darluniadol ar ddiddyfnu ei ddatblygu a'i ddosbarthu i'w ddefnyddio gan Ymwelwyr Iechyd gyda rhieni lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Cafwyd bod angen mwy o daflenni atodol ar gyfer rhieni. Cynhyrchir y rhain mewn 4 iaith yn ystod 2005-06. | Hil<br>Crefydd/<br>Cred |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoli Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru. | Nod y cynllun yw datblygu capasiti a gallu mudiadau gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad i hybu iechyd a lles drwy ddarparu cymorth i weithgareddau craidd a phrosiectau. Oherwydd natur y cynllun grant, mae y rhan fwyaf o'r rhai sy'n derbyn cymorth yn gweithio â grwpiau dan anfantais.<br><br>Dylid nodi bod y cynllun yn cael ei adolygu gan ymgynghorwyr allanol ar hyn o bryd. Edrychir ar ffyrdd o lenwi'r bylchau nad ydynt yn cael eu cwrdd gan y cynllun yn bresennol, a gwneir argymhellion ar sut y dylai'r cynllun symud ymlaen ym 2007. | Yn y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd pob un o'r mudiadau i gyflawni amrywiol waith. Yn fwy penodol, mae un o'r prosiectau sy'n cael ei gyllido yn cael ei redeg gan MEWN Cymru. Maent yn defnyddio'r grant i gyllido prosiect i godi ymwybyddiaeth iechyd ymhlith merched o leiafrifoedd ethnig, ac i ddarparu hyfforddiant i fudiadau a staff iechyd proffesiynol ar y problemau iechyd a wynebir gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig, e.e. digwyddiad hyfforddi yng Nghasnewydd yn Chwefror 2005 a fynychwyd gan 50 o bobl. I greu mwy o gysylltiadau â mudiadau eraill, yng Nghaerdydd a Chasnewydd bu'r mudiad yn mapio'r wybodaeth sydd ar gael i leiafrifoedd ethnig mewn meddygfeydd, deintyddfeydd a fferyllfeydd. Bu MEWN Cymru hefyd yn mapio ardaloedd preswyl grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y mannau hyn.<br><br>Mae mudiadau eraill sy'n gweithio â grwpiau dan anfantais yn cynnwys SCOVO, Innovate Trust, Gwarchodwyr Cefn Gwlad, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched ac | Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/ Cred<br>Tueddiad Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ymddiriedolaeth Terrence Higgins. | |
| Monitro'r contract â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i ddarparu Gwasanaethau Cymru Gyfan sy'n helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu. | Sicrhau mynediad at Wasanaethau sy'n helpu pobl roi'r gorau i ysmygu, i'r holl oedolion sy'n ysmygu.<br><br>Gofynnwyd yn benodol bod y Gwasanaeth yn targedu merched beichiog a grwpiau o dan anfantais. | Darparwyd hyfforddiant lleiafrifoedd ethnig arbenigol gan Lywodraeth y Cynulliad i staff mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>Gofynnir i gydlynwyr lleol fonitro unrhyw geisiadau am hyfforddiant ychwanegol, ond ni dderbyniwyd unrhyw gais yn ystod 2004-05. | Anabledd<br>Rhyw<br>Hil |
| Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn. | Ym 2004-05 cynhaliodd Ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn nifer o ddigwyddiadau, cynlluniau a mesurau i dargedu'r bobl hŷn mwyaf agored i niwed. | Yn ôl gwerthusiad o'r Ymgyrch, cafwyd llwyddiannau lleol ymhlith y gynulleidfa darged o ran yr ymateb i'r negeseuon allweddol i gadw'n gynnes, yn iach ac yn ddiogel yn ystod misoedd y gaeaf, e.e. cynyddodd y nifer a ddewisodd gael eu brechu o 25% yng Ngheredigion. | Oed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grantiau i Hyfforddi Tegwch ac Eiriolaeth. | Cafodd cyfanswm o 25 o brosiectau eu cyllido o gyllideb o £105,000 i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn mynediad at ofal iechyd ac i ddatblygu gwasanaeth eiriol dros iechyd gwell mewn gwahanol sefydliadau.<br><br>Ceir nifer o gamau gweithredu sy'n benodol i'r grŵp targed, er enghraifft: hyfforddiant amrywiaeth diwylliannol aml-broffesiynol; hyfforddiant i roi sylw i anghenion iechyd ceiswyr lloches a Sipsiwn a Theithwyr; darparu dehonglwyr Somalieg mewn clinigau galw heibio cyn geni a Gwasanaeth Eiriolaeth Mamolaeth Arabaidd. | Yn ôl y gwerthusiad, dangoswyd bod y camau gweithredu hyn wedi gwella mynediad at ofal iechyd i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau eraill.<br><br>Mae mewnbwn ymarferol a hyfforddiant wedi hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol drwy gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chynnig dulliau o oresgyn rhwystrau ieithyddol a diwylliannol. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi cydraddoldeb mynediad at y Llyfrgell Hybu Iechyd a Gwasanaethau Gwybodaeth. | Mae gan bob cwsmer llyfrgell fynediad cyfartal at wasanaethau lle bynnag y maent yng Nghymru. I gyflawni hyn, yr ydym yn hyrwyddo mynediad o bell drwy'r We, e-bost, ffacs, mini-com, ffôn, post a hefyd drwy ymweld â ni wyneb yn wyneb.<br><br>Mae'r holl wybodaeth a ddarperir mewn print hefyd ar gael i'w ddadlwytho ar dudalennau llyfrgell gwefan Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol.<br><br>Mae argaeledd y cyfeiriad RHADBOST yn sicrhau nad yw cwsmeriaid na fedrant ddod i'n gweld i ddychwelyd adnoddau yn dioddef yn ariannol o gymharu â rhai sy'n byw yn fwy lleol. Mae gwasanaeth benthyciadau di-dâl drwy'r post hefyd ar gael i annog mynediad teg i gwsmeriaid o bell.<br><br>Mae cyhoeddiadau llyfrgell yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Anabledd, a gall cwsmeriaid hefyd roi gwybod inni os oes ganddynt ofynion ychwanegol. Cyhoeddir Newyddion y Llyfrgell (Library News) yn Gymraeg, Saesneg, yn electronig ac mewn Braille.<br><br>Cyhoeddwyd pamffled llyfrgell i | Yn ôl yr arolwg blynyddol o foddhad cwsmeriaid, yr oedd cwsmeriaid ar draws yr aelodaeth yn fodlon iawn â'r gwasanaeth. Anfonwyd pamffledi llyfrgell at 25 o fudiadau lleiafrifoedd ethnig, mewn ieithoedd ethnig. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wneud gwybodaeth yn haws ei chael, ac fe'i cyhoeddir yn Gymraeg, Saesneg, Arabeg, Bengaleg, Tseinëeg, Gwjarati, Hindi, Punjabeg, Somalieg ac Wrdw. | | |
| Recriwtio deintyddion a meddygon. | Mae'r Prif Swyddog Deintyddol, drwy ei aelodaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwahanol weithgorau, wedi ceisio egluro a datblygu gwybodaeth a gweithdrefnau i Gofrestru deintyddion nad ydynt wedi cymhwyso yn y DU er mwyn sicrhau recriwtio deintyddion yn deg yn rhyngwladol.<br><br>Mae'r Uwch Swyddog Deintyddol, drwy gydweithgorau, wedi ceisio sicrhau recriwtio'n deg i Gynlluniau Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru.<br><br>Sicrhau, mewn cydweithrediad â'r Is-adran Adnoddau Dynol, bod meddygon tramor yn cael mynediad at swyddi yng Nghymru, a gwella'r cyflenwad meddygon i'r GIG. | Wedi cyfrannu at wybodaeth a phrotocolau cliriach i ddeintyddion o dramor sy'n dymuno gweithio yn y DU / Cymru.<br><br>Mae deintyddion sy'n ferched wedi eu cynrychioli'n well mewn Cynlluniau Hyfforddiant Galwedigaethol. Ym 2004-05, yr oedd cydbwysedd cyfartal rhwng y rhywiau.<br><br>Nifer uwch o ymgynghorwyr wedi eu recriwtio ym 2004-05. | Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Darparwyd costau cyflogau (drwy'r Is-adran Adnoddau Dynol) i'r Deon cyswllt ar gyfer meddygon tramor i gefnogi meddygon tramor yn y GIG yng Nghymru. Nod y cynllun hwn oedd gwella profiad meddygon o dramor.<br><br>Datblygu polisi i wella rhagolygon gyrfa meddygon ar raddfa yrfaol nad ydynt yn ymgynghorwyr (NCCG), sydd gan fwyaf yn feddygon o dramor, fel rhan o weithredu'r cynllun i Foderneiddio gyrfaoedd meddygol a'r bwrdd addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion. | Canllawiau defnyddiol wedi eu cynhyrchu drwy'r Ddeoniaeth, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n lleol ac mewn mannau eraill yn y DU.<br><br>Polisi'r DU wedi'i gytuno arno ac mewn deddfwriaeth – gall meddygon ar raddfa yrfaol nad ydynt yn ymgynghorwyr ymgeisio o fis Medi 2005 ymlaen i gael eu hasesu i fynd ar y gofrestr o arbenigwyr. | |
| Pwyllgor Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth. | Gweithredu adolygiad polisi Pwyllgor Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth. | Mae aelodaeth o'r Pwyllgor wedi'i addasu i adlewyrchu natur amrywiol y proffesiwn, gan gynnwys cynyddu nifer yr aelodau sy'n ferched o thua hanner. | Rhyw |
| Hyrwyddo amrywiaeth ar bwyllgorau iechyd meddwl / anableddau dysgu allanol. | Hyrwyddo cydraddoldeb. | Mewnbwn wedi'i gyflawni i 3 grŵp defnyddwyr (y Grŵp Ymgynghorol ar Weithredu Iechyd Meddwl, y Grŵp Ymgynghorol ar Weithredu Anabledd Dysgu a'r Grŵp Ymgynghorol ar Weithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl). | Anabledd<br>Hil |
| Gweithio â'r ymchwiliad gan y | Mewnbwn i ymgynghoriad gwmpasu | Wedi mynychu cyfarfodydd a | Anabledd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Hawliau Anabledd i gyfrannu at anghenion iechyd corfforol pobl gyda iechyd meddwl ac anableddau dysgu. | drafft. | gynhelir yn barhaus. | |
| Gweithio â Chomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl i edrych ar y mater iaith mewn unedau iechyd meddwl ar draws Cymru ar ei ymweliad nesaf â'r wlad. | Trefnu ar gyfer ymweliad Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl â'r holl unedau yng Nghymru i asesu'r polisi iaith a'i weithrediad. | Mae pob uned yng Nghymru wedi derbyn ymweliad. Aros yn awr am adroddiad llawn Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cwblhawyd archwiliad o ddiwallu anghenion ethnigrwydd ac iaith ar ddiwrnod y cyfrifiad. | Iaith |
| Cefnogi'r pwyllgorau ymgynghorol proffesiynol statudol. | Rhan o'r swyddogaeth hon yw cynnal dwy gynhadledd y flwyddyn ar bynciau iechyd penodol. Mae materion cydraddoldeb yn nodwedd allweddol gyda dewis lleoliad a phwnc y digwyddiad (e.e. rhaid i'r lleoliad fod yn gallu darparu mynediad i bobl anabl a chyfleusterau ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw, ac yn y blaen). | Cynhadledd sy'n agored i bawb. | Anabledd |

**Astudiaeth Achos**

Cyhoeddi Data ar Heintiau sy’n Gysylltiedig â Gofal Iechyd

Mae cyhoeddi data ar heintiau sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yn faes anodd. Mewn cydweithrediad â’r Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd a’r Cynghorau Iechyd Cymuned, cyfrannodd y Grŵp Proffesiynolion Iechyd at gyfres o 7 grŵp ffocws a gynhaliwyd ar draws Cymru i geisio cynyddu dealltwriaeth o anghenion gwybodaeth y cyhoedd yn y maes pwysig hwn. Yr oedd y grwpiau ffocws yn cynnwys yr henoed, pobl ifanc, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned. O ganlyniad, bu’n bosibl sicrhau ymgysylltiad sylweddol ac enillwyd dealltwriaeth gliriach o sut orau i ddarparu’r wybodaeth yma i’r cyhoedd. (Cyfrannodd y Grŵp Proffesiynolion Iechyd fewnbwn arbenigol i 6 o’r 7 grŵp ffocws). Bydd y broses hon yn goleuo unrhyw fwriad yn y dyfodol i gyhoeddi data sy’n gysylltiedig â gofal iechyd.

**ADRAN: SWYDDFA'R PRIF SWYDDOG NYRSIO**

| Yr Amcanion Adrannaol Uchaf | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Adolygu Rolau a Chyfrifoldebau Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol. | Cyflawnwyd yr adolygiad gan Brifysgol Abertawe ar ran Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. Gwnaed yn siŵr bod yr Uned Polisi Cydraddoldeb (Llywodraeth y Cynulliad) yn chwarae rhan yn y broses. | Mae'r adroddiad yn argymell bod potensial i ddatblygu rolau nyrsio arbenigol sy'n seiliedig ar afiechydon / grwpiau iechyd sy'n rhychwantu ffiniau gwasanaeth ac yn hwyluso llwybrau ar draws holl ystod y rhyngwynebu rhwng gwahanol wasanaethau.<br>Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys cleifion grwpiau lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Mae argymhellion yr adolygiad hwn yn gofyn am ystyriaeth ehangach. Nid oes unrhyw un o argymhellion yr adolygiad wedi eu derbyn gan y Cynulliad eto. |
| Strategaeth Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd i Ysbytai yng Nghymru. | Mae'r Strategaeth wedi'i hanelu at bob claf ac aelod o staff, felly ystyriwyd anghenion grwpiau penodol fel merched a rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac yn y blaen, yn y broses o ddatblygu'r strategaeth.<br>Ymgynghorwyd hefyd â grwpiau cydraddoldeb yn ystod datblygiad y strategaeth. | Nid oedd unrhyw ganlyniad cydraddoldeb yn ystod blwyddyn ariannol 2004-05. |

| | | |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: hybu bwydo o'r fron yng Nghymru. | Mae'r argymhellion yn cynnwys sensitifrwydd diwylliannol, ieithoedd priodol, ac ymchwil i hybu bwydo o'r fron ymhlith merched o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Mae dolenni cyswllt ar y wefan Bwydo o'r Fron i daflenni bwydo o'r fron mewn 10 o wahanol ieithoedd. |
| Meithrin y Dyfodol: Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsys Plant yng Nghymru. | Un o werthoedd craidd y fframwaith yw hybu amgylchedd gofal diogel sy'n adlewyrchu anghenion diwylliannol ac ysbrydol plant. | Bydd adroddiad yn nodi'r cynnydd yn erbyn yr amcanion yn cael ei gyhoeddi yn Nhachwedd 2005. Cynllun gweithredu newydd i'w weithredu yn Ionawr 2006. |
| Cefnogi gweithrediad Safon 8 y Strategaeth Iechyd Meddwl i Oedolion. | Helpu rhanddeiliaid gwasanaeth i ddatblygu Canllawiau Arferion Da ar gynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth yn y broses o Recriwtio Nyrsys.<br><br>Ystyriwyd materion cydraddoldeb fel rhan o ddatblygu cynigion i gyhoeddi Canllawiau Gweithredu Polisi Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt Safon 8. | Mae Canllawiau Arferion Da Drafft wedi eu paratoi. Bydd yn goleuo agenda Cyfranogiad Defnyddwyr Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Cytunwyd ar gynllun i ddatblygu a chyhoeddi Canllawiau Gweithredu Polisi. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw?** |
|---|---|---|---|
| Llwybr Gofal Trais yn y Cartref. | Gofyn i 100% o ferched beichiog am drais yn y cartref. Bydd y merched yn cael eu cyfeirio at asiantaethau perthnasol. | Mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn hyfforddi eu staff mamolaeth i gyd; bydd 3,000 wedi derbyn hyfforddiant erbyn Ionawr 2006. Bydd Cronfa Risg Cymru yn cynnwys yr eitem hon fel safon. Mae'r llwybr bellach wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno o fis Ionawr 2006 ymlaen. | Rhyw |
| Cymryd Rhan yn y Diwrnod Byw'n Iach i Ferched Du a Lleiafrifoedd Ethnig. | Dosbarthwyd llenyddiaeth ar fwydo o'r fron yn y diwrnod Codi Ymwybyddiaeth Aml Ethnig hwn a gynhaliwyd yng Nghasnewydd yn Chwefror 2005.<br>Yr oedd dolenni cyswllt ar gael i gyhoeddiadau mewn ieithoedd Aml Ethnig. | Cynigiwyd mynediad at wybodaeth am bwysigrwydd bwydo o'r fron i 50 o ferched a fynychodd y Diwrnod Ymwybyddiaeth hwn. Bydd Diwrnodau Ymwybyddiaeth pellach yn cael eu trefnu gan y Rhwydwaith Menywod Aml Ethnig. | Rhyw<br>Hil |
| Cynhadledd ar gyfer Nyrsys Ffilipino yng Nghymru. | Adolygu anghenion addysgol nyrsys Ffilipino. | Cafodd nyrsys Ffilipino gyfle i nodi eu hanghenion datblygu a hyfforddiant o fewn y GIG yng Nghymru. | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asesu Unedig a Rheoli Gofal. | Creu system unedig a theg ar gyfer rhoi mynediad at, a rheoli gofal. | Bydd Canllawiau (2002) yn cael eu gweithredu ar gyfer yr holl bobl hŷn erbyn Ebrill 2005. Yn ôl Adolygiad Annibynnol o'r system rheoli gofal, yr oedd 64% o Fyrddau Gweithredu Ardal lleol wedi gweithredu'r system yn rhannol a / neu wedi cwblhau'r Strategaeth Weithredu 12 Cam yn llawn. | Oed<br>Rhyw<br>Hil |

**Astudiaethau Achos**

O ganlyniad i gyfarfod y cafodd Jane Hutt â'r Llysgennad Philipinaidd Ei Ardderchowgrwydd Mr Edgardo B. Espiritu ar 3 Rhagfyr 2003, lle trafodwyd y cyfraniad a wneir gan frodorion Ffilipino i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, cytunwyd y dylid trefnu cynhadledd i gydnabod y cyfraniad y mae nyrsys Ffilipino yn ei wneud i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.

Mae tua 800 o nyrsys Ffilipino wedi eu cyflogi gan Ymddiriedolaethau'r GIG ledled Cymru. Gan fwyaf, maent yn gweithio â'r Gwasanaethau Acíwt fel Llawdriniaeth Gyffredinol, mewn Theatrau ac mewn Gofal Critigol. Mae llawer ohonynt wedi cael eu dyrchafu ers iddynt gael eu cyflogi ac mae'r adborth gan yr Ymddiriedolaethau wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Cynhaliwyd y gynhadledd yng Ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd ar 16 Tachwedd, 2004.

Yr oedd yn ddiwrnod o ddathlu a chefnogi. Anfonwyd 200 o wahoddiadau at Ymddiriedolaethau'r GIG ar draws Cymru a mynychodd 115 o bobl y gynhadledd ar y diwrnod (gan gynnwys cynrychiolaeth o Lysgenhadaeth Ynysoedd y Philipinos.

Yr oedd y bore yn cynnwys croeso gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chafwyd areithiau gan ffigyrau amlwg yn y proffesiwn Nyrsio, yn canolbwyntio ar Gydnabyddiaeth a'r hyn y gall Cymru ei gynnig.

Yr oedd arddangosfa wedi'i chreu lle'r oedd y nyrsys Ffilipino yn gallu dangos tystiolaeth o brosiectau a rhaglenni yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt – i ddangos y cyfraniad y maent wedi'i wneud i'r GIG yng Nghymru.

Uchafbwynt y diwrnod oedd pan gyflwynodd nyrsys Ffilipino o bob rhan o Gymru eu profiadau i'r gynulleidfa – rhai straeon llwyddiant doniol a theimladwy iawn.

Yr oedd y prynhawn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd oedd ar gael a'r potensial i ddatblygu pethau ymhellach, gyda chynrychiolydd o'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn arwain gweithdy ar gynhyrchu Cynlluniau Datblygiad Personol cyn cyflwyno araith ar y cymorth gan gydweithwyr oedd ar gael i'r nyrsys.

## AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU, AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU AC AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

### Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Rôl yr Arolygiaeth Safonau Gofal yw sicrhau bod gwasanaethau gofal yng Nghymru yn cwrdd â'r safonau y mae gan bobl hawl i'w disgwyl. Mae'r Arolygiaeth yn rhan weithredol annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n rheoleiddio gofal cymdeithasol, y gwasanaeth blynyddoedd cynnar a gwasanaethau gofal iechyd preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth yn diogelu pobl agored i niwed ac yn rheoleiddio o wyth swyddfa ranbarthol a thair swyddfa leol ar draws Cymru. Pob blwyddyn, mae'r Arolygiaeth yn rheoleiddio tua 7,000 o leoliadau yn erbyn Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gafodd eu gosod gan y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad.

Blaenoriaeth gyntaf yr Arolygiaeth yw diogelu defnyddwyr gwasanaeth, felly gwnawn pob ymdrech i helpu darparwyr i gwrdd â'u dyletswyddau cyfreithiol a chynnal y safonau sy'n ofynnol. Fodd bynnag, cymerwn gamau gorfodi cadarn, naill ai drwy lwybr troseddol neu sifil, yn erbyn y darparwyr hynny sy'n methu â chydymffurfio â gofynion y gyfraith.

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Pwrpas yr Arolygiaeth Gofal Iechyd yw hyrwyddo gwelliannau parhaus yn ansawdd a diogelwch gofal cleifion o fewn y GIG yng Nghymru. Wrth ymateb i hyn, rôl yr Arolygiaeth yw cyflawni arolygiadau o, ac ymchwiliadau i, ddarpariaeth gofal iechyd gan ac ar ran cyrff y GIG yng Nghymru. Cyflawnir yr arolygiadau a'r ymchwiliadau hyn drwy ddefnyddio egwyddorion a nodweddion allweddol y model adolygu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol (mewn cydweithrediad â Swyddfa Archwilio Cymru).

Wrth ymarfer y swyddogaethau hyn, mae'r Arolygiaeth yn ystyried argaeledd a mynediad at ofal iechyd; ansawdd ac effeithlonrwydd y gofal iechyd; agweddau eraill ar reolaeth gofal iechyd; ac economi ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth.

Mae fframwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnwys:

- Arolygu cyrff y GIG a darparwyr gwasanaeth yn erbyn safonau cenedlaethol, cytundebau a chanllawiau llywodraethu clinigol yng Nghymru;
- Asesu'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle i ddarparu llywodraethu clinigol a gwasanaethau'r GIG;

- Asesu ansawdd y gwasanaethau GIG yn yr holl asiantaethau / sectorau, drwy ddefnyddio e.e. rhwydweithiau, olrhain ‘llwybrau iechyd’ cleifion.

Mae gan yr Arolygiaeth bwerau i gyflawni arolygiadau ac ymchwiliadau i gyrff y GIG yng Nghymru, hawl i fynd mewn i adeiladau, i arolygu adeiladau, a phwerau i ofyn am ddogfennau a gwybodaeth.

**Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, drwy ei rhaglen arolygu a datblygu, yn ceisio hyrwyddo darparu gwasanaethau o ansawdd uchel gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol Cymru i’w defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Dylai’r gwasanaethau hyn fod yn seiliedig ar safonau ymarfer proffesiynol cyson a bodloni’r prawf Gwerth Gorau. Mae’r Arolygiaeth hefyd yn cyfrannu ei harbenigedd proffesiynol a’i phrofiad ymarferol o reolaeth mewn awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol i oleuo datblygiad polisi gan y Cynulliad yn y maes hwn.

## YR ADRAN RHEOLI BUSNES A GWYBODAETH

| Yr Amcanion Adrannol Uchaf | **Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno** | **Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol** |
|---|---|---|
| Datblygu Cynllun Newid Busnes i nodi gwelliannau busnes corfforaethol allweddol yn y Cynulliad. Bydd y Cynllun Newid Busnes yn cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgareddau gwella busnes yn y dyfodol a ddarperir drwy'r bartneriaeth MERLIN. | Yr oedd y cynllun gweithredol (a'r Cynllun Newid Busnes) yn nodi'r angen am gydraddoldeb ym mhob agwedd ar ei gynnwys. | Wrth ddatblygu'r cynllun, yr oedd yr holl ofynion yn nodwedd allweddol ohono, e.e. Iechyd a Diogelwch (o ganlyniad i offer newydd) yn ogystal â gofynion defnyddwyr arbennig (e.e. cyfleusterau Braille). |
| Sicrhau bod y Cynulliad yn fwy daearyddol amrywiol gyda thair swyddfa newydd yn y De, Gogledd ac yng Nghanolbarth / Gorllewin Cymru. Drwy ei saith prif swyddfa, bydd ganddo bresenoldeb amlwg ym mhob rhan o Gymru er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd gwell sy'n fwy cynaliadwy a hygyrch i bawb yng Nghymru. | Mae cydraddoldeb wedi'i wreiddio ym mhob un o bolisïau'r Strategaeth Leol ac yn y manylion ar gyfer y tair swyddfa newydd ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth, h.y. monitro recriwtio, mynediad at adeiladau, gweithio'n ddwyieithog a gweithio hyblyg. | Mae'r Strategaeth Leol yn ei chyfnod gweithredu cyntaf, felly nid oes unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb eto. |
| Sicrhau arferion da gyda chadw ac adalw cofnodion i gwrdd â gofynion statudol. | Nid oes unrhyw ddimensiwn cydraddoldeb i gadw ac adalw cofnodion, er hynny mae cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn system rheoli cofnodion electronig yr Adran ar gyfer 2005-06. | Nid oes unrhyw ddimensiwn cydraddoldeb yn perthyn i'r amcan hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu cerdyn sgôr cytbwys yn cynnwys gwybodaeth allweddol i oleuo'r broses benderfynu. | Yr oedd nodi'r angen am Wybodaeth Reoli ynghylch y materion cydraddoldeb sy'n berthnasol i redeg y busnes yn rhan gydnabyddedig o'r polisi. | Mae gwybodaeth am batrymau cydbwysedd rhyw staff yn fewnol yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i uwch reolwyr. |
| Sicrhau bod y gofynion statudol ynghylch darparu mynediad at, a rhyddhau gwybodaeth yn cael eu cwrdd. | Mae'r polisi yn seiliedig ar y rhagdybiaeth o ddarparu hawliau cyfartal i wybodaeth i bawb, pwy bynnag yw'r unigolyn dan sylw neu beth bynnag yw eu cymhelliad dros wneud y cais. | Mae Egwyddor 2 y Cod Ymarfer yn adlewyrchu'r agweddau cydraddoldeb ar fynediad at wybodaeth yn gwbl glir. Mae log datgelu'r We (mynegai o ddeunydd a roddwyd) yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'r Ganolfan Gyhoeddiadau yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymholiadau cwbl ddwyieithog ac aml-fynediad ynghylch cyhoeddiadau. Mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yng nghyswllt y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi ei ddarparu i dros 2,000 o staff y Cynulliad ar draws Cymru. |
| Sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru. | Trefnwyd gweithdai Llywio'r Llygoden i helpu dinasyddion lle mai nid y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu mamiaith i oresgyn rhwystrau ieithyddol ac i ddod yn ymwybodol o ac i elwa o'r gwaith a wneir gan Cymru-Ar-Lein (CAL).<br><br>Pan drefnwyd y gweithdai, sicrhaodd yr Adran Rheoli Busnes a Gwybodaeth fod y | Manylion Rhyw / Iaith ac Anabledd wedi eu cynnwys yn y wybodaeth gan yr is-adran. Cynhaliwyd 166 o weithdai, 42 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynychodd 1935 o bobl (179 yn siaradwyr Cymraeg).<br>Dim manylion ynghylch grwpiau lleiafrifoedd ethnig ym 2004-05 ond bydd y wybodaeth yn cael ei |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfleusterau yn cwrdd â safonau hygyrchedd AAA o ran dyluniad, pwrpas gweithredol a chynnwys. | chasglu ym 2005-06.<br><br>Mewn cydweithrediad â'r RNID, mae gweithdai wedi eu cynnal ar gyfer grŵp o bobl gyda thrafferthion clywed. Mae gweithdai hefyd wedi eu cynnal ar gyfer preswylwyr cartref gofal yng Nghaerdydd. Yr oedd yr adborth gan y ddau grŵp yn gadarnhaol. Ni soniwyd yn yr adborth cadarnhaol hwn bod angen newid unrhyw beth. Fodd bynnag, mae cynnwys a darpariaeth y cyrsiau wedi eu haddasu yn dilyn adborth cynharach. |

| *Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb* | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Darparu mynediad at gyhoeddiadau gan y Cynulliad. | Sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd yn gallu gofyn am a derbyn copi o unrhyw gyhoeddiad gan y Cynulliad yn y fformat sy'n gweddu orau i'w hanghenion. | Derbynnir ceisiadau drwy sawl gwahanol cyfrwng a darperir y cyhoeddiadau mewn fformatau eraill lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r bobl sy'n cynhyrchu cyhoeddiadau'r Cynulliad yn cael gwybod am yr angen i ddarparu fformatau eraill lle bo hynny'n briodol. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/ Cred<br>Tueddiad Rhywiol |
| Ailwampio'r Gwasanaeth Cyfieithu. | Gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth cyfieithu Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg. | Mae gwasanaeth cyfieithu effeithiol ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad wedi ei sefydlu.<br><br>Mae targedau manwl yn cael eu gosod a dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu bob mis. Mae lefelau cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Uned Iaith Gymraeg. | Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Drafftio a chyhoeddi taflen cyfle cyfartal amlieithog. Mae'r ieithoedd yn cynnwys: Hindi, Wrdw, Tseinëeg, Pwnjabeg, Gwjarati, Arabeg, Somalieg a Syletheg. | Galluogi dinasyddion lle mai nid y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu mamiaith i oresgyn rhwystrau ieithyddol a dod yn ymwybodol o, a gallu elwa o'r gwaith a wneir gan Cymru-Ar-Lein (CAL). | Yr oedd yr adborth ar y daflen yn gadarnhaol. Bydd taflen wedi ei diweddaru yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2005. Mae hyn wedi rhoi sail i CAL i gyflwyno gweithdai Llywio'r Llygoden mewn amryw o wahanol ieithoedd. I'w cyflwyno ym 2005-06. | Iaith<br>Hil |
| Gwelliannau i bwrpas gweithredol gwefannau Cymru-Ar-Lein (CAL) a Cymru ar y We (CAYW). | Sicrhau bod y ddwy wefan yn cwrdd â safonau hygyrchedd AAA o ran dyluniad, pwrpas gweithredol a chynnwys. | Mae gwefan CAYW wedi cyrraedd safonau hygyrchedd AA. Ar hyn o bryd, mae CAYW yn aros am adroddiad i gadarnhau a fydd y wefan yn cyrraedd safonau AAA. Mae gwefan CAL wedi cyrraedd safonau hygyrchedd AA. Mae gwelliannau wrthi'n cael eu gwneud i wefan rhyngrwyd y Cynulliad a fydd yn helpu gwefan CAL i gyrraedd safonau AAA. | Anabledd |
| Sefydlu'r gangen ystadegau Cynhwysiant Cymdeithasol a Chydraddoldeb ym mis Mai 2004. | Darparu cymorth ystadegol mwy pwrpasol ar y ddau faes polisi hwn i'r Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac i Lywodraeth ehangach y Cynulliad. | Yng Ngorffennaf 2005, cyhoeddwyd ffocws ystadegol ar ethnigrwydd yng Nghymru, oedd yn cynnwys cyfeirlyfr o ffynonellau ystadegol sy'n rhoi dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd.<br><br>Wedi chwarae rhan weithredol yn natblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol newydd, gan gynnwys rhoi cyngor ar y system ddosbarthu | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ystadegol sydd i'w mabwysiadu.<br><br>Wedi datblygu cynllun gweithredu cytunedig ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol er mwyn gwella mynediad at ystadegau ymhellach drwy gynhyrchu cyhoeddiad ar y we.<br><br>Wedi ail-ddylunio'r hyfforddiant 'Cyfle Cyfartal / Amrywiaeth – Holiadur Monitro' i adlewyrchu'r categorïau ethnigrwydd Ystadegau Cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. | Rhywiol<br>(yr oedd y prif ffocws ar hil ym 2004-2005) |
| Adnabod unigolyn i fod â chyfrifoldeb arweiniol dros faterion Cydraddoldeb o fewn tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau. | Cydlynu gwaith y Gyfarwyddiaeth a darparu un pwynt cyswllt ar gyfer materion Cydraddoldeb. | Mae ymgysylltu'n llawnach â'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau wedi bod yn bosibl mewn trafodaethau lefel uchel ynghylch materion cydraddoldeb, yn enwedig wrth drafod y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r camau gweithredu dilynol. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ehangu'r gangen ystadegau Cynhwysiant Cymdeithasol a Chydraddoldeb i gynnwys ystadegydd ychwanegol yn Chwefror 2005. | Ehangu capasiti'r gangen i gyflawni dadansoddiadau ystadegol o linynnau Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol. | Cytunwyd ar raglen amlinellol o gyhoeddiadau ystadegol mewn trafodaethau â Chyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, y cyntaf i fod yn Ffocws ar Amrywiaeth, i'w gyhoeddi yn yr Haf 2005. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad Rhywiol |
| Cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch rhoi rôl fwy ffurfiol i Lywodraeth y Cynulliad pan gynhelir Cyfrifiadau Poblogaeth yn y dyfodol. | Er mwyn sicrhau y bydd anghenion Llywodraeth y Cynulliad a'r sylfaen defnyddwyr ehangach yng Nghymru yn cael eu cwrdd erbyn Cyfrifiad Poblogaeth 2011 ac unrhyw Gyfrifiad arall yn y dyfodol. | Sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol ar y Cyfrifiad yng Nghymru a gwahoddwyd aelodau o bob un o'r comisiynau cydraddoldeb ac o Stonewall. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad Rhywiol |
| Datblygu Cofrestr Asedau Data ar gyfer ffynonellau ystadegol. | Datblygu catalog electronig o ffynonellau data ystadegol (y rhai a gedwir gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegau a chan Adrannau eraill o'r Cynulliad a'r Llywodraeth). Bydd y catalog yn hysbysu'r defnyddiwr o lefel y dadansoddiad a fyddai'n | Cyrhaeddodd y prosiect ei gyfnod peilot ym 2004-05; yr oedd y fersiwn hwn yn cynnwys y gallu i ganfod a oedd yn bosibl dadansoddi'r ffynonellau data ochr yn ochr â phob un o'r llinynnau Cydraddoldeb. | Oed<br>**Anabledd**<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bosibl gyda phob ffynhonnell ddata. | | Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Recriwtio staff i swyddi ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Bydd y recriwtio yn digwydd hyd at ac ar ôl y dyddiadau canlynol:<br>Merthyr Tudful – Medi 2006<br>Cyffordd Llandudno – Tymor yr Hydref 2007<br>Aberystwyth – Gwanwyn 2008 | **Llwyddo i ddenu gweithlu amrywiol wrth benodi staff i swyddi yn y swyddfeydd newydd, drwy weithio'n agos â grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli yn yr ardaloedd hynny a chynnal gweithdai i sicrhau bod gan y grwpiau i gyd ganllawiau perthnasol i'w helpu i gyflwyno ceisiadau llwyddiannus.** | Cynrychiolaeth ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ardal Merthyr.<br><br>Hyd yma, mae dwy ffair recriwtio wedi eu cynnal gan ddenu diddordeb gan tua 140 o bobl. Cynhaliwyd dau weithdy allgymorth yng Ngholeg Merthyr. Cynhaliwyd gweithgareddau recriwtio ym Merthyr fel a ganlyn:<br>Sesiynau allgymorth yng Ngholeg Merthyr – 20 Mai 2005;<br>Swyddfeydd Cyngor Merthyr – 1 Mehefin 2005;<br>Ffair Swyddi Merthyr – 16 Awst 2005. I gyd, mynychodd 15 o bobl gan gynnwys cynghorwyr gyrfa. Nid oes unrhyw ystadegau ar gael ar ethnigrwydd y rhai a fynychodd.<br><br>Fodd bynnag, llwyddodd yr ymarfer recriwtio allanol diwethaf ym Merthyr i ddenu 2 ymgeisydd o grwpiau du / lleiafrifoedd ethnig er, yn anffodus, ni lwyddodd yr un o'r ddau i gael cyfweliad. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hygyrchedd Adeiladau Newydd. | Gweithio â darparwyr trafnidiaeth fel y gall aelodau o'r cyhoedd ymweld ag adeiladau newydd. | Ymgynghorydd dylunio wedi'i benodi i gynghori ar fynediad at adeiladau newydd.<br><br>O ran Merthyr, mae'r Ymgynghorwyr Dylunio wedi gweithio â Grŵp Cymorth Anabledd ac Ymwybyddiaeth y Cynulliad i ddylanwadu ar, ac i argymell newidiadau i ddyluniad adeiladu yng nghyswllt pethau fel meysydd parcio, derbynfeydd, tirweddu ac ymarferoldeb adeiladau. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Gweithio Hyblyg. | Diwallu anghenion a dewisiadau pawb drwy ddefnyddio desgiau hyblyg a gwell system TGCh, ac yn y blaen. | Mae'r gwaith hwn yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Ymgysylltir â staff drwy weithdai a bydd y Byrddau Prosiect yn cael eu diweddaru'n llawn ynghylch y cynnydd. | Oed<br>Anabledd<br>Rhyw<br>Iaith<br>Hil<br>Crefydd/<br>Cred<br>Tueddiad<br>Rhywiol |
| Gweithio'n Ddwyieithog. | Sicrhau arferion gorau o ran gweithio'n ddwyieithog yn y swyddfeydd newydd. | Mae cynigion yn yr arfaeth i benodi Swyddog Prosiect i ymchwilio i sut y gellir gwneud hyn. | Iaith |

**Astudiaeth Achos**

Yn dilyn ymlaen o lwyddiant Llywio'r Llygoden, penderfynodd CAL ymchwilio i ehangu'r gwasanaeth hwn i bobl lle mai nid y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae amryw o bobl yng Nghymru yn wynebu rhwystrau corfforol, cymdeithasol neu ieithyddol i ddefnyddio gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein. Drwy ddarparu'r hyfforddiant hwn, gobeithio y byddant yn gallu ennill yr hyder i ddyrchafu eu dysgu i'r lefel nesaf, gan ennill sgiliau a fydd o fudd iddynt yn eu swyddi / gyrfaoedd yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, gobeithio y byddant yn gallu integreiddio'n well yn y gymuned. Cynhelir gweithdai peilot ym 2005-06. Mae cyswllt wedi'i feithrin â grwpiau a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan.

**ADRAN: Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL (cyn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Darparu cyngor cyfreithiol i'r Cynulliad. | Darparwyd cyngor gan roi ystyriaeth lawn i unrhyw ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol. | Dim her gyfreithiol. |
| Cymryd rhan yn y gwaith o baratoi deddfwriaeth sylfaenol. | Sicrhawyd fod mewnbwn i ddeddfwriaeth sylfaenol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol. | Dim her gyfreithiol. |
| Paratoi is-ddeddfwriaeth ddrafft mewn pryd. | Sicrhawyd fod yr holl is-ddeddfwriaeth a baratowyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol. | Dim her gyfreithiol. |
| Sefydlu rhwydwaith ar gyfer cyfnewid syniadau a gwybodaeth ar draws y proffesiwn cyfreithiol a gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth y gymuned ehangach o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol* a'r Cynulliad. | Mae'r gweithgarwch wedi cynnwys arddangosfa yn yr Eisteddfod Genedlaethol, presenoldeb mewn ffeiriau cyfraith prifysgolion, a chynnal cynlluniau lleoliadau gwaith – nod yr olaf, ymhlith pethau eraill, oedd rhoi gwybodaeth i wahanol grwpiau a siaradwyr iaith Gymraeg am yr adran fel darpar gyflogwr, ar ôl iddynt gymhwyso'n llawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu fel canolfan arbenigedd cyfreithiol. | Bu'r tîm Cyfansoddiad, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb yn darparu gwasanaeth penodol o arbenigedd ar ddeddfwriaeth gydraddoldeb. Ar wahân i ddarparu gwasanaeth cyfreithiol ar faterion cydraddoldeb i Weinidogion a swyddogion y Cynulliad, gwnaeth y tîm yn siŵr bod holl gyfreithwyr y Cynulliad yn hyddysg mewn deddfwriaeth gydraddoldeb, drwy ddarparu hyfforddiant a'u gwneud yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd, fel cyfraith achosion. | Dim her gyfreithiol. |

| ***Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb*** | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Wedi rhoi cyngor ar lunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad. | Sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn cydymffurfio â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd. | Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol wedi'i lansio ac mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi cadarnhau ei fod yn cydymffurfio. | Hil |

**Astudiaeth Achos**

**Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad**

Bu'r tîm Cyfansoddiad, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb yn gweithio'n agos â swyddogion polisi. Pan ymgynghorwyd â nhw, defnyddiwyd eu harbenigedd cyfreithiol i sicrhau bod y Cynllun yn cydymffurfio â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a hefyd gyda chanllawiau gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar sicrhau bod y Cynllun mor gadarn a phenodol a SMART â phosibl.

**ADRAN: YR ADRAN GYLLID**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Datblygu atebolrwydd cliriach ar gyfer cyllid a llywodraethu drwy benodi Is-Swyddogion Cyfrifo. | Yr oedd penodiad yr Is-Swyddogion Cyfrifo yn golygu trosglwyddo atebolrwydd a chyfrifoldeb yn fewnol o'r Ysgrifennydd Parhaol i bump Pennaeth Adran presennol. Nid oes unrhyw fater cydraddoldeb penodol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon. | Dim canlyniadau cydraddoldeb. |
| Sicrhau bod adeilad newydd y Cynulliad yn cael ei adeiladu ar amser ac o fewn y gyllideb yn unol â chynllun y prosiect. | Un o ddyheadau'r Cynulliad ar gyfer dylunio ac adeiladu Adeilad Newydd y Cynulliad yw y dylai fod yn esiampl o ran sicrhau cydraddoldeb mynediad i bawb. I gyflawni hyn, sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol ar Fynediad ym mis Hydref 2000, yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o fudiadau anabledd yng Nghymru. Rôl y grŵp oedd edrych ar ddyluniad arfaethedig yr adeilad, nodi unrhyw faterion mynediad a dod o hyd i atebion posibl. Bu'r grŵp hwn yn gweithio ochr yn ochr â thîm y prosiect tan Ionawr 2005 pan gwblhawyd manylion terfynol dyluniad yr adeilad. | Mae nifer o'r nodweddion dylunio yn sicrhau bod mynediad wedi'i gynnwys ar sail argymhellion y Grŵp Ymgynghorol ar Fynediad. |

| | | |
|---|---|---|
| Rheoli arian y Cynulliad yn effeithiol drwy ddatblygu cynllun cyllideb blynyddol yn brydlon ar amser a sicrhau gwariant diwedd blwyddyn yn ôl y ddarpariaeth a nodir yn y cynllun. | Mae gwaith ar Gylch Cynllunio'r Gyllideb yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldeb yn codi o ddarparu adnoddau. Mae cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn y broses ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau Gweinidogol a nodir yn y dogfennau strategol. | Nid oes unrhyw ganlyniad uniongyrchol yng nghyswllt allbwn yr Adran Gyllid. Bydd canlyniadau gwaith a gyflawnir gan staff yr Adran Gyllid yn y maes hwn yn cyfrannu at / dylanwadu ar ganlyniadau adrannau ar draws y Cynulliad. |
| Rhoi cyfrif cywir am holl wariant y Cynulliad i'r cyhoedd yng Nghymru ac i eraill, drwy ddilyn gweithdrefnau caffael cywir, trin yr holl daliadau a'r derbynebion yn gywir a chynhyrchu cyfrifon blynyddol cywir. | Mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol y Cynulliad wedi dechrau cyflawni adolygiad sylfaenol o'u polisïau, gweithdrefnau a dogfennau caffael, ynghyd â rhai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a fydd yn uno â'r Cynulliad i greu sefydliad newydd o fis Ebrill 2006 ymlaen. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau'r Cynulliad ar gydraddoldeb, gan roi sylw arbennig i:<br><br>• Ba mor ddigonol yw'r cymalau cydraddoldeb sydd wedi eu hymgorffori yn amodau'r contractau;<br>• Pa mor ddichonadwy yw datblygu cynllun a fydd yn ymgorffori holl themâu trawsbynciol y Cynulliad, gan gynnwys cydraddoldeb, gyda'r nod o gynnig y cyfleoedd gorau i bob cyflenwr fidio am gontractau'r Cynulliad drwy'r wefan Gafael ar Gaffael;<br>• Meithrin cyswllt rhwng grwpiau cydraddoldeb a Gwerth Cymru (Caffael) | **Mae gwaith yn y maes hwn yn parhau. Disgwylir derbyn y canlyniadau a fydd yn deillio o'r gwaith hwn o fis Ebrill 2006 ymlaen.** |

| | | |
|---|---|---|
| | i drefnu digwyddiadau 'cyfarfod y prynwr'.<br><br>Mae Gwerth Cymru (Caffael) hefyd wedi:<br><br>• Buddsoddi mewn adnodd staff ymroddedig gyda chylch gwaith i ymchwilio i gadwyni cyflenwi moesegol; a<br>• Sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ymchwilio'n llawn fel rhan o unrhyw ystyriaeth o Ddatblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi sylw i faterion cydraddoldeb mewn gweithdai Datblygu Cynaliadwy;<br>• Mae cyhoeddiad Cyfrifon Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004-05 yn cynnwys datganiad ar gyfle cyfartal. | |
| Darparu swyddogaeth sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo. | Mae rhaglen waith flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymgorffori cyfres o adolygiadau archwilio ar draws y Cynulliad Cenedlaethol. Mae pob un o'r archwiliadau penodol yn ystyried i ba raddau y mae'r maes sy'n cael ei adolygu yn cydymffurfio â rheoliadau, deddfwriaeth a pholisïau cydraddoldeb y Cynulliad ei hun wrth weithredu eu polisïau a'u cynlluniau eu hunain.<br><br>Cafodd rhywfaint o archwilio ei gyflawni o'r Uned Polisi Cydraddoldeb ei hun ar ran yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae darganfyddiadau'r gwaith | Dim canlyniad uniongyrchol yng nghyswllt allbwn yr Adran Gyllid. Bydd canlyniadau gwaith a wnaed gan staff yr Adran Gyllid yn y maes hwn yn cyfrannu at / dylanwadu ar ganlyniadau adrannau eraill ar draws y Cynulliad. Nid oedd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol unrhyw faterion i'w codi yn ystod 2004-05.<br><br>Mae gwaith ar hyn ar fynd ac mae rhagor o waith archwilio wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| | hwn wedi'i adrodd i Bennaeth yr Adran. | |

| ***Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb*** | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Ni weithredodd yr Adran Gyllid unrhyw bolisïau ym 2004-05 oedd wedi eu dylunio'n benodol i hyrwyddo cydraddoldeb neu a oedd yn ymwneud â materion cydraddoldeb. | | | |

**Astudiaethau Achos**

**Darparu Adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae dyhead y Cynulliad ar gyfer dyluniad a datblygiad Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol o ran sicrhau mynediad cyfartal i bawb wedi'i gyflawni drwy gynnwys y nodweddion canlynol yn nyluniad yr adeilad:

- Lifft ychwanegol i gynyddu mynediad lifft o lefel y stryd i lefel y fynedfa gyhoeddus;
- Lifft fwy gyda digon o le i sgwter modur;
- 'Mega-loo' gan gynnwys teclyn codi sefydlog, a chyfleusterau newid i oedolion;
- Ystafell Rhiant a Phlentyn;
- Dolenni sain i hwyluso clywed;
- Desg dderbynfa cwbl hygyrch;
- 3 lle penodol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn orielau'r ystafelloedd pwyllgor, gyda lle i 2 le arall;
- 12 lle penodol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn oriel gyhoeddus y siambr drafod;
- 12 bae parcio i'r anabl wrth ochr yr adeilad;
- Llwybr dan do o'r baeau parcio i'r lifftiau wrth y fynedfa i'r adeilad;
- Darnau o 'lawr symudol' wedi eu gosod yn y siambr i roi mynediad i'r seddau yn y rhesi canol ac isaf.

I fodloni'r blaenoriaethau croes o ddarparu mynediad gwastad ac amgylchedd darlledu derbyniol, llwyddwyd i daro cydbwysedd sy'n darparu 70% o fynediad i'r siambr drafod i rai mewn cadeiriau olwyn, gan gynnwys mynediad at res y Cabinet a mainc y Llywydd. Mae'r ganran hon yn cymharu'n ffafriol â phrosiectau mawr diweddar eraill yn y sector cyhoeddus.

## ADRAN : RHEOLI YNG NGWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU

Sefydlwyd y Cynllun Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus ym 2003 fel prosiect i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyffredin ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Ei ffocws oedd cyrraedd consensws ynghylch cyfeiriad, creu sylfaen ariannol, sefydlu hunaniaeth glir a datblygu rhywfaint o gyfleoedd dysgu cychwynnol. Ym mis Hydref 2004, sefydlwyd y Cynllun Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus fel Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru (RhNgCC), gyda chylch gwaith clir i gynorthwyo gyda chyflwyno Creu'r Cysylltiadau, gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Ei amcanion yw:

- gwella gwybodaeth a dealltwriaeth gweision cyhoeddus ynghylch sut y mae gwasanaethau'n gweithio ledled y sector cyhoeddus, ac i ba bwrpas;
- gwella capasiti ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu cyhoeddus yng Nghymru;
- hwyluso cyd-ddatblygu a darparu gwasanaethau rhwng darparwyr a'r cyhoedd a wasanaethir ganddynt;
- darparu'r rhaglen mewn modd sy'n cwrdd â disgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch amrywiaeth, dwyieithrwydd, cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

Er bod RhNgCC bellach yn un o Is-adrannau Llywodraeth y Cynulliad, mae hefyd yn gorff aelodaeth ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Ym 2004-05, cyflwynodd RhNgCC ei ymrwymiad i gyfle cyfartal yn ei strategaeth 'Dysgu ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus', ac, ym 2005-06, mae'n cymryd nifer o gamau i droi'r ymrwymiad hwn yn realiti. Yn benodol, mae RhNgCC wedi:

- cyflwyno gofyniad i fonitro cyfranogiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ei raglen ddatblygu allweddol 'Cysylltu dros Gymru';
- galluogi grŵp dysgu traws sector o dan Cysylltu dros Gymru i ymchwilio i sut y gellir prif ffrydio cydraddoldeb;
- dechrau dylunio rhaglen ddatblygu ar gyfer grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli;
- denu aelodaeth grwpiau cydraddoldeb (y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal).

**ADRAN : Y GYFARWYDDIAETH STRATEGAETH A CHYFATHREBU**

| Y Pump Prif Amcan gan yr Adran | Sut y cynhwyswyd cydraddoldeb o fewn y flaenoriaeth honno | Unrhyw ganlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol |
|---|---|---|
| Cryfhau cyfathrebu gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Comisiynwyd ymchwil i ddatblygu Safon Cyfieithu a Phecyn Ymgynghori a Chyfathrebu ar gyfer staff Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Bydd hyn yn arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol y gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ac at ddatblygu a darparu polisïau a gwasanaethau sy’n ymateb i’r anghenion hynny. | Mae hwn yn dal i fod yn y cyfnod ymchwil. Bydd data a gesglir yn cael ei ddadansoddi ac yn arwain at ddatblygu pecyn adnoddau. |
| Datblygu cymhwysedd effeithiol yn Llywodraeth y Cynulliad gyda chomisiynu a defnyddio gwerthusiadau ymchwil. | Mae Swyddfa’r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (REACT yn flaenorol) wedi ymgorffori Cydraddoldeb Hiliol a materion lleiafrifoedd ethnig ym mhob agwedd ar gomisiynu a defnyddio prosiectau ymchwil. Mae hyn wedi cynnwys cynnig cyngor ‘Arferion Gorau’ i adrannau eraill sy’n cyflawni ymchwil gymdeithasol.<br><br>Mae Swyddfa’r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn sicrhau bod cynlluniau Ymchwil a Gwerthuso yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb, gydag ymrwymiad penodol yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i adolygu’r cynllun Ymchwil a Gwerthuso | Mae adolygiad o gynlluniau Ymchwil a Gwerthuso ar y gweill – i’w gwblhau erbyn Awst 2005 ac adroddiad i’w gyflwyno i’r Bwrdd Gweithredol. |

| | | |
|---|---|---|
| | yng nghyswllt y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. | |
| Sicrhau bod porth i bolisïau a threfniadau cymorth yn eu lle ar gyfer pob polisi strategol. | Defnyddiwyd y broses ‘porth i bolisïau’ i nodi unrhyw ymgynghoriad strategol lefel uchel sydd angen cael ei asesu i fesur ei Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol (un o’r ymrwymiadau yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol).<br><br>Wedi cynnwys paragraff cydymffurfio â pholisi mewn cyflwyniadau ynghylch penderfyniadau Gweinidogol i sicrhau bod dyletswyddau’r Cynulliad wedi eu hadlewyrchu wrth ddarparu cyngor a bod yr asesiadau priodol wedi digwydd (un o’r ymrwymiadau yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol). | Y nod yw ceisio gwneud Pyrth i Bolisïau yn orfodol ar gyfer unrhyw bolisi strategol lefel uchel sy’n mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd canllawiau yn cael eu cynnwys yn y wefan Porth i Bolisïau newydd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn Ebrill 2005.<br><br>Y nod yw ceisio gwneud y paragraff cydymffurfio â pholisi yn orfodol ar gyfer pob cyflwyniad polisi. Bydd rhestr wirio i gadarnhau cydymffurfio â pholisi yn cael ei chyflwyno fel y gellir asesu a oes angen gwneud Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol. Cyflwynir hyn o fis Ebrill 2005 ymlaen. |
| Gweithredu rhaglen hyfforddiant polisi effeithiol. | Yr angen i ystyried effaith polisïau ar gydraddoldeb fel rhan o’r cwrs hyfforddi. | Mae 67 o bobl wedi derbyn hyfforddiant polisi yn erbyn targed o 60. |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu system newydd o gynllunio gweithredol. | Wedi sicrhau bod cynllunio gweithredol yn adlewyrchu dyletswyddau cydraddoldeb (fel mater cydymffurfio) ac ymrwymiadau darparu penodol. | Gan fod y Cynllun Gweithredol yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgareddau'r Gyfarwyddiaeth, bydd cynnwys materion cydraddoldeb o'r cyfnod cynllunio yn sicrhau y cymhwysir hwynt ym mhob agwedd ar fusnes a phenderfyniadau polisi'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Chyfathrebu. |

| ***Polisi Penodol / Swyddogaeth Fusnes yng nghyswllt Materion Cydraddoldeb*** | **Beth oedd amcanion y polisi / swyddogaeth hwn?** | **Beth a gyflawnodd / Beth oedd y canlyniad?** | **Llinyn cydraddoldeb a gafodd sylw? (Gweler yr Allwedd)** |
|---|---|---|---|
| Noddodd Uned Fusnes y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Chyfathrebu 11 o fyfyrwyr lleiafrifoedd ethnig o Ysgol Uwchradd Fitzalan i gymryd rhan mewn Rhaglen Profiad Gwaith yn ystod gwanwyn / haf 2004. | Cyflwyno'r myfyrwyr i'r gwahanol gyfleoedd gwaith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>Meithrin gwasanaeth cymunedol a chryfhau cysylltiadau â'r gymuned.<br><br>Rhoi profiadau a sgiliau ymarferol i'r myfyrwyr na fyddent fel arfer yn eu cael yn yr amgylchedd ystafell ddosbarth traddodiadol. | **Derbyniwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr.**<br><br>**Soniodd nifer y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.**<br><br>**Dangosodd y myfyrwyr ddiddordeb mewn nifer o gyfleoedd gwaith (e.e. y wasg a graffeg).** | Rhyw<br>Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Mae dau fyfyriwr wedi parhau eu perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol drwy ddiweddaru tudalennau gwefan y Ddraig Ffynci â Chyhoeddusrwydd.** | |
| Rhaglenni Lleoliad Gwaith eraill sydd wedi ymgorffori materion lleiafrifoedd ethnig. | Cynigiwyd lleoliadau gwaith / astudiaeth yn yr Adran Graffeg a'r Uned Fusnes i fyfyrwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.<br><br>Yr oedd un myfyriwr wedi ennill lle gyda'r Windsor Fellowship. | **Derbyniwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr.**<br><br>**Soniodd nifer y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.**<br><br>**Dangosodd y myfyrwyr ddiddordeb mewn nifer o gyfleoedd gwaith (e.e. y wasg a graffeg).**<br><br>**Mae dau fyfyriwr wedi parhau eu perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol drwy ddiweddaru tudalennau gwefan y Ddraig Ffynci â Chyhoeddusrwydd.** | Hil |
| Cryfhau cyfathrebu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Datblygu Safon Cyfieithu a Phecyn Ymgynghori a Chyfathrebu ar gyfer | Mae'r prosiect wedi'i rannu yn bum cyfnod (mae yng nghyfnod 3 | Hil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | staff Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Bydd hyn yn arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol y gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ac at ddatblygu a darparu polisïau a gwasanaethau sy'n ymateb i'r anghenion hynny. | / 4 ar hyn o bryd):<br><br>1) Drwy ddefnyddio methodoleg sy'n cynnwys ymchwil, cwmpasu a chyfweliadau, mae map rhyngweithiol wedi'i greu sy'n dangos tirwedd lleiafrifoedd ethnig Cymru.<br><br>2) Archwilio'r dulliau presennol o gyfathrebu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd y data yn cael ei ddadansoddi ar y cyd â'r cyfnod cyntaf i gynhyrchu cynllun ar gyfer cyfnod 3 / 4. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3) Datblygu model Safonau ar gyfer Ieithoedd Lleiafrifoedd Ethnig i ennill dealltwriaeth o'r ieithoedd lleiafrifol a siaredir yng Nghymru, gyda golwg ar ddatblygu Safon Cyfieithu i fesur pa ieithoedd lleiafrifoedd ethnig crai y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfieithu dogfennau allweddol iddynt.<br><br>4) Datblygu Pecyn Ymgynghori a Chyfathrebu. Cynhyrchu pecyn adnoddau i gynnig y ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu'n weithredol â'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig cydnabyddedig hyn (sydd eisoes wedi eu nodi a rhai newydd).<br><br>5) Argymhelliad ynghylch gweithredu : Cyflwyno pecyn adnoddau yn fewnol i staff Llywodraeth y Cynulliad. | |
| Drafftio papur Ieithoedd Lleiafrifol ar gyfer y Rhwydwaith o Lywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4SD). | Sefydlu Ieithoedd Lleiafrifol fel maes polisi ar gyfer nrg4SD a hyrwyddo cynaliadwyedd ieithoedd lleiafrifol ar lefel ryngwladol. | Drafftiwyd y papur hwn yn Chwefror 2004 a chafodd ei gwblhau ar gyfer sylw Gweinidogol mewn pryd ar gyfer y cyfarfod o'r Rhwydwaith a gynhaliwyd ym mis Mehefin. | Hil |

**Astudiaeth Achos**

Bu'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Chyfathrebu yn treialu prosiect profiad gwaith â myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Fitzalan am dair wythnos ym Mehefin a Gorffennaf 2005. Daeth swyddogion i weld y darpar fyfyrwyr cyn i'r profiad gwaith ddechrau er mwyn trafod beth fyddai'n ei gynnwys a beth oeddent yn gobeithio ei ennill. Yr amcanion oedd:-

- Cyflwyno amrywiol gyfleoedd gwaith i'r myfyrwyr;
- Meithrin gwasanaeth cymunedol a chryfhau cysylltiadau â'r gymuned; a
- Rhoi profiadau a sgiliau ymarferol i'r myfyrwyr na fyddent fel arfer yn eu cael yn yr amgylchedd ystafell ddosbarth traddodiadol.

Cymerodd chwech o fyfyrwyr blwyddyn 10 a phump o fyfyrwyr blwyddyn 12 ran yn y prosiect. Yr oeddent i gyd yn gweithio yn adrannau'r wasg, cyhoeddusrwydd, dylunio graffeg a chaffael argraffu, ac yn cael sesiynau un i un gyda'r staff.

Fel rhan o'r prosiect, bu'r myfyrwyr yn cyfweld Sue Essex, ac yn ysgrifennu erthyglau ar gyfer LINKS, y cylchgrawn staff, yn ysgrifennu datganiadau i'r wasg, yn gweithio ar hysbysebion i gynnig nofio am ddim gydag Alun Pugh, yn dylunio posteri a phamffledi ac yn paratoi contractau ar gyfer dogfennau'r Cynulliad. Ysgrifennodd un o'r myfyrwyr yn ei herthygl 'Mae'r profiad o fod yma wedi bod yn well na'r oeddwn yn ei ddisgwyl, oherwydd rwyf wedi gweld bod y Cynulliad fel unrhyw weithle arferol. Yr wyf wedi mwynhau dysgu am gysylltiadau cyhoeddus yn enwedig, a byddwn yn mwynhau dod yn ôl. Rwy'n gobeithio cael cyfle i wneud hynny'.

Derbyniwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr, gyda nifer yn dweud y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd dau fyfyriwr wedi parhau eu perthynas â'r Cynulliad drwy ddiweddaru tudalennau'r wefan DRAIG FFYNCI.